Appendix A



# Cyngor Bro Morgannwg

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019/2020

## MEDI 2020

**Cymerwch ran**

Tanysgrifiwch i Cyswllt UnFro (ar ein gwefan) a chael y wybodaeth ddiweddaraf am newyddion, digwyddiadau, gwybodaeth a chyfleoedd i gymryd rhan.

Dilynwch @CBroMorgannwg ar Twitter neu hoffwch Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook.

E-bostiwch ni yn:
c1v@valeofglamorgan.gov.uk
neu ffoniwch 01446 700111

Perfformiad Corfforaethol, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri. CF63 4RU

improvements@valeofglamorgan.gov.uk

Strong Communities with a Bright Future



Mae copi o'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn Saesneg

## Contents


CYFLWYNIAD..........3
1.1 DIBEN YR ADRODDIAD HWN..........3
1.2 STATWS CYFFREDINOL Y CYNLLUN CORFFORAETHOL..........6
1.3 CIPOLWG AR BERFFORMIAD CANLYNIADAU YN FANWL..........7
11.4 CYFRANIAD EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL AT Y NODAU CENEDLAETHOL..........8

2.EIN HYMATEB I BANDEMIG COVID-19..........10
2.1 ASTUDIAETH ACHOS..........15

CANLYNIAD LLES 1..........17
3.0 DATGANIAD SEFYLLFA..........17
3.1.1 AMCAN 1: LLWYDDIANNAU..........21
3.1.2 AMCAN 2: LLWYDDIANNAU..........23
3.1.3 AMCAN 1: HERIAU..........24
3.2.2 AMCAN 2: HERIAU..........26
3.3 ASTUDIAETH ACHOS..........27

CANLYNIAD LLES 2..........29
4.0 DATGANIAD SEFYLLFA..........29
4.1.1 AMCAN 3: LLWYDDIANNAU..........34
4.1.2 AMCAN 4: LLWYDDIANNAU..........35
4.2.1 AMCAN 3: HERIAU..........37
4.2.2 AMCAN 4: HERIAU..........39
4.3 ASTUDIAETH ACHOS..........40

CANLYNIAD LLES3..........42
5.0 DATGANIAD SEFYLLFA..........42
5.1.1 AMCAN 5: LLWYDDIANNAU..........47
5.1.2 AMCAN 6: LLWYDDIANNAU..........50
5.2.1 AMCAN 5: HERIAU..........52
5.2.2 AMCAN 6: HERIAU..........53
5.3 ASTUDIAETH ACHOS..........54

CANLYNIAD LLES4..........61
6.0 DATGANIAD SEFYLLFA..........61
6.1.1 AMCAN 7: LLWYDDIANNAU..........64
6.1.2 AMCAN 8: LLWYDDIANNAU..........65
6.2.1 AMCAN 7: HERIAU..........67
6.2.2 AMCAN 8: HERIAU..........68
7 ASTUDIAETH ACHOS..........70

LECHYD CORFFORAETHOL..........72
7.0 DATGANIAD SEFYLLFA..........72
7.1.1 POBL..........78
7.1.1 POB..........78
7.1.2 Y CWSMER..........78
7.1.3 ARIANNOL..........79
7.1.4 ASEDAU..........80
7.1.5 Y FRO DDIGIDOL..........81
7.1.6 CYDWEITHIO..........82
7.2 EIN HERIAU..........84
7.2.1 POBL... ..........84
7.2.2 CWSMER..........85
7.2.3 ARIANNOL..........87
7.2.4 ASEDAU..........89
7.2.5 Y FRO DDIGIDOL..........89
7.2.6 CYDWEITHIO..........90
7.3 COFRESTR O RISGIAU CORFFORAETHOL: DATGANIAD CRYNHOI SEFYLLFA DDIWEDD Y FLWYDDYN: 2019/2020..91
7.4 YR HYN A DDYWEDODD EIN HARCHWILWYR AMDANOM..........92
7.4.1. ITRACIWR CIPOLWG..........93
7.4.2 BARN Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL AR Y CYNGOR LLYWODRAETHU, RHEOLI RISG A RHEOLAETH FEWNOL..........98
7.4.3 ADOLYGIAD 2020 COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL..........99

# 1. INTRODUCTION

## 1.1 DIBEN YR ADRODDIAD HWN

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (MLlL) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLlCD) ill dau yn gosod dyletswyddau penodol ar y Cyngor mewn perthynas â gosod amcanion a dyletswyddau adrodd. O dan DLlCD, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Lles blynyddol erbyn 31 Mawrth ac adolygu'r rhain yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol, a hefyd adrodd ar gynnydd o ran cyflawni ei amcanion lles o'r flwyddyn ariannol flaenorol. O dan y MLlL, mae’n rhaid i ni hefyd gyhoeddi dwy ddogfen bob blwyddyn; mae’r cyntaf o'r rhain yn Gynllun Gwella blaengar sy'n nodi ein blaenoriaethau gwella (a elwir yn Amcanion Gwella) ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf; ac mae'r ail yn adroddiad blynyddol i adlewyrchu perfformiad y Cynllun hwnnw.

Yn unol â'n dull o ymdrin â model cynllunio ac adrodd mwy integredig, mae Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2019/20 (o dan DLlCD) a'n Hamcanion Gwella ar gyfer yr un cyfnod (o dan MLlL) yr un fath. Mae hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar nodi'r camau cywir i gyflawni ein hamcanion i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bro Morgannwg tra'n gwneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r Nodau Lles. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â chanllawiau gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym wedi adolygu ein Hamcanion Lles yn barhaus drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol yn unol â'n dyletswyddau o dan DLlCD. Wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol, roeddem yn ymwybodol o ganfyddiadau cychwynnol yr Asesiad Lles a oedd yn cael ei gynnal i lywio Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg. Ar ôl ei fabwysiadu, rydym hefyd wedi defnyddio Cynllun Lles y BGC fel cyfle i adolygu perthnasedd ein blaenoriaethau Lles fel y gallwn barhau i adlewyrchu'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer Bro Morgannwg. Bob blwyddyn, rydym hefyd wedi ymgysylltu â thrigolion fel rhan o'n hymgynghoriad ar y gyllideb i sicrhau bod ein blaenoriaethau a'n gweithgareddau arfaethedig yn ystod y flwyddyn yn parhau'n berthnasol, y gellir eu cyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael gennym ac yn adlewyrchu'r pethau sy'n bwysig i'n trigolion a'n cymunedau. Yn unol â'n fframwaith rheoli perfformiad, drwy gydol y flwyddyn rydym hefyd wedi adolygu perthnasedd ein Hamcanion Lles yn helaeth drwy ein proses cynllunio gwasanaethau ac yn monitro cynnydd yn barhaus yn erbyn gweithgareddau'r Cynllun Corfforaethol o ran y prif ganlyniadau, cyflawniadau a heriau a fwriedir. Drwy'r gwaith hwn, rydym yn sicr bod ein Hamcanion Lles yn briodol a'u bod hefyd yn parhau i fod yn berthnasol i'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) 2018-2023 ac y bydd yn ategu gwaith y BGC wrth symud ymlaen. Felly, rydym wedi dod i'r casgliad bod yr amcanion hyn yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer blwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol (2019/20) y mae'r adroddiad hwn yn asesu cynnydd yn ei erbyn.

Ein Hamcanion Lles a Gwella ar gyfer 2019/20 oedd:

- Amcan 1: Lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol
- Amcan 2: Darparu cartrefi addas a chymunedau diogel.
- Amcan 3: Hybu adfywio, twf economaidd a chyflogaeth.
- Amcan 4: Hybu datblygu cynaliadwy a gwarchod ein hamgylchedd.
- Amcan 5: Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol
- Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth
- Amcan 7: Annog a hybu ffordd o fyw actif ac iach
- Amcan 8: Diogelu’r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw’n annibynnol

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn o Berfformiad 2019/20 (Cynllun Gwella Rhan 2) yn edrych yn ôl ar sut y gwnaethom wrth gyflawni ein blaenoriaethau gwella (Amcanion Lles) fel y nodir yn Amcanion Lles a Chynllun Gwella Rhan 1: 2019/20 Bro Morgannwg, a'r bwriad yw cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol o dan DLlCD a’r MLlL yn ogystal â darparu asesiad o'n perfformiad i'n dinasyddion.

Drwy gydol yr adroddiad rydym wedi ceisio creu darlun rhesymegol o sut mae ein meddwl integredig a’n prosesau cynllunio yn ein helpu i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol ac wrth wneud hynny i wneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau cenedlaethol. Ein dull o gynllunio integredig yw sicrhau ein bod, lle y bo'n bosibl, yn cysylltu ein Hamcanion Lles er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. Er enghraifft, rydym

wedi gosod amcanion i godi safonau cyflawniad cyffredinol, ochr yn ochr ag amcanion i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol, diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, darparu cartrefi addas a chymunedau diogel, hybu adfywio, twf economaidd a chyflogaeth, gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth ac annog a hyrwyddo ffyrdd actif ac iach o fyw. O ystyried yr effaith y bydd y blaenoriaethau eraill hyn yn ei chael ar godi safonau cyflawniad a lles dinasyddion yn gyffredinol, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau ein bod yn cymryd y camau cywir a fydd yn manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau a'n cyfleoedd i sicrhau canlyniadau lluosog yn unol â'n hamcanion. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid, ein trigolion a'n cymunedau allweddol i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn gyson i'n galluogi i gyflawni ein gweledigaeth o gymunedau cryf gyda dyfodol disglair. Mae'r dull hwn yn gyson â chanllawiau gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod angen ymgorffori'r dull hwn ymhellach ochr yn ochr â'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn sicrhau llwyddiant dros y tymor hir.

O ystyried natur drawsbynciol ein blaenoriaethau ac ehangder y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal i gyfrannu at gyflawni ein hamcanion Lles, rydym wedi ceisio lleihau dyblygu yn yr adroddiad blynyddol drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau pob Amcan Lles. Er enghraifft, er mwyn dangos ein cynnydd tuag at 'godi safonau cyflawniad cyffredinol' mae'r adroddiad yn tynnu sylw at berfformiad mewn perthynas â chyfres o weithgareddau cynlluniedig. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn annibynnol ar ei gilydd a dylid eu hystyried yn gyfannol yng nghyd-destun ein Hamcanion Lles eraill.

Mae'r adroddiad hwn yn ymgorffori ein gofynion adrodd statudol sy'n cynnwys; amlinellu cyfraniad cyffredinol y Cyngor i'r nodau Lles cenedlaethol; cynnydd yn erbyn ein cydweithrediadau strategol; yr hyn y mae ein harchwilwyr yn ei ddweud amdanom; sut rydym wedi defnyddio ein hadnoddau a sut rydym wedi ymgysylltu â'n trigolion. Rydym wedi asesu cynnydd o ran ein holl weithgareddau a drefnwyd ar gyfer y cyfnod ac wedi defnyddio data perfformiad lleol lle mae wedi bod ar gael. Fodd bynnag, nid yw rhai agweddau ar berfformiad, yn fwyaf nodedig gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad cenedlaethol diwedd blwyddyn a data meincnodi cenedlaethol wedi bod ar gael i'n galluogi i gymharu ein perfformiad. Ataliwyd ein rhwymedigaethau ystadegol statudol gan Lywodraeth Cymru a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Llywodraeth Leol Cymru am gyfnod amhenodol ar ddiwedd 2019/20 i'n galluogi i ganolbwyntio ein hegni ar gefnogi ein cymunedau drwy'r gwaethaf o bandemig byd-eang COVID-19.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn gyfle i ddathlu ein cyflawniadau yn ogystal â chydnabod yr heriau sylweddol sydd wedi helpu i lunio ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen. Amlinellir cadarnhad o'n Hamcanion Lles (Gwella) ar gyfer 2020/21 fel sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020-25 yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol blaengar y Cyngor (Cynllun Gwella Rhan 1) a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020.

Roedd ein Cynllun Corfforaethol 2016-20 yn nodi gweledigaeth uchelgeisiol i Fro Morgannwg a'i dinasyddion greu 'Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair'. Mae'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth yn canolbwyntio ar y tymor hir ac yn anelu at fynd i'r afael â heriau cymhleth, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol felly, er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflawni'r blaenoriaethau hynny hyd yma, mae cryn ffordd i fynd o hyd i ddangos yr effaith lawn. At ei gilydd, gan edrych yn ôl ar y cynnydd rydym wedi'i wneud yn ystod blwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol hwn, credwn ein bod wedi cymryd camau sylweddol ymlaen i gyflawni ein gweledigaeth.

Rydym wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2019/20 fel yr amlinellwyd yn Amcanion Lles (Gwella'r) Cynllun Corfforaethol, sydd wedi rhoi statws perfformiad cyffredinol (neu statws Coch Melyn Gwyrdd) GWYRDD i ni. Mae hyn yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau lles ein Cynllun Corfforaethol a gwella lles dinasyddion Bro Morgannwg.

Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd cyffredinol i 3 o 4 Canlyniad Lles y Cynllun Corfforaethol. Rhoddwyd statws Gwyrdd i Ganlyniad 1 (Bro Gynhwysol a Diogel), Canlyniad 2 (Bro Lewyrchus ac Amgylcheddol Gyfrifol) a Chanlyniad 3 (Bro Uchelgeisiol a Bywiog yn Ddiwylliannol). Rhoddwyd statws Melyn i Ganlyniad 4 (Bro Actif ac Iach). Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i 7 o 8 Amcan Lles (Gwella) y Cynllun Corfforaethol sy'n adlewyrchu'r cynnydd rhagorol a wnaed o ran cyflawni gweithgareddau cynlluniedig sy'n ymwneud â blaenoriaethau tebyg y Cynllun Corfforaethol. Dim ond Amcan 8 (Diogelu'r rheiny sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol) gafodd statws Melyn. Mewn perthynas ag Iechyd Corfforaethol, gwnaethom barhau i wneud cynnydd rhagorol yng nghyd-destun cefnogi gwasanaethau'r Cyngor i weithredu blaenoriaethau/Amcanion Lles (Gwella) y Cynllun Corfforaethol ac adlewyrchir hyn yn y statws perfformiad Gwyrdd cyffredinol a gyflawnwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'n bwysig adolygu ein cynnydd ac adrodd i aelodau etholedig a'r cyhoedd ar welliannau sydd wedi'u cyflawni a'r meysydd i'w gwella. Caiff ein Hamcanion Lles (Gwella) eu cyflawni drwy Gynlluniau Gwasanaeth, sy'n nodi'n fanwl y camau a mesurau, adnoddau, amserlenni ac atebolrwydd perthnasol o ran cyflawni. Mae cynnydd wrth gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol yn destun ymarfer craffu ffurfiol chwarterol gan aelodau etholedig ac mae ein hadroddiadau yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn www.bromorgannwg.gov.uk <http://www.valeofglamorgan.gov.uk> Yn unol â threfniadau monitro perfformiad corfforaethol, caiff cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Lles (Gwella) ei fonitro'n chwarterol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC) ac i Aelodau Etholedig drwy'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet, lle bydd meysydd tanberfformiad yn cael eu herio, a chamau adferol yn cael eu cytuno fel y bo'n briodol. Yn ogystal, mae pob un o 4 Canlyniad Lles y Cynllun Corfforaethol wedi cael Cyfarwyddwr Noddi sy'n gyfrifol am sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni ein gweithgareddau arfaethedig yn unol â'n blaenoriaethau corfforaethol ar gyfer y flwyddyn, gan gyfrannu at gyflawni pob Canlyniad Lles.

Mae'n bwysig nodi bod ein hadolygiad blynyddol o gynnydd ar gyfer y cyfnod 2019/20 wedi'i ysgrifennu yn ystod cyfnod heriol a digyffelyb, lle mae'r Cyngor wedi gorfod ymateb i bandemig byd-eang (COVID-19). Mae'r pandemig wedi rhoi pwysau aruthrol ar ein gwasanaethau cyngor ac wedi amharu'n sylweddol ar y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau sy'n aml yn hanfodol i'n dinasyddion ac yn achubiaeth i'n pobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Er gwaethaf yr ymyrraeth hon, mae'r Cyngor wedi ymateb i'r her drwy ail-flaenoriaethu ac ailgyfeirio ein hadnoddau a'u rhoi i ddibenion gwahanol lle'r oedd eu hangen fwyaf. Ein ffocws craidd drwy gydol yr argyfwng hwn fu cadw ein dinasyddion a'n cymunedau'n ddiogel tra'n sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen allweddol yn parhau i redeg. Drwy weithio'n agos gyda'n partneriaid a'n gwirfoddolwyr rydym wedi llwyddo i lywio ein ffordd yn effeithiol drwy'r hyn y gobeithiwn oedd y gwaethaf o'r argyfwng. Mae effeithiolrwydd ein hymateb i'r argyfwng hwn yn dyst i hyblygrwydd, ymroddiad a phenderfyniad ein staff. Wrth i ni bontio o ymateb i adferiad, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi cyfle i ni bwyso a mesur yr heriau, ein cyflawniadau a'r hyn rydym wedi'i ddysgu ar hyd y ffordd.

Mae ein tirwedd polisi a deddfwriaethol mewn cyflwr o ansicrwydd parhaus o ganlyniad i effeithiau COVID-19 a'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar Gytundeb Masnach yn sgil Brexit. Mae mynd i'r afael â'r materion hyn law yn llaw yn debygol o herio'n sylweddol sut rydym yn parhau i wasanaethu ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol. Gan y bydd hyn yn parhau i fod yn ddarlun sy'n esblygu, mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, 2020/21, wedi'u llunio gyda'r heriau hyn mewn golwg. Gallai natur gyfnewidiol y sefyllfa hefyd effeithio ar y ffordd yr ydym yn datblygu ein blaenoriaethau yn ystod 2020/21, ond rydym ar fin addasu ein hymateb fel y gallwn barhau i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd sydd bwysicaf i'n dinasyddion. Mae argyfwng COVID-19 wedi taflu goleuni ar sut y gallwn harneisio ffyrdd newydd o weithio ac mae hefyd yn rhoi cyfleoedd i ni drawsnewid gwasanaethau sy'n ystwyth ac yn 'addas ar gyfer y dyfodol'.

Fel pob cyngor arall yng Nghymru, mae Cyngor Bro Morgannwg yn dal i wynebu cyfnodau ariannol heriol. Er i ni wneud tua £59 miliwn o arbedion dros y 10 mlynedd diwethaf, mae angen i ni wneud arbedion sylweddol pellach o hyd, tua £11 miliwn, dros y tair blynedd nesaf (rhwng 2021 a 2023) tra'n cyflawni rhaglen uchelgeisiol o welliant a'r agenda diwygio llywodraeth leol. Rydym wedi parhau i ymateb yn rhagweithiol i'r heriau hyn drwy ein Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau sy'n esblygu, sy'n canolbwyntio ar fodelau amgen o ddarparu gwasanaethau ochr yn ochr ag agenda gydweithredol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill. Drwy'r agenda flaengar hon rhagwelwn y byddwn yn gallu lliniaru effaith toriadau ar ein gwasanaethau er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddiogelu gwasanaethau sydd bwysicaf i'n dinasyddion.

Er gwaethaf yr heriau hyn, rydym yn parhau i osod targedau heriol i ni'n hunain i o ran gwella, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i barhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir gennym i drigolion Bro Morgannwg. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau sylweddol yr ydym yn eu hwynebu, yn ariannol ac o ran galw am wasanaethau, ac felly mae ein targedau a'n cerrig milltir ar gyfer ein Hamcanion Lles (Gwella) wedi'u gosod yn y cyd-destun hwn. Mae hyn yn golygu, mewn rhai meysydd er enghraifft, bydd cynnal lefelau perfformiad presennol wrth fynd i'r afael â chyllideb lai a rheoli'r cynnydd yn y galw am wasanaethau, neu'r ddau, yn gyflawniad. Rhoddwyd ystyriaeth i'r materion hyn yn ystod yr her fewnol o osod ein Hamcanion Lles (Gwella) a thargedau.

Gan edrych ymlaen at 2020/21 a thu hwnt, mae'r heriau ariannol ac economaidd-gymdeithasol i'r Cyngor yn parhau, wedi'u dwysáu'n sylweddol gan effaith pandemig COVID-19 a thrafodaethau parhaus Llywodraeth y DU gydag Ewrop ar Gytundeb Masnach. Rydym yn dal yn y broses o ddeall yr effaith tymor byr, canolig a hir y bydd COVID-19 yn ei chael ar y Cyngor. Mae hyn i gyd yn gosod lefelau digynsail o ansicrwydd a newid parhaus i'r Cyngor dros y flwyddyn i ddod. Wrth i ni bontio'n araf o argyfwng i adferiad, byddwn yn manteisio ar y cyfle hwn

i drawsnewid y ffordd rydym yn dysgu, yn cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau, ac yn cydweithio i ddarparu a chefnogi modelau gwasanaeth cynaliadwy a ffyrdd o weithio. Nawr yn fwy nag erioed, bydd ein cymunedau'n edrych tuag atom ni i wneud yr hyn a wnawn orau, hynny yw, darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol hanfodol ac yn enwedig Gofal a chymorth i aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas ar gyfer y dyfodol hirdymor.

## 1.2 STATWS CYFFREDINOL Y CYNLLUN CORFFORAETHOL (AMCANION LLES)

### Statws CMG cyffredinol ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2019/20 yw GWYRDD

Cyflwynir isod grynodeb o'n perfformiad mewn perthynas â phob un o'r Canlyniadau Lles a amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol. Rhoddir Statws Coch Melyn Gwyrdd (CMG) cyffredinol a Chyfeiriad Teithio ar gyfer pob un o’r Amcanion Lles, yn ogystal â Statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol a Chyfeiriad Teithio ar gyfer y Canlyniad cyfan. Mae'r Cyfarwyddyd Teithio yn rhoi syniad o gyfeiriad y perfformiad o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Er enghraifft, lle mae ein Statws CMG (perfformiad) wedi gwella, nodir hynny gan ↑, lle mae ein Statws CMG wedi aros yr un fath o'i gymharu â'r chwarter blaenorol fe'i dangosir gan ↔ a lle mae ein Statws CMG wedi gostwng, fe'i cynrychiolir gyda ↓ .

Ar ddiwedd 2019-20, rhoddwyd Statws CMG cyffredinol o **Wyrdd** i 3 o 4 Canlyniad Lles y Cynllun Corfforaethol. Roedd hyn yn adlewyrchu'r cynnydd cryf a wnaed wrth gyflawni ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2019/20. Rhoddwyd statws Gwyrdd i Ganlyniad Lles 1 (Bro Gynhwysol a Diogel), Canlyniad 2 (Bro Lewyrchus ac Amgylcheddol Gyfrifol) a Chanlyniad 3 (Bro Uchelgeisiol a Bywiog yn Ddiwylliannol). Rhoddwyd statws **Melyn** i Ganlyniad 4 (Bro Actif ac Iach).




| Amcan Cyffredinol | Coch, Melyn | Trywydd[1] |
|---|---|---|
| Amcan 1 | G | ↔ |
| Amcan 2 | G | ↑ |
| Canlyniad Cyffredinol | G | ↔ |




| Amcan Cyffredinol | Coch, Melyn | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 3 | G | ↑ |
| Amcan 4 | G | ↑ |
| Canlyniad Cyffredinol | G | ↑ |




| Amcan Cyffredinol | Coch, Melyn | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 5 | G | ↑ |
| Amcan 6 | G | ↔ |
| Canlyniad Cyffredinol | G | ↑ |




| Amcan Cyffredinol | Coch, Melyn | Trywydd |
|---|---|---|
| Amcan 7 | G | ↔ |
| Amcan 8 | M | ↓ |
| Canlyniad Cyffredinol | M | ↓ |

Mae ein gweithgareddau cynllunio integredig yn canolbwyntio ar gynllunio corfforaethol, caffael, cynllunio'r gweithlu, cynllunio ariannol, rheoli perfformiad, rheoli risg a rheoli asedau sy'n gweithredu fel galluogwyr ar gyfer cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Drwy wella ein prosesau cynllunio integredig, rydym wedi cryfhau ein dull o lywodraethu corfforaethol. Mae'r darlun isod yn dangos sut rydym yn perfformio mewn perthynas ag agweddau allweddol ar ein gweithgareddau Cynllunio Integredig.

[1] Mae'r trywydd yn cymharu ein safle Statws Coch Melyn Gwyrdd ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer pob Amcan a Chanlyniad, gyda’r safle Statws Coch Melyn Gwyrdd ar gyfer y chwarter blaenorol (chwarter 3). Nid yw'n bosibl cymharu ein perfformiad Statws Coch Melyn Gwyrdd ar gyfer 2017/18 â'r perfformiad diwedd blwyddyn blaenorol (2016/17) gan na chafodd yr arddull adrodd perfformiad newydd hon ei chyflwyno tan 2017/18.

| Canlyniad Cyffredinol | Coch, Melyn, Gwyrdd | Trywydd |
|---|---|---|
| | G | ↔ |

# 1.3 CIPOLWG AR BERFFORMIAD CANLYNIADAU YN FANWL

## CANLYNIAD 1: BRO GYNHWYSOL a DIOGEL

**CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU**

Mae ein perfformiad yn erbyn camau gweithredu'r Cynllun Corfforaethol ar y trywydd iawn o ran cyflawni, sy'n rhoi Statws CMG **GWYRDD** i ni ar gyfer y canlyniad hwn.

**Camau Gweithredu Cynlluniau Gwasanaeth**
**Amcan 1: Lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 4 | 0 | 15 |

**Amcan 2: Darparu cartrefi addas a chymunedau diogel.**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 3 | 0 | 36 |

**Cyfanswm y Canlyniad**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 7 | 0 | 51 |

## CANLYNIAD 2: BRO LEWYRCHUS AC AMGYLCHEDDOL GYFRIFOL

**CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU**

Mae ein perfformiad yn erbyn camau gweithredu'r Cynllun Corfforaethol ar y trywydd iawn o ran cyflawni, sy'n rhoi statws **GWYRDD** cyffredinol i ni ar gyfer y canlyniad hwn.

**Camau Gweithredu Cynlluniau Gwasanaeth**
**Amcan 1: Lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 2 | 0 | 30 |

**Amcan 2: Darparu cartrefi addas a chymunedau diogel.**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 3 | 0 | 54 |

**Cyfanswm y Canlyniad**

| | | | N/A | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 79 | 0 | 5 | 0 | 84 |

## CANLYNIAD 3: BRO UCHELGEISIOL a DIWYLLIANNOL FYWIOG

**CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU**

Mae ein perfformiad yn erbyn camau gweithredu'r Cynllun Corfforaethol ar y trywydd iawn o ran cyflawni, sy'n rhoi Statws CMG **GWYRDD** i ni ar gyfer y canlyniad hwn.

**Camau Gweithredu Cynlluniau Gwasanaeth**
**Amcan 5: Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 2 | 0 | 27 |

**Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 5 | 0 | 40 |

**Cyfanswm y Canlyniad**

| | | | N/A | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 60 | 0 | 7 | 0 | 67 |

## CANLYNIAD 4: BRO ACTIF AC IACH

**CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU**

Mae ein perfformiad yn erbyn camau gweithredu'r Cynllun Corfforaethol ar y trywydd iawn o ran cyflawni, sy'n rhoi Statws CMG **Melyn** i ni ar gyfer y canlyniad hwn.

**Camau Gweithredu Cynlluniau Gwasanaeth**
**Amcan 7: Annog a hybu ffordd o fyw actif ac iach**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 0 | 0 | 18 |

**Amcan 8: Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol**

| | | | Dd/B | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 17 | 0 | 54 |


**Cyfanswm y Canlyniad**

| | | | N/A | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 17 | 0 | 72 |

# 1.4 CYFRANIAD EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL (AMCANION LLES) I'R NODAU CENEDLAETHOL[2]

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy ddatblygu pedwar Canlyniad Lles ac wyth Amcan Lles. Mae hyn yn ffurfio fframwaith y Cynllun Corfforaethol y gellir ei alinio mewn ffordd drawsbynciol â saith Nod Lles y Ddeddf. Mae ein Hamcanion Lles yn adlewyrchu'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni ac yn mynd i'r afael â materion uniongyrchol yn ogystal â chael manteision tymor hwy. Wrth gyflawni'r amcanion hyn rydym yn cyfrannu at y saith Nod Lles ac yn sicrhau bod anghenion dinasyddion y Fro o bob oed a chenedlaethau'r dyfodol yn flaenllaw wrth ddarparu gwasanaethau. Dangosir isod drosolwg o sut mae ein perfformiad mewn perthynas â Chanlyniadau ac Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol yn cyfrannu at gyflawni'r nodau Lles cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf.

At ei gilydd, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni'r blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â blwyddyn olaf Cynllun Corfforaethol 2016-20, ac rydym wedi cyfrannu'n gadarnhaol at Nodau Lles cenedlaethol Cymru. Mae ein cyflawniadau hyd yma yn dangos ein hymrwymiad i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein dinasyddion a hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ein holl weithgareddau. Fodd bynnag, mae'r rhain yn parhau i fod yn flaenoriaethau strategol hirdymor i'r Cyngor ac mae'r llwyddiant a gyflawnwyd yn 2019/20 yn fan cychwyn ardderchog ar gyfer datblygu Cynllun Corfforaethol 2020-25 newydd y Cyngor, lle bydd ein gweledigaeth hirdymor yn symud tuag at 'gydweithio i greu dyfodol mwy disglair'.




[2] Mae'r siart uchod yn rhoi asesiad enghreifftiol o sut rydym yn cyfrannu at y nodau lles. Mae statws CMG pob nod wedi'i seilio ar ein statws CMG cyffredinol yn erbyn y Cynllun Corfforaethol.

| |  | |  | |  | |  | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcan 1: Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol | Amcan 2: Cartrefi addas a Chymunedau Diogel | Amcan 3: Hybu adfywio, twf economaidd a chyflogaeth | Amcan 4: Hybu datblygu cynaliadwy a gwarchod ein hamgylchedd. | Amcan 5: Codi safonau cyflawniad | Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth | Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffyrdd actif ac iach o fyw | Amcan 8: Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol | Statws CMG Cyffredinol ar gyfer Nod Lles |
| Cymru Lewyrchus | G | G | G | G | G | | | | G |
| Cymru Wydn | | | | G | | | | | G |
| Cymru Iachach | G | G | G | G | | G | G | M | G |
| Cymru fwy cyfartal | G | G | G | | G | G | G | M | G |
| Cymru o gymunedau cydlynus | G | G | G | G | | G | G | M | G |
| Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | | | G | | G | G | G | | G |
| Cymru â Chyfrifoldeb Byd-eang | | G | G | G | | | | | G |
| Amcan cyffredinol o ran Statws CMG | G | G | G | G | G | G | G | M | |
| Trywydd | ↔ | ↑ | ↑ | ↑ | ↑ | ↔ | ↔ | ↓ | |
| Canlyniad Cyffredinol CMG | Gwyrdd | | Gwyrdd | | Gwyrdd | | Melyn | | |
| Cynllun Corfforaethol Cyffredinol | Gwyrdd | | | | | | | | |

## 2. EIN HYMATEB I BANDEMIG COVID-19

Y pandemig COVID-19 fu'r argyfwng iechyd byd-eang mwyaf yn ein hoes. Mae wedi effeithio ar bron pob agwedd o'n bywydau bob dydd lle mae ffrindiau a theuluoedd wedi cael eu gorfodi ar wahân ac mae wedi effeithio'n sylweddol ar ein bywydau cartref, sut rydym yn cymdeithasu, sut rydym yn gweithio ac yn dysgu a sut rydym yn cynnig mynediad parhaus i'n gwasanaethau. Mae llawer wedi dioddef y boen o golli anwyliaid tra i eraill mae wedi bygwth eu bywoliaeth, eu perthnasoedd ac yn y pen draw eu lles. Un peth cadarnhaol i ddod o'r argyfwng hwn yw ei fod wedi herio'r ffordd rydym yn meddwl am wasanaethau cyhoeddus yn sylfaenol o ran pwy a beth rydym yn ei werthfawrogi mewn cymdeithas.

Er bod effaith uniongyrchol COVID-19 i'w gweld yn glir ar draws ein holl gymunedau, nid yw'r effaith lawn yn y tymor hwy yn hysbys eto. Er bod y polisi 'Aros Gartref, Achub Bywydau' yn effeithiol o ran diogelu'r GIG ac achub bywydau, bydd y gost gymdeithasol ac economaidd yn sylweddol dros y tymor hwy ac mae hyn yn debygol o waethygu anghydraddoldebau iechyd mewn cymdeithas ymhellach. Mae'r pandemig wedi dwysáu anghydraddoldebau iechyd ymhellach drwy effeithio'n anghymesur ar y rhai sy'n byw mewn amddifadedd a'r rhai o Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig Du ac Asiaidd. Ni ddeellir yn llawn y rhesymau am hyn o hyd, ond mae'r pandemig wedi amlygu sut mae anfantais a gwahaniaethu yn gwaethygu anghydraddoldebau o'r fath.

Mae'r pandemig wedi rhoi gwasanaethau cyngor o dan bwysau aruthrol sydd wedi herio'n sylweddol y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau ac yn cyflawni ein rolau a'n swyddogaethau statudol. Mae'r heriau hyn yn debygol o fod gyda ni am fisoedd lawer i ddod. Yr hyn sy'n hollbwysig yw ein hymateb i'r heriau hyn a sut y mae ein sefydliad wedi esblygu ac addasu'n gyflym i dirwedd sy'n newid yn gyflym, fel y gallwn ddod allan o'r argyfwng yn sefydliad cryfach a mwy gwydn.

Er bod ein hymateb i'r argyfwng hyd yma wedi'i lywio'n fawr gan yr ymateb cenedlaethol, mae ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'n dinasyddion a'n cymunedau lleol wedi ein galluogi i deilwra ein hymateb yn effeithiol i gefnogi ein cymunedau sydd â'r angen mwyaf ac amddiffyn y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Mae ein dull gweithredu wedi'i ddiffinio gan ein gallu i ysgogi ein gweithlu'n gyflym i weithio mewn ffyrdd newydd sydd wedi ein galluogi i ail-flaenoriaethu ein hadnoddau a'u rhoi i bwrpas gwahanol, a'u hailgyfeirio i'r rheng flaen lle'r oedd eu hangen fwyaf. Mae ein gallu i ymateb yn gyflym i'r argyfwng wedi ei gefnogi ymhellach gan ein hymdrechion cydweithredol gyda'n partneriaid, gan gynnwys yn y sector iechyd a'r trydydd sector. Drwy weithio'n agos gyda'n partneriaid a'n cymunedau, yr ydym wedi gallu gwneud y defnydd gorau posibl o wirfoddolwyr i helpu'r rhai mewn angen.

Amlinellir isod grynodeb o sut rydym wedi ymateb i'r argyfwng gan gynnwys uchafbwyntiau ymdrechion eithriadol staff i gefnogi anghenion ein trigolion.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mae'r Tîm Cymorth Argyfwng** sydd newydd ei ffurfio **o fewn Cyswllt Un Fro wedi cysylltu â 4,440 o'n trigolion mwyaf bregus** sydd wedi cael cyngor i hunan-warchod i sicrhau eu bod yn cael y cymorth, y bwyd a'r feddyginiaeth sydd eu hangen arnynt. | Rydym wedi trefnu i gyflenwi hyd at **568 o barseli bwyd Llywodraeth Cymru i'w danfon bob wythnos i'r rhai sy'n hunan-warchod.** | Drwy'r Tîm Cymorth Argyfwng rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol fel Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) ac Age Connect i sicrhau bod ein trigolion mwyaf bregus yn cael cymorth. **Gwnaed bron i 300 o atgyfeiriadau i GGM ac Age Connect yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth a Mehefin 2020.** | Rydym wedi cydweithio â GGM i lansio safle Arwyr y Fro i helpu i gydlynu gwirfoddoli yn ein cymunedau a dod â'r rhai sy'n awyddus i gynnig eu cymorth ynghyd â'r rhai sydd ei angen. **Mae 118 o sefydliadau cymorth bellach wedi'u rhestru ar y safle.** |

Buom yn gweithio mewn partneriaeth ag Yswiriant Admiral i sicrhau bod **gan fanciau bwyd ym Mro Morgannwg gyflenwadau digonol o fwyd i'r cartrefi a'r unigolion hynny y mae gwir angen cymorth arnynt** ar yr adegau heriol hyn.

**Fe godon ni broffil gwirfoddoli** drwy safle Arwyr y Fro ac mae **dros 2,000 o wirfoddolwyr wedi dod ymlaen i gefnogi trigolion bregus yn eu cymunedau.** Mae'r Cyngor wedi rhoi grant o £2,000 i GGM i gefnogi grwpiau gwirfoddol bychain fel Bro Radio, Bord Gron y Barri, Cymdeithas Trigolion Glannau'r Barri, Grŵp Pentref Sili, Neuadd Bentref Llandŵ a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon Oakfield.

Sefydlwyd **Cronfa Argyfwng Arwyr y Fro newydd i gynnig grantiau o hyd at £3,000 i grwpiau cymunedol, y sector gwirfoddol, cynghorau tref a chymuned a busnesau cymwys.** Defnyddiwyd yr arian hwn i helpu cymunedau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan bandemig Covid-19.

Llwyddon ni i **adleoli staff i amrywiaeth o feysydd critigol** megis gofal cartref a gofal preswyl, ein Tîm Cymorth Argyfwng a'n Tîm Gwasanaethau Cymdogaeth (sbwriel ac ailgylchu). Yn ystod y pandemig, **gwirfoddolodd 168 aelod o staff i gael eu hadleoli i rolau newydd ac adleoliwyd tua 65 o staff i rolau newydd** yr ydym wedi'u galw'n Arwyr Enfys.

**Mae ein Hymgyrch Arwyr Enfys wedi cydnabod ymdrechion ein staff ein hunain a gwirfoddolwyr cymunedol-** drwy osod arwyddion ar draws y Sir i fynegi ein diolch am eu cyfraniad.

Rydym wedi cefnogi ein gweithlu i weithio'n hyblyg ac yn ddiogel o gartref fel y gallai gwasanaethau cefn swyddfa craidd barhau i weithredu. **Mae ein Gwasanaeth TGCh wedi galluogi tua 2,000 o staff i weithio o bell i sicrhau parhad gwasanaethau.**

Rydym wedi **darparu mwy na 250,000 o eitemau o gyfarpar diogelwch personol (CDP) i gadw ein staff rheng flaen yn ddiogel wrth gyflawni eu dyletswyddau** yn ogystal â chyflenwi ein partneriaid yn y sector gofal preifat. Cynorthwywyd y Cyngor gan fusnesau lleol, fel y cwmni gweithgynhyrchu Cabot a ddarparodd CDP a Distyllfa Gin Castell Hensol sy'n cyflenwi diheintyddion llaw.

Defnyddiwyd y tryciau Tannoy arloesol i ddarlledu'r neges #ArosGartref-ArosynDdiogel. **Mae ein cerbydau Tannoy wedi teithio dros 4000 milltir i fynd â'r neges 'arhoswch gartref, diogelwch y GIG, achubwch fywydau' ledled y Fro.**

**Mae bron i 2,000 o grantiau gwerth mwy na £23m wedi cael eu rhoi gan y Cyngor i gwmnïau a gafodd eu taro gan yr argyfwng Coronafeirws.** Mae'r Cyngor hefyd wedi cydlynu'r gwaith o weinyddu 'Grantiau Dechrau Busnes' Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau newydd i'w cefnogi i oroesi canlyniadau economaidd y pandemig.

Rydym wedi helpu i gadw busnesau'n gynaliadwy, drwy gynnig cyngor a gweinyddu cymorth ariannol. **Mae'r Cyngor wedi gwneud cais am bron i £10 miliwn o ryddhad ardrethi** i rai busnesau sy'n golygu na fydd ganddynt unrhyw drethi i dalu'r flwyddyn ariannol hon.

**Sefydlwyd system archebu apwyntiadau newydd ar gyfer ein Safleoedd Ailgylchu Gwastraff y Cartref i'n galluogi i ailagor ein hamwynderau'n ddiogel** , gan ganiatáu i breswylwyr gael gwared ar eu gwastraff a'u hailgylchu a helpu i leihau nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon. Mae'r dull hwn bellach yn cael ei ystyried gan awdurdodau lleol eraill.

**Gyda buddsoddiad o £100K, rydym wedi ehangu ein Gwasanaethau Llyfrgell ar-lein i gynnig mwy o fynediad at ddeunyddiau darllen.** Mae'r Llyfrgell hefyd yn cynnig '**Gwasanaeth 'Clicio a Chasglu'** i fenthyg llyfrau, llyfrau sain a DVDs. Mae ein grwpiau llyfrgell wythnosol wedi troi'n ddigidol gyda sesiynau 'Rhyme and Sign' a sesiynau Amser Stori dwyieithog ar gael yn fyw ac ar alw drwy Facebook, tra bod ein cyfarfodydd grŵp darllen bellach yn cael eu cynnal dros lwyfannau WhatsApp a Zoom.

Mae'r tîm Dysgu a Sgiliau wedi gweithio'n agos gyda'n hysgolion i **sefydlu 14 o ganolfannau gofal plant ar gyfer plant gweithwyr allweddol mewn ysgolion ledled y Fro.** Mae'r cyfleusterau hyn, sy'n cael eu rhedeg gan staff yr ysgol a'r cyngor, yn rhoi cymorth hanfodol i'r rhai sy'n gweithio mewn rolau allweddol i'n cadw ni i gyd yn ddiogel.

**Rydym wedi sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim** yn gallu parhau i gael eu bwydo.
Mae ein Tîm Dysgu a Sgiliau wedi **prosesu dros 3,000 o dalebau bwyd bob pythefnos. Mae hyn yn gyfystyr â 96% yn defnyddio talebau bwyd electronig. Ers y cyfnod cloi roedd 161 o hawlwyr newydd ychwanegol**.

**Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â'n hysgolion hyb yn Romilly, Tregatwg, Gladstone ac Ysgol y Ddraig i ddarparu parseli bwyd a phecynnau glanhau a gofal** i'n teuluoedd mwyaf bregus gyda rhoddion ychwanegol gan Morrisons ac Yswiriant Admiral.

**Cafodd 600 o eitemau o offer TG a 250 o ddyfeisiau Wifi eu rhoi i deuluoedd heb offer TG gartref** i gefnogi disgyblion i ddysgu yn y cartref . Er mwyn ategu'r dysgu sy'n seiliedig ar y cwricwlwm, mae rhai ysgolion wedi bod yn cynnig cyfleoedd dysgu fel dosbarthiadau coginio rhithwir ac yn darparu offer chwaraeon, fel y gall plant gadw'n heini gartref.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn absenoldeb sesiynau chwaraeon a chwarae yn yr ysgol/cymuned, mae ein **Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae wedi creu gweithgareddau ar-lein i oedolion a phobl ifanc eu mwynhau gartref i'w galluogi i aros yn actif.** | Rydym wedi cydweithio â'r cwmni adeiladu ISG, sy'n gweithio ar ddau o'n projectau Ysgolion yr 21ain ganrif, i addasu ap sy'n bodoli eisoes a fydd yn cael ei **ddefnyddio fel adnodd gan staff ysgolion i gefnogi disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol yn ddiogel.** Mae'r app yn cynnig gwybodaeth gyffredinol ac enghreifftiau o sut i gyflwyno ymbellhau cymdeithasol mewn ysgol, yn ogystal ag amlygu arfer da mewn amrywiaeth o senarios ystafell ddosbarth. | I gydnabod ymroddiad ein staff rheng flaen fel gweithwyr gofal a chasglwyr sbwriel rydym wedi **rhoi ychwanegiad cyflog o 10%.** Ni yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gymryd y cam hwn a gobeithio y bydd yr arfer arweiniol hwn yn y sector yn cael ei fabwysiadu gan eraill fel ffordd o werthfawrogi a gwobrwyo ymdrechion ein gweithwyr rheng flaen. | Mae ein tîm Teleofal wedi rhoi cymorth i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o Covid-19 a rhwng mis Mawrth a mis Mehefin deliodd ein **staff Teleofal â thros 17,962 o alwadau ac yn ystod mis Mawrth ychwanegwyd 57 o gleientiaid newydd at y gwasanaeth.** Yn ystod y cyfnod hwn, gosododd y gwasanaeth offer Teleofal am ddim i'r rhai a oedd yn ymgymryd â'r gwasanaeth. |

Wrth i ni bontio o'n cyfnod o ymateb i'r cyfnod adfer, nawr yw'r amser i feddwl am yr heriau posibl sydd o'n blaenau a sut y gallwn fynd i'r afael â hwy. Mae COVID-19 yn debygol o gael effaith ddofn ar ein gwasanaethau am beth amser, wrth i'r heriau sy'n ein hwynebu ddechrau amlygu eu hunain. Mae'n annhebygol y bydd ein hadferiad yn ddychweliad i'n cyflwr blaenorol ond bydd yn ffurfio normal newydd. Ni fydd ein hadferiad chwaith yn dilyn un trywydd; bydd heriau yn ein hwynebu a allai rwystro ein hadferiad ar adegau, ac ar adegau eraill roi cyfleoedd i ni. Bydd y ffordd yr ydym yn ymateb i'r heriau hyn yn hanfodol i'r ffordd yr ydym yn gweithio ein ffordd drwy'r argyfwng. Bydd angen gwneud penderfyniadau anodd drwy gydbwyso'r galw am wasanaethau yn erbyn parhad gwasanaethau allweddol i'r dinasyddion mwyaf bregus yn ein cymunedau. Amlinellir isod rai o'r prif heriau rydym yn rhagweld y bydd y Cyngor yn eu hwynebu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf:

- Bydd y pandemig yn cael effaith ddofn ar y galw am ein gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol. **Bydd cynnal a gwella lefelau gwasanaethau a'u perfformiad tra'n rheoli'r galw am wasanaethau ar adeg pan nad oes digon o adnoddau yn dod yn fwyfwy heriol**. O ganlyniad i'r pandemig rydym yn rhagweld y bydd **mwy o anghydraddoldebau iechyd ac economaidd a mwy o angen am gymorth argyfwng i deuluoedd, mwy o alw am Wasanaethau Iechyd Meddwl yn ogystal â galw cynyddol am ofal a chymorth i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.** Rhagwelwn y bydd effaith COVID-19 yn cael ei theimlo'n anghymesur gan y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.
- Pryder mawr yw'r **effaith y bydd y pandemig yn ei chael ar blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu gam-fanteisio'n rhywiol ar blant**. Yn ystod y pandemig, gall llawer o blant fod mewn perygl gan fod cysylltiadau wyneb yn wyneb traddodiadol â gwasanaethau statudol fel athrawon, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u lleihau. Er bod gwasanaethau wedi addasu eu prosesau i weithredu'n ddigidol, nid yw'n disodli'r budd o gysylltiad wyneb yn wyneb rheolaidd o ran materion diogelu. Mae'r pandemig wedi cynyddu ein hymwybyddiaeth o'r 'Ddyletswydd i Adrodd' ac rydym wedi cynnal ymgyrch ar Facebook i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r 'Rhif ffôn 101' i bobl gael adrodd am unrhyw bryderon am ddiogelwch/lles plant, pobl ifanc ac oedolion. Y pryder yw y bydd effaith COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig yn cyfrannu at gynnydd yn y galw am ein gwasanaethau i blant a phobl ifanc.
- Ein gweithlu yw ein hased pennaf. I ddechrau, yr her fwyaf fu canolbwyntio ar sut y gallwn gadw ein gweithwyr rheng flaen allweddol yn ddiogel tra'n parhau i weithredu ein gwasanaethau hanfodol. Wrth i ni symud tuag at adferiad ac wrth i fwy o'n gwasanaethau ailgychwyn, yr her fydd sut i **reoli'r broses o ddychwelyd staff nad ydyn nhw'n gallu ymgymryd â'u dyletswyddau gartref, i'r gweithle yn ddiogel.** Rydym yn rhagweld y bydd llawer o staff yn parhau i weithio o gartref am sawl mis, ond rydym yn cydnabod bod y profiad wedi bod yn heriol i rai aelodau o staff gan eu bod wedi gorfod cydbwyso gofynion gwaith ag addysgu gartref a/neu gyfrifoldebau gofalu eraill. Felly, wrth symud yn ein blaen bydd angen i ni ystyried yr **effaith gymdeithasol mae'r argyfwng hwn wedi'i chael ar ein staff a sut y gallwn barhau i wirio a chysylltu â'n gweithlu, tra'n cefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles.**
- Bydd y pandemig diweddar yn parhau i brofi sut yr ydym yn cynnal ein gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol. Felly mae'r sefyllfa unigryw hon yn rhoi cyfle inni edrych tuag at ffyrdd newydd o weithio a darparu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i'n dinasyddion. Yr her wrth symud ymlaen yw **sut rydym yn**

**cynnwys ein gweithlu a'n dinasyddion ac yn ymgysylltu â nhw wrth lunio'r newidiadau hyn i drawsnewid ein gwasanaethau, fel eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol.** Bydd graddfa'r trawsnewid fydd ei angen ond yn bosibl gydag ymwneud a chefnogaeth ein gweithlu a'r dinasyddion rydym yn eu gwasanaethu.

- Mae rheoli amrywiadau yn nisgwyliadau cwsmeriaid am ein gwasanaethau ar adeg pan fydd galw cynyddol amdanynt yn debygol o fod yn broblem barhaus. Mewn ymateb i'r pandemig hwn mae llawer o'n gwasanaethau wedi gorfod addasu a newid yn gyflym sydd wedi golygu nad yw llawer ohonynt yn cael eu darparu wyneb yn wyneb. Wrth i ni **symud tuag at ddefnyddio mwy o dechnoleg ddigidol, mae perygl y gallai waethygu'r broblem o allgau digidol.** Er bod defnyddio dulliau digidol wedi bod yn brofiad mwy cyfleus a chadarnhaol i lawer, mae angen i ni gofio ei fod **o bosibl yn rhoi ein dinasyddion mwyaf agored i niwed a difreintiedig, nad oes ganddynt fynediad at wasanaethau ar-lein,** dan anfantais. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn ymgysylltu â'n dinasyddion fel bod mynediad cyfartal i'n holl wasanaethau.
- Mae pandemig COVID-19 wedi amharu'n sylweddol ar addysg a dysgu ar bob lefel. Mae'n hysgolion wedi cael eu defnyddio i bwrpas gwahanol am gyfnod o amser, yn gofalu am blant gweithwyr allweddol a'r rhai mwyaf agored i niwed. Mae hefyd wedi gweld gwyro oddi wrth addysgu yn yr ystafell ddosbarth i ddysgu yn y cartref, lle mae ysgolion wedi galluogi plant i barhau â'u dysgu o bell. Er bod hyn wedi bod yn gadarnhaol, ni fydd y dull newydd yn disodli'r amser dysgu a gollwyd o'r ysgol ac **mae perygl gwirioneddol y daw anghydraddoldebau addysgol yn y tymor hwy i'r amlwg ymysg ein dysgwyr mwyaf diamddiffyn**. Y rhwystr wrth symud ymlaen yw sut yr ydym yn **ail-ymgysylltu â'n dysgwyr mwyaf agored i niwed a chefnogi'r rhai sydd ar ei hôl hi'n academaidd yn ogystal â'r rhai ag anghenion dysgu cymhleth ac ychwanegol orau**. Problem arall dros y misoedd nesaf yw canfod y ffordd orau i ni **gefnogi iechyd meddwl a lles ein dysgwyr, tra byddant yn parhau i addasu i ffyrdd newydd o ddysgu**.
- Mae ein gallu i lywio ein ffordd drwy'r argyfwng hwn yn llwyddiannus yn dibynnu ar raglen effeithiol o Dracio ac Olrhain. Wrth i ni greu clymau cydweithredol cryfach gyda'n partneriaid iechyd, bydd yn ofynnol i ni **rannu mwy o wybodaeth a data personol er mwyn tracio ac olrhain achosion lleol**. Gyda hyn daw **yr angen i ystyried materion diogelu data a phreifatrwydd yn ofalus.**
- Croesawyd y pecynnau cymorth ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o ran cynnig rhyddhad ariannol ar unwaith i fusnesau lleol. Fodd bynnag, ni fydd y lefel hon o gymorth ariannol ar gael am gyfnod amhenodol ac mae adferiad economaidd araf yn debygol o beryglu bywoliaeth llawer o fusnesau a phobl. Gostyngodd allbwn y Diwydiannau sy'n cynnig Gwasanaethau yn y DU 19% ym mis Ebrill 2020, y gostyngiad misol mwyaf ers dechrau cadw cofnodion ym mis Ionawr 1997. Mae 33,250 (83.2%) o bobl ym Mro Morgannwg yn cael eu cyflogi yn y Diwydiant Gwasanaethau. Ein her fydd sut y gallwn helpu i **ysgogi ein heconomïau lleol a sicrhau swyddi yn y tymor hwy ar adeg pan fo ein hadnoddau'n debygol o leihau.** Er enghraifft, roedd y sector manwerthu wedi bod yn dirywio cyn COVID-19, ac er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol rydym wedi'i wneud i wella ein trefi lleol, mae'r gostyngiad cyflym yn nifer yr ymwelwyr wedi bod yn niweidiol i'n siopau. Er gwaethaf codi cyfyngiadau, mae mwy o bobl wedi troi tuag at siopa ar-lein, felly **bydd angen rhywfaint o anogaeth ar siopwyr i ddychwelyd i ganol eu trefi lleol i roi cyfle i'n siopau, caffis a bwytai oroesi.**
- Mae'r economi wedi cael ergyd sylweddol, ac ar 21 Mehefin 2020, roedd 9.2 miliwn o weithwyr wedi cofrestru ar y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws (CJRS). Mae'r sectorau sydd â'r niferoedd uchaf o staff sydd ar ffyrlo yn cynnwys busnesau teithio, lletygarwch a manwerthu. Mae'r sefyllfa economaidd ansicr yn debygol o barhau i roi mwy o swyddi mewn perygl mawr, os yw'r adferiad o'r sefyllfa hon yn araf**. Er gwaethaf cynllun ffyrlo'r Llywodraeth, rhagwelwn y bydd nifer sylweddol o swyddi'n cael eu colli yn y tymor canolig i'r tymor hir a fydd yn cynyddu cyfraddau diweithdra.** Ym mis Mai 2020, doedd 4,345 o bobl Bro Morgannwg (yn cynrychioli 5.4% o'r boblogaeth) ddim mewn cyflogaeth ac yn chwilio am waith, y nifer uchaf i'w gofnodi'n ddiweddar. Mae pryder mai'r **rhai sy'n byw ar aelwydydd incwm isel sy'n tueddu i weithio mewn sectorau lletygarwch a manwerthu fydd yn teimlo effaith ariannol y pandemig**. Yr her sy'n wynebu'r Cyngor yw sut yr ydym yn **cynllunio ar gyfer galw cynyddol am ein gwasanaethau cymorth megis cyngor a chymorth budd-daliadau, mynediad at hyfforddiant/cyrsiau i ddatblygu sgiliau newydd a chyflogadwyedd i'r rhai a gollodd eu swyddi ac sydd ag anawsterau ariannol.** Mae pryder hefyd y bydd **effaith economaidd y pandemig yn debygol**

**o gael ei theimlo'n anghymesur gan bobl ifanc (pobl ifanc 18-24 oed).** Mae pobl ifanc 18-24 oed yn tueddu i fod ar ddechrau eu bywydau gwaith ac fe'u cyflogir yn aml yn y sector lletygarwch/gwasanaethau sydd wedi'i gau i raddau helaeth. Mae pobl ifanc yn debygol o wynebu'r farchnad swyddi anoddaf mewn cenhedlaeth oherwydd bydd llawer yn ymuno â'r farchnad gyflogaeth ar adeg pan fo swyddi'n brin, a chystadleuaeth yn uchel. Efallai y bydd pobl ifanc yn cael eu hunain mewn sefyllfa lle maent yn cystadlu am gronfa fach o swyddi gydag unigolion sydd â chyfoeth o brofiad cyflogaeth. Ym Mro Morgannwg, bellach nid yw 10% o'r rhai 18-24 oed yn gyflogedig ac maent yn chwilio am waith. Yr her yw sut rydym yn gweithio'n effeithiol gyda'n prif bartneriaid i **gefnogi'r broses o greu digon o gyfleoedd cyflogaeth fel cam cyntaf/prentisiaethau i ateb y galw cynyddol am swyddi.** Bydd yr heriau hyn yn y pen draw yn **effeithio ar y ffordd rydym yn cynllunio ac yn darparu rhaglenni cymorth ac ymyriadau wedi'u targedu i'n grwpiau/carfanau mwyaf agored i niwed sydd mewn angen**.

- Y rhai ar incwm is sydd ag ansicrwydd swyddi uwch yw'r mwyaf tebygol o deimlo effeithiau ariannol y dirywiad economaidd, gan mai dyma rai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed sy'n tueddu i fyw o'r llaw i'r genau. Nid oes gan tua dwy ran o bump o aelwydydd Cymru yr asedau cynilo a hylifol sydd eu hangen i ddisodli eu hincwm rheolaidd am dri mis. Ac nid oes gan fwy na chwarter aelwydydd Cymru ddigon o gynilion i dalu am eu hincwm rheolaidd am fis yn unig. O fis Mawrth i fis Mai bu **twf yn nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol ym mhob rhan o Fro Morgannwg. Mae 8,842 o bobl, 6.6% o'r boblogaeth, nawr yn hawlio CC.** Mae'r cynnydd mwyaf yn nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol ym Mro Morgannwg yn ein hardaloedd mwy difreintiedig fel y'u mesurir gan Malc 2019. Er bod mesurau'r llywodraeth wedi'u rhoi ar waith i amddiffyn rhentwyr preifat rhag cael eu troi allan, ni fydd y trefniant hwn yn amhenodol. Y broblem sy'n wynebu ein gwasanaethau tai yw sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd yn rhagweithiol mewn partneriaeth i **ymateb i'r argyfwng hwn i helpu tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau ac atal digartrefedd.**
- Yn ystod y cyfnod cloi, ym mis Mai gwelodd Cyngor Bro Morgannwg gynnydd o 378% mewn digwyddiadau gwrthgymdeithasol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Priodolwyd y cynnydd i'r niferoedd cynyddol o bobl ifanc sydd wedi casglu mewn grwpiau mawr mewn ardaloedd lle ceir problemau fel Llynnoedd Cosmeston, Trwyn y Rhws, Aberogwr a'r Knap. Fel rhan o'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach rydym wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid (gan gynnwys yr Heddlu) a'r gymuned leol i roi camau lliniaru effeithiol yn eu lle i atal casgliadau mawr o bobl ifanc ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yr her wrth symud ymlaen yw sut y gall y Cyngor roi ar waith **atebion hirdymor a fydd yn rhwystr effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol heb amharu ar y ffordd y mae'r cyhoedd yn mwynhau ein cyrchfannau a reolir yn ddiogel ac yn barchus, tra'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu i weithredu'r mesurau a roddwyd yn eu lle.**
- Yn ystod mis Mehefin, dim ond cynnydd o 13% a gafwyd mewn Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd a roddwyd i ddioddefwyr cam-drin/trais domestig o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Er bod y Gwasanaeth Asesu Cam-drin Domestig a Chydgysylltu Atgyfeiriadau wedi derbyn atgyfeiriadau PPN yn gyson, nid yw'r ffigurau'n sylweddol uwch na blynyddoedd blaenorol. Hefyd, o'r 36 digwyddiad PPN cam-drin domestig risg uchel a aeth ymlaen i Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol, nodwyd bod 18% (6 achos) yn gysylltiedig â COVID. Mae Cam-drin Domestig eisoes yn drosedd nas cofnodir yn dda a'r pryder yw bod y pandemig wedi ysgogi hyn ymhellach. Er bod pobl wedi'u cyfyngu i'w cartrefi, mae wedi golygu bod unigolion wedi cael llai o fynediad at wasanaethau a rhwydweithiau cymorth. O ganlyniad, mae oedolion a phlant sydd mewn perygl o gam-drin domestig a cham-drin phlant wedi cael eu gadael yn teimlo'n ynysig mewn sefyllfaoedd ansicr. Heb ymyrraeth gynnar a chefnogaeth, mae'r unigolion hyn yn debygol o gyrraedd pwynt argyfwng. Yr her i'r Cyngor yw **ymgysylltu â'r grŵp hwn o unigolion sy'n aml yn 'anodd eu cyrraedd' a'u hannog i ofyn am gymorth a chefnogaeth yn gynnar i arwain at ganlyniadau ar y cyd a fydd yn eu helpu i'w cadw'n ddiogel a gwella eu lles**.
- Mae pandemig COVID-19 wedi newid y galw am ynni yn ddramatig yn fyd-eang ac yn arbennig y galw ar draws gwahanol sectorau economaidd megis trafnidiaeth a'r diwydiant hedfan. Mae erthygl ddiweddar yng Nghofnodolyn Newid Hinsawdd 'Nature' wedi awgrymu y bu gostyngiad dros dro mewn

allyriadau $CO_2$ yn ystod COVID-19 o ganlyniad i bolisïau 'cyfnod cloi' byd-eang[1]. Mae'r erthygl yn amcangyfrif y bu gostyngiad o -17% mewn allyriadau $CO_2$ byd-eang dyddiol erbyn yn gynnar ym mis Ebrill 2020, o'i gymharu â lefelau cymedrig 2019, ac mae ychydig yn is na hanner y newidiadau hyn yn ymwneud â thrafnidiaeth arwyneb[1]. Mae'r erthygl hefyd yn nodi, yn ystod uchafbwynt yr argyfwng, bod allyriadau mewn gwledydd wedi gostwng tua -26% ar gyfartaledd[1]. Aiff yr erthygl ymlaen i ddweud y bydd yr effaith hon yn parhau am ba bynnag hyd y bydd y mesurau cloi hyn ar waith yn fyd-eang[1]. Fodd bynnag, mae pryder y gallai effaith gadarnhaol llai o $CO_2$ fod yn fyrhoedlog os yw'r pwyslais gwleidyddol wrth symud ymlaen ar hyrwyddo adferiad economaidd. Yr her i'r Cyngor yn ogystal â'r genedl gyfan yw sut mae creu **economi leol sydd â chydwybod, i ddatblygu 'atebion economaidd cynaliadwy' a fydd yn ysgogi'r economi leol ond hefyd yn cyfrannu at leihau ein hôl troed carbon**.

- Dechreuodd pandemig y Coronafeirws ar adeg pan oedd y DU yn dal i drafod gyda'r Undeb Ewropeaidd gytundeb masnach Brexit posibl. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am estyniad i'r trafodaethau gydag Ewrop. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, yr anhawster mwyaf y byddwn yn ei wynebu'n lleol yw goresgyn yr heriau aruthrol a ddaw yn sgil Brexit a COVID-19 ar draws dau ffrynt. Mae yna **risg, wrth i'n sylw a'n hadnoddau gael eu tynnu i fynd i'r afael ar unwaith â'r blaenoriaethau sy'n deillio o COVID-19, na fydd modd i ni baratoi nac addasu i newidiadau polisi a deddfwriaethol sydd ar ddod o ganlyniad i Brexit.**

Mae ein hadferiad yn rhoi cyfle unigryw i ni feddwl yn sylfaenol am y ffordd yr ydym yn gweithredu. Er mwyn llywio ein hadferiad, cynhaliodd Tîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor ddadansoddiad sefyllfa lle'r oedd yn ystyried materion allweddol yn ymwneud â sut mae gwasanaethau wedi parhau, beth oedd yn rhaid ei atal, beth y gellid ei wneud yn wahanol, yr hyn yr oeddem wedi'i ddysgu o'n hymateb, y meysydd galw sy'n dod i'r amlwg yn ogystal â dealltwriaeth o forâl a lles staff. Roedd y cam nesaf yn golygu gweithredu ar unwaith mewn rhai meysydd tyngedfennol a modelu senarios er mwyn deall yn well sut mae'r galw am ein gwasanaethau yn newid. Mae hyn wedi ein galluogi i nodi a lliniaru risgiau, ystyried cyfleoedd ar sut i weithredu ein gwasanaethau yn y dyfodol, yn ogystal â dadansoddi'r goblygiadau i'n cyllid, ein hasedau, ein gweithlu, ein TGCh a'n llywodraethu. Mae'r dadansoddiad senario lefel uchel hwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio ein blaenoriaethau allweddol yn y dyfodol ac fe'i defnyddir i lywio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Adfer gyffredinol dros y misoedd nesaf.

## 2.1 ASTUDIAETH ACHOS

### FFOCWS AR: ARWYR Y FRO

Rydym wedi defnyddio Arwyr y Fro fel cyfrwng i wella ein **cydweithio** gyda phartneriaid i alluogi ein preswylwyr mwyaf agored i niwed i gael gafael ar fwyd, meddyginiaeth a chymorth a gwasanaethau hanfodol eraill yn ystod Pandemig COVID-19. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu **dull mwy integredig** gan bartneriaid i fodloni anghenion yn y gymuned ac i **atal** pobl rhag dioddef mwy o anfantais neu ofid. Yn y **tymor hir**, bydd yn bwysig adeiladu ar y dull hwn, gan weithio gyda'r Trydydd sector a grwpiau cymunedol a **chynnwys** ein cymunedau i gyrraedd y rhai y mae angen cymorth arnynt.

Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at angen gwirioneddol i integreiddio ein dull o gefnogi rhai o'n trigolion mwyaf agored i niwed yn gyflym. Cynghorwyd rhai preswylwyr i'w gwarchod eu hunain a pheidio â gadael eu cartrefi i siopa neu i gasglu meddyginiaeth ac maent mewn perygl o gael eu hynysu'n gymdeithasol. Mae newidiadau yn eu sefyllfa ariannol wedi effeithio ar eraill. Bu diddordeb mawr gan y gymuned mewn cefnogi eraill ac mae'r cynnydd hwn yn yr awydd i wirfoddoli wedi cael ei gefnogi gan Gynllun Gwirfoddol Morgannwg (GVS) a'r Cyngor sydd wedi ceisio harneisio'r gweithredu cymunedol hwn a chefnogi trigolion.

---

[1] Le Quéré, C., Jackson, R.B., Jones, M.W. *et al. Temporary reduction in daily global $CO_2$ emissions during the COVID-19 forced confinement. Nat. Clim. Chang.* **10,** 647–653 (2020). Ar gael yn: https://doi.org/10.1038/s41558-020-0797-x

**Beth rydyn ni wedi'i wneud?**

- Mae Cyngor Bro Morgannwg a GGM wedi cydweithio i sefydlu Arwyr y Fro fel cronfa ddata y gellir chwilio ynddi gan breswylwyr y mae angen cymorth arnynt gyda phethau hanfodol fel danfon bwyd, casglu presgripsiynau a chyfeillio.
- Sefydlwyd Tîm Cymorth Argyfwng gan ddod â Gwasanaethau Cymdeithasol, Cysylltiadau â Chwsmeriaid a chydweithwyr gafodd eu hailgyfeirio ar draws y Cyngor i roi cyngor a mynediad at wasanaethau i'r trigolion mwyaf agored i niwed.
  Daeth tudalen we Arwyr y Fro â gwybodaeth am wirfoddoli, gwasanaethau siopa, grwpiau cymunedol lleol, hunan-warchod a gwasanaethau ar-lein at ei gilydd mewn un lle.
  Gofynnwyd am gyfraniadau gan fusnesau a sefydliadau elusennol i gefnogi gwaith yr Arwyr.
- Rydyn ni wedi gweithio ar draws adrannau'r Cyngor, y trydydd sector a chyda'n partneriaid ymhlith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gynllunio proses ar gyfer cysylltu â phreswylwyr sy'n hunan-warchod a allai fod ag angen cymorth ychwanegol.
- Rydyn ni wedi gwneud cysylltiadau â phartneriaeth Bwyd y Fro, i ffocysu gwefan newydd y bartneriaeth ar y bwyd sydd ar gael gan amrywiaeth o gynhyrchwyr a chyflenwyr ledled y sir.
- Rydyn ni wedi dathlu'r Wythnos Wirfoddoli Genedlaethol drwy ddiolch ar goedd i wirfoddolwyr trwy lythyr gan yr Arweinydd ac arwyddion ffyrdd amlwg.

**Beth yr ydym wedi ei gyflawni?**

- Cysyllton ni â thros 4000 o bobl sydd wedi derbyn llythyr hunan-warchod gan Lywodraeth Cymru neu sydd wedi cysylltu â'r Cyngor mewn argyfwng yn ceisio cymorth.
- Trefnwyd bron i 500 o barseli bwyd i'w dosbarthu bob wythnos gan Lywodraeth Cymru i bobl sy'n hunan-warchod.
- Cyfeiriwyd pobl at gymorth o ran cyfeillio, siopa neu gasglu presgripsiynau gan GGM drwy grwpiau cymunedol fel Age Connects a Banc Bwyd y Fro.
- Sefydlwyd Grant Cymorth mewn Argyfwng Arwyr y Fro i gynnig grantiau o hyd at £3,000 i Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddol, Cynghorau Tref a Chymuned a busnesau cymwys tuag at gost mentrau ym Mro Morgannwg sy'n helpu aelodau o'r gymuned y mae'r pandemig wedi effeithio'n ddifrifol arnynt.
- Sicrhawyd cyfraniadau sylweddol gan Admiral i gefnogi'r Banc Bwyd, y mae'r galw amdano wedi cynyddu 94% flwyddyn wrth flwyddyn.
- Sicrhawyd rhodd sylweddol gan Sefydliad Waterloo i ehangu'r cynllun parseli bwyd mewn tair ysgol hyb er mwyn cyrraedd mwy o blant agored i niwed a'u teuluoedd am gyfnod hirach.

Mae Arwyr y Fro wedi dangos grym gweithio mewn partneriaeth a manteision dod ag adnoddau, gwybodaeth a rhwydweithiau sefydliadau fel y Cyngor a GGM at ei gilydd. Wrth edrych i'r dyfodol mae hyn yn rhoi cyfle i ni ehangu ar hyn gyda grwpiau gwirfoddol yn cael eu cysylltu â phobl y mae angen cymorth arnynt.

**Ein statws CMG cyffredinol ar gyfer ‘Bro Gynhwysol a Diogel’ yw**

## 3.0 DATGANIAD SEFYLLFA

Mae tystiolaeth yn dangos bod amddifadedd yn bodoli mewn rhai ardaloedd ym Mro Morgannwg, a bod ansawdd bywyd a chyfleoedd yn amrywiol iawn. Wrth gyflawni’r Canlyniad hwn rydym wedi gweithio gyda’n partneriaid i fynd i’r afael ag allgáu digidol, ariannol a chymdeithasol a thlodi gwledig gan sicrhau bod trigolion yn mwynhau bywyd o ansawdd da a’u bod yn teimlo’n rhan o’u cymuned leol.

Un prif ffactor sy’n cyfrannu at les pobl yw cael cartref o safon a theimlo'n ddiogel yn eu cymuned. Cytunwyd bod hyn yn un o Amcanion Lles y Cyngor dan y Canlyniad hwn ac yn rhan o’r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-2020, mae’r Cyngor wedi gweithio i gynyddu nifer y bobl a all gael gafael ar dai a gwella ansawdd y tai sydd ar gael yn ogystal â hyrwyddo diogelwch cymunedol er gwaethaf heriau eithriadol a llai o arian bob blwyddyn.

Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol yn ystod pedwaredd flwyddyn, a blwyddyn olaf, y Cynllun Corfforaethol mewn perthynas ag Amcan Lles 1 a’i amcanion cysylltiedig sef ‘Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol’ ac ‘Adeiladu cartrefi o safon a chymunedau diogel’. Mae hyn wedi cyfrannu at statws Gwyrdd cyffredinol ar gyfer y Canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn.

Rhwng 2019 a 2020, mae 86% (44 allan o 51) o weithgareddau a drefnwyd oedd yn ymwneud â ‘Bro Gynhwysol a Diogel’ wedi’u cynnal yn llwyddiannus. O ran yr amcan 'Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol', cwblhawyd 73.3% o'r gweithgareddau a drefnwyd yn llwyddiannus ac o ran yr amcan ‘Adeiladu cartrefi o safon a chymunedau diogel’, 91.7%. Ar draws y Canlyniad, cafodd 7 gweithrediad statws coch i adlewyrchu gostyngiad ac roedd hyn yn berthnasol i 14% o’r gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer 2019/20. Mae angen parhau i weithio gyda phartneriaid i wella cyfleoedd i gwsmeriaid ddefnyddio ein gwasanaethau’n ddigidol, sefydlu panel craffu tenantiaid er mwyn gwella gwasanaethau’n barhaus a datblygu rhaglen treialu technolegau adnewyddadwy i leihau ôl troed carbon yn nhai’r Cyngor. Bydd y blaenoriaethau hirdymor hyn yn parhau ar waith yn 2020/21.

Mae’n bwysig nodi bod ein hadolygiad blynyddol o gynnydd ar gyfer y cyfnod 2019/20 wedi’i ysgrifennu yn ystod cyfnod heriol a digyffelyb sydd wedi gofyn i’r Cyngor ymateb i bandemig byd-eang (COVID-19). Rydym wedi asesu cynnydd ein gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer y cyfnod ac wedi defnyddio data perfformiad lleol lle mae wedi bod ar gael. Fodd bynnag, nid yw agweddau penodol ar berfformiad, yn bennaf data meincnodi a gwybodaeth dangosyddion perfformiad genedlaethol diwedd y flwyddyn wedi bod ar gael i’n galluogi i gymharu ein perfformiad gan fod ein rhwymedigaethau ystadegol statudol gan Lywodraeth Cymru a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Cymru wedi’u hatal am gyfnod amhenodol.

Rydym wedi gallu dathlu llwyddiannau sylweddol eleni gan adeiladu ar waith caled tair blynedd flaenorol Cynllun Corfforaethol 2016-2020. Er enghraifft, mae gweithredu’r Strategaeth Cyfoethogi Cymunedau (a

gymeradwywyd yn 2016) wedi cynrychioli dull arloesol o wella ansawdd bywydau tenantiaid ac wrth adeiladu cymunedau cynaliadwy. Cydnabu'r Strategaeth fod manteision sylweddol ar gael i unigolion a chymunedau trwy weithgareddau cyfoethogi cymunedau ac mae themâu â blaenoriaeth wedi cynnwys magu hyder, magu hunan-barch a gwella sgiliau unigolion a chymunedau, gan hyrwyddo ysbryd cymunedol gwell a chreu cymunedau cryf. Mae'r gwaith Cyfoethogi Cymunedau hefyd wedi'i gefnogi gan arian Grant Cymunedau Cryfach y Cyngor ei hun, er enghraifft, roedd modd i'r Swyddog Cyfoethogi Cymunedau gael £16,800 ar gyfer y project rhandiroedd 'Gibby Green Fingers' gan wella ac ychwanegu gwerth at y buddsoddiad trwy weithio fel un Cyngor ar y cyd.

Rydym yn cydnabod sut y gall cael gafael ar wasanaethau digidol gael effaith gadarnhaol ar y dinasyddion hynny sy'n profi allgáu ariannol a chymdeithasol ac mae un o themâu'r strategaeth Cyfoethogi Cymunedau wedi bod yn ymwneud â sicrhau bod tenantiaid wedi'u cynnwys yn ariannol ac yn ddigidol. Gyda hyn mewn golwg, mae'r tîm Cyfoethogi Cymunedau wedi cael £32 miliwn o arian EDRF Llywodraeth Cymru i adeiladu ystafelloedd cyfrifiadurol ym mhob un o Gynlluniau Tai Gwarchod Cyngor y Fro gan sicrhau na chaiff ein trigolion hŷn eu gadael ar ôl a'u bod yn cael eu cefnogi i fod wedi'u cynnwys yn ddigidol. I gefnogi Cynhwysiant Digidol, mae 360 o sesiynau hyfforddi wedi'u cynnal ar gyfer trigolion hŷn yn ystod oes y Strategaeth. Bydd ein Strategaeth nesaf yn adeiladu ar alluogi trigolion i ddeall ffyrdd newydd o gyfathrebu ac ymgysylltu'n ddigidol a gwneir y gwaith hwn gan ein hyrwyddwyr Digidol Cymunedol.

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r bartneriaeth Cael y Fro Ar-lein (GTVO) i fynd i'r afael â chynhwysiant digidol trwy nodi cyfleoedd ar gyfer hyfforddi a datblygu hyrwyddwyr digidol a hyrwyddo cyfleoedd i ddinasyddion wella eu sgiliau a'u gallu i gael gafael ar wasanaethau. Mae gweithgareddau a gynhelir dan nawdd GTVO a gan adrannau eraill y Cyngor yn cael effaith ataliol gan eu bod yn helpu i sicrhau bod dinasyddion yn cael gafael ar wasanaethau'n ddigidol, y prisiau gorau o ran dŵr/nwy/trydan, benthyca a gwasanaethau eraill, a'u bod yn gallu cael cyflogaeth a chyfleoedd eraill yn haws, gan fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a lleihau tlodi.

Yn dilyn lansio Cynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen y Fro, y gwasanaeth benthyca cyfrifiaduron llechen cyntaf yng Nghymru, rydym wedi cynnig y cyfle i oddeutu 45,000 o aelodau llyfrgell fenthyca cyfrifiaduron llechen gan lyfrgelloedd gwledig ym mhob rhan o'r Fro. Mae'r rhaglen fenthyca yn gydweithrediad rhwng Cymdeithas Tai Newydd a Chymunedau Digidol Cymru a chaiff ei chefnogi gan Gyngor Bro Morgannwg ymhlith eraill. Bwriad y cynllun yw helpu i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a gwella llythrennedd digidol gan alluogi aelodau llyfrgell i fenthyca'r iPads â 4G ac mae ar y cyfrifiaduron llechen wasanaethau defnyddiol megis gwasanaethau llyfrgell ar-lein, appiau iechyd a lles, yn ogystal â gwybodaeth am wasanaethau cymunedol.

Yn unol â'n hymrwymiad i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol, mae gwaith wedi cael ei ddatblygu i adeiladu ar y cynllun Bancio Amser llwyddiannus a gynhaliwyd gan Adran Tai'r Cyngor ers 2018 ond sydd ar gael i denantiaid Cyngor y Fro yn unig ar hyn o bryd. Mae'r cynllun bancio amser presennol yn helpu i ddod ag aelodau'r gymuned ynghyd trwy wirfoddoli er mwyn gwella eu hardaloedd lleol, dysgu sgiliau newydd, gwella lles ac yn eu tro i ennill taleb credyd amser i hyrwyddo gwariant yn yr ardal leol ac ymhellach i ffwrdd. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer mis Ebrill 2020 yn dangos bod 527 o aelodau yn y cynllun Bancio Amser a'u bod wedi cynhyrchu dros 5,387 o oriau o amser gwirfoddoli. Ers dechrau'r cynllun mae'r gwirfoddolwyr wedi sôn am welliannau sylweddol yn eu hunan-barch, lefelau uwch o ran eu hyder, sgiliau newydd a theimladau o lesiant.

Cafodd y ffocws ar gynyddu gwirfoddoli ei amlygu a'i ehangu yn y misoedd diweddar yn yr ymateb i'r pandemig presennol. Mae sefydliadau gwirfoddol hirsefydlog a grwpiau cymunedol lleol newydd wedi dod ynghyd gyda busnesau a phartneriaid lleol i ddarparu gwasanaethau i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn y gymuned. Mae partneriaid yn gweithio gyda'r gymuned leol mewn ffordd integredig i helpu i hyrwyddo a darparu gwasanaeth gwirfoddoli ym mhob rhan o'r Fro fel y gwelir ar wefan Arwyr y Fro.

Ers i'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf gael ei lansio ym mis Awst 2017, mae grantiau gwerth £565,391 wedi'u dynodi i 44 o brojectau ledled Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid: Sefydliad Waterloo, Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned wedi ymuno i gefnogi projectau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd bywyd pobl a chymunedau yn y Fro a'r ystod o wasanaethau sydd ar gael iddynt. Gyda chymorth y gronfa, mae grwpiau llwyddiannus wedi dangos tystiolaeth ac wedi bodloni meini prawf cymhwysedd i gyflawni projectau sydd wedi cynnwys ymgysylltu gyda'u cymunedau a chynaliadwyedd ystyrlon. Gan weithio gyda'n gilydd, gallwn gyflawni gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y Fro, sef 'Cymunedau cryf gyda dyfodol disglair'.

Bydd y grantiau Cymunedau Cryf a gymeradwywyd hyd yma'n cyfrannu at gyflawni projectau gyda chyfanswm gwerth mwy na £2 miliwn, a bydd hyn oll yn dod â buddion mawr i gymunedau ledled y Fro.
Mae graddfa'r projectau a gyflawnwyd yn amrywio o brynu un eitem o offer cerddorol i bentref gyda llai na 100 annedd i adfywio neuadd gymunedol sy'n gwasanaethu poblogaeth o dros 2000 o drigolion. Thema gyffredin yw cefnogi projectau sy'n dod â phobl ynghyd yn agos i'w cartrefi. Drwy gefnogi hyfforddiant neu weithgareddau hamdden a chymdeithasol, a llawer o'r sefydliadau a'r gwirfoddolwyr sy'n cynnig y rhain, mae ein grantiau'n helpu mwy o bobl ledled y Fro i ddefnyddio'r gwasanaethau y maen nhw wedi'u nodi yn rhai sy'n bwysig iawn.

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi gweithio trwy'r bartneriaeth Cymunedau Gwledig Creadigol i gynnwys y gymuned leol wrth ddarparu gwasanaethau gyda'r nod o leihau tlodi ac allgau cymdeithasol. Un enghraifft glir o hyn yw'r cymorth a roddir trwy Rwydwaith Tyddynwyr Morgannwg. Mae'r cymorth a'r arian a roddir i'r grŵp gan y Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i'r rheiny sy'n rhan o'r grŵp ac i lawer o'n cymunedau gwledig a allai deimlo'n ynysig fel arall. Mae'r rhwydwaith yn parhau i dyfu er mwyn dod â mwy o dyddynwyr lleol ynghyd ym Mro Morgannwg drwy ei bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, ei
gyfarfodydd a'i ddigwyddiadau.

Rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid i roi cymorth i drigolion y mae newidiadau Diwygio Lles wedi effeithio arnynt ac wedi monitro'n agos effaith gweithredu'r symud i Gredyd Cynhwysol trwy weithgorau amlasiantaeth wedi'u ffurfioli a diweddariadau rheolaidd i Aelodau. Mae nifer y tenantiaid sy'n symud i Gredyd Cynhwysol yn parhau i gynyddu ac mae ôl-ddyledion rhent yn parhau i godi. Mae nifer o welliannau bellach wedi'u hymgorffori yn y broses adennill ôl-ddyledion gan gynnwys defnyddio negeseuon atgoffa awtomataidd a chyngor a chymorth wedi'u targedu. Eleni mae ein Hymgynghorwyr Ariannol wedi cwblhau mwy na 955 o apwyntiadau ac wedi helpu tenantiaid i gael mwy na £397,503 o incwm ychwanegol trwy ôl-ddyddio budd-daliadau, budd-daliadau lles ychwanegol, biliau dŵr/nwy/trydan is a grantiau.

Mae'r Cyngor wedi parhau i weithredu'n llwyddiannus ystod o brojectau i atal a threchu tlodi trwy gynlluniau megis Cymunedau am Waith, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Yn ystod 2019/20, gwnaethom hwyluso Digwyddiad Nadolig Dechrau'n Deg a groesawodd deuluoedd i "Begwn y Gogledd". Gwnaeth y tîm Dechrau'n Deg greu ac adeiladu eu Gŵyl y Gaeaf eu hunain yn y Ganolfan Deulu, gyda gweithdy corachod a groto Siôn Corn. Aeth mwy na 200 o blant i'r digwyddiad a oedd ar agor i bob teulu Dechrau'n Deg. Nod digwyddiadau o'r fath yw ymgysylltu â theuluoedd o ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol a'u cynnwys mewn gweithgareddau cadarnhaol yn y gymuned leol.

I fwyhau cyfleoedd y cynlluniau hyn sydd ar gael ymhellach, rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid i alinio gweithgareddau perthnasol sy'n gysylltiedig â Theuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant a Chwarae, Cymunedau am Waith a rhaglenni Cefnogi Pobl trwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft mae cynlluniau Cymunedau am Waith, Gofal Plant a Chwarae a Theuluoedd yn Gyntaf yn rhan o gylch gwaith arweinydd projectau Teuluoedd yn Gyntaf sy'n sicrhau bod y grantiau wedi'u halinio'n well. Hefyd, mae mentor o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi'i recriwtio ac mae'r swyddog hwn yn rhan o'r tîm Teuluoedd yn Gyntaf gan alinio gweithgareddau'n fwy.

Rydym hefyd wedi adolygu'n llwyddiannus effaith yr arweiniad a geir trwy'r trefniadau Ariannu Hyblyg newydd a'r Grŵp Cyflawni Grantiau Plant a Chymuned (GPCh) ac yn parhau i gwrdd er mwyn rhannu gwybodaeth a syniadau. Mae grŵp tebyg yn bodoli ar gyfer y Grant Cymorth Tai ac mae cydlynwyr grant yn aelodau o'r ddau grŵp er mwyn mwyhau cyfleoedd ar gyfer integreiddio a nodi cyfleoedd newydd. Mae Cynllun Cyflawni GPCh ar gyfer 2020/21 wedi'i gymeradwyo ynghyd ag adroddiad diwedd y flwyddyn ac mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

Yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i wella ansawdd llety'r sector rhent preifat ac i leihau nifer yr eiddo sy'n wag am amser hir yn y Fro, creodd y Cyngor Strategaeth Cartrefi Gwag 2019-2024 (sy'n dilyn y Strategaeth flaenorol ar gyfer 2012-2017) ac ymgynghorodd arni. Cafodd hon ei chymeradwyo wedyn a'i mabwysiadu ym mis Mawrth 2020. Mae Strategaeth 2019-2024 yn nodi ymrwymiad parhaus y Cyngor i adfer cartrefi gwag i'w defnyddio eto dros y pum mlynedd nesaf a'i nod yw creu, cynnal a gwella cywirdeb data cartrefi; rhoi cyngor a chymorth a chynnig anogaethau ariannol er mwyn lleihau nifer yr eiddo sy'n wag am amser hir; hyrwyddo dull cyfan y Cyngor o fynd i'r afael â chartrefi gwag; blaenoriaethu cartrefi gwag ar gyfer camau gorfodi; a chodi ymwybyddiaeth am gartrefi gwag.

Gall perchenogion tai ledled Bro Morgannwg wneud cais am fenthyciadau di-log i wneud gwelliannau, atgyweiriadau hanfodol ac adfer eiddo i'w ddefnyddio eto. Yn ystod 2019/2020, helpodd Tîm Adfywio'r Cyngor i adfer 115 o gartrefi gwag i'w defnyddio eto (4 yn fwy na'r llynedd). Mae hyn yn cynrychioli 13.9% o'r cartrefi gwag a nodwyd ar gyfer y cyfnod. Gwnaethpwyd y rhan fwyaf o hyn trwy siarad â pherchenogion eiddo a chynnig cymorth a chyngor amrywiol megis benthyciadau tai di-log a chyfraddau TAW llai ar waith adnewyddu eiddo gwag. Hefyd, rhoddir gwybod i berchenogion eiddo am ddewisiadau gosod ac mae'r Swyddog Benthyciadau a Chartrefi Gwag yn gwneud atgyfeiriadau perthnasol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chynllun Tenantiaeth â Chymorth y Cyngor. Gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg berfformio'r gorau yng Nghymru yn ystod 2018/19 a'r gobaith yw y bydd yr un peth yn wir ar gyfer 2019/20.

Yn ystod 2019/20, crëwyd 3 chartref newydd. Fel arfer caiff cartrefi newydd eu creu pan gaiff eiddo gwag ei ymrannu i greu anheddau ychwanegol. Er ein bod yn gobeithio y byddai mwy wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, bu oedi ar gyfer derbynwyr benthyciadau datblygiadau ag unedau lluosog ac ni chwblhawyd y gwaith erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn ystod 2020/21 ac ar hyn o bryd mae nifer o ddatblygiadau yn yr arfaeth a gefnogir gan arian grant Adfywio a Benthyciadau Tai. Mae'r mentrau cyfunol hyn yn cyfrannu at broses y Cyngor o gyflawni ei ymrwymiadau sy'n ymwneud ag angen tai, gwella safonau tai, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, fandaliaeth a thipio anghyfreithlon gan gefnogi ymhellach ein Canlyniad Lles 'Bro Gynhwysol a Diogel'.

Nododd ein Cynllun Corfforaethol mai prif ffactor o ran cyfrannu at synnwyr pobl o les yw cael cartref o safon a theimlo'n ddiogel mewn cymuned. Cytunwyd bod hyn yn un o amcanion lles y Cyngor ac mae gwaith i wella gallu pobl i gael gafael â thai o safon wedi bod yn flaenoriaeth mawr a'r ysgogwr allweddol o ran sicrhau bod ein tai ni'n bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC). Gwnaeth y Cyngor gyflawni SATC ym mis Mawrth ar gyfer pob un o'i 3,900 o dai cymdeithasol gan fuddsoddi £91,518,000 i wneud gwelliannau. Mae'r Cyngor yn parhau i wella cartrefi a chymdogaethau gan gyflawni cynlluniau sy'n parhau i gynnal SATC megis ceginau, ystafelloedd ymolchi a gwaith ailwefru ond mae hefyd yn cynnig cynlluniau i wella effeithlonrwydd thermol. Mae gwaith i fynd i'r afael ag amgylchedd lleol sy'n dirywio yn cynnwys gosod ffensys a gwaith tirlunio yn ogystal â gwelliannau i ardaloedd cyffredin fflatiau; gan leihau rhai o'r cyfleoedd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae enghreifftiau o welliannau amgylcheddol wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys diweddaru fflatiau gan gynnwys gwaith adnewyddu mawr i Ystâd Buttrill lle mae atgyweiriadau a gwelliannau allanol wedi'u cwblhau ar 128 eiddo gan gynnwys fflatiau, tai a byngalos. Mae'r project bellach yn canolbwyntio ar ffensys allanol, ardaloedd cyffredin a gwelliannau i fesurau ymladd tân ym mloc fflatiau mwyaf y Cyngor.

Mae nifer o gynlluniau datblygiadau tai newydd wedi'u symud ymlaen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gydag 11 o gartrefi newydd wedi'u hadeiladu yn Holm View, y Barri a 28 o gartrefi pwrpasol newydd ychwanegol ar hen safle llety gwarchod yn Brecon Court, y Barri y disgwylir eu cwblhau erbyn haf 2020. Bydd y datblygiadau hyn o fudd mawr i'r gymuned, gan gynnig cartrefi o ansawdd dda i'r rhai sydd eu hangen fwyaf. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i Awdurdodau Lleol ddatblygu cartrefi newydd ac rydym wedi gweithio'n galed i ddatblygu projectau eraill gan gynnwys; Maes y Ffynnon, Tresimwn, St Cyres Road, Penarth, Clinig Colcot, Hayes Wood a 53 o unedau tai cymdeithasol yn Hayes Wood Road. Hefyd, mae gwaith ar y gweill i greu pecynnau ar gyfer datblygu tir â phartneriaid sy'n ddatblygwyr.
Er bod y Cyngor yn parhau â'i ymrwymiad i sicrhau y gall trigolion gael gafael ar gartrefi o ansawdd yn y Fro, mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod diffyg tai ledled y genedl; o ganlyniad, mae adeiladu tai bellach yn eitem agenda fawr ym mhob rhan o Brydain yn ogystal ag yng Nghymru. Nododd asesiad diweddaraf y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol a gynhaliwyd yn 2017 ddiffyg tai fforddiadwy difrifol yn y Fro ac angen am 576 o unedau ychwanegol y flwyddyn rhwng 2017 a 2022. Mewn ymateb i hyn, mae ein Tîm Datblygu a Buddsoddi yn parhau i ddatblygu ac adeiladu tai Cyngor o ansawdd newydd.

Wrth symud ymlaen i flwyddyn 1 ein Cynllun Corfforaethol newydd (2020-2025), rydym wedi ymrwymo i ymateb yn rhagweithiol i'r pwysau sy'n cynyddu i wneud mwy gyda llai a bydd hyn heb os yn herio ein huchelgeisiau, yn enwedig o ystyried costau digyffyleb y pandemig COVID-19 diweddar. Ochr yn ochr â'r hyn rydym wedi'i ddysgu trwy ein profiad o'r argyfwng hwn, byddwn yn ailystyried y blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol a defnyddio hyn yn blatfform i lywio ein gwaith o ddatblygu atebion lleol a fydd yn helpu i fagu gwydnwch yn y tymor byr, hir a chanolig. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddod o hyd i gyfleoedd a'u mwyhau i'n helpu i gyflawni'r gorau ar gyfer dinasyddion y Fro.

## 3.1 YR HYN RYDYM WEDI EI GYFLAWNI

## 3.1.1 AMCAN 1: LLWYDDIANNAU



Yn 2016, fel rhan o'n **Strategaeth Buddsoddi Cymunedol** dywedom y byddem yn helpu trigolion y Fro i gynyddu eu rhagolygon cyflogaeth i'w helpu i gael swyddi neu symud yn agosach at y farchnad lafur. Yn 2018, fel rhan o'r Strategaeth lansiom Broject Bancio Amser Cartrefi'r Fro. Cofrestrodd **527 o wirfoddolwyr;** Cwblhawyd **5,387 o oriau** o waith gwirfoddoli; Rhoddwyd **5,387 o gredydau amser**; Cofrestrodd **41** o sefydliadau i gymryd rhan yn y cynllun; to take part in the scheme; Lansiwyd y **Clwb Beicio** i blant rhwng 4 a 16 oed ac ymgysylltwyd â 493 o bobl ifanc.

Rydym wedi gweithio'n agos ag ysgolion a phartneriaid iechyd i ddatblygu cymorth a darpariaeth ar gyfer **plant a phobl ifanc ag anawsterau emosiynol a chymdeithasol cymhleth** ac ymddygiadau heriol. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol gymorth strategol ar gyfer canolfan adnoddau newydd yn Ysgol Gynradd Gladstone a chafodd Seicolegydd Addysg hyfforddiant ar "**ddull ysgolion sy'n wybodus am drawma".** Bu cydgysylltu ag ystod ehangach o ysgolion arbennig annibynnol ar gyfer ymddygiad hefyd.



Fel rhan o hyrwyddo



Cynhwysiant Digidol ac Ariannol, er 2016 rydym wedi cael **£30 miliwn** o arian EDRF Llywodraeth Cymru i osod ystafelloedd cyfrifiaduron ym mhob un o Gynlluniau Tai Gwarchod Cyngor y Fro; Wedi cynnig **360 o sesiynau hyfforddi Cynhwysiant Digidol** i drigolion hŷn sy'n rhan o'r Cynlluniau Tai Gwarchod; **Wedi cynnig 270 o sesiynau hyfforddi Cynhwysiant Digidol yn Hyb Aberaeron** i drigolion y Fro; Wedi cynnal **3,870** o apwyntiadau Cyngor Ariannol a Chynhwysiant Ariannol ac wedi helpu tenantiaid i **hawlio £1,141,492** o Fudd-daliadau Lles.

Yn ystod pandemig y coronafeirws, sefydlwyd **Arwyr y Fro** , gan ddwyn ynghyd **118 o sefydliadau cymorth.** Cysylltwyd â mwy na **4,000** o bobl gan y Tîm Cymorth Argyfwng a drefnodd fwy na **500 o barseli bwyd wythnosol** i bobl a oedd yn hunan-warchod, gan atal pobl rhag cael mwy o anfantais neu ofid.



Gosodon ni **'bod' cymunedol yn St Luke's Avenue,** Penarth i'w ddefnyddio gan aelodau o grŵp trigolion Penarth. Nid oedd gan y pod blaenorol gyflenwad trydan na dŵr ac roedd wedi adfeilio, felly roedd angen cyfleuster newydd ar gyfer **digwyddiadau cymunedol** a chyfarfodydd. Mae'r pod newydd yn cynnwys cyfleusterau cegin a thoiled ac mae wedi galluogi ystod ehangach o weithgareddau a gwybodaeth i gael eu cynnig megis **cynhwysiant digidol, cyflogaeth, hyfforddiant, iechyd, lles, arian a chyngor ar**



**gyllidebu.**

Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid yn rhanbarthol ac yn arwain ar y gwaith o **ddatblygu'r Strategaeth Tai a Gofal a Chymorth i Bobl Hŷn** er mwyn hyrwyddo byw'n annibynnol. Mae gweithgor bellach ar waith sy'n cynnwys partneriaid mewnol ac allanol i lywio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Tai Pobl Hŷn Bro Morgannwg gyda Chymorth a Gofal. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Cyngor wrth symud ymlaen i gynllunio'n briodol i **fodloni anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio yn y Sir.**



Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac yn eu defnyddio **i gynnwys dinasyddion ac ymgysylltu â nhw'n helaeth** ac i alluogi mwy o adborth a dysgu ganddynt. Yn Chwarter 3, treialwyd pôl ar Twitter i fesur adborth ar gynigion i ystyried trwyddedu Cabanau Traeth ar gyfer seremonïau. Cafodd y pôl nifer sylweddol o ymatebion a fydd yn **llywio'r gwaith o ddatblygu cynigion yn y dyfodol.** Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol hefyd i ymgynghori ar Gynllun Corfforaethol newydd y Cyngor a chynigion ar gyfer y gyllideb/treth gyngor.

Derbyniwyd mwy na **250 o ymholiadau** gan grwpiau cymunedol sy'n ymroddedig i wneud newidiadau cadarnhaol yn yr ardaloedd y maent yn byw ynddynt ac mae grantiau Cymunedau Cryf sy'n dod i gyfanswm o **£565,391** wedi'u dyrannu i **44 o brojectau.** Mae graddfa'r projectau a gyflawnwyd yn amrywio o brynu un eitem o offer cerddorol i bentref gyda llai na 100 annedd i adfywio neuadd gymunedol sy'n gwasanaethu poblogaeth o dros 2000 o drigolion.



Rhwng 2016 a 2020, mae ein Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol wedi cefnogi **3,370** o gyfranogwyr, wedi ymgysylltu â **420** o randdeiliaid ac wedi cefnogi **46 o weithgareddau peilot** â'r nod o gynnwys y gymuned wrth ddarparu gwasanaethau tra'n lleihau tlodi gwledig.





Cyflawnodd **85%** o blant Dechrau'n Deg y canlyniadau a ddisgwyliwyd (Canlyniad 5+) o leiaf ar gyfer y **Cyfnod Sylfaen**, o gymharu â'r 83% o blant y llynedd.

Er 2016, fel rhan o'n ffocws i gryfhau cymunedau a lleihau tlodi rydym wedi cynnal **453** o asesiadau o anghenion cymorth tai ac wedi rhoi cymorth tai i **427**o drigolion. Rydym hefyd wedi rhoi cymorth cyn tenantiaeth i **534**o denantiaid trwy gynnig project "Parod am Denantiaeth" i denantiaid newydd oedd yn ymrwymo i eiddo.



Dywedodd mwy na **98% o'r 1,394** o ddefnyddwyr a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod y flwyddyn eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a gawson nhw a theimlodd bron **96%** yn fwy hyderus ynddyn nhw eu hunain a'u galluoedd yn dilyn



cael cymorth.



Mae mwy na **160 o bobl wedi cofrestru ar gyfer rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy y Fro** ac mae **89**o bobl wedi'u helpu i ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy dda o ganlyniad uniongyrchol i'r hyn a roddwyd iddynt gan y tîm **55%** yw'r gymhareb drosi ar gyfer 2019/20 sy'n wych o'i chymharu â'r gymhareb genedlaethol o 42%.

Eleni mae ein Hymgynghorwyr Arian wedi cwblhau mwy na **955** o apwyntiadau **Cyngor Ariannol** gyda thenantiaid ac wedi helpu iddynt gael mwy o **£397,503 o incwm ychwanegol** trwy ôl-ddyddio budd-daliadau, budd-daliadau lles ychwanegol, tariffau dŵr/nwy/trydan is a grantiau.



Gwnaethom gynnal **6ed Ffair Swyddi flynyddol y Barri** mewn partneriaeth â Chanolfan Byd Gwaith y Barri ym mis Hydref 2019. Denodd hi fwy na **400 o bobl** oedd yn chwilio am waith. Mae'r digwyddiadau hyn yn gwella cyfleoedd i ddinasyddion sy'n ceisio cael gwaith a mynd i hyfforddiant neu addysg a thrwy hynny wella sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Bu mwy na **30 o gyflogwyr yno** gyda nifer mawr o bartneriaid yn rhoi cyngor a gwasanaethau, megis Tîm Dysgu Oedolion a'r Gymuned y Fro, tîm Adnoddau Dynol y Fro a Choleg Caerdydd a'r Fro.

Mae tîm Lles Ieuenctid Teuluoedd yn Gyntaf wedi cynnal **mwy na 1900 o sesiynau cymorth mentora gyda mwy na 200 o bobl ifanc,** gan helpu i wella gwydnwch a lles meddyliol pobl ifanc ac yn bwysig, eu presenoldeb yn yr ysgol. Yn ogystal, mae'r tîm wedi**hyfforddi 83 o weithwyr** , staff ysgol yn bennaf, mewn Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.



## 3.1.2 AMCAN 2: LLWYDDIANNAU

Mae gwaith yn parhau ar **broject gwerth £3.5 miliwn yn hen Lys Aberhonddu** (safle Llety Gwarchod) i adeiladu **28 o gartrefi tai cymdeithasol 'gofal barod'** sydd â thechnoleg gynorthwyol i alluogi pobl ag anghenion isel i gymedrol i **fyw'n fwy annibynnol.** Disgwylir i'r project gael ei gwblhau yn haf 2020.






Yn ystod 2019/20, cafodd y Cyngor **£444,096.90 pellach** o gyfraniadau tai fforddiadwy oddi ar y safle. Defnyddir yr arian hwn i **gefnogi Rhaglen Adeiladu Tai'r Cyngor** i gynyddu lefel, ystod a dewis y tai fforddiadwy sydd ar gael i deuluoedd ym Mro Morgannwg.

**Mewn partneriaeth â Bro Ddiogelach a Swyddogion Diogelwch Cymunedol yr Heddlu** lansiom Broject yr Ardd yn Llanilltud Fawr i wella'r gerddi a'r cysylltiadau cymunedol. Gwnaethom dargedu **10** o eiddo'r Cyngor gan recriwtio **11** gwirfoddolwr ar gyfer y project.





Denodd y Cyngor**£3.9 miliwn o Grant Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru gan ymrwymo i'w ddefnyddio ar gyfer ei Raglen Adeiladu Tai Cyngor**, yn benodol i noddi ein datblygiadau newydd yn Holm View a Brecon Court. Bydd y datblygiadau hyn o fudd mawr i'r gymuned, gan gynnig **cartrefi o ansawdd dda** i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.



Cwblhaodd Partneriaeth Bro Ddiogelach **adolygiad llawn o systemau teledu cylch cyfyng yn** y Fro a chafodd **grant o £350,000 i uwchraddio offer**. Bydd yr uwchraddio yn sicrhau bod y system yn rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol a'i bod yn briodol o ran helpu i **ddal troseddwyr ac atal tor-cyfraith ac anhrefn yn y Sir.** Roedd Partneriaeth Bro Ddiogelach ymhlith y rhai cyntaf i gwblhau adolygiad llawn o'u system a bydd yn parhau i weithio gyda phartneriaid y flwyddyn nesaf i sicrhau'r canlyniad gorau i bartneriaid a'r Fro.

Er mwyn cefnogi dioddefwyr i aros yn eu cartref eu hunain, cafodd mesurau diogelwch y cartref eu gosod yng nghartrefi **82 o ddioddefwyr** er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel. O'r **76%** o ddioddefwyr y cafodd mesurau diogelwch eu gosod yn eu heiddo, teimlodd**90%** yn fwy diogel, teimlodd**68%** eu bod yn eu hatal rhag mynd i loches ac roedd **94%** yn hapus gyda'r gwasanaeth.



Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o sgamiau, troseddau ar garreg y drws a materion diogelu eraill. Yn ystod Wythnos Diogelu Genedlaethol Cymru 2019, ym mis Tachwedd, cynhaliodd y GRhR gynhadledd ddiogelu gyda'r diben o godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd **diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed** i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag esgeulustod, niwed a mathau eraill o gamdriniaeth. **Mynychodd mwy na 100 o bobl** y digwyddiad hanner diwrnod i glywed siaradwyr o'r Heddlu, Tîm Troseddau Economaidd y Safon Masnachu Genedlaethol, Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, y Post Brenhinol ac Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru.




Nifer cyfartalog y diwrnodau **gwaith a gymerwyd i atgyweirio ac ail-osod eiddo gwag yn ystod 2019/20 oedd 19.44 diwrnod yn erbyn targed o 20 diwrnod.** Mae'r perfformiad hwn yn dangos bod y Cyngor yn adfer cartrefi ac yn sicrhau eu bod ar gael i denantiaid newydd o fewn cyfnod cyflym iawn. Mae hyn hefyd yn golygu bod llai o rent yn cael ei golli i'r Cyngor.

**Adferwyd 115 o gartrefi (13.9% o eiddo'r sector preifat) i'w defnyddio eto** yn ystod y flwyddyn trwy gamau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn gynnydd ar y 111 o gartrefi a adferwyd i'w defnyddio eto y llynedd. Cyngor Bro Morgannwg **berfformiodd orau yng Nghymru yn ystod 2018/19** a'r gobaith yw y bydd yr un peth yn wir ar gyfer 2019/20.






Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gwasanaeth Cydlynu Cam-drin Domestig, Asesu ac Atgyfeirio wedi derbyn a **phrosesu 1776 o atgyfeiriadau Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd (HDC).** Gwnaeth y gwasanaeth **2986 o atgyfeiriadau** i ddioddefwyr dderbyn y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir, gan gyfrannu at ddioddefwyr yn teimlo'n ddiogelach a chanlyniadau gwell i ddioddefwyr a'u teuluoedd.

Yn ystod y flwyddyn, mae **Grŵp Tadau Dechrau'n Deg** wedi gweithio'n dda gyda Thadau yn eu helpu i ennill **Cymhwyster Agored Cymru mewn dulliau adferol**. I rai Tadau, dyma'r cymhwyster cyntaf yr oedd unrhyw un ohonynt wedi'i gael. Mae tadau bellach yn gweithio'n wahanol gydag ysgolion eu plant eu hunain ac yn helpu rhieni eraill i gael sgyrsiau anodd. Siaradodd y Tadau a oedd yn rhan o'r hyfforddiant mewn cynhadledd Trawma eleni hefyd. Mae'r llwyddiant hwn yn dangos sut rydym wedi gweithio mewn ffordd gyfannol i **weithredu dulliau cyfiawnder adferol ar gyfer**

Rydym yn parhau i weithio'n galed iawn ar nodi atebion sy'n atal digartrefedd. Mae'r gallu i barhau i gynnal y llwyddiant hwn yn dal i ddibynnu'n bennaf ar y cymorth y gallwn ei gynnig i'n landlordiaid rhent preifat ers cyflwyno **Swyddogion Cymorth y Sector Rhent Preifat** yn ddiweddar a'r perthnasau cadarnhaol a'r hyder y mae hyn yn eu creu. Yn ogystal, rydym hefyd wedi datblygu proses gyfryngu gyda Llamau.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **pobl ifanc** ac wedi ymgysylltu â chynulleidfa deuluol ehangach. |  |
|  Yn ystod 2019/20 (data chwarter 4), roedd nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) yn **182.78 o ddiwrnodau.** Mae'r perfformiad hwn **yn well na tharged** o 190 o ddiwrnodau a pherfformiad y llynedd o 194.73 o ddiwrnodau. Gellir priodoli'r **gwelliant mewn perfformiad** i welliannau yn y broses gan gynnwys contract fframwaith newydd. | Mae'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir wedi parhau i gynnal archwiliadau mewn perthynas â hylendid a glanweithdra sefydliadau bwyd a llygredd amgylcheddol. Yn ystod y flwyddyn, teimlodd**100%** o fusnesau fod archwiliadau'n eu helpu i**wella safonau cydymffurfio** yn eu busnes. Teimlodd**81.25%** o'r rhai a fynychodd hyfforddiant y bydd yr hyfforddiant a dderbyniwyd yn eu helpu i wella safonau cydymffurfio yn eu busnes, sy'n**welliant** ar 74.47% y llynedd. | Yn ystod 2019/20 rhoesom ganiatâd cynllunio ar gyfer **306 o gartrefi cynaliadwy a fforddiadwy** yn y Fro. Felly roedd**35%** o'r holl dai a gymeradwywyd yn unedau tai fforddiadwy, sy'n **rhagori ar darged ein Cynllun Datblygu Lleol sef 30%.**  | Aseswyd **97%** o sefydliadau bwyd yn rhai sy'n  **'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd** yn ystod 2019/20, gwelliant pellach ar berfformiad y llynedd. Bernir bod safleoedd yn cydymffurfio'n fras os cyflawnir sgoriau risg penodol ar gyfer glendid, materion strwythurol, a hyder wrth reoli'r busnes. |

# 3.2 EIN HERIAU

## 3.2.1 AMCAN 1: HERIAU

Mae pandemig byd-eang y coronafeirws wedi cael **effaith enfawr ar ddiweithdra ledled y Deyrnas Unedig** a bydd yn parhau i wneud felly.Cofrestrwyd tua 9.2 miliwn o weithwyr ar gyfer Cynllun Cadw Swyddi'r Coronafeirws ym mis Mehefin 2020 ac mae'r sectorau y effeithiwyd arnynt fwyaf yn cynnwys y sectorau teithio, lletygarwch a manwerthu. Er gwaethaf cynllun ffyrlo'r Llywodraeth, rhagwelwn y bydd **nifer sylweddol o swyddi'n cael eu colli yn y tymor canolig i'r tymor hir a fydd yn cynyddu cyfraddau diweithdra yn enwedig os yw'r adferiad yn araf.** Yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor yw cynllunio ar gyfer mwy o alw ar ein gwasanaethau cymorth megis cyngor a chymorth budd-daliadau, hyfforddiant i ddatblygu sgiliau newydd a chyflogadwyedd i'r rhai a gollodd eu swyddi ac sydd ag anawsterau ariannol. Mae pryder hefyd bod effaith economaidd y pandemig yn debygol o gael ei theimlo'n anghymesur gan bobl ifanc (pobl ifanc 18-24 oed). Yr her o ran hyn fydd sut rydym yn gweithio'n effeithiol gyda'n partneriaid i gefnogi'r broses o greu digon o gyfleoedd cyflogaeth pwynt mynediad i ateb y galw cynyddol am swyddi. Bydd y Cyngor yn cydweithio â'i bartneriaid i **fynd ati i fonitro newidiadau mewn cyfraddau diweithdra a'r effaith ar grwpiau sy'n agored i niwed** wrth i ni barhau i symud allan o'r cyfnod cloi ac ystyried pa gamau y mae angen i ni a'n partneriaid eu cymryd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

---

Mae mwy o alw ar wasanaethau cymorth lleol o ganlyniad i'r gostyngiadau mewn budd-daliadau lles wedi parhau i gynyddu eleni ac mae hyn yn **peryglu gwasanaethau'n fawr. Mae Credyd Cynhwysol (CC) yn parhau i gael ei gyflwyno'n raddol yn y Fro ac erbyn hyn mae mwy na 717 o denantiaid yn derbyn y budd-dal. Mae'r tenantiaid hyn yn parhau i fod â dyledion uwch (na thenantiaid Budd-dal Tai) a gallai hyn effeithio ar Gyfrif Busnes Tai'r Cyngor a chyfyngu ar nifer y cartrefi Cyngor newydd a adeiladir bob blwyddyn.**

O'r **717 o denantiaid Cyngor sydd wedi trosglwyddo i'r budd-dal, mae 69% ohonynt mewn dyled**, gyda'r dyledion cyfartalog ar gyfer y rhai sy'n derbyn CC yn £618, o'i gymharu â £218 ar gyfer y rheiny nad ydynt yn cael CC. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r achosion hyn yn agos iawn ac yn cynnig cyngor ariannol a chymorth tai pwrpasol parhaus yn ogystal â chydgysylltu'n agos iawn â'r Adran Gwaith a Phensiynau pan fo'n briodol, gan y gallai unrhyw ostyngiad mewn incwm rhent gael **effaith andwyol ar Gyfrif Busnes Tai'r Cyngor, a chyfyngu ar nifer y cartrefi Cyngor newydd a adeiladir bob blwyddyn.** Mae hyn wedi bod yn

arbennig o heriol yn ystod cyfnod cloi'r pandemig, gan fod mwy o denantiaid nid yn unig wedi dechrau cael CC oherwydd colli eu swyddi, ond mae eraill sy'n ynysu'n gymdeithasol ac sydd heb gardiau banc wedi methu mynd allan i gael arian parod i dalu eu rhent. Mae'r ddau wedi cael effaith andwyol ar y dyledion. Dengys tystiolaeth y bu twf yn nifer y bobl oedd yn cael CC ym mhob rhan o Fro Morgannwg rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2020 gydag 8,842 o bobl, 6.6% o'r boblogaeth, yn hawlio CC. Y broblem sy'n wynebu ein gwasanaethau tai yw sut rydym yn **gweithio gyda'n gilydd yn rhagweithiol mewn partneriaeth i ymateb i'r argyfwng hwn i helpu tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau ac atal digartrefedd.**

Er mwyn lliniaru'r cynnydd mewn dyledion, **rydym yn parhau i roi cyngor ariannol i denantiaid, gan eu cynorthwyo i sefydlu debydau uniongyrchol i dalu eu rhent** a chydgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau i hwyluso'r broses o brosesu hawliadau'n brydlon. Mae'r Grŵp Partneriaeth Credyd Cynhwysol a'r Fforwm Tai Cyffredinol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i adolygu effaith y newidiadau.

---

Mae sicrhau cynhwysiant digidol yn broses ychwanegol sydd hefyd yn gofyn i staff gael yr hyfforddiant a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi cwsmeriaid. Mae cynhwysiant digidol yn sail i Strategaeth Ddigidol y Cyngor ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau ac yn rhoi'r sgiliau a'r seilwaith i gwsmeriaid er mwyn iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau hynny. Hefyd, mae dull cydlynol o newid sianelau yn allweddol i helpu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd tra'n rhoi cymorth wedi'i dargedu drwy'r dulliau mwyaf priodol hefyd. Er bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, rydym yn cydnabod **bod mwy i'w wneud o hyd i wella hunangynhaliaeth ar-lein i gyfran o drigolion y Fro** ac yn allweddol i hyn fydd sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol gyda'n partneriaid i rannu gwybodaeth ac adnoddau i fanteisio i'r eithaf ar ein cyfleoedd i wella effeithlonrwydd a hygyrchedd gwasanaethau i holl ddinasyddion y Fro.

Rydym yn cydnabod bod llawer o'n gwasanaethau wedi gorfod addasu a newid yn gyflym mewn ymateb i'r pandemig sydd wedi arwain at ddarparu llawer o'n gwasanaethau ar-lein, ac wrth i ni barhau i symud tuag at ddefnyddio mwy o dechnoleg ddigidol mae **risg o allgáu digidol ac anghydraddoldeb**. I lawer o ddinasyddion, mae defnyddio gwasanaethau digidol yn fwy cyfleus. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r anfanteision posibl i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed a difreintiedig nad ydynt yn gallu gwe-lywio gwasanaethau ar-lein. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n dinasyddion i sicrhau bod modd defnyddio'n holl wasanaethau'n gyfartal.

---

**Bydd lleihau cyllidebau yn effeithio ar ein gallu i gynllunio'n effeithiol yn y tymor canolig i'r tymor hwy** a allai beryglu hyfywedd a llwyddiant posibl unrhyw gynlluniau cymunedol yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd adfywio sydd â diweithdra uchel. Gallai'r ansicrwydd a'r anallu i reoli'r newid hwn gael **effaith andwyol ar sefydlu cyfleoedd cyflogaeth mwy cynaliadwy** yn yr hirdymor ac yn y pen draw gyfyngu ar ein gallu i leihau tlodi.

---

Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu nifer o brojectau a ariennir gan yr UE er bod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd. Caiff pob project ei gwblhau yn 2021. **Mae ansicrwydd o hyd ynghylch cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, sydd i fod i gymryd lle arian yr UE a gollwyd o ganlyniad i adael yr UE.** Mae CLlLC a Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso am fwy o wybodaeth. Cyflwynodd y Cyngor ymateb i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ddyfodol buddsoddi rhanbarthol, gan bwysleisio y dylai penderfyniadau a chyflawni lleol fod yn elfen o unrhyw raglen gyffredinol. Profwyd bod dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn gweithio ym Mro Morgannwg wledig ac mae Llywodraeth Cymru a CLlLC hefyd o'r farn bod hyn yn ffactor pwysig o unrhyw gronfa newydd. Bydd diffyg arian Cyfalaf yr UE yn golygu **y bydd y Fro yn gweld llai o fuddsoddi mewn projectau fel mannau chwarae, tir cyhoeddus a chynlluniau treftadaeth.**

---

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ein sylw ar wella ein hagwedd at **gymorth i deuluoedd a gwasanaethau ataliol.** Yr her yw ein **gallu i ateb y galw cynyddol am y gwasanaethau hyn** tra'n sicrhau nad yw unrhyw wasanaethau a ddarperir ar draws sbectrwm ein partneriaid yn dyblygu nac yn gwrthdaro â'n nodau.

Er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i wasanaethau drwy gyfuno tair darpariaeth rhianta yn y Fro, y Bartneriaeth Rhieni Ifanc, Dechrau'n Deg a Rhoi Teuluoedd yn Gyntaf, mae cylch gwaith y gwasanaeth bellach yn gweithredu ar draws y Fro gyfan. O ganlyniad, mae **nifer sylweddol o alwadau y mae angen gweithredu ymhellach arnynt** ac rydym yn gweithio i fod yn fwy gwydn i wrthsefyll y galw am wasanaethau.

## 3.2.2 AMCAN 2: HERIAU

Mae digartrefedd yn her genedlaethol gynyddol ac yn fater difrifol i Fro Morgannwg sydd hefyd â swm sylweddol o **ddigartrefedd cudd.** Fodd bynnag, mae llawer o'r bobl hyn wedi cyflwyno eu hunain i'r Gwasanaeth yn dilyn cyhoeddi Canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn ystod pandemig COVID-19. Y rheswm am hyn yw bod dyletswydd newydd wedi'i rhoi ar yr Awdurdod i gynnig llety dros dro i bawb er mwyn osgoi lledaenu'r feirws. Yn ystod y pandemig, rhoddwyd pwerau brys i'r Tîm Datrysiadau Tai i gadw 66 o ystafelloedd gwesty a gwely a brecwast i gynyddu swm y llety brys a llety dros dro, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu defnyddio. Bydd hyn yn her fawr wrth symud ymlaen gan y bydd yn rhaid dod o hyd i gartrefi parhaol yn y sector rhent cymdeithasol a phreifat, sydd eisoes dan bwysau, ar gyfer y bobl hyn.

Bydd yn rhaid i'r Cyngor **ddod o hyd i ddatrysiadau ailgartrefu arloesol**, gan fod **mwy na 200 o bobl sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd yn aros i gael eu hailgartrefu** yn y Fro. Ym mis Mehefin 2020 roedd bron i **5,000 o ymgeiswyr tai** ar Gofrestr Tai Bro Morgannwg.

Ar hyn o bryd, nid yw effaith Credyd Cynhwysol a'r pandemig wedi cael effaith lawn ar ddigartrefedd, gan fod deddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnwys cyfyngu ar droi pobl allan o'u cartrefi, waeth beth fo'u deiliadaeth tan 23 Awst 2020, ac ar ôl hynny, gallai'r cyfyngiad hwn gael ei ymestyn. Fodd bynnag, gan fod ôl-ddyledion rhent wedi cynyddu i ymgeiswyr CC sy'n trosglwyddo i'r budd-dal hwn yn y sectorau rhent cymdeithasol a phreifat, disgwylir i **fwy o bobl cael eu troi allan o'u cartrefi ac wedyn bydd mwy o ddigartrefedd** pan fydd camau cyfreithiol a'r gallu i droi pobl allan o'u cartrefi yn ailddechrau. Mae **diffyg difrifol o lety un ystafell wely yn bryder** ar gyfer y Fro ac yn ffactor blaenoriaeth mewn cynllunio hirdymor.

---

Dengys data ar gyfer mis Ebrill a mis Mai 2020 fod nifer y **digwyddiadau sy'n ymwneud ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) a digwyddiadau cam-drin domestig risg uchel wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod cyfnod cloi Covid-19**. Ym mis Ebrill gwelsom **gynnydd o 170%** yn nifer y digwyddiadau YG y rhoddwyd gwybod amdanynt (608 o ddigwyddiadau o'i gymharu â 225 ym mis Ebrill 2019). Ym mis Mai gwelsom **gynnydd o 378%** o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (750 o ddigwyddiadau ym mis Mai 2020 o'i gymharu â 157 ym mis Mai 2019). Er na fydd y rhain wedi arwain at atgyfeiriadau, maent yn dal i fod **angen mewnbwn ac adnoddau sylweddol.** Priodolwyd y cynnydd i'r niferoedd cynyddol o bobl ifanc sydd wedi casglu mewn grwpiau mawr mewn ardaloedd lle ceir problemau fel Llynnoedd Cosmeston, Trwyn y Rhws, Ogwr a'r Knap. Fel rhan o'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach rydym wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid (gan gynnwys yr Heddlu) a'r gymuned leol i atal casgliadau mawr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yr her wrth symud ymlaen yw sut y gall y Cyngor roi ar waith **atebion hirdymor a fydd yn rhwystr effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol** heb amharu ar y ffordd y mae'r cyhoedd yn mwynhau ein cyrchfannau.

Gwelsom hefyd gynnydd yn nifer y cymdogion sy'n rhoi gwybod bod eu cymdogion yn torri cyfyngiadau'r cyfnod cloi ac mae pryder y bydd hyn yn arwain at **anghydfodau hirdymor rhwng cymdogion a phroblemau cydlyniant yn y dyfodol**. Bydd y Bartneriaeth Bro Ddiogelach yn parhau i fonitro hyn.

---

Mae'r gwasanaeth Cam-drin Domestig, Asesu ac Atgyfeirio a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg hefyd wedi profi **mwy o atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod cloi** ac mae wedi dod yn amlwg **yr effeithir ar fwy o**

**achosion gan COVID-19 nag a nodwyd yn wreiddiol.** Mae cymhlethdod sefyllfaoedd cam-drin domestig yn golygu mai dim ond ar ôl gweithio gyda dioddefwyr dros amser y bydd y graddau y mae'r pandemig yn effeithio ar sefyllfaoedd yn gallu cael eu deall. Rydym yn monitro gallu dioddefwyr i ddefnyddio gwasanaethau'n ofalus ac mae'n glir **bod diodddefwyr yn cael trafferth** o ganlyniad i gael eu 'cloi i mewn' gyda chyflawnwyr sydd weithiau'n eu rheoli a'u gorfodi'n ddifrifol. Felly, rydym yn rhagweld cynnydd arall yn y ffigurau wrth i'r cyfnod cloi barhau i gael ei lacio ac i'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau ddod yn haws.

---

Mae prinder tai yn y Fro ac mae angen 576 o dai fforddiadwy ychwanegol y flwyddyn rhwng 2017 a 2022. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â hyn, fodd bynnag, mae **effaith COVID-19, dirwasgiad posibl a Phrydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i ychwanegu haenau o ansicrwydd ynghylch rhaglen adeiladu tai'r Cyngor** a gallai gyfrannu at brinder llafur yn ogystal ag anawsterau o ran cyflenwi deunyddiau. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r farchnad ac yn cymryd camau priodol i liniaru'r effaith drwy ymgysylltu â chontractwyr lleol a dod o hyd i ddeunyddiau amgen lle bo angen.

---

Mae gwendidau o ran y trefniadau rheoli cydymffurfiaeth ac yn benodol 'ddata cydymffurfiaeth' Stoc Adeiladau Corfforaethol y Cyngor wedi gwella'n sylweddol ac mae gwaith yn parhau i reoli bylchau a nodwyd mewn cydymffurfiaeth. Mae systemau, prosesau a data ar gyfer rheoli cydymffurfiaeth adeiladau bellach yn cael eu cadw'n ganolog o fewn tîm sydd wedi'i sefydlu'n llawn, ac mae gwaith yn parhau i sicrhau ein bod wedi cydymffurfio â'n cyfrifoldebau statudol ac yn mynd ati i ddiogelu lles ein defnyddwyr gwasanaethau, ein dinasyddion a'n gweithwyr. Fodd bynnag, mae'r **costau ariannol posibl ac adnoddau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael ag unrhyw faterion diffyg cydymffurfio** yn parhau'n her i'r Cyngor o ystyried y gostyngiadau mewn cyllidebau o flwyddyn i flwyddyn.

---

Er bod gwelliannau wedi'u gwneud i brosesau sy'n ymwneud ag adnewyddu ein cartrefi gwag i'w defnyddio eto, erys nifer o achosion hirdymor lle mae eiddo'n cael gwaith strwythurol. **Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y diwrnodau gwaith a gymerir i ail-osod cartref y Cyngor i'r rhai mewn angen.** Wrth i eiddo gael gwaith atgyweirio mae rhent yn cael ei golli hefyd ond, mae meincnodi wedi nodi bod perfformiad o ran 'colli rhent' yn y Fro yn well na'r canolrif ar gyfer yr holl landlordiaid cymdeithasol ledled y DU. Er mwyn lliniaru'r her hon, rydym wedi creu is-grŵp rheoli i oruchwylio perfformiad ar bob agwedd ar reoli eiddo gwag y Cyngor. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob tri mis a bydd yn parhau i fonitro a sbarduno gwelliannau pellach mewn perfformiad.

---

Gan ein bod ni bellach wedi bodloni **Safon Ansawdd Tai Cymru**, mae'n bwysig sicrhau bod y safon yn cael ei chynnal a bod buddsoddiad yn cael ei gynllunio yn yr un modd. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r datganiad nesaf o SATC sy'n debygol o ganolbwyntio ar leihau nifer y methiannau derbyniol a dechrau mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd lefel y buddsoddiad sydd ei angen yn amrywio bob blwyddyn ac felly bydd angen addasu rhaglenni gwaith manwl bob blwyddyn.

---

## 3.1.3 ASTUDIAETH ACHOS

**FFOCWS AR: GIBBY GREEN FINGERS**

Menter les iechyd, cymdeithasol ac amgylcheddol arloesol yw **Gibby Green Fingers** a arweinir gan y gymuned ac a reolir gan grŵp o ymddiriedolwyr ymrwymedig a ddaeth ynghyd gyda'r gred cyffredin y gallant wneud gwahaniaeth trwy fuddsoddi yn eu cymuned leol. Erbyn hyn mae gan y grŵp cyfansoddol 270 o wirfoddolwyr ac mae'n defnyddio dull datblygu cymunedol a bancio amser i fanteisio ar sgiliau ac asedau yn y gymuned.

Ar y dechrau, prif nod y Tîm Cyfoethogi Cymunedau oedd **cydweithio** gyda thenantiaid ac aelodau o'r gymuned i ddatblygu menter a chymryd cyfrifoldeb am ddarn o dir gwastraff a brydleswyd yn flaenorol gan ddarparwr Tai arall ac a oedd mewn perygl o fynd yn adfeiliedig. Cefnogodd y Tîm y gymuned leol i gymryd perchnogaeth lawn o'r tir er mwyn cyflawni manteision **hirdymor** i'r gymuned ac **atal** ymddygiad

gwrthgymdeithasol a thipio anghyfreithlon ar y safle. Er bod mentrau Cyfoethogi Cymunedau'n rhan o'r gwasanaeth Tai, mae'r tîm yn gweithio **ar draws sefydliadau** gydag adran addysg a sgiliau'r Cyngor i gynnig gwasanaeth hyfforddi di-dor gan sicrhau **gwasanaeth integredig** ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth. Gellir gweld tystiolaeth o hyn drwy edrych ar sut mae'r fenter eisoes wedi helpu'r gymuned.

Mae rhan 'Gibby Green Fingers' yn y broses o gymryd awenau'r safle wedi helpu i wneud y canlynol:

- Gwella ac adfywio llain o dir a **gwella'r amgylchedd lleol**;
- Galluogi pobl leol i gymryd rhan mewn gweithgareddau **iechyd a lles** i wneud y defnydd gorau o **mannau gwyrdd**;
- **Gwella iechyd meddwl a lles pobl** a rhoi cyfle i bobl leol fod yn yr awyr agored a gweld yr effeithiau synhwyraidd a ddaw yn sgil hyn;
- Galluogi pobl i gymdeithasu â'i gilydd a manteisio ar gyfleoedd hyfforddi i **wella eu rhagolygon cyflogaeth**;
- Ymgysylltu â theuluoedd ac **ysbrydoli plant i addysgu rhieni** ar fanteision rhandiroedd a ffrwythau a llysiau a dyfir yn lleol;
- Galluogi pobl leol i ddysgu **sgiliau newydd a manteisio ar adnoddau,** gan wella gallu ac **annibyniaeth** a **hunan-barch**
- Cynnig cyfleoedd ar gyfer plannu a thyfu cymunedol sy'n **hyrwyddo byw'n iach** ac yn gwella **iechyd meddwl**;
- Hyrwyddo **gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau, digwyddiadau a gweithgareddau amlddiwylliannol**;
- Denu aelodau newydd o'r gymuned leol ac ehangach nad oes ganddynt ardd, neu bach iawn o ardd, i dyfu eu llysiau eu hunain a thrwy hynny **leihau costau bwyd a gwella bwyta'n iach**;
- Hyrwyddo projectau amgylcheddol i blant drwy ymweliadau â meithrinfeydd ac ysgolion fel y gallant ddysgu'n uniongyrchol am fod yn **ecogyfeillgar a bwyta'n dda**;
- Creu cyfleoedd **cydweithredol** gydag asiantaethau cymunedol fel cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau prawf, ysgolion, darparwyr cymorth, grwpiau lleol a grwpiau addysg yn y cartref;
- Hyrwyddo'r ethos "Ei dyfu, ei goginio, ei wneud, a'i werthu" sy'n galluogi **ymgysylltu pellach** â'r gymuned ehangach;
- **Gwella'r amgylchedd a bioamrywiaeth** drwy annog y defnydd o ddeunyddiau gwyrdd a chynyddu **ailgylchu** drwy gompostio a chreu cynefin naturiol i fywyd gwyllt ffynnu tra'n cadw mathau prin o blanhigion.

*"I unigolion sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, mae'r project yn cynnig profiadau gwirfoddoli ynghyd â chyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth drwy raglen Cyflogadwyedd a Sgiliau Cyngor y Fro a gynigir ar y cyd â'i bartner "Opportunity Knocks". Mae hyn yn rhoi cyfle i denantiaid a thrigolion lleol hyfforddi ac ennill cymwysterau perthnasol ar gyfer eu taith i gyflogaeth a hyfforddiant"*

***Mark Ellis, Swyddog Cyfoethogi a Chyfranogiad Cymunedau***

Y llynedd yn y Gynhadledd Gofal Sylfaenol Genedlaethol yng Nghasnewydd, dangosodd Gibby Green Fingers fanteision bod yn yr awyr agored a sut mae hynny'n effeithio'n gadarnhaol ar iechyd meddwl gan gysylltu hyn â manteision presgripsiynu cymdeithasol a phwysleisio sut y gall hyn liniaru problemau meddygol fel gorbryder ac iselder. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Gibby Green Fingers drwy ddefnyddio dull **integredig** o ddechrau gweithio ar broject Bancio Amser Presgripsiynu Cymdeithasol i helpu gydag iechyd a lles. Mae'r gweithgaredd hwn yn cysylltu'n ôl â'n nodau datblygu cynaliadwy drwy edrych ar ffyrdd arloesol o wella iechyd a lles tra'n achub pwrs y wlad yn yr **hirdymor.**

CYNGOR BRO MORGANNWG

Bro Lewyrchus ac Amgylcheddol Gyfrifol

ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (EBRILL 2019 - MAWRTH 2020)

**Ein statws CMG cyffredinol ar gyfer 'Bro Lewyrchus ac Amgylcheddol Gyfrifol' yw GWYRDD**

## 4.0 DATGANIAD SEFYLLFA

Mae'r Canlyniad hwn yn canolbwyntio ar ein nod o ddod yn Fro sy'n amgylcheddol gyfrifol a ffyniannus. Rydym yn cydnabod ac yn ystyried gwerth yr amgylchedd unigryw yr ydym yn byw ynddo a'r nod yw amddiffyn ein hamgylchedd i genedlaethau'r dyfodol wrth fwynhau ei brydferthwch a'i amrywiaeth.

Mae hanes cryf o brojectau adfywio llwyddiannus ym Mro Morgannwg a thros y pedair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i weithredu rhaglen adfywio ledled y Fro. Un o'n Hamcanion fu hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth a chefnogi blaenoriaeth Llywodraeth Cymru a phartneriaethau lleol i helpu pobl i mewn i waith. Mae'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Amcan hwn wedi cynnwys gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i nodi pa sgiliau sydd eu hangen a sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu swyddi. Mae hefyd wedi ein galluogi i weithio ledled y rhanbarth yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer pedwaredd flwyddyn a blwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol mewn perthynas â Chanlyniad Lles 2 a'i amcanion cysylltiedig, sef 'hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth' a 'hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd'. Mae hyn wedi cyfrannu at statws **Gwyrdd** cyffredinol ar gyfer y Canlyniad ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar gyfer y cyfnod 2019/20, mae 94% (79/84) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn cyd-fynd â'r Canlyniad hwn 'Bro lewyrchus ac amgylcheddol gyfrifol' wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. O ran yr amcan 'hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth', cwblhawyd 93.3% o'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn llwyddiannus a 94.4% mewn perthynas â'r amcan 'hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd'. Ar draws y Canlyniad, cafodd 5 gweithrediad o 84 statws coch i adlewyrchu gostyngiad ac roedd hyn yn berthnasol i 6% o'r gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer 2019/20. Gan symud ymlaen i 2020/21 byddwn yn gweithio tuag at gyflwyno Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus newydd, gan gwblhau mannau agored a gwelliannau strwythurol yn Dingle Road, Penarth a Murch Field, Dinas Powys a gweithredu'r polisi parcio ceir diwygiedig.

Mae'n bwysig nodi bod ein hadolygiad blynyddol o gynnydd ar gyfer y cyfnod 2019/20 wedi'i ysgrifennu yn ystod cyfnod heriol a digyffelyb sydd wedi gofyn i'r Cyngor ymateb i bandemig byd-eang (COVID-19). Rydym wedi asesu cynnydd ein gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer y cyfnod ac wedi defnyddio data perfformiad lleol lle mae wedi bod ar gael. Fodd bynnag, nid yw agweddau penodol ar berfformiad, yn bennaf data meincnodi a gwybodaeth dangosyddion perfformiad genedlaethol diwedd y flwyddyn wedi bod ar gael i'n galluogi i gymharu ein perfformiad gan fod ein rhwymedigaethau ystadegol statudol gan Lywodraeth Cymru a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Cymru wedi'u hatal am gyfnod amhenodol.

Yn ystod 2019/20, rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol i ddatblygu trafnidiaeth, seilwaith, cymorth busnes, adfywio, cynllunio a thai drwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Y tu hwnt i gyflawni rhaglen ariannu, mae datblygiadau fel Brexit a cholli cyllid yr UE wedi golygu y bydd y Fargen Ddinesig yn allweddol i sicrhau cynaliadwyedd a gwydnwch rhanbarthol. Mae'r angen i hyrwyddo'r Maes Awyr a Sain Tathan fel canolfannau ar gyfer twf economaidd a chreu swyddi yn arbennig o berthnasol i'r Fro dan y Fargen Ddinesig, gan wella mynediad strategol i'r Fro ac adfywiad parhaus y Barri. Mae datblygiadau allweddol fel Parc Busnes y Maes Awyr wedi symud ymlaen gyda chynhyrchu Uwchgynllun Maes Awyr a gwaith parhaus y Cyngor o ddatblygu canllawiau cynllunio atodol ynghylch datblygiadau'r Maes Awyr a pharc busnes cysylltiedig. Mae gwaith wedi mynd rhagddo hefyd ar sicrhau cefnogaeth ranbarthol gref ar ffurf rhaglen grant thematig i gefnogi canolfan fasnachol y Barri (bron i £1 filiwn dros 2 flynedd) a datblygu cyfnewidfa drafnidiaeth i'r Barri, gan sicrhau bod teithwyr yn symud yn ddidrafferth o'r rheilffordd i'r bws.

Rydym yn awyddus i ddenu buddsoddiad newydd i’r Fro ac am helpu busnesau sydd eisoes yma i dyfu. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweithio’n agos gyda phartneriaid gan gynnwys Llywodraethau Cymru a’r DU i gynnig unrhyw gymorth ymarferol y gallai fod ei angen ar fusnesau. Mae nodi safleoedd buddsoddi, manteisio ar gymorth busnes a chyfeirio at arian grant yn rhai o’r gwasanaethau yr ydym wedi eu cynnig gydol y flwyddyn. Er enghraifft, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i fusnesau lleol o'r buddsoddiad ym Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid fel Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru i gynnal digwyddiadau thema sy'n ymwneud â'r Ardal Fenter: Ym mis Chwefror 2020, cymerodd y Cyngor ran yn wythnos "Cymru yn Llundain" gyda nifer o bartneriaid megis Associated British Ports a Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal gweithdai "Mentro" rheolaidd yn ei adeiladau ar gyfer busnesau newydd a lleol.

Gan adeiladu ar y cyfleoedd a gynigir gan y Fargen Ddinesig, rydym wedi creu cynlluniau teithio cynaliadwy ac yn parhau i annog teithio iach a llesol drwy hyrwyddo cerdded a beicio i weithwyr, trigolion ac ymwelwyr â'r Fro. Yn ystod 2019/20, gwariwyd tua £1,797,800 ar gynlluniau teithio cynaliadwy gan ddefnyddio cyfraniadau Adran 106 o ran cefnogi gwelliannau i deithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy. Mae enghreifftiau o welliannau a wnaed yn cynnwys gwelliannau i droedffyrdd gan gynnwys cyrbiau isel a chroesfannau nas rheolir, gwelliannau i gerddwyr a throedffyrdd, sybsideiddio gwasanaethau Greenlinks a gwelliannau diogelwch mewn safleoedd bysus. Mae un ar ddeg o safleoedd bysus wedi'u huwchraddio yn y Fro, a baneri safleoedd bysus newydd wedi’u gosod ar hyd coridor yr A48. Byddwn yn parhau â'n rhaglen o uwchraddio safleoedd bysus o amgylch y Fro gydag arian yn y dyfodol yn ogystal â gosod Byrddau Gwybodaeth Electronig i gyfathrebu â'n dinasyddion yn 2020/21.

Mae'r Cyngor wedi bod yn aelod gweithgar o Siarter Staff Iach y Fro, a lofnodwyd ym mis Hydref 2019, ac mae wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel rhan o'i ymrwymiad i annog staff i deithio'n llesol rydym wedi ail-gyflwyno 9 beic cronfa i'r gwasanaeth ac wedi prynu 2 E-feic a byddwn yn ail-gyflwyno'r cynllun Beicio i’r Gwaith ym mis Gorffennaf 2020. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'n partner, Nextbike, ar waith rhagarweiniol i gyflwyno cynllun llogi beiciau ym Mhenarth a fydd yn cael ei lansio yn hanner olaf 2020.

Fel rhan o'r rhaglen Fuddsoddi Adfywio a Dargedir, rydym yn parhau i adfywio'r 19 erw o dir yn llwyddiannus ochr yn ochr â Doc y Barri yn ardal drefol defnydd cymysg cyffrous. Hwyluswyd amrywiaeth o ddatblygiadau hyd yma gyda gwahanol ddatblygwyr, gan gynnwys y Barry Pumphouse llwyddiannus gyda'i gymysgedd o unedau preswyl gwaith-byw, Academy Coffee, Bwyty Hangfire a Champfa, Gwesty Premier Inn ag 80 gwely a Bwyty Brewers Fayre, Canolfan Feddygol Cei'r Gorllewin a dwy Ganolfan Gwasanaethau Busnes a weithredir gan y Cyngor sy'n cynnig ystod fodern o ofod swyddfa a gweithdy.

Er gwaethaf y pandemig, mae datblygiadau newydd yn parhau yn yr Ardal Arloesi gyda datblygwyr ar y safle ar hyn o bryd yn trosi hen adeilad Sied Nwyddau rheilffordd yn gymysgedd cyffrous o unedau masnachol, busnes a phreswyl ynghyd ag adeiladu Pentref Cynwysyddion Llongau ar gyfer defnyddiau masnachol,

busnes a hamdden.  Yn ogystal, mae bloc newydd o 42 o fflatiau marchnad fforddiadwy a phreifat yn cael eu hadeiladu fel rhan o'r cynllun ar gyfer Cymdeithas Tai Newydd.  Disgwylir i'r Project Trosi'r Sied Nwyddau a'r Pentref Cynwysyddion Llongau uchelgeisiol gael ei gwblhau yn ystod yr Haf a'r fflatiau erbyn diwedd yr Haf/Hydref.   O ystyried y pandemig presennol, mae'r datblygwr ar hyn o bryd yn addasu datblygiad y Sied Nwyddau i'w wneud yn lle diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae campws addysgol newydd o'r radd flaenaf ar y gweill gan Goleg Caerdydd a'r Fro, yn amodol ar arian a chydsyniadau statudol.  Bydd y campws yn eistedd ochr yn ochr ag Ysgol Gynradd newydd ar y Glannau yn y Barri y cynigir ei hadeiladu a'i hagor dros y blynyddoedd nesaf.

Yn unol â'n hymrwymiad i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn ffurfiol ym mis Mehefin 2017. Mae'r CDLl yn cynnwys y cynllun datblygu ar gyfer yr awdurdod ac yn cynnig fframwaith polisi strategol a manwl ar gyfer Bro Morgannwg. Mae'r Cynllun yn rhoi sicrwydd i fuddsoddwyr ac felly mae'n gwneud buddsoddiad yn yr ardal yn fwy tebygol tra amcangyfrifir y bydd datblygu'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd yn creu 7,610 - 10,610 o swyddi posibl yn ystod cyfnod y Cynllun. Dangosodd Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf y CDLl a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2019 fod y CDLl yn cyflawni ei nodau a'i amcanion.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cyngor gyfraniadau ariannol gwerth £10,471,766.77 i greu seilwaith cymunedol a thai fforddiadwy. Yn y 12 mis rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, llofnodwyd cyfanswm o 24 o gytundebau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio. Cyfanswm gwerth y cyfraniadau ariannol yn y cytundebau hyn yw £3,713,242.73. Bydd y cyfraniadau ariannol a sicrhawyd drwy'r cytundebau cyfreithiol hyn yn cael eu defnyddio i ddarparu neu wella cyfleusterau oddi ar y safle, megis gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy a seilwaith, mannau agored cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol, celf gyhoeddus a chyfleusterau addysgol.

Mae gofynion y rhwymedigaethau cynllunio a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn hon hefyd wedi cynnwys rhwymedigaethau talu mewn ffyrdd eraill megis darparu tai fforddiadwy ar y safle, gofod agored cyhoeddus ar y safle a chelf gyhoeddus.  Er enghraifft, yn ystod 2019/20, rhoddwyd caniatâd cynllunio gennym ar gyfer 306 o dai fforddiadwy, cynaliadwy yn y Fro a buom yn gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu 280 o unedau tai fforddiadwy newydd o ganlyniad i Gytundebau Adran 106.

Cafodd £6,529,159.89 ei wario ar gynlluniau yn ystod 2019/20, gyda chyfraniadau Adran 106 yn llawn (neu'n rhannol) yn cefnogi gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, celf gyhoeddus a gwelliannau i fannau agored. Mae'r cynlluniau wedi cynnwys uwchraddio mannau chwarae yn Nhwyn yr Odyn, Y Murch yn Ninas Powys a Thregolwyn; parc sglefrio newydd yng Nghaeau Chwarae Cogan; gwelliannau i lwybrau troed a throetffyrdd yn Ystradowen, Old Port Road, Gwenfô ac Aberogwr. Mae cyfleusterau addysgol newydd, gan gynnwys meithrinfa newydd yn Ysgol Gynradd Gatholig St Joseff ac Ysgol Gynradd y Wig, hefyd wedi derbyn arian.

Mae twristiaeth yn hanfodol i'r Cyngor ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi a datblygu ein heconomi ymwelwyr. Mae Bro Morgannwg yn parhau i ffynnu fel cyrchfan lwyddiannus i ymwelwyr flwyddyn ar ôl blwyddyn fel y gwelwyd yn arolwg diweddaraf STEAM (2019) a ddangosodd fod nifer yr ymwelwyr â'r Fro wedi cynyddu o 4.26 miliwn yn 2018 i 4.33 miliwn yn 2019, cynnydd o 1.3%. Cynyddodd cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn y Fro gan 4.0% o £250.07m yn ystod 2018 i £275.05 yn 2019. Mae'r perfformiad calonogol hwn yn ein galluogi i gyflawni ein nodau corfforaethol yn ogystal â'r weledigaeth fel y nodir yn ein Cynllun Rheoli Cyrchfannau.

Mae twf cynyddol mewn twristiaeth yn cefnogi twf economaidd a chyfleoedd cyflogaeth. Cydnabuwyd yn ein Cynllun Rheoli Cyrchfannau fod ymestyn y tymor twristiaeth y tu hwnt i wyliau traddodiadol yr haf yn allweddol ac y bydd yn hyrwyddo amgylchedd economaidd mwy sefydlog a chynaliadwy. Gyda hyn mewn golwg, mae Bro Morgannwg wedi parhau i gynnig digwyddiadau cyffrous ac amrywiol drwy gydol y flwyddyn, o Benwythnosau Ynys y Barri poblogaidd sy'n cynnwys sinemâu awyr agored, gwyliau bwyd stryd a cherddoriaeth fyw, i Sioeau Trafnidiaeth a digwyddiadau triathlon.

Bydd yr heriau diweddar a gyflwynwyd gan y pandemig Covid-19 yn cael effaith ddinistriol yn lleol nid yn unig ar y busnesau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â Thwristiaeth, ond hefyd y gymuned ehangach sy'n dibynnu ar y diwydiant drwy waith a chyflenwad nwyddau gan ddarparwyr lleol. Cyflogir bron i 3,000 o bobl mewn rolau sy'n cefnogi'r diwydiant twristiaeth ac mae tystiolaeth yn awgrymu na fydd llawer o fusnesau'n goroesi os bydd y sefyllfa bresennol yn parhau'n hirdymor, gan arwain at golli nifer fawr o swyddi. Dangosodd arolwg effaith Baromedr Twristiaeth (Coronafeirws (COVID-19) a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2020 fod tua chwarter (23%) o fusnesau yn disgwyl goroesi'r tri mis nesaf os bydd y cyfnod cloi yn parhau, tra bod tri o bob deg (30%) ddim yn gwybod am ba hyd y gallant oroesi.
Rydym yn cydnabod bod system drafnidiaeth effeithlon ac effeithiol yn helpu i gynyddu nifer y bobl sydd am fyw, gweithio a threulio amser hamdden ym Mro Morgannwg sydd yn ei dro yn adeiladu cymunedau lleol cryf a bywiog. Rydym hefyd yn deall bod ein priffyrdd yn un o'n hasedau mwyaf a chyda hyn mewn golwg rydym wedi gweithio i greu nifer o gynlluniau system drafnidiaeth yn fwyaf nodedig y gwelliannau a wnaed i'r Lôn Pum Milltir. Er bod y cynllun hwn bron â'i gwblhau, bydd gwaith yn parhau yn ystod 2020 i sicrhau bod materion diogelwch ar y ffyrdd a draenio wyneb yn cael eu datrys. Ers dechrau gweithio ym mis Chwefror 2018, rydym wedi gosod 2.4km o lwybr beicio newydd a 6.6km o ffordd newydd a gwell, wedi cyflwyno parth terfyn cyflymder 60mya, wedi plannu 24,500 o goed a mwy na 2,400 o berthi ac wedi gosod croesfannau ystlumod a mamaliaid. Gwnaethom hefyd ddatgelu 450 o weddillion o'r oes efydd, haearn a Rhufeinig fel rhan o sesiwn cloddio archeolegol.

Rydym wedi parhau i weithredu ein Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) i wella hygyrchedd, diogelwch ar y ffyrdd, ansawdd aer a lleihau tagfeydd. Un angen sydd wedi'i nodi gan y Cynllun Trafnidiaeth Lleol yw gwella trafnidiaeth, seilwaith a gwasanaethau cynaliadwy a all gyfrannu at leihau effeithiau negyddol ceir ar yr amgylchedd, lleihau tagfeydd, gwella iechyd a lles, a gwella mynediad at gyflogaeth, iechyd ac addysg tra'n lleihau'r risg o ddamweiniau ffordd. Gwnaed hyn drwy gael astudiaethau ar goridor trafnidiaeth gynaliadwy morglawdd Penarth i forglawdd Caerdydd, cyffordd 34 yr M4 i goridor trafnidiaeth yr A48 a rhoi amrywiaeth o fesurau teithio llesol ar waith ledled y Fro.

Ym mis Gorffennaf 2019, ymunodd Cyngor Bro Morgannwg â Llywodraeth Cymru a chynghorau eraill ledled y DU i ddatgan Argyfwng Hinsawdd. Wrth wneud hynny fy wnaethom addo i leihau ein hallyriadau carbon i swm net o ddim cyn targed Llywodraeth Cymru, sef 2030, a chefnogi gweithredu Cynllun Cyflawni Carbon Isel newydd Llywodraeth Cymru, er mwyn helpu i wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru. Gallai cynnwys goblygiadau allyriadau defnydd tir a chaffael o fewn ein cyfrifon carbon drawsnewid ein Cynllun Rheoli Carbon yn y blynyddoedd i ddod a bydd y gwaith hwn yn cael ei lywio gan gynllun peilot diweddar Llywodraeth Cymru o fethodoleg fesur, a fydd ar gael maes o law. Yn y cyfamser, rydym yn parhau â'n hymdrechion i leihau allyriadau o'n hadeiladau, goleuadau stryd a cherbydau.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom barhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i ddatblygu dulliau arfer gorau a'u rhoi ar waith er mwyn cyflawni gostyngiadau carbon a helpu i gyfyngu ar y cynhesu byd-eang. Mae rhai o'n cyflawniadau allweddol yn cynnwys; gostyngiad yn nifer y swyddfeydd sy'n cael eu defnyddio oherwydd cyflwyno technoleg gweithio o bell sydd wedi galluogi staff i weithio gartref a lleihau teithio; trosi 67% o oleuadau stryd i lampau LED; mabwysiadu ymagwedd ffabrig yn gyntaf at unedau tai cymdeithasol newydd gan sicrhau bod cartrefi wedi'u hinswleiddio'n dda ac yn thermol effeithlon; 216m2 o barciau, mannau agored a thir priffyrdd a heuir â blodau gwyllt neu a gynhelir fel ardal wedi'i chynefino; cyflwyno gwasanaethau ailgylchu newydd a lleihau'r defnydd o fagiau plastig; gwella trafnidiaeth gynaliadwy a phrynu cerbydau hybrid a 100% ynni adnewyddadwy o'r grid.

Yng ngham cyntaf y Cynllun Rheoli Carbon, gwnaethom leihau allyriadau 21.3% yn erbyn targed o 20%. O ran arbedion ariannol ar gyfer 2019/20, o gymharu â 2018/19 arbedwyd tua £50,000 mewn costau ynni. Gwnaed yr arbedion hyn drwy leihau costau goleuadau stryd yn ogystal â buddsoddiad cyfalaf mewn offer mwy effeithlon a'r defnydd o fenthyciad Salix y Cyngor (benthyciad di-log gan Lywodraeth Cymru i bob pwrpas). Ers 2016, mae ein defnydd o drydan wedi gostwng o 19 miliwn kWh y flwyddyn i 15.5 miliwn kWh, gostyngiad o 18.4%. Yn ogystal, ar gyfer nwy a thrydan, mae ein hallyriadau carbon wedi gostwng o 12,158

Tunnell i 7,161 Tonnes, gostyngiad o 41.1%. Nodwyd targed o ostyngiad o 12% mewn allyriadau CO2 dros gyfnod y cynllun ar gyfer y cam nesaf.

Gan ddwyn ynghyd y gwaith a wnaed drwy'r Bwrdd Cipolwg, ymgysylltu â staff, y gweithgor ar y newid yn yr hinsawdd a thrafodaethau fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol newydd, rydym bellach yn gweithio gyda phartneriaid i gwblhau a chytuno ar Siarter Argyfwng Hinsawdd ar gyfer newid. Bydd y Siarter yn manylu ar y camau cadarnhaol y gallwn eu cymryd, er enghraifft, plannu mwy o goed a chynyddu nifer y cerbydau trydan/hybrid yn ein fflyd a bydd yn pwysleisio'r angen i leihau ein gwastraff, y defnydd o blastigau untro a faint o ynni a ddefnyddiwn. Bydd yn tynnu sylw at yr angen i bartneriaid gydweithio a rhoi arweiniad o ran codi ymwybyddiaeth am newid yn yr hinsawdd, polisïau caffael a gwerthfawrogi'r amgylchedd.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi parhau i wneud cynnydd tuag at ddatblygu Strategaeth Lleihau Gwastraff ac ailfodelu ein seilwaith rheoli gwastraff. Mae’r ffaith i ni gyflwyno cyfyngiadau ar fagiau du ym mis Medi 2018 yn parhau i gael effaith gadarnhaol gan ein galluogi i gyflawni ein nod o gynyddu cyfranogiad mewn ailgylchu ymhellach, lleihau twf gwastraff trefol a bwrw targedau statudol cenedlaethol.

Mae'r project cyfyngu ar fagiau du wedi cyfrannu at y Cyngor yn cyflawni cyfradd ailgylchu o 70.37% sy'n fwy na'r targed statudol o 64% ar gyfer 2019/20 (mae'r ffigur hwn yn aros i gael ei wirio). Yn ogystal, rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd i wella'r driniaeth gwastraff organig er mwyn sicrhau gwasanaeth rheoli gwastraff cynaliadwy mewn ymateb i'r heriau amgylcheddol a lleihau carbon sy'n wynebu Cymru. Bydd y trefniant hwn yn cyfrannu ymhellach at wella ein perfformiad o ran ailgylchu a chompostio gwastraff.

Mae gan Gymru drefn gasglu gadarn a chyda chymorth Llywodraeth Cymru, rydym wedi cyflwyno'r Glasbrint Casgliadau o fewn traean o'r Fro a byddwn yn parhau i gyflwyno hyn drwy weddill yr ardaloedd yn y Fro yn ystod 2020/21. Mae'r Glasbrint yn nodi'r dull a argymhellir o gasglu gwastraff er mwyn sicrhau gwasanaethau casglu fforddiadwy a chynaliadwy ar gyfer gwastraff ailgylchadwy, compostio a gweddilliol.

Yn ystod Haf 2019, cyflawnodd 7 o’n traethau ddyfarniadau sy’n gwarantu amgylchedd glân, diogel, deniadol, wedi’i gynnal a’i gadw’n dda i ymwelwyr. Dyfarnwyd Fflagiau Glas a gydnabyddir yn rhyngwladol gan y Sefydliad Addysg Amgylcheddol i Fae Whitmore, Southerndown a Marina Penarth, gyda'r ddau gyntaf hefyd yn derbyn Gwobrau Glan Môr, gyda Jacksons Bay a Cold Knap. Y Wobr Glan Môr yw'r safon genedlaethol ar gyfer y traethau gorau ac mae'n symbol o ansawdd sy'n sicrhau bod ymwelwyr yn gallu mwynhau darn arfordirol glân, deniadol sy'n cael ei reoli'n dda. Rydym hefyd yn gweithio'n agosach gyda'n cymunedau i sicrhau gwelliannau amgylcheddol i barciau, mannau chwarae, rhandiroedd a safleoedd hamdden awyr agored. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae 10 o'n parciau wedi cadw'r Faner Werdd arbennig gan brif elusen amgylcheddol Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus tra bod 13 o safleoedd wedi derbyn Gwobr Gymunedol.

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd ein Blaengynllun Bioamrywiaeth yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn "ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau'n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau". Mae'r Cynllun yn manylu ar y dulliau a'r camau gweithredu a fydd yn cael eu defnyddio i gyflawni ein nodau ym Mro Morgannwg i atal dirywiad bioamrywiaeth, lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy tra'n helpu hefyd i gyflawni ymrwymiadau'r Cyngor dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd gweithredu'r Cynllun yn sicrhau bod pob elfen o les yn cael ei hystyried gyda'i gilydd ac yn hwyluso cydweithio. Caiff cynnydd ei adolygu a'i adrodd bob tair blynedd a chaiff y Cynllun ei adolygu a'i ddiweddaru ar ddiwedd pob cyfnod adrodd o 3 blynedd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol.

Rydym yn parhau i leihau’r perygl o lifogydd ac effaith llifogydd ar erydu arfordirol drwy weithredu'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd, gan gyfrannu at gyflawni Strategaeth Genedlaethol Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae archwiliadau o asedau hanfodol wedi parhau gydag enghreifftiau megis monitro ac arolygiadau wythnosol o ardal storio llifogydd Dyfan Road, a adeiladwyd fel

rhan o Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Dalgylch Coldbrook, drwy gydol y flwyddyn i fodloni gofynion y peiriannydd cronfa ddŵr penodedig.

Yn 2019/20, cwblhawyd cynllun llifogydd bach ar Gaeau Chwarae Pencoedtre, gan ymgorffori bwnd a phant i reoli perygl llifogydd dŵr wyneb i sawl eiddo. Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys plannu gyda chymysgedd dôl o flodau gwyllt er mwyn sicrhau manteision amgylcheddol ac ecolegol ehangach. Mae'r gwaith o gyflawni cynllun rheoli perygl llifogydd ar gyfer pentref Llanmaes yn parhau, gydag ymgynghorwyr yn gweithio ar y dyluniad manwl wrth i drafodaethau ddechrau gyda thirfeddianwyr yr effeithir arnynt. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2020/21.
Mae’r pandemig COVID-19 byd-eang wedi arwain at lawer o newidiadau yn y ffordd rydym yn gweithio, sut rydym yn darparu gwasanaethau a sut rydym yn byw ein bywydau. Bydd y newidiadau hyn yn peri i ni ystyried ar beth i ganolbwyntio er mwyn mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd wrth i ni geisio cyflawni hinsawdd cynaliadwy ac adfer sy’n dda i natur. Mae gennym y cyfle i adeiladu ar yr enillion a wnaed yn ystod y pandemig a chydnabod yr effaith enfawr y mae natur a’r amgylchedd yn ei chael ac yn parhau i’w chael ar ein lles corfforol a meddyliol yn yr hirdymor.

Wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer gwaith yn 2020-21, byddwn yn adolygu lle y gallwn gael yr effaith gadarnhaol fwyaf. Gan weithio â’n partneriaid rydym yn wynebu’r her o sicrhau bod y ffordd i wella yn wyrdd a sicrhau bod y newidiadau o ran ymddygiad rydym eisiau eu cadw yn cael eu cefnogi. Er enghraifft, cadw elfennau o gynnydd o ran gweithio gartref, gwasanaethau ar-lein a gostyngiad mewn teithiau car ynghyd â datblygu teithio amgen cynaliadwy a newidiadau i sut rydym yn rheoli ein hadeiladau, ein gwastraff a’n defnydd o ynni. Yn ogystal, bydd angen i ni ailystyried sut rydym yn cynnwys pobl mewn sgwrs gymunedol er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn ystyrlon ac yn adlewyrchu newidiadau sy’n deillio o’r pandemig.

Wrth symud ymlaen i flwyddyn 1 ein Cynllun Corfforaethol newydd (2020-2025), rydym wedi ymrwymo i ymateb yn rhagweithiol i'r pwysau cynyddol i wneud mwy gyda llai ac mae'n siŵr y bydd hyn yn herio ein huchelgeisiau, yn enwedig o ystyried costau digynsail pandemig diweddar COVID-19. Ochr yn ochr â’r hyn rydym wedi’i ddysgu trwy ein profiad o’r argyfwng hwn, byddwn yn ailystyried y blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol a defnyddio hyn yn blatfform i lywio ein gwaith o ddatblygu atebion lleol a fydd yn helpu i fagu gwydnwch yn y tymor byr, hir a chanolig. Byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaid i chwilio am ein cyfleoedd a manteisio i'r eithaf arnynt i'n helpu i gyflawni'r gorau i ddinasyddion y Fro.

## 3.1 YR HYN RYDYM WEDI EI GYFLAWNI

## 4.1.1 AMCAN 3: LLWYDDIANNAU

Yn ystod 2019/20 rydym wedi **adfywio mannau cyhoeddus** drwy uwchraddio mannau chwarae yn Nhwyn yr Odyn a Thregolwyn;
Rydym hefyd wedi uwchraddio ac ehangu'r ardal chwarae yn y Murch, Dinas Powys. Rydym wedi dechrau gweithio ar ardal gemau aml-ddefnydd newydd yng Nghaeau Chwarae King George V (a elwir hefyd yn Gaeau Chwarae Lewis), Llandochau ac wedi gosod rheiliau newydd a **gwelliannau bioamrywiaeth ym** Mannau Agored Dingle, Penarth ochr yn ochr â phroject mynedfa Celf



Gyhoeddus.



Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid fel Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru i gynnal **6 digwyddiad thema sy'n ymwneud â'r Ardal Fenter**. Roedd **340 o bobl yn bresennol** yn y digwyddiadau hyn a oedd yn cynnwys Automotive, Qatar Briefing and export, GwerthwchiGymru, Trafnidiaeth Cymru, Brexit, Sain Tathan ac Arloesedd a busnesau newydd. Bydd y digwyddiadau hyn yn cyfrannu at sicrhau'r budd mwyaf posibl i fusnesau lleol o'r buddsoddiad ym Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan.

Mae'r project gwerth £9m i drosi hen adeilad Sied Nwyddau'r rheilffordd a'r tir cyfagos yn Hood Road, Glannau'r Barri, wedi dod ymlaen yn dda yn ystod 2019/20. Bydd **cynllun trefol defnydd cymysg yn cynnwys pentref cynwysyddion llongau unigryw a chyfadeilad fflatiau** ac yn agor ddiwedd haf 2020. Mae'r Cyngor wedi dod i gytundeb â datblygwyr i drawsnewid yr adeilad yn swyddfeydd, unedau manwerthu a bwytai. Ochr yn ochr â Rheilffordd Twristiaeth y Barri, bydd bloc preswyl pum llawr newydd ar y safle a weithredir gan Tai Newydd, **a fydd yn cynnig 42 o gartrefi newydd, gyda 23 ohonynt yn unedau tai fforddiadwy.**

**Parhaodd twristiaeth i gynyddu** yn 2019/20 gyda rhaglen Penwythnosau Ynys y Barri yn denu niferoedd uchel o ymwelwyr. Cafodd **56,000** o ymwelwyr eu denu i'r gyrchfan yn ystod y flwyddyn sy'n gynnydd pellach o'i gymharu â **55,000** o ymwelwyr y




llynedd.



Er mwyn cefnogi busnesau newydd a lleol a hyrwyddo twf economaidd rydym wedi bod yn cynnal digwyddiadau a gweithdai ar draws y Fro. Ers 2017 rydym wedi cynnal **4 digwyddiad dechrau busnes** am ddim a ddenodd **373** o fynychwyr, **Theatr ariannu** yn Sioe'r Fro a ddenodd **91** o fynychwyr a chynnal **65** o weithdai Busnes Cymru. Cefnogi 580 o bobl.

Yn yr Arolwg Barn



Gyhoeddus diweddaraf, 2018/19, gofynnwyd i breswylwyr pa mor fodlon oeddent ar yr arfordir treftadaeth. Roedd bron pawb **(99%)** yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar yr **arfordir treftadaeth** yn gyffredinol a'r llwybrau arfordirol yn y Fro **(99%).** Roedd dros 9 o bob 10 hefyd yn fodlon ar y **cyfleusterau yn Ynys y Barri (94%)** ac Ynys y Barri yn gyffredinol **(93%).** Mae lefelau boddhad wedi cynyddu ers yr arolwg diwethaf.

Mae'r Cyngor wedi sicrhau **£1,797,800** o arian Adran 106 ar gyfer **cynlluniau trafnidiaeth** yn y Sir a ddefnyddir ar gyfer projectau fel gwelliannau diogelwch ar y ffyrdd. Cafwyd grantiau hefyd ar gyfer gwella cyffyrdd, cyfleoedd trafnidiaeth gynaliadwy a gwelliannau i lwybrau teithio llesol i hyrwyddo cerdded a beicio.



Yn ôl STEAM 2019 (Model Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough) cynyddodd nifer yr ymwelwyr i'r Fro o **4.26** miliwn yn 2018 i **4.33** miliwn yn 2019. Cynyddodd cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn y Fro gan **4.0%** i **£275m** yn ystod 2019. Hefyd cafwyd cynnydd o **5.5%** yn y cyfanswm cyflogaeth twristiaeth yn y Fro yn ystod 2019.



Mae'r Cyngor yn cynnig Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol i'w holl ysgolion cynradd i **annog teithio diogel a llesol**. Yn ystod 2019/20, pasiodd **1,473** o ddisgyblion yr hyfforddiant Safon Genedlaethol ar Lefel 1 a 2. Hefyd, cafodd Hyfforddiant Kerbcraft a Cherddwyr Ifanc ei gyflwyno i **895** o ddisgyblion oedran cynradd yn ystod y flwyddyn.

Mae effaith economaidd Twristiaeth wedi parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2017, ymwelodd **415,000** o bobl ag Ynys y Barri yn aros am **420,000** diwrnod gydag effaith economaidd o **£15.2M.** Yn 2018, ymwelodd **425,000** o bobl ag Ynys y Barri yn aros am **431,000** diwrnod gydag effaith economaidd o **£16.2M.** Yn 2019, ymwelodd amcangyfrifiad o **424,000** o ymwelwyr yn aros am **434,000** diwrnod, gydag effaith economaidd o**£17.1M**



Yn ystod 2019/20 defnyddiwyd cyfraniadau datblygwyr i wneud gwelliannau i **drafnidiaeth gynaliadwy** gan gynnwys; Gweithredu safle a lloches bws newydd yn Ystradowen; Gwelliannau i droedffyrdd yn Ystradowen, gan gynnwys cyrbau isel a chroesfannau nas rheolir; Cynllun **gwella llwybrau troed** yn Fferm Goch; **Gwelliannau i gerddwyr** ar Old Port Road y tu allan i Ysgol Gynradd Gwenfô; **Gwelliannau i droedffyrdd** ledled Aberogwr; **Gwelliannau diogelwch** yn y safle bws y tu allan i Ysgol Gynradd Saint-y-brid a gwelliannau ar gyffordd-gylchfan Windsor Road / Plassey Street ar gyfer **cerdded a beicio.**

Derbyniodd pob Ysgol Gynradd yn y Fro **4 beic cydbwysedd** i'w defnyddio mewn ysgolion i annog ymddygiad beicio cadarnhaol cynnar. Gwnaethom hefyd wella cyfleusterau teithio llesol drwy **osod 5 lloches beicio mewn Ysgolion Cynradd yn ogystal ag 1 pod i sgwteri**.



# 4.1.2 AMCAN 4: LLWYDDIANNAU

Cafodd **70.37%** o **wastraff y cartref** a gasglwyd yn 2019/20 naill ai ei baratoi i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu. Mae'r **perfformiad hwn yn rhagori ar y targed statudol presennol a'r targed ar gyfer 2019/20 (64%).** Mae'r cynnydd o ran perfformiad o'r llynedd **(67%)** yn deillio o'r newidiadau i'r gwasanaeth ailgylchu a gwastraff a gyflwynwyd gennym yn ddiweddar; yn benodol, y cyfyngiadau ar wastraff gweddilliol wrth ymyl y ffordd ac mewn Canolfannau



Ailgylchu Gwastraff y Cartref a gyflwynwyd ym mis Medi 2019.


Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, mae cyfanswm o **24** cytundeb cyfreithiol wedi'u llofnodi sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio. Cyfanswm gwerth y cyfraniadau ariannol yn y cytundebau hyn (**a elwir Adran 106**) yw **£3,713,242.73**.

Defnyddir y cyfraniadau ariannol a sicrhawyd drwy'r cytundebau cyfreithiol hyn i ddarparu neu wella cyfleusterau oddi ar y safle, megis gwasanaethau trafnidiaeth a seilwaith gynaliadwy, mannau agored cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol, celfyddyd gyhoeddus a chyfleusterau addysgol i **sicrhau bod cymunedau cynaliadwy yn cael eu datblygu** yn y Fro.



Cawsom **7** dyfarniad am ein mannau arfordirol i gydnabod eu hansawdd uchel; **Dyfarnwyd Baneri Glas i Fae Whitmore, Southerndown a Marina Penarth** gan y Sefydliad Addysg Amgylcheddol, gyda'r ddau gyntaf hefyd yn derbyn Gwobrau Glan Môr, ynghyd â **Jacksons Bay a Knap Cold.** Mae'r wobr safon aur hon yn sicrhau bod ymwelwyr yn gallu mwynhau darn o arfordir glân, diogel, deniadol sy'n cael ei reoli'n dda.

Yn 2019/20, rhoddodd yr Aelodau gymeradwyaeth i gyfraniadau Adran 106 i gefnogi nifer o geisiadau am arian. Un enghraifft o ddyfarnu **£1,900 i Wild About Nature**, Dinas Powys ar gyfer offer a chyfarpar. Nod y grŵp cymunedol yw gwneud Dinas Powys mor **ystyriol o fywyd gwyllt** â phosibl. O ddenu gwenyn i erddi i blannu safleoedd cymunedol fel hafan i fywyd gwyllt yn helpu **natur i ffynnu**.





Mae perfformiad awdurdodau lleol wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio yn hanfodol er mwyn galluogi datblygiadau i ddarparu perchentyaeth, adeiladu cartrefi y gall pobl fforddio eu prynu a chefnogi twf economaidd. Rydym yn falch o adrodd, yn ystod 2019/20, **penderfynwyd ar 95% o geisiadau cynllunio deiliaid tai o fewn yr 8 wythnos ragnodedig** (neu'n amodol ar Gytundeb Perfformiad Cynllunio neu Ymestyn Amser).

Gofynnwyd i breswylwyr pa mor fodlon oeddent ar yr agweddau amrywiol ar wasanaethau **ailgylchu a rheoli gwastraff** fel rhan o Arolwg Barn Gyhoeddus 2018/19.



Roedd dros 9 o bob 10 preswylydd yn fodlon ar gyfleusterau ailgylchu gwastraff bwyd **(95% yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon),** cyfleusterau ailgylchu gwastraff gardd **(95%),** cyfleusterau ailgylchu **(94%)** a chanolfannau ailgylchu **(94%).**

Yn 2019/20, cwblhawyd **cynllun llifogydd bach ar Gaeau Chwarae Pencoedtre**, gan ymgorffori bwnd a phant i reoli perygl llifogydd dŵr wyneb i sawl eiddo. Mae'r math hwn o gynllun nid yn unig **yn lleihau perygl ac effaith llifogydd** ond mae hefyd yn cyfrannu at **greu ac adfer cynefinoedd, gan annog bywyd gwyllt a bioamrywiaeth.**





Pan ofynnwyd pa mor fodlon oeddent ar wahanol agweddau ar **drafnidiaeth gyhoeddus a phriffyrdd**, ymatebodd trigolion eu bod fwyaf bodlon ar fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus **(87% yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon),** gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus **(83%),** gwasanaethau bysus **(79%)** a gwasanaethau rheilffyrdd **(76%).**

Rydym yn parhau i gyflawni **lefelau boddhad uchel gan ymwelwyr â'n Parciau Gwledig** â **100%** yn dweud bod eu hymweliad naill ai'n "dda" neu'n "dda iawn". Mae'r perfformiad hwn yn welliant pellach ar y llynedd (99.6%). Mae boddhad ymwelwyr ynghyd â'r **gwobrau a gyflwynwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus** yn dangos cydnabyddiaeth o'n safonau uchel ym mharciau, ardaloedd gwyrdd a mannau agored niferus y Sir.

O ran perfformiad, penderfynwyd ar **88%** o geisiadau "mawr" o fewn y cyfnodau amser gofynnol, o gymharu â chyfartaledd Cymru Gyfan y llynedd o 68%.

O ran ansawdd penderfyniadau, cafodd **90%** o apeliadau cynllunio yn erbyn gwrthodiad caniatâd y Cygnor eu gwrthod sy'n **sylweddol well na pherfformiad y llynedd**.



Fel rhan o'n hymrwymiad i **wella a diogelu cynefinoedd a rhywogaethau pwysig** rydym wedi gwneud gwelliannau bioamrywiaeth ym Man Agored The Dingle, Penarth ochr yn ochr â phroject mynedfa Celf Gyhoeddus gan gynnwys plannu ardaloedd bylbiau brodorol a blodau gwyllt.

Mae gwaith ymgynghori, dichonoldeb a dylunio hefyd wedi'i wneud ar gyfer y mannau agored canlynol: Parc Canolog, Y Barri; Meysydd Chwaraeon, Y Wig; Heol Caerllion, Dinas Powys

Yn ystod 2019/20 derbyniodd adran Gynllunio'r Cyngor **1297** o geisiadau cynllunio, **76 yn fwy** na'r llynedd. O'r rhain, penderfynwyd ar **93% (1210)** ohonynt o fewn yr amserlenni gofynnol o gymharu â 88% ledled Cymru.



| | | | |
|---|---|---|---|
| | | a Chamlas y Knap o ran **gwelliannau bioamrywiaeth.** | |
|  Gall dympio gwrthrychau estron mewn mannau amhriodol gael effaith enfawr ar yr amgylchedd naturiol, cymdeithasol ac economaidd. Felly, rydym yn falch o adrodd, yn ystod 2019/20, cliriwyd **355** o achosion o **dipio anghyfreithlon** gan y Cyngor dros gyfnod o **511 diwrnod** sy'n golygu mai **1.44 diwrnod** oedd nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon. Mae'r perfformiad hwn yn **rhagori ar ein targed o 3 diwrnod.** | Mae uno ein hadrannau Parciau a Glanhau yn ddiweddar wedi sicrhau **defnydd gwell a mwy effeithiol o adnoddau** sydd i'w weld yn y ffigurau glendid strydoedd. Mae canran y priffyrdd ar lefel dderbyniol o lendid hefyd yn **rhagori ar y targed** gyda **99%** o briffyrdd a archwiliwyd o safon uchel neu dderbyniol o lendid.  | O'r **1297** o geisiadau cynllunio a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn, roedd **36** yn geisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig; **144** yn geisiadau coed; **77** yn waith i goed mewn ardal gadwraeth ac roedd **67** o geisiadau yn waith i goed sy'n destun Gorchymyn Diogelu Coed. Mae'r gweithgaredd hwn yn cyfrannu at ein hamcanion sydd â'r nod o ddiogelu a gwella treftadaeth adeiledig, naturiol a diwylliannol y Fro. | Rydym yn parhau i hyrwyddo teithio llesol a lleihau allyriadau o oleuadau stryd, cerbydau cyngor ac adeiladau. Yn ystod 2019/20, mae **9 beic a rennir** wedi'u hadnewyddu i'w defnyddio gan staff y Cyngor ar deithiau byrrach yn hytrach na cheir a rennir ac mae **2 feic trydan** wedi'u prynu i'w defnyddio gan staff y Cyngor. Gosodwyd loceri yn Nepo'r Alpau i gynnig storfa i staff sy'n dewis beicio i'r gwaith. |

## 4.2 EIN HERIAU

### 4.2.1 AMCAN 3: HERIAU

Er bod cynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â Phrifddinas-Rhanbarth Caerdydd (Y Fargen Ddinesig), yn gadarnhaol mae angen i ni sicrhau bod buddion Bro Morgannwg yn parhau i gael eu hyrwyddo'n effeithiol. Mae'r angen i **hyrwyddo'r Maes Awyr a Sain Tathan fel canolfannau ar gyfer twf economaidd a chreu swyddi, gwella mynediad strategol i'r Fro, cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac adfywiad parhaus y Barri** yn arbennig o berthnasol.

Mae angen **lliniaru'r ansicrwydd parhaus mewn perthynas â threfniadau ariannu allanol** (a waethygir gan Brydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd) a sicrhau arian gan Lywodraeth y DU a neu Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chyflawni projectau adfywio allweddol sy'n adlewyrchu anghenion a chyfleoedd lleol. Yn ychwanegol, mae **arian Cyfalaf Cymunedau Gwledig ar gyfer pob sector yn debygol o ddod i ben yn 2020, gan arwain at bwysau costau ar y Cyngor yn y blynyddoedd dilynol.** Defnyddiwyd yr arian hwn i fuddsoddi yn asedau'r Cyngor ers 2004. Hefyd wedi'i sefydlu yn 2004, bydd arian Cymunedau Gwledig Creadigol, menter adfywio gwledig y Cyngor a ariennir gan Ewrop yn dod i ben yn 2021 gan adael bwlch yn y cymorth i gymunedau gwledig a'r arian sydd ar gael i'r busnesau a'r grwpiau hynny.

Mae'r diwydiant datblygu ym Mro Morgannwg mor brysur ag y bu erioed, ac mae hyn yn **rhoi pwysau ar ein hadnoddau ym maes Rheoli Datblygu ac ar y seilwaith lleol yn gyffredinol.** Ar gyfartaledd, mae dros 600 o gartrefi'n cael eu hadeiladu y flwyddyn, ac mae projectau seilwaith mawr wedi'u cynnal megis y Lôn 5 Milltir, ffordd gyswllt Darren Farm, y Bont-faen, a Ffordd Fynediad y Gogledd, Sain Tathan. Yn ogystal, mae pwysau pellach yn deillio o oedi mewn mewnbwn technegol gan ymgyngoreion statudol ar geisiadau cynllunio sy'n wynebu eu heriau eu hunain o ran adnoddau. **Yn 2019/20 mae tîm gorfodi cynllunio'r Cyngor wedi wynebu heriau sylweddol o ran monitro a sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau ar ddatblygiadau mawr**; yn dilyn gweithredu yn 2018/19, rhoddwyd hysbysiadau gorfodi pellach i'r Consortiwm Datblygu yng Nglannau'r Barri i atal adeiladu a meddiannu eu tai hyd nes y darperir defnyddiau cymysg yn y Ganolfan Ardal arfaethedig. Mae'r adran wedi bod yn gweithio'n galed i ddelio â'r pwysau gwaith hyn tra'n cynnal gwasanaeth cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaethau yn unol â fframwaith Llywodraeth Cymru. Mae'r adran hefyd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ail-lunio drwy arbedion effeithlonrwydd a chynhyrchu incwm drwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio a gwasanaethau ymgynghori cynllunio ar gyfer adrannau mewnol.

Bu'n rhaid i'r rhan fwyaf o wasanaethau yn y Cyngor **addasu'r ffordd y maent yn gweithio oherwydd COVID-19** ac mae hyn yn wir i'r holl staff cynllunio sy'n gweithio gartref ac sy'n cyfarfod o bell i drafod ceisiadau cynllunio tra'n gweithio gyda chwsmeriaid i sicrhau y gellir cynnal asesiadau safle yn ddiogel. **Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cael ei sefydlu o bell a bu angen pwerau brys i wneud penderfyniadau brys** ar rai materion cynllunio. Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau cynllunio a rheoli adeiladu ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda chymunedau a rhanddeiliaid eraill, gan ddiwygio amserlenni ac adolygu prosesau ymgynghori yn ôl yr angen.

Mae’r stryd fawr a chanol trefi ledled y DU yn wynebu heriau anferth, gyda siopau mawrion yn cau. **Yr un yw’r stori yng nghanol tref y Barri ar ôl colli llawer o siopau yn ddiweddar ac mae gan y Bont-faen gyfraddau uchel o adeiladau gwag hefyd.** Mae dangosfwrdd Brexit CLlLC yn amlygu canol trefi fel un o’r meysydd sydd fwyaf agored i niwed yn economi'r Fro o ran dioddef effaith negyddol gan Brexit. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi mabwysiadu dull canol trefi yn gyntaf ac mae arian Buddsoddi mewn Adfywio wedi'i Dargedu (TRI) yn cael ei ddefnyddio i gefnogi nifer o brojectau yng nghanol y dref. Mae sawl menter arall hefyd wedi gwneud cynnydd da yn 2019, gan gynnwys project Making Waves y Barri a buddsoddi mewn eiddo gwag ar hyd Heol Holltwn gan ddefnyddio arian TRI.

Ein her wrth fynd ymlaen fydd sut y gallwn helpu i **ysgogi ein heconomïau lleol a sicrhau swyddi yn y tymor hwy ar adeg pan fo ein hadnoddau'n debygol o leihau.** Mae’r sector manwerthu wedi bod yn dirywio cyn COVID-19, ac er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol rydym wedi'i wneud i wella ein trefi lleol, mae'r gostyngiad cyflym yn nifer yr ymwelwyr wedi bod yn niweidiol i'n siopau. Er gwaethaf codi cyfyngiadau, mae mwy o bobl wedi troi tuag at siopa ar-lein, felly **bydd angen rhywfaint o anogaeth ar siopwyr i ddychwelyd i ganol eu trefi lleol i roi cyfle i'n siopau, caffis a bwytai oroesi.**

Defnyddiwyd arian Adran 106 a Llywodraeth Cymru i wella llwybrau Teithio Llesol ledled y Fro ond mae'r **diffyg arian cyfalaf cyson ar gyfer cynlluniau Teithio Llesol**, gan gynnwys cystadlu â meysydd eraill am gyfraniadau Adran 106 ac awdurdodau lleol eraill am arian gan Lywodraeth Cymru, yn golygu bod Teithio Llesol yn broses araf ac mae'r **ansicrwydd ynghylch yr arian yn ei gwneud yn anodd cyflawni gwelliannau fel y bwriadwyd.**

Ni roddwyd arian gan Lywodraeth Cymru tan fis Mehefin 2019, felly roedd hyn ynghyd â thywydd gwael drwy gydol y gaeaf a phandemig COVID-19 ar ddechrau 2020 wedi golygu amserlenni llawer byrrach i gwblhau gwaith a fwriadwyd.

Mae cyfyngiadau’r Coronafeirws hefyd wedi cyflwyno **her sylweddol wrth ddatblygu'r angen am lwybrau teithio llesol ychwanegol o ansawdd da dros dro a pharhaol fel y gall unigolion gael mynediad diogel at wasanaethau a gweithleoedd.** Mae hyn yn rhoi mwy o her o ran tendro a dyfarnu contractau a gwasanaethau hanfodol wrth i gontractwyr ac ymgynghorwyr ddychwelyd i'r gwaith a gwneud addasiadau angenrheidiol i'w trefniadau gwaith i gydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru 'Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau’r Coronafeirws) (Cymru) 2020', sy'n gosod cyfyngiadau ar unigolion, busnesau ac eraill i ddiogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Felly, mae'r Cyngor o dan **her sylweddol i ystyried y trefniadau lliniaru angenrheidiol lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol i leihau neu reoli'r posibilrwydd o oedi i waith a gwasanaethau sydd ar y gweill yn ogystal â rheoli costau contract ychwanegol** a allai effeithio ar y cyllidebau sydd ar gael, ar gyllid y Cyngor yn y dyfodol a'i allu i ddarparu gwasanaethau effeithiol i'w ddinasyddion yn y dyfodol.

Mae twristiaeth yn gyfrifol am £250 miliwn ym Mro Morgannwg, a bydd yr heriau diweddar a gyflwynwyd gan bandemig Covid-19 yn cael **effaith ddinistriol yn lleol nid yn unig ar y busnesau sy'n uniongyrchol yn gysylltiedig â thwristiaeth, ond hefyd y gymuned ehangach sy'n dibynnu ar y diwydiant drwy waith a chyflenwi nwyddau gan ddarparwyr lleol.**Cyflogir bron i 3,000 o bobl mewn rolau sy'n cefnogi'r diwydiant twristiaeth ac mae ymchwil diweddar gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu **na fydd llawer o fusnesau'n goroesi os bydd y sefyllfa bresennol yn parhau'n hirdymor, gan arwain at golli nifer fawr o swyddi.** Er ein

bod yn parhau i weithio'n agos i farchnata'r Fro yn unol â chanllawiau Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru, mae ein gwaith bellach yn canolbwyntio ar gefnogi'r diwydiant drwy'r cyfnod anodd hwn. Gobeithio y bydd y rôl a chwaraewn wrth gefnogi busnesau yn arwain at **wydnwch busnesau gan ganiatáu adferiad cyflymach** unwaith y bydd cyfyngiadau'n cael eu codi a'r Fro yn dychwelyd i "normal newydd".

---

Mae cyfyngiadau'r Coronafeirws a'r trefniadau adfer wedi creu **her sylweddol o ran rheoli a chydbwyso'r defnydd diogel o'n rhwydwaith priffyrdd mewn lleoliadau allweddol rhwng gwahanol grwpiau defnyddwyr sy'n cynnwys trigolion, busnesau ac ymwelwyr a siopwyr.** Yr ardaloedd allweddol yr effeithir arnynt yw **canol trefi** wrth i'r fasnach fanwerthu a lletygarwch gael caniatâd i ailagor gan Lywodraeth Cymru a'r angen i ailddyrannu gofod ar y ffyrdd er mwyn cyflawni **gofynion ymbellhau cymdeithasol diogel yn ogystal ag atyniadau a chyrchfannau arfordirol gyda niferoedd ymwelwyr cynyddol i feysydd parcio arfordirol a pharcio eithafol yn effeithio ar ardaloedd preswyl cyfagos ac yn achosi niwsans.** Er mwyn ymdrin â'r materion hyn, mae angen trefniadau brys yn y tymor byr gyda'r angen i ddatblygu polisïau a strategaethau priodol yn gyflym i ddelio â'r sefyllfa barhaol a'r arfer newydd yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys trefniadau rheoli effeithiol mewn meysydd parcio arfordirol a rheolaethau parcio preswylwyr mewn ardaloedd preswyl cyfagos yr effeithir arnynt.

## 4.2.2 AMCAN 4: HERIAU

Mae polisïau'r Llywodraeth yn ystod pandemig COVID-19 wedi newid patrymau galw am ynni ledled y byd yn sylweddol. Caewyd llawer o ffiniau rhyngwladol, ac roedd poblogaethau wedi'u cyfyngu i'w cartrefi o ganlyniad i leihau trafnidiaeth a newid patrymau defnydd ledled y byd. Efallai mai dim ond dros dro y mae'r gostyngiad hwn mewn defnydd ond rydym yn cydnabod yr angen i gymryd camau beiddgar i leihau allyriadau carbon ac rydym wedi nodi nodau uchelgeisiol yn ein Cynllun Rheoli Carbon. Bydd cyrraedd **allyriadau carbon sero-net cyn 2030 yn her ar raddfa wahanol iawn a** bydd yn rhaid iddo fod yn un o brif ffocysau pob rhan o'r Cyngor er mwyn cyflawni llwyddiant.

Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i ddatblygu a gweithredu dulliau arfer gorau a all **sicrhau gostyngiadau carbon a helpu i gyfyngu ar gynhesu byd-eang, fodd bynnag, mae angen y pwerau, yr adnoddau a'r cymorth technegol angenrheidiol arnom i'n helpu i weithio tuag at leihau allyriadau carbon a bwrw ein targedau.** Wrth i ni symud tuag at adferiad, efallai y bydd cyfle i archwilio ffyrdd mwy arloesol o leihau allyriadau $CO_2$ ledled Cymru ac ym Mro Morgannwg. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn awyddus i sicrhau na chollir newidiadau diweddar i'r ffordd rydym yn gweithio ac sydd wedi bod o fudd i'r amgylchedd wrth i ni ddechrau dychwelyd i ddull mwy arferol o wneud busnes.

---

Rhagwelir y bydd **newid yn yr hinsawdd** yn arwain at fwy o stormydd, cynnydd yn lefel y môr a newidiadau mewn patrymau glaw. Gallai'r holl ffactorau hyn gael **effaith andwyol ar y risg o lifogydd ac erydu arfordirol** yn y Fro. Yn ogystal, gall effeithiau llai amlwg ddigwydd, er enghraifft, newidiadau yn y tymheredd, dŵr daear a llystyfiant hefyd yn effeithio ar erydu arfordirol oherwydd effeithiau ar hindreulio clogwyni neu lifogydd wrth i newidiadau defnydd tir a llystyfiant effeithio ar ymatebion dŵr ffo. Bydd canllawiau newydd a lwfansau newid yn yr hinsawdd yn cael eu hymgorffori mewn asesiadau strategol ar lefel cynllun er mwyn **adeiladu gwydnwch yn erbyn newidiadau yn y dyfodol.** Bydd gweithredu **systemau draenio cynaliadwy** o ansawdd da ar ddatblygiadau newydd hefyd yn helpu i liniaru rhai o'r effeithiau hyn ar y risg o lifogydd, tra'n helpu i reoli effeithiau eraill fel tymheredd uwch ac effeithiau gwres trefi. Yn ogystal, bydd parhau i fonitro ffryntiadau arfordirol critigol a chyrsiau dŵr yn hwyluso gwell dealltwriaeth o'r newidiadau gwirioneddol sy'n digwydd dros amser. Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar ddarparu gweithgareddau rheoli risg llifogydd ac arfordirol gan ohirio ymchwiliadau i achosion diweddar o lifogydd ac wedi effeithio ar gyflawni gwaith. Wrth i arferion gwaith newydd gael eu rhoi ar waith, mae'r effeithiau hyn wedi lleihau ac mae ymchwiliadau, arolygiadau a chyflawni cynlluniau newydd bellach yn parhau.

---

Un maes allweddol sydd wedi gofyn am gryn sylw yn ystod COVID-19 ac yn dilyn codi cyfyngiadau'r cyfnod cloi fu **rheoli ein parciau a'n cyrchfannau.** Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod cloi gael eu codi, bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ag arfordir a Pharciau Gwledig Bro Morgannwg er gwaethaf mesurau ymbellhau cymdeithasol a'r cyfyngiadau cynnar a osodwyd ar deithio. Cafwyd enghreifftiau hefyd o **ymddygiad gwrthgymdeithasol** a arweiniodd at gau'r meysydd parcio yn Ogwr. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i reoli ein mannau agored cyhoeddus, yn enwedig ein hardaloedd arfordirol a'n parciau i **sicrhau bod ein trigolion a'n hymwelwyr yn ddiogel a bod ein hamgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu.**

---

Er bod gwaith i gwblhau'r cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd 3 blynedd o fewn dyraniad y gyllideb a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2019/20 wedi'u cwblhau'n gyffredinol cyn pandemig y Coronafeirws; **mae rhwydwaith ffyrdd y Fro yn ased sy'n dirywio'n barhaus sy'n gofyn am fuddsoddiad sylweddol parhaus o fwy na £2m y flwyddyn i gynnal cyflwr sefydlog.** Mae dyraniad y gyllideb yn 2018/19 a 2019/20 wedi darparu buddsoddiad sylweddol o tua £2.5m bob blwyddyn sydd wedi helpu i wella cyflwr cyffredinol yr ased, ond mae'r dyraniad cyllideb presennol ar gyfer 2020/21 yn is na'r buddsoddiad o fwy na £2m y flwyddyn sydd ei angen i gynnal cyflwr sefydlog seilwaith priffyrdd lleol y Cyngor. Felly, mae'n parhau'n her barhaus ac allweddol i'r Cyngor yn y dyfodol i **nodi lefel gyson angenrheidiol o arian o flwyddyn i flwyddyn er mwyn cynnal cyflwr cyson ein rhwydwaith priffyrdd o leiaf ac yn bwysicach i wella ei gyflwr er mwyn darparu rhwydwaith cadarn a gwydn** sy'n gallu delio â thwf traffig yn y dyfodol ac sy'n ofynnol i gynnal y twf economaidd angenrheidiol i'r Fro ac i'w dinasyddion ffynnu.

Drwy flaenoriaethu a dyrannu gwariant cyfalaf yn ofalus drwy Gynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd 3 blynedd y Cyngor, rydym yn **gweithio i wneud y gorau o'n gallu i gynnal y rhwydwaith priffyrdd lleol**, gan sicrhau bod y ffyrdd sydd angen y gwaith mwyaf brys yn cael eu blaenoriaethu. Yn ogystal, rydym yn parhau i ystyried triniaethau arwyneb arloesol i wella a diogelu asedau priffyrdd yn ogystal ag ymestyn y buddsoddiad gwaith cyfalaf blaenorol yn ein rhwydwaith ffyrdd.

---

**Mae costau ynni cynyddol ar gyfer cyflenwadau trydan heb eu mesur mewn perthynas â goleuadau stryd yn parhau'n her allweddol o gofio cyllidebau is a'r angen i sicrhau arbedion sylweddol** fel rhan o'r agenda ail-lunio, fodd bynnag, dylid lliniaru hyn drwy gwblhau'n sylweddol strategaeth lleihau ynni goleuadau stryd y Cyngor.

---

Er bod y Fro wedi **rhagori ar y targed ailgylchu statudol ar gyfer 2019/20 o 64%** a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, mae **angen i ni leihau lefelau halogi er mwyn cyflawni uchelgais 2025 o weithio tuag at ddyfodol diwastraff.** Erbyn 2025, bydd **angen i ni fod wedi lleihau ein gwastraff yn sylweddol** ac anelu at reoli unrhyw wastraff a gynhyrchir mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'n hadnoddau gwerthfawr. Drwy gydol 2020/21 byddwn yn parhau i ddisodli'r system ailgylchadwy cymysg gyda system wahanu. Mae'r newidiadau hyn i drefniadau casglu yn cael eu gweithredu ledled Cymru fel rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i **leihau lefelau halogi mewn casgliadau ailgylchu** a galluogi i hyd yn oed mwy o'r hyn a daflwn gael ei anfon i safleoedd llosgi neu dirlenwi. Byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phreswylwyr ac yn eu cefnogi i wneud y newidiadau hyn mor hawdd â phosibl.

Rydym wedi **llwyddo i redeg a chwblhau ein holl rowndiau gwastraff domestig ac ailgylchu bob dydd drwy bandemig COVID-19** ac er bod y pandemig wedi gohirio'r symudiad tuag at system ailgylchu a wahenir yn ardaloedd y Barri, rydym wedi pennu dyddiad i'r newid hwn i'r gwasanaeth ddechrau yn ystod mis Hydref 2020 ac yna ei gyflwyno i Benarth a Dinas Powys yn 2021.

---

## 4.3 ASTUDIAETH ACHOS

**FFOCWS AR: NEXTBIKE**

Yn dilyn llwyddiant cynllun llogi Nextbike yng Nghaerdydd, sydd wedi cofnodi llogi mwy na 548,000 ers ei lansio yn 2018, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi derbyn ceisiadau am system llogi beiciau debyg. Mewn ymateb i'r ceisiadau hyn yn ogystal ag i gydnabod y **manteision hirdymor posibl i'r gymuned a'r**

**amgylchedd, ymgynghorodd** y Cyngor gyda thrigolion a bydd cynllun peilot yn cael ei lansio yn ddiweddarach yn 2020.

Gan ddefnyddio cyfraniadau o arian Adran 106 **trafnidiaeth gynaliadwy** a **chydweithio gyda'n partneriaid** yn Trafnidiaeth Cymru, Network Rail, Parc Gwledig Cosmeston a Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn Ysbyty Llandochau, mae'r project wedi datblygu'n dda. Penodwyd Nextbike, prif ddarparwr cynllun rhannu beiciau'r DU i weithredu'r project ac maent yn gweithio gyda ni tuag at osod 50 beic trydan mewn sawl gorsaf docio ledled Penarth:

- Ysbyty Llandochau
- Gorsaf Drenau Penarth
- Parc Gwledig Cosmeston
- Esplanade
- Canol Tref Penarth
- Gorsaf Drenau Cogan/Morglawdd Caerdydd

Ym mis Gorffennaf 2020, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sifil wedi'i gwblhau gan dîm dylunio ac adeiladu mewnol y Cyngor er y bu ychydig o oedi cyn cyflwyno'r cynllun oherwydd pandemig COVID-19. Disgwylir i Nextbike fod ar waith ac yn gysylltiedig â system Caerdydd ddiwedd yr haf 2020 yn cynnig **trafnidiaeth ynni effeithlon a di-allyriadau i breswylwyr** yn yr ardal.



Nid yn unig y mae'r cynllun hwn **o fudd i'r amgylchedd** drwy leihau nifer y cerbydau sy'n cymudo i Ganol Dinas Caerdydd **gan atal tagfeydd a llygredd;** mae defnyddio beiciau trydan hefyd yn cynnig **budd i iechyd a lles corfforol** beicwyr sy'n cyfrannu at ein hamcan o **annog a hyrwyddo ffyrdd llesol ac iach o fyw.** At hynny, drwy ei gwneud yn haws cymudo ar draws y Morglawdd i Ganol Dinas Caerdydd rydym yn cyflawni yn erbyn ein nod o **wella Teithio Llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy.** Yng ngoleuni'r pandemig diweddar a'r mesurau ymbellhau cymdeithasol a fydd ar waith hyd y gellir rhagweld, mae'r dull teithio hwn hefyd yn caniatáu i bobl ymbellhau'n gymdeithasol tra'n lleihau'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

Bydd peirianyddion lleol o'r elusen Pedal Power sydd eisoes yn gwasanaethu cynllun rhentu Caerdydd, yn cael eu cyflogi i helpu i atgyweirio a chynnal a chadw'r fflyd wrth symud ymlaen. Mae'r Fro hefyd yn **cydweithio** gyda Chyngor Caerdydd i greu **dull integredig** a fydd yn cysylltu'r ddau gynllun. Bydd hyn yn gwella ein cysylltiadau â Chaerdydd ac yn sicrhau bod aelodau'n gallu teithio rhwng lleoliadau a dychwelyd beiciau i'r ddau leoliad.

*"Ar ôl datgan **argyfwng hinsawdd** gynharach eleni, mae'n hanfodol ein bod ni fel Cyngor yn parhau i gefnogi dulliau trafnidiaeth gweithredol a chynaliadwy. Mae'r beiciau'n hawdd eu defnyddio, ac mae tariffau'n tueddu i fod yn rhatach na theithio mewn car, bws neu drên"..."Bydd y fenter **o fudd i iechyd a lles** ein cymudwyr a'n trigolion, yn ogystal â bod yn ased i dwristiaeth yn yr ardal. Os bydd hyn yn llwyddiant, gobeithiwn weld y cynllun yn ehangu ymhellach."*

**Dywedodd y Cynghorydd Peter King, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

*"Mae e-feiciau nid yn unig yn wych ar gyfer lleihau amseroedd teithio a beicio ar hyd bryniau serth, maen nhw hefyd yn ffordd wych o gyflwyno pobl o bob gallu a lefel ffitrwydd i feicio. Mae'n adeg gyffrous i Benarth."*

**Krysia Solheim, Rheolwr Gyfarwyddwr Nextbike UK**

**Ein statws CMG cyffredinol ar gyfer 'Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog' yw GWYRDD**

## 5.0 DATGANIAD SEFYLLFA

Mae gweledigaeth Cyngor Bro Morgannwg sef gweithio gyda'i gilydd i adeiladu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair yn sail i'n holl weithgareddau o dan y Canlyniad Lles hwn. Cydnabyddir yn gyffredinol bod rhoi addysg a'r cyfle i ddatblygu'r set gywir o sgiliau i bobl ar gyfer eu dyfodol yn ffactor pwysig o ganlyniadau bywyd gan gynnwys iechyd, sefyllfa economaidd-gymdeithasol a disgwyliad oes. O ganlyniad, mae sicrhau bod holl ddinasyddion, plant, pobl ifanc ac oedolion y Fro yn cael mynediad at gyfleoedd gydol oes er mwyn datblygu eu sgiliau yn hanfodol i gyflawni ein blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol a sicrhau ffyniant Bro Morgannwg yn barhaus ac yn y dyfodol.

Er gwaethaf yr agenda cyni genedlaethol sy'n parhau'n heriol, yn enwedig yn nhermau cyllid i ysgolion ac ariannu cyfleodd dysgu i alluogi dinasyddion i gyflawni eu llawn botensial, rydym wedi parhau'n uchelgeisiol yn ein cynlluniau ar gyfer Bro Morgannwg. Rydym yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r agenda addysg genedlaethol (*Addas i'r Dyfodol, Addysg yng Nghymru)* a'r cwricwlwm addysg newydd sy'n parhau i ffurfio ein hymagwedd ac rydym yn cydweithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i sicrhau bod hyn yn ystyried ac yn cyfrannu at les economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol hirdymor ein cymunedau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol 2016-20 mewn perthynas â Chanlyniad Lles 3 a'i amcanion cysylltiedig sef 'Codi safonau cyflawniad yn gyffredinol' a 'Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.' Mae hyn wedi cyfrannu at statws **Gwyrdd** cyffredinol ar gyfer y Canlyniad lles ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar gyfer y cyfnod 2019-20, cafodd 90% (60 allan o 67) o weithgareddau sydd wedi'u halinio i 'Bro Uchelgeisiol â Diwylliannol Fywiog' eu cynnal yn llwyddiannus. Mewn perthynas â'r amcanu, codi safonau cyflawniad yn gyffredinol' cwblhawyd 92.6% o weithgareddau yn llwyddiannus a chwblhawyd 87.5% mewn perthynas â'r amcan, 'gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.' Ar draws y Canlyniad, aseiniwyd statws coch i gamau gweithredu er mwyn adlewyrchu llithriant ac roedd hyn yn cyfrif am ychydig o dan 10% o'r holl weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2019/20. Mae angen parhau i weithio tuag at gyflawni'r wobr arian yn Safon Cydraddoldeb Insport, datblygu ein cynllun gweithredu Stonewall ymhellach a sefydlu 'Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol' Llywodraeth Cymru ar draws pob gwasanaeth. Mae gwaith mewn perthynas â'r meysydd yn parhau'n flaenoriaeth ac chawsant eu cario ymlaen o fewn Cynlluniau Gwasanaeth priodol ar gyfer 2020/21.

Mae'n bwysig nodi bod ein hadolygiad blynyddol o gynnydd ar gyfer y cyfnod 2019/20 wedi'i ysgrifennu yn ystod cyfnod heriol a digyffelyb sydd wedi gofyn i'r Cyngor ymateb i bandemig byd-eang (COVID-19). Rydym wedi asesu cynnydd ein gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer y cyfnod ac wedi defnyddio data perfformiad lleol lle mae wedi bod ar gael. Fodd bynnag ni fu rhai agweddau ar berfformiad, yn bennaf gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad cenedlaethol diwedd y flwyddyn a data meincnodi ar gael er mwyn ein galluogi i gymharu ein perfformiad gan y cafodd ein rhwymedigaethau ystadegol statudol gan Lywodraeth Cymru a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eu hatal am gyfnod amhenodol.

Mae gennym reswm dros ddathlu ein perfformiad gan y cyflawnwyd llawer yn ystod 2019/20. Nid ydym wedi gwneud hyn ar ein pennau ein hunain mae ein partneriaid wedi bod yn rhan bwysig ohono, gan ein helpu i barhau i ddarparu'r cyfleoedd pwysig hynny mewn bywyd er mwyn i ddinasyddion y Fro ddysgu, tyfu, ffynnu a gwella eu hiechyd a'u lles. Mae ein hymagwedd cynhwysol a chydweithredol sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys ysgolion, dysgwyr a'u teuluoedd a'u cymunedau wedi ein galluogi i gryfhau gwasanaethau presennol wrth ddatblygu cyfleoedd newydd ac arloesol er mwyn gwella ac annog dysgu gydol oes ymhellach gan bawb. Bydd yr ymagwedd hwn yn dod yn bwysicach fyth yn y flwyddyn i ddod wrth i ni weithio i liniaru effaith ddigynsail y pandemig COVID-19 diweddar.

Drwy gydol ein hadroddiadau ar gynnydd yn ystod y flwyddyn, rydym wedi pwysleisio sut mae'r cyflawniadau rydym wedi adrodd arnynt o dan Gyflawniad Lles 3, hefyd yn cyfrannu at nifer o'n Hamcanion Lles eraill. O ganlyniad, mae rhywfaint o ddyblygu yn yr adroddiad blynyddol a ddisgwylir ac sy'n adlewyrchu ein hymagwedd integredig ar draws amcanion i gyflawni nifer o ganlyniadau. Mae hyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ei wneud yn ofynnol i ni integreiddio ein gwaith fel nad yw un cam weithredu unigol yn creu un effaith yn unig. Er enghraifft, mae dileu Profiadau Plentyndod Negyddol (ACE) yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor, ac mae'r gwaith a wnaed yn y flwyddyn diwethaf wrth ddatblygu ymagwedd cyfannol at atal ac ymyrryd yn gynnar wedi cynnwys partneriaethau yn y meysydd Iechyd, yr Heddlu, y Trydydd Sector, Tai, Addysg, Diogelwch Cymunedol, Gwasanaethau Cymdeithasol a'n cymunedau i enwi ychydig. Ochr yn ochr â 'chodi safonau cyflawni yn gyffredinol', a 'gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth', mae effaith y gwaith hwn hefyd yn cyfrannu at amcanion eraill y Cyngor er mwyn 'lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol', darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel', 'hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth', hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd', 'annog ffyrdd o fyw egnïol ac iach' a 'diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol'. Trwy gymryd yr ymagwedd integredig hwn at fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ein nod yw rhoi'r dechreuad gorau mewn bywyd i'n plant, lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd a sgiliau a thlodi yn y tymor hir. Mae'r astudiaethau achos ar ddiwedd y bennod hon yn enghreifftiau o'r ymagwedd hwn yn ymarferol ac maent yn disgrifio sut, drwy adeiladu partneriaethau cryf a defnyddio ein hasedau yn arloesol, rydym yn cefnogi lles a gwydnwch ein dysgwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach i sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir i gyflawni eu potensial mewn byd sy'n newid.

Bu nifer o lwyddiannau nodedig yn 2019/20. Dim ond os ydynt yn uchel ym mhob rhan o'r Sir ar gyfer pob disgybl beth bynnag yw ei gefndir neu ei allu y gellir ystyried bod safonau'n wirioneddol uchel. Mae'n braf adrodd bod Meithrinfeydd y Bont-faen a Cogan wedi cael eu barnu'n rhagorol gan Estyn ym mhob un o'r meysydd arolygu heb unrhyw feysydd a argymhellir i'w gwella. Ynghyd ag Ysgol Gynradd Ynys y Barri, cydnabuwyd pob un o'r tair ysgol ar gyfer eu perfformiad rhagorol gan Estyn a chawsant eu gwahodd i gyflwyno astudiaethau achos i'w defnyddio gan Estyn fel arfer gorau. Yn ogystal, nid oes unrhyw ysgolion ar hyn o bryd mewn categori dilynol statudol (Gwelliant Sylweddol neu Fesurau Arbennig). Cydnabuwyd ein hymagwedd rhagweithiol wrth sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel mewn ysgolion gan Estyn sydd wedi barnu bod bron pob ysgol yn y Fro ers 2016/17 naill ai'n dda neu'n rhagorol. Mae'r duedd hon wedi parhau yn 2019/20, gyda phob ysgol a arolygwyd yn cael sgôr ragorol neu dda mewn perthynas â lles disgyblion, gofal, cefnogaeth ac arweiniad. Er gwaethaf y perfformiad cryf hwn, rydym yn cydnabod bod ffordd i fynd o hyd er mwyn cyflawni ein huchelgais bod pob plentyn yn y Fro yn mynychu ysgol dda neu ragorol fel y bernir gan Estyn ym mhob maes arolygu.

Yn y flwyddyn academaidd 2018/19, mae deilliannau disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2,3,4 a 5 ar gyfer pob maes dysgu, yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Er bod perfformiad wedi disgyn ychydig, mae presenoldeb mewn ysgolion ymhlith y 10 gorau yng Nghymru, yn well mewn ysgolion uwchradd (3ydd) nag mewn ysgolion cynradd (8fed). Er gwaethaf ein perfformiad cryf, rydym yn cydnabod bod deilliannau cyffredinol i blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau y tu ôl i rai eu cyfoedion o hyd. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen lleihau lefel gyffredinol gwaharddiadau plant a phobl ifanc o ysgolion a bod angen gwella lefelau presenoldeb yn enwedig yn ein hysgolion cynradd.

Mae ein buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion trwy Raglen Ad-drefnu a Buddsoddi mewn ysgolion a Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn un o'r uchaf a'r mwyaf uchelgeisiol yn y wlad. Mae ein cydweithrediad â chontractwyr, sefydliadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus ar y fenter wedi helpu i ddarparu ystod o fanteision i'r gymuned sy'n cyfrannu at wella canlyniadau i drigolion, yr amgylchedd a'r economi leol. Er enghraifft, mewn perthynas â phroject Cymunedau Dysgu Uwchradd Y Barri, yn ystod 2019/20, crëwyd 39 o swyddi lleol a 14 prentisiaeth; cafodd 2075.1 o oriau o hyfforddiant eu darparu i raddedigion a phobl ifanc ar leoliadau gwaith a disgyblion (gan gynnwys y fenter menywod i mewn i adeiladu); mae 50% o'r llafurwyr a ddefnyddiwyd ar y safle yn lleol; cafodd 7 o brojectau cymunedol eu cefnogi (e.e. menter gymdeithasol gydag Ysgol y Deri i ddarparu arlwyo ar y safle ar gyfer y tri phroject); cafodd 94% o wastraff adeiladu ei ddargyfeirio o dirlenwi; ac chynhyrchir 100% o'r deunyddiau a ddefnyddir (h.y. concrit, carreg a dur) yng Nghymru, sy'n cyfrannu dros £1.38 miliwn i'r economi. Hefyd treuliwyd 261 awr arall yn ymweld ag ysgolion i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa ym maes adeiladu. Bydd y cyfleusterau modern yn cynyddu cyfleoedd i breswylwyr gyfranogi mewn dysgu gydol oes , chwaraeon, hamdden a gweithgareddau diwylliannol, teithio llesol a chynyddu mynediad ar fannau gwyrdd ac amgylchedd glân i amlygu ychydig.

Rydym ar y trywydd cywir i gwblhau project Cymunedau Dysgu Uwchradd Y Barri erbyn mis Gorffennaf 2022, sydd wedi gweld buddsoddiad o £88.6 miliwn mewn tair ysgol uwchradd i greu canolfannau dysgu modern gydag ôl troed carbon isel er mwyn ateb galw yn y dyfodol ac i alluogi ein plant a'n pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial wrth ddarparu cyfleusterau lleol gwell a hygyrch hefyd i'r gymuned ehangach eu mwynhau. Ochr yn ochr â'r buddsoddiad hwn, mae gwaith hefyd wedi dechrau ar ehangu ac ailwampio ein Hysgol Arbennig, Ysgol y Deri (£11 miliwn) i ateb y galw sy'n tyfu'n gyflym am leoliadau i ddisgyblion cymhleth; Ysgol Sant Baruc (£7.4 miliwn), Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant (£4.2 miliwn) ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru San Niclas (£4.2 miliwn) i gwrdd â'r cynnydd a ragwelir mewn niferoedd disgyblion. Mae Canolfan newydd ar gyfer Dysgu a Lles (£4.4 miliwn) hefydd yn cael ei datblygu i fodloni anghenion rhai o ddisgyblion mwyaf agored i niwed y Fro. Bydd y gwelliannau hyn o ran seilwaith nid yn unig yn cyfrannu tuag at ostwng ein hôl troed carbon a chynyddu mynediad at gyfleusterau cymunedol modern, yn wir, byddant yn gwella'n gwaith tuag at adeiladu canolfannau dysgu sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan lwyddo i harneisio pŵer ysgolion, teuluoedd a chymunedau sy'n gweithio tuag 'gymunedau cryf gyda dyfodol disglair'.

Mae sefyllfa ffafriol y Fro yn nhermau amrywiaeth a hygyrchedd darpariaeth ôl-16 yn parhau i sicrhau bod cymryd rhan mewn addysg bellach yn parhau'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn gyffredinol, ac y gwnaed cynnydd da trwy ymagwedd cydweithredol gydag ysgolion, cyflogwyr lleol, darparwyr addysg bellach lleol a chynllun prentisiaethau'r Cyngor ei hun i gynyddu amrywiaeth a'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu sydd ar gael. Mae hyn yn parhau i gyfrannu tuag at ganlyniadau cyrchfannau cadarnhaol i'n dysgwyr ar ddiwedd eu cyfnod dysgu, gan leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET). Er bod ein perfformiad ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ymhlith y 5 uchaf yng Nghymru, rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy i ddiogelu ein gweithlu at y dyfodol ac rydym yn gweithio tuag at Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Dinas-ranbarth Caerdydd er mwyn sicrhau ei bod yn canolbwyntio ein buddsoddiad ar fynd i'r afael ag anghenion yr economi leol a chenedlaethol yn y tymor hir.

Ochr yn ochr â'n ffocws ar ddatblygu sgiliau pobl ifanc, rydym wedi parhau i gynyddu nifer ac ystod y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i oedolion yn y Fro trwy ddysgu cymunedol a bu'r nifer sy'n manteisio arnynt yn uchel ac felly hefyd ein cyfradd llwyddiant sef 95% ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/19 (mae'r gyfradd llwyddiant yn cyfeirio ar nifer y nodau dysgu a gyflawnir gan unigolion ar ddiwedd cwrs wedi'i rannu â nifer y dysgwyr sydd wedi'u hymrestru ar y cwrs. Mae cyfradd llwyddiant uchel yn dangos bod mwy o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau ac yn ennill cymhwyster cydnabyddedig). Wrth symud ymlaen, fodd bynnag, mae perygl go iawn na fydd y cyfleoedd hyn yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hir o ystyried cyllid llai yn barhaus a'r diffyg eglurder ar gyllid grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol ar ôl Brexit. Rydym yn cydweithio ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i'n galluogi i gynnal a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc

ac oedolion yn y Fro i ennill sgiliau a chymwysterau ystyrlon a fydd yn eu helpu i mewn i fyd gwaith neu i ddychwelyd iddo, a hefyd cyfleoedd i barhau i ddysgu er pleser, mwynhad a boddhad personol.

Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ac ateb y galw am addysg yn ystod 2019/20. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd wedi parhau i gydweithio'n lleol ac ar draws y rhanbarth i wella gwasanaethau i siaradwyr y Gymraeg trwy ein Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg, gan sicrhau rhagor o gyfleoedd i drigolion gan gynnwys plant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy ddysgu a rhyngweithio cymdeithasol. Cymerodd 10,000 ran mewn gwahanol weithgareddau wedi'u trefnu drwy gydol y flwyddyn a chyflwynwyd y Gwobr Siarter y Gymraeg i un ysgol ar ddeg gan ddangos eu hymrwymiad i gefnogi iaith a diwylliant Cymru, ac mae hyn i gyd yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i fod â miliwn o siaradwyr y Gymraeg erbyn 2050.

Mae ein 'Strategaeth Celfyddydau a Diwylliant: Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog' yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r celfyddydau'n ei chwarae wrth wella iechyd a lles trigolion a'u cyfraniad i'r economi leol. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gefnogi dros 5,000 o sefydliadau ac unigolion yn uniongyrchol (o'i gymharu ag ychydig dros 1,100 y llynedd), trwy ddarparu cyngor, rhannu adnoddau, mentora a cyfarwyddo sy'n cyfrannu at adeiladau sector celfyddydau lleol sy'n gynaliadwy ac yn ffynnu. Roedd bron 134,000 o bobl sy'n byw yn y Fro yn greadigol weithgar yn 2019/20 (o'i gymharu â bron 113,000 yn 2018/19), gan ymgysylltu â rhaglen gyflenwol o weithgareddau celfyddydol (ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg) a gyflwynwyd gan Wasanaeth Datblygu Celfyddydau Bro Morgannwg, grwpiau partner a sefydliadau ac unigolion ym Mro Morgannwg. Yn unol â'n hymrwymiad i gynyddu hygyrchedd i'r celfyddydau, gwnaethom hefyd gefnogi 17 o brojectau celf gyhoeddus ledled y Fro, gan weithio gyda chymunedau i fywiogi ein mannau dinesig a chyflwyno unigrywiaeth i'n cymunedau.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod holl ddinasyddion y Fro, gan gynnwys grwpiau a ddiogelir o dan y Ddeddf Cydraddoldebau, yn cael mynediad at wasanaethau a fydd yn eu galluogi i gael dechrau da mewn bywyd, mwynhau byw mewn cymunedau diogel a glân, cyflawni eu dyheadau ac yn ffynnu. Ar ddiwedd 2019/20, cyhoeddodd y Cyngor ei Amcanion Cydraddoldebau Strategol am y cyfnod 2020-2024, sydd wedi cael eu gosod o fewn cyd-destun ein Cynllun Corfforaethol newydd 2020-2025. Mae'r Cynllun yn amlinellu'r camau allweddol rydym yn bwriadu eu cymryd dros y flynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau bod ein gweithleoedd a'n cymunedau'n fwy cyfartal. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i weithio gyda chydweithwyr ledled y Cyngor, ein partneriaid, trigolion a chynrychiolwyr grwpiau a ddiogelir i wella data monitro cydraddoldeb fel y gallwn wneud penderfyniadau mwy gwybodus am y gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod ein gweithle yn fwy cynhwysol o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol ac yn ystod y flwyddyn gwnaethom ailfywiogi ein rhwydwaith LHDTC+ gan godi eu proffi ymhellach gyda chydweithwyr ar draws y Cyngor. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i Stonewall o'n cynnydd o ran gwneud ein gweithle yn gynhwysol ar gyfer ein holl staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws wedi gwella ein safle ymhellach, gan godi i 196 o 215 y llynedd, a'n gosod yn hanner uchaf y tabl perfformiad o'i feincnodi yn erbyn 502 o sefydliadau yn y DU. Mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig at leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ei weithlu, sydd bellach yn 4.57% o'i gymharu ag 8.88% yn 2016. Drwy gydol y flwyddyn, mae arweinyddiaeth weladwy a rhagweithiol gan Hyrwyddwyr a modelau rôl Cydraddoldebau ac LHDT y Cyngor yn parhau i godi proffil a dangos ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu ei agenda cydraddoldebau. Mae prentisiaethau yn rhan o'n dull cyffredinol o recriwtio a chadw gweithlu medrus ac amrywiol ar gyfer y dyfodol. Rhoddodd ein Fframwaith Prentisiaethau gyfle i 26 o bobl ifanc gan gynnwys graddedigion, gydag 8 o'r 26 prentis newydd gafodd eu recriwtio yn ystod y flwyddyn yn mynd yn eu blaen i sicrhau swyddi yn y Cyngor.

Mae tystiolaeth gychwynnol yn awgrymu y bydd goblygiadau cydraddoldebau dwys ac eang sy'n gysylltiedig â'r pandemig coronafeirws. Bydd angen i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ganolbwyntio ar y materion hyn er mwyn sicrhau y caiff yr effeithiau negyddol ar ein cymuned eu lliniaru lle bynnag sy'n bosibl.

Mae'r pandemig COVID-19 diweddar wedi achosi aflonyddu sylweddol ar draws y sector addysg ar bob lefel, a theimlir effaith hyn ymhell i mewn i'r flwyddyn academaidd nesaf a'r tu hwnt. Mae'r Cyngor wedi codi i'r her hon drwy ddatblygu a gweithredu strategaethau lleol er mwyn lliniaru effaith addysgol y pandemig. Er enghraifft, rydym wedi cyflymu'r broses o integreiddio technoleg ddigidol o fewn ein sefydliadau addysg (e.e. trwy'r platfform Hwb cenedlaethol yn achos ysgolion) er mwyn galluogi pob dysgwr, gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion i barhau i ddysgu o bell yn y tymor byr i ganolig. Er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw blentyn ei adael ar ôl, rydym wedi sicrhau y gall pon dysgwr gael mynediad ar adnoddau dysgu sy'n seiliedig ar y cwricwlwm trwy ddarparu 600 o eitemau o offer TG ynghyd â 250 o ddyfeisiadau mi-fi i gefnogi plant sydd heb offer neu cysylltedd TG. Bu athrawon yn aros mewn cysylltiad â'u disgyblion a'u dysgwyr i gefnogi eu lles a'u hysgogi trwy gyfnod a allai fod yn un gofidus. Hefyd cafodd ein hysgolion eu haddasu at ddibenion gwahanol er mwyn rhoi cymorth i weithwyr hanfodol a phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau parhad yn eu dysgu ac rydym wedi darparu talebau bwyd i dros 3000 o blant yn ogystal â pharseli bwyd i deuluoedd disgyblion sy'n cael eu taro waethaf gan yr argyfwng. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau, cyn belled ac sy'n bosibl, na fydd unrhyw ddysgwr o dan anfantais oherwydd mynediad at dechnoleg, lle mae'n byw, ei oedran, ei anghenion dysgu ychwanegol, neu ei broffil demograffig ac rydym wedi targedu ein cefnogi gan ystyried hyn. Yn unol â'r ymagwedd hwn, mae ein llyfrgelloedd lleol hefyd wedi parhau i hyrwyddo eu hadnoddau digidol fel e-lyfrau, e-gylchgronau a nifer o weithgareddau fel amser stori, clybiau llyfrau a phob cwrs dysgu i oedolion (dros 900) sy'n cael eu darparu ar-lein am ddim. Hefyd cafodd gwasanaeth clicio a chasglu ei gyflwyno yn ein llyfrgelloedd i wella mynediad ar gyfer cwsmeriaid ymhellach.Mewn ymateb i'r effaith ar ein rhaglen o ddigwyddiadau celfyddydol, lle y bo'n bosibl rydym wedi symud y rhain i blatfformau digidol gan fod pwysigrwydd diwylliant a chreadigrwydd i'n hiechyd a'n lles yn glir yn fwy nag erioed. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu strategaethau fel rhan o'n cynllun adfer er mwyn lliniaru effaith COVID-19 a helpu i adeiladu model cynaliadwy ar gyfer y celfyddydau yn y Fro.

Er bod y Cyngor wedi ymateb yn rhagweithiol er mwyn lliniaru effeithiau COVID-19, mae'n annhebygol y bydd trefniadau presennol yn cymryd lle y dysgu a gollwyd o'r ysgol yn gyfan gwbl ac mae perygl go iawn y bydd hyn yn cael canlyniadau tymor hir ar gyfer rhai carfannau dysgwyr a thrwy hynny'n cynyddu cydraddoldeb o ran addysg ac o bosibl sbarduno ymddieithrio ymhlith rhai dysgwyr. Her arall dros y flwyddyn i ddod fydd sicrhau bod iechyd meddwl a lles ein dysgwyr yn parhau i gael eu cefnogi, yn enwedig yng nghyd-destun trefniadau newydd ar gyfer mynychu'r ysgol a phwysau parhaus ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd.

Mae'r cyflawniadau a amlinellir uchod yn dyst i ymroddiad a gwaith caled staff, ysgolion, rhieni a phartneriaid allweddol eraill sydd, er gwaethaf cyfnod heriol, yn parhau i amgylchedd cefnogol a'r anogaeth gywir i alluogi ein plant, pobl ifanc a thrigolion y Fro yn gyffredinol i ddyheu am eu potensial llawn a'i gyflawni.

Rydym hefyd yn wynebu risgiau a heriau eraill sydd wedi cael effaith ar ein gwasanaethau a chyflawni'r Canlyniad Lles hwn. Mae'r pwysau ariannol ar y Cyngor yn debygol o barhau ac, er y byddwn yn parhau i geisio diogelu gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymuned, mae'n fwyfwy anodd lleddfu'r effaith ar wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer y rhai sydd mewn angen trwy ein gwaith a dargedir. Mae'n ffaith hysbys bod gan blant o aelwydydd tlotach y parhau i gael deilliannau addysgol gwaeth a chyfleoedd bywyd gwaeth na'u cyfoedion. Mae'r heriau hyn yn debygol o gael eu gwaethygu ymhellach gan effaith yr argyfwng COVID-19. Felly, mae mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn yn uniongyrchol yn faes ffocws allweddol i'r Cyngor er mwyn sicrhau y caiff ein plant a'n pobl ifanc a'u teuluoedd eu cefnogi yn yr ysgol, yn eu cymunedau ac yn y gweithle i gyflawni'r gorau oll.

Y Fro yw'r awdurdod sydd â'r cyllid isaf fesul disgybl yng Nghymru. Er bod y lefel gymharol isel o gyllid a dderbynnir yn dangos bod gwerth da am arian yn cael ei gyflawni wrth ddarparu ein gwasanaethau, mae'r

angen i barhau i godi lefelau cyrhaeddiad yn erbyn cefndir o ostyngiad cenedlaethol parhaol mewn cyllid addysg a chynnydd o ran disgyblion sy'n mynychu ysgolion y Fro yn rhoi heriau sylweddol ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn gweld galw cynyddol am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a disgwyliadau cwsmeriaid sy'n uwch, sy'n parhau i roi rhagor o bwysau ychwanegol ar adnoddau addysg ganolog ac ar gyllidebau ysgolion unigol. Mae bodloni anghenion pob person ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn flaenoriaeth absoliwt i'r Cyngor ac rydym yn parhau i wneud cynnydd da gyda rhanddeiliaid allweddol wrth ailffurfio darpariaeth yn y Fro fel ymateb i'r Ddeddf ADY er mwyn hwyluso darparu gwasanaeth ymatebol, cost-effeithiol o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion dysgwyr ac sy'n eu cefnogi nhw, eu teuluoedd, ein sefydliadau dysgu a'r Cyngor i wneud y mwyaf o gyflawniad a lles.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu ymagwedd sy'n seiliedig ar drawma at atal a lliniaru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), sy'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael ag anghenion grŵp cynyddol o bobl ifanc gymhleth sydd eisoes wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac mae angen cymorth arnynt trwy ddarpariaeth a dargedir i adeiladu eu gwydnwch a'u helpu i gyflawni eu llawn botensial.

Wrth symud ymlaen i flwyddyn 1 ein Cynllun Corfforaethol newydd (2020-2025), rydym wedi ymrwymo i ymateb yn rhagweithiol i'r pwysau sy'n cynyddu i wneud mwy gyda llai a bydd hyn heb os yn herio ein huchelgeisiau, yn enwedig o ystyried costau economaidd-gymdeithasol ac iechyd digyffyleb y pandemig COVID-19 diweddar. Ochr yn ochr â'r dysgu hyd yn hyn o'n hymateb i'r argyfwng hwn, byddwn yn ailystyried y blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol a defnyddio hyn fel platfform er mwyn llywio ein o ddatblygu atebion wedi'u teilwra'n lleol a fydd yn helpu i adeiladu gwydnwch lleol a chanolbwyntio ar atal a lleihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid, gan gynnwys busnesau a chyflogwyr lleol, sefydliadau dysgu a'n cymunedau er mwyn chwilio am a gwneud y mwyaf o gyfleoedd a fydd yn cefnogi ein heconomi a galluogi dinasyddion y Fro i fod yn ffyniannus

## 5.1 YR HYN RYDYM WEDI EI GYFLAWNI

### 5.1.1 AMCAN 5: CYFLAWNIADAU

Mae ein dull o ddatblygu ysgolion sy'n gwella eu hunain wedi cyfrannu at sicrhau **nad oes unrhyw ysgolion yng nghategori camau dilynol statudol Estyn (Gwelliant Sylweddol neu Fesurau Arbennig)** ar gyfer y cyfnod. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 2 ysgol, **Ysgol Gyfun y Bont-faen a Meithrinfa Cogan eu cydnabod am eu perfformiad rhagorol gan Estyn.** Cyflawnodd y ddwy ysgol adroddiadau arolygu eithriadol a gwnaethant gyflwyno astudiaethau achos i'w defnyddio gan Estyn fel arfer gorau. Hefyd gwahoddwyd **Ysgol Gynradd Ynys y Barri** i rannu astudiaeth achos arfer gorau yn seiliedig ar y rhagoriaeth a nodwyd yn eu harolygiad.

**Yr awdurdod lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru mewn perthynas â chanlyniadau TGAU.** Llwyddodd mwy na chwarter (27.65%) o ddisgyblion blwyddyn 11 i sicrhau 5 cymhwyster TGAU gradd A* i A neu fwy o gymharu â 24.79% yn y flwyddyn flaenorol. Enillodd bron 73% raddau A* i C.






**Cafodd 9 o'n hysgolion eu nodi'n Ysgolion Arloesi Llywodraeth Cymru** (Ysgol Gynradd Albert, Ysgol Gynradd Ynys y Barri, Ysgol Gynradd Llangatwg, Ysgol Gyfun y Bont-faen, Ysgol Gynradd Rhws, Ysgol Gynradd Romilly, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseph, Ysgol Stanwell ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg) i rannu dulliau arloesol o weithio tuag at weithredu fframwaith newydd y cwricwlwm cenedlaethol.

Yn ogystal â chyfrannu at y fframwaith, **mae Ysgol Sant Joseff hefyd wedi cyflwyno ei chwricwlwm pwrpasol ei hun, gan ei gwneud yn un o 16 yn unig o Ysgolion Arloesi'r Cwricwlwm yng Nghymru.**


Cyflawnodd **85%** o **blant Dechrau'n Deg** o leiaf y deilliannau disgwyliedig (deilliant 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ystod y flwyddyn o'i gymharu ag 83% yn y flwyddyn flaenorol.



Buom yn gweithio'n agos gyda Chonsortiwm Canolbarth y De i fonitro cynnydd ein hysgolion. Yn ystod 2019/20, o'r 56 o ysgolion ym Mro Morgannwg, **nid**



Mae ein **cyfradd presenoldeb disgyblion (bron 95%) mewn Ysgolion Uwchradd ymhlith y chwartel uchaf o berfformwyr yng Nghymru yn y trydydd safle**ac mae'n cymharu'n ffafriol ag Awdurdodau Lleol tebyg yn Lloegr. Gyda chefnogaeth ein



**oedd ar unrhyw ysgolion angen lefel cymorth 'coch' gan y Consortiwm**.

cydweithrediad gydag ysgolion wrth weithredu hysbysiadau cosb benodedig a strategaeth Callio, mae ein ffocws yn parhau ar gynyddu lefelau presenoldeb ym mhob ysgol yn y Fro.

**Darparodd ein Tîm Lles Ieuenctid gymorth mentora i 280 o bobl ifanc sydd wedi cael profiad o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE)**). Roedd hyn yn cynnwys 1,244 o sesiynau mentora un-i-un unigol. 184 o sesiynau galw heibio ar draws ysgolion yn ystod amser cinio, a nifer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. O'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, roedd 29 mewn perthynas naill ai â phlant a gafodd eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (EOTAS) neu'r rhai nad oeddent yn mynychu, ac roedd gan 49 o'r rhain anghenion lluosog (hynny yw bod â 3 neu fwy ACE).

Ers ei sefydlu yn 2016, **mae'r project Ysbrydoli i Gyflawni wedi gweithio gyda 449 o ddisgyblion;** hyd yma mae 104 o'r disgyblion hyn wedi ennill cymhwyster ychwanegol ac mae 278 wedi dangos llai o risg o fod yn NEET yn y dyfodol. O'r 278, mae 107 o'r rhai sy'n gadael blwyddyn 11 wedi symud ymlaen i gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth cadarnhaol. Yn yr un modd, mae'r **project Ysbrydoli i'r Gwaith wedi llwyddo i ymgysylltu â 200 o bobl ifanc NEET** (16-25 oed) ac mae 82 wedi ennill cymhwyster ychwanegol, aeth un yn ôl at addysg ac chafodd 77 eu cyflogi.



**Cefnogodd ein Tîm Lles Ieuenctid 28 o bobl ifanc sydd mewn perygl o ddigartrefedd ar sail un-i-un, gan sicrhau eu bod yn parhau mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant** gan atal toriad y teulu, gwrthdaro teuluol a thrallod meddyliol.



Heb fod yn fodlon ar fod yn un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i **gyflawni'r marc ansawdd efydd ar gyfer ei wasanaethau ieuenctid,** mae gwasanaeth Ieuenctid y Fro wedi parhau i wneud cynnydd da tuag at gyflawni'r marc ansawdd arian. Rydym yn darparu **cyfleoedd achredu mwy perthnasol i bobl ifanc** gan arwain at **gynnydd yn yr achrediadau a gyflawnwyd o 75 i 206** (ac eithrio data Gwobrau Dug Caeredin sydd heb ei gyhoeddi eto) trwy ein mentrau Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i'r Gwaith. derbyniodd **25%** o bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth ieuenctid ganlyniad achrededig yn 2019/20.

Mae gwella safonau o gyrhaeddiad a lles disgyblion ar bob cyfnod allweddol yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Yn y **Cyfnod Sylfaen,** mae deilliannau disgyblion ym mhob maes dysgu craidd, ar y deilliannau disgwyliedig a'r rhai uwch, yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Yng **Nghyfnodau Allweddol 2 a 3**, mae'r disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig a'r rhai sy'n uwch na'r disgwyl ym mhob pwnc craidd yn parhau'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. **Ar Gyfnod Allweddol 4** mae'r deilliannau ar draws pob un o'r mesurau perfformiad dros dro newydd yn uwch na chyfartaleddau rhanbarthol a chenedlaethol. Ar **Ôl-16**, mae perfformiad cyffredinol ar draws y prif fesurau deilliant yn parhau'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.



**Mae 100% o ysgolion a arolygwyd yn 2019/20 wedi ennill sgorau naill ai rhagorol neu dda mewn perthynas â lles, gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion.** Mae hyn yn uwch na rhanbarth Consortiwm Canolbarth y De sef 91.7% ac 89.2% ar draws Cymru.

Cafodd ein ymagwedd rhagweithiol wrth sicrhau bod **plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel mewn ysgolion** ei gydnabod gan Estyn sydd wedi rhoi sgôr o **dda neu ragorol i bron pob ysgol yn y Fro ers 2016/17.**



Yn 2019, mae **deilliannau i ddysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn parhau i wella** ac mae **89%** (67) o garfan o 75 **yn cyflawni'r FP01 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, 89%** (67) o garfan o (75) o ddysgwyr **yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (CSI) ar CA2**, a **94%** (98) o garfan o 104 **yn cyflawni'r CSI yn CA3.**



Mae ein hymrwymiad parhaus i wella lefelau cyrhaeddiad drwy ymagwedd gydgysylltiedig gyda phartneriaid allweddol wedi sicrhau nad oes **unrhyw ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol wedi gadael addysg orfodol, hyfforddiant na dysgu seiliedig ar waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, heb gymhwyster allanol cymeradwy.** Mae'r perfformiad hwn yn ein rhoi ni yn **chwartel uchaf** awdurdodau lleol Cymru.

Trwy wahanol fentrau wedi'u targedu, rydym wedi lleihau ymhellach nifer y **rhai sy'n gadael Blwyddyn 11** y gwyddys nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth **(NEET).** Roedd ein perfformiad o **0.5%** yn golygu mai ni sydd **ar frig y rhestr yng Nghymru.** Yn yr un modd, mae perfformiad y rhai sy'n gadael blwyddyn 13 wedi gwella i **1.55% (4ydd) a blwyddyn 12 i 0.4% (7fed)** o'i gymharu â 2.85% a 0.6% yn y drefn honno yn 2018/19.

Yn unol â'n hymrwymiad i hyrwyddo a diogelu iechyd a lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol ein plant a'n pobl ifanc, mae **pob ysgol feithrin, cynradd, uwchradd, arbennig ac uned cyfeirio disgyblion ym Mro Morgannwg,** yn ogystal ag Ysgol Gweithredu Dros Blant Headlands ac Ysgol Breifat Westbourne (lleoliadau 60/60) **yn cymryd rhan yng Nghynllun Ysgolion Iach Bro Morgannwg**.Hyd yn hyn, mae bron pob un wedi cyflawni cyfnodau 1-5 ac mae'r mwyafrif yn gweithio tuag at y Marc Ansawdd Cenedlaethol (NQA), a roddir i ysgolion sydd wedi cyflawni'r safonau uchaf ym mhob un o'r saith agwedd ysgolion iach ar iechyd a lles am 9 mlynedd o leiaf. **Mae pedair ysgol yn Y Fro wedi derbyn y wobr glodfawr hon**, sef Ysgol Gynradd Ynys Y Barri, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd Tregatwg ac Ysgol Llanilltud Fawr.



Yn 2019/20, roedd **deilliannau i ddysgwyr BAME yn y Cyfnod Sylfaen yn dda** gyda'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni'r FP01, 89% (158) o garfan o 178 o ddysgwyr BAME. Roedd hyn yn welliant ar 86% yng ngharfan dysgwyr y flwyddyn flaenorol.

Cyflawnodd **92%** (167) o garfan o 182 **y lefel Dangosydd Pwnc Craidd lefel 4+ ar CA2**. Yn CA3, cyflawnodd **94%** o ddysgwyr BAME (185 o garfan o 197) **y lefel Dangosydd Pwnc Craidd 5+.**



Rydym yn parhau i lwyddo i ddarparu atal ac ymyrryd yn gynnar trwy raglenni fel **Teuluoedd yn Gyntaf** a mentrau Plant a'r Gymuned a ariennir gan grantiau sydd felly'n lleihau'r angen am uwchgyfeirio at wasanaethau statudol a chyfrannu at ddeilliannau gwell i blant, pobl ifanc a theuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, roedd defnyddwyr gwasanaeth **(dros 98% yn 2029) yn hapus gyda'r gwasanaeth a gawsant a'i effaith gadarnhaol (roedd 96% yn teimlo'n fwy hyderus ynddynt eu hunain a'u galluoedd yn dilyn cael cymorth).**

Mae lefelau cyrhaeddiad y 101 o ofalwyr ifanc a nodwyd yn y Fro yn cyd-fynd â'u galluoedd ac mae'r **mwyafrif wedi cyflawni lefelau disgwyliedig neu uwch o ran cyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen, a Chyfnodau Allweddol 3, 4 a 5.**



Mae Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg yn perfformio'n dda ac mae'n roi gwerth da am arian yn ôl ffigurau diwethaf yr Ystadegau Archwilio Cenedlaethol ar gyfer 2018/19. Ni oedd yr **2il awdurdod uchaf o ran perfformiad ar gyfer deilliannau achrededig gan bobl ifanc** (Gwasanaethau Cyffredinol).

**Darparodd ein Tîm Lles Ieuenctid a oedd newydd ei sefydlu gymorth mentorau i 280 o blant a phobl ifanc ,a atgyfeiriwyd sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyn**dod (ACE). Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd y staff 1,244 o sesiynau mentora un-i-un unigol gan gynnwys 184 o sesiynau galw heibio a 197 o sesiynau grŵp ar draws ysgolion a gwnaethant ddarparu nifer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. **Roedd 100% o ddefnyddwyr yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd trwy'r rhaglen Lles Ieuenctid.**



Dros y pedair blynedd diwethaf, cyhoeddwyd pob (**100%**) datganiad o **Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)** o fewn 26 wythnos (gan gynnwys ac ag eithrio eithriadau), gan felly sicrhau cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf,**nid oedd unrhyw waharddiadau parhaol** o ysgolion yn y Fro ac mae ysgolion yn parhau i weithio'n rhagweithiol gyda'r awdurdod lleol i ddod i hyd i ddewisiadau amgen trwy'r Panel Addysg Heblaw yn yr Ysgol a'r protocol Symudiadau wedi'i Rheoli sy'n cyfrannu at ddeilliannau gwell i blant a phobl ifanc.

Defnyddiodd **221** o deuluoedd wasanaethau FACT yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth wedi'i deilwra i anghenion penodol unigolion a'u teuluoedd yn gyffredinol. O'r rhain dywedodd **89% o deuluoedd gyda phroblemau ariannol fod eu sefyllfa wedi sefydlogi/gwella; mae 75% o blant ysgol wedi gwella eu presenoldeb yn yr ysgol; roedd 92% yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol a dderbyniwyd**.

Fel rhan o'r **Rhaglen Ad-drefnu a Buddsoddi Ysgolion a'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif,** rydym wedi parhau i wella'r amgylchedd dysgu i ddisgyblion mewn ysgolion ar draws y Fro sy'n cefnogi gweithredu strategaethau ar gyfer gwella ysgolion a deilliannau addysgol gwell yn llwyddiannus. Rydym yn parhau **ar y trywydd cywir ar gyfer cwblhau project Cymunedau Dysgu Uwchradd Y Barri erbyn mis Gorffennaf 2022, gan fuddsoddi £88.6 miliwn mewn tair ysgol uwchradd i greu canolfannau dysgu modern** er mwyn ateb galw yn y dyfodol a galluogi ein plant a'n bobl ifanc i wireddu eu llawn botensial. Bydd y cyfleusterau newydd hefyd yn darparu cyfleusterau lleol gwell ar gyfer y gymuned ehangach.



Rydym wedi cynyddu'r **cynnig gofal plant** i rieni sy'n gweithio yn y Fro drwy gyllid o £1.8 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y cyllid i sefydlu **lleoliad gofal plant newydd yn Ysgol Gynradd Gladstone ac ailwampio rhai presennol yn Llanfair ac Ysgol Dewi Sant,** gan alluogi mwy o blant i ddechrau ar eu taith dysgu.

**Mae 100% o'r ysgolion** rydym yn darparu ar eu cyfer (46 ysgol gynradd, 1 ysgol arbennig a 5 ysgol uwchradd) yn parhau **i gydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru).** Yn ogystal, mae **100% o'r** ysgolion uwchradd rydym yn darparu ar eu cyfer yn parhau i gydymffurfio â'r safona bwyd sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru).



Mae cynnydd cadarnhaol yn parhau mewn perthynas â chyrhaeddiad disgyblion gyda **gwelliannau o ran perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (cPYADd)** yn haf 2019. Yn y Cyfnod Sylfaen,

Rydym wedi gwella gwasanaethau ar y we ymhellach i ysgolion er mwyn cefnogi adnoddau dysgu ac yn unol ag agenda **dysgu digidol Llywodraeth Cymru** Rydym wedi parhau i wneud y mwyaf o'n

**Perfformiodd disgyblion y Fro yn gadarn yn arholiadau Safon Uwch eleni gyda mwy na chwarter (27.7%) o fyfyrwyr yn cael dwy radd uchaf o A* i A,** sy'n uwch na'r cyfartaleddau rhanbarthol a Cymreig.

**gwnaeth dros 85% o ddisgyblion cPYADd o leiaf y lefel ddisgwyliedig o gynnydd o'r Dosbarth Derbyn hyd at ddiwedd blwyddyn 2 ar draws pob maes dysgu** Yn ogystal, gwnaeth dros hanner o ddisgyblion cPYADd gynnydd uwch na'r disgwyl ar draws y cyfnod. Yng **Nghyfnod Allweddol 2, gwnaeth dros 75% o ddisgyblion cPYADd o leiaf y lefel ddisgwyliedig o gynnydd** ar draws y cyfnod allweddol. Yng **Nghyfnod Allweddol 3, gwnaeth dros 40% o ddisgyblion cPYADd o leiaf ddwy lefel o gynnydd** ar draws y cyfnod allweddol.

buddsoddiad mewn TGCh mewn ysgolion trwy raglen Newid TGCh Ysgolion Llywodraeth Cymru trwy HWB ac rydym yn cyflwyno gweinyddion yn raddol ar draws pob ysgol yn y Fro er mwyn cefnogi'r gwaith hwn.



**Cyflawnodd 76.9% o ddisgyblion raddau A* i C**, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. At ei gilydd, roedd lefelau cyrhaeddiad yn well na pherfformiad y llynedd.



Yn unol â'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau arlwyo o safon, **cafodd yr holl staff arlwyo presennol a newydd eu hyfforddi hyd at Safon Hylendid Bwyd Lefel 2.** Yn ogystal, mae pob arolygiad iechyd yr amgylchedd a gynhaliwyd mewn ysgolion yn 2019/20 wedi cyflawni safon Lefel 4 neu Lefel 5.

Drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, rydym wedi sicrhau bod **100% o'r Plant sy'n Derbyn Gofal yn gadael addysg orfodol gyda chymhwyster cymeradwy.**



Rydym wedi gwella ein **sgôr wedi'i chapio 9 ar gyfartaledd ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11** (382.3, i fyny ar 377.1 y llynedd), sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 354.4. Dyma'r cyfartaledd ysgol o gyfanswm y pwyntiau sydd ynghlwm wrth y naw TGAU uchaf, neu gyfaint cyfatebol y cymwysterau, ar gyfer pob dysgwr yn y garfan, gan gynnwys gofynion sy'n benodol i bwnc mewn iaith Cymraeg/Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Mae cydweithio gyda chontractwyr a phrojectau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus ar draws y Fro o dan y fenter Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi helpu i ddarparu **ystod o fanteision cymunedol.** Mae cymorth trwy roddion mewn nwyddau, amser gwirfoddolwyr, cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, hyfforddiant, cyngor busnes a chyfleoedd uwchsgilio i wirfoddolwyr a ddarperir i brojectau, sefydliadau neu fentrau cymdeithasol wedi cyfrannu at well canlyniadau i drigolion, yr amgylchedd a'r economi leol. Mewn perthynas â phroject Cymunedau Dysgu Uwchradd Y Barri, yn ystod 2019/20, **cafodd 39 o swyddi lleol a 14 prentisiaeth eu creu, darparwyd 2075.1 awr o hyfforddiant i raddedigion a phobl ifanc ar leoliadau gwaith a disgyblion, mae 50% o'r llafurwyr a ddefnyddir ar y safle yn lleol, cefnogwyd 1 project cymunedol, dargyfeiriwyd 94% o wastraff adeiladu o safleoedd tirlenwi a chynhyrchir 100% o ddeunyddiau adeiladu (concrit, carreg a dur) yng Nghymru, sy'n cyfrannu mwy na £1.38 miliwn i'r economi.**

Mae'r Cyngor wedi creu **630** o leoedd ychwanegol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gan gynnwys buddsoddi bron **£6 miliwn mewn dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd.** Mae hyn ar adeg pan fo nifer y siaradwyr Cymraeg o bob oed yn parhau i gynyddu.

Rydym yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu ymagwedd sy'n seiliedig ar drawma at atal a lliniaru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), sy'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, **Ysgol Gynradd Gladstone** oedd yr ysgol gyntaf yn y Fro i ennill y **Wobr am Ysgol a Arweinir gan Drawma** i gydnabod ei rhaglen magu plant a anelir at gefnogi disgyblion i adeiladu eu gwydnwch a'u helpu i gyflawni eu llawn botensial.

## 5.1.2 AMCAN 6: CYFLAWNIADAU

**Cymerodd pob ysgol yn y Fro ran** (1259 o ddisgyblion) mewn rhaglenni gwaith gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion o hil ymhlith plant a phobl ifanc.

Rhoddwyd statws **'Tref Deall Dementia' i'r Barri,** sef tref fwyaf y Fro, gan y Gymdeithas Alzheimer's ac mae nifer o'n prif drefi hefyd yn gweithio tuag at gyflawni'r statws hwn.

Yn unol â'n hymrwymiad i **leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein gweithle**, ers 2016, mae'r bwlch cyflog wedi lleihau o 8.88% i **4.57%** yn 2019.

**Cyflwynwyd Gwobr Siarter y Gymraeg i un ar ddeg o ysgolion ym Mro Morgannwg, sy'n dangos eu hymrwymiad i gefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.** Siarter Iaith Cymraeg Campus yw'r cyntaf o'i fath, wedi'i ddylunio i ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Llwyddodd Ysgol Dewi Sant, Ysgol Sant Baruc, Ysgol Pen y Garth ac Ysgol Bro Morgannwg i gyd i ennill y wobr arian. Llwyddodd Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Ysgol Gynradd Albert, Ysgol Gynradd Cogan, Ysgol Gynradd Dinas Powys, Ysgol Gynradd Fairfield, Ysgol Gynradd y Bont-faen ac Ysgol gynradd Colcot i ennill y wobr efydd.

Mewn partneriaeth â **Menter Bro Morgannwg**, rydym yn darparu rhagor o gyfleoedd i drigolion, gan gynnwys plant, pobl ifanc, teuluoedd a dysgwyr sy'n oedolion i gymryd rhan bob dydd mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymerodd dros **9,000** o blant, pobl ifanc ac oedolion mewn gwahanol fentrau yn ystod y flwyddyn ac ymrestrodd dros **400** o ddysgwyr newydd sy'n oedolion mewn cyrsiau dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau yn ystod y flwyddyn, gan gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn unol â'n **hymrwymiad i wella'r amgylchedd ac ansawdd yr aer o amgylch ein hysgolion,** rydym wedi ymuno ag Ysgol Gynradd Colcot, Gweithredu dros Natur Y Barri a Coed Cadw i blannu 200 o goed ifanc a 12 o goed ffrwythau tair troedfedd ar dir ger yr ysgol. Bydd y coed yn helpu i hidlo llygredd traffig a sŵn i ddisgyblion yr ysgol yn ogysal ag amsugno allyriadau CO2 a chreu cynefin i fywyd gwyllt ffynnu ynddo.

Mae Parciau Gwledig y Fro yn rhan o'i threftadaeth mannau gwyrdd ac rydym wedi ymrwymo i warchod yr ased hwn ar gyfer y dyfodol ei manteision o ran iechyd a lles i ddinasyddion. Mae'r asedau hyn yn parhau'n boblogaidd iawn gydag ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd ac yn ystod 2019/20, **adroddwyd am foddhad mawr ar gyfer ymweliadau â'n parciau gwledig (100%) a'r arfordir treftadaeth (100%).**

**Mae 133,891 o bobl sy'n byw yn y Fro wedi bod yn greadigol weithgar**, gan gymryd rhan mewn rhaglen gyflenwol o weithgareddau celfyddydol gyda lleoliadau a digwyddiadau celfyddydol yn cael eu darparu gan Wasanaeth Datblygu Celfyddydau'r Fro a grwpiau partner a sefydliadau lleol ac unigolion ym Mro Morgannwg. Mae hyn yn gynnydd ar berfformiad llynedd sef 112,882.

Rydym wedi parhau i **gynyddu nifer ac ystod y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i oedolion yn y Fro trwy ddysgu cymunedol** a bu'r niferoedd sy'n manteisio ar y cyfle yn uchel, ac felly hefyd ein **cyfradd llwyddiant sef 95%** ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Mae cyfradd llwyddiant uchel yn dangos bod mwy o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau ac yn ennill cymhwyster cydnabyddedig.

Fel Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewallrydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym weithle cynhwysol ar gyfer pob aelod o staff sy'n lesbiad, yn hoyw, yn ddeurywiol ac yn drawsryweddol. Mae'r Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle ar gyfer 2019/20 yn ein rhoi yn **hanner uchaf yr holl sefydliadau yn y DU (196 allan o 502).** Mae hwn yn welliant pellach ar berfformiad y llynedd pan oeddem yn y 215fed safle o 500.

Lansiodd gwasanaeth Llyfrgell y Fro ei **gynllun benthyca llechi cyntaf** ym mis Hydref 2019. Gan weithredu o lyfrgelloedd a lleoliadau cymunedol eraill ledled y Fro, mae'r cynllun yn helpu trigolion i wellau eu llythrennedd digidol a lleihau eu hynysu cymdeithasol trwy ddefnyddio 15 o iPads wedi'u galluogi gan 4G ac wedi'u llwytho gyda gwasanaethau defnyddiol fel gwasanaethau llyfrgell ar-lein, apps iechyd a lles, yn ogystal â gwybodaeth am wasanaethau cymunedol. Hyd yn hyn mae'r nifer sy'n manteisio ar y cyfle wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'r llechi allan ar fenthyg bob amser.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar sefydlu **Makerspace cyntaf y Cyngor ym Mhenarth**. Trwy ddarparu cyfleusterau cymunedol mewn man hygyrch agored a rhoi mynediad at adnoddau gan gynnwys offer a chyfarpar digidol, y gobaith yw y bydd hyn yn annog creadigrwydd yn y gymuned. Mae'r hybiau cymunedol hyn, lle y bydd pobl yn dod at ei gilydd i weithio gyda'i gilydd, dysgu oddi wrth ei gilydd, neu gymdeithasu yn rhan allweddol o Strategaeth Celfyddydau'r Cyngor, a byddant yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi lles y gymuned trwy annog pawb i gymryd rhan, gan gynnwys grwpiau sydd wedi'u hallgáu.

Mae **Canolfan Dysgu'r Fro** (VLC) yn parhau i roi cyfleuster o'r radd flaenaf i drigolion, gan helpu trigolion o bob oedran i ennill sgiliau a gwybodaeth ac ehangu eu gorwelion. Cafodd dros 300 o gyrsiau eu cynnal yn ystod y flwyddyn gyda chyfradd canlyniadau llwyddiannus o **dros 94% ar gyfer dysgwyr sy'n cyflawni eu nodau o ran cymwysterau.** Cynhyrchodd cyrsiau'r Fro **dros £300 mil o ran incwm** trwy fwy o bobl yn manteisio ar y cyfleoedd, a ddefnyddiwyd i gynyddu cyfleoedd dysgu ymhellach.

Ers eu sefydlu 2 flynedd yn ôl, mae llyfrgelloedd cymunedol wedi parhau i gynyddu ystod ac amrywiaeth y gweithgareddau sydd ar gael i drigolion y Fro. **Gwnaed bron 1.4 miliwn o ymweliadau** i'n llyfrgelloedd cymerodd pobl ran mewn ystod eang o weithgareddau er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles gan gynnwys: nifer o glybiau; noson cwis i oedolion; digwyddiadau awduron; gwahanol weithdai; grwpiau llyfrau; sesiynau cyfnewid gwybodaeth; boreau coffi; a gweithgareddau creadigol.

Yn ystod 2019/20, penderfynwyd ar **1297 o geisiadau cynllunio** ac roedd **36** ohonynt yn Ganiatâd Adeiladau Rhestredig; penderfynwyd ar **144 o geisiadau Coed; 77 o Waith i goed mewn ardal gadwraeth** a **67 o Waith i goed a gwmpesir gan Orchymyn Diogelu Coed** gan gyfrannu at ddiogelu a gwella treftadaeth adeiledig, naturiol a diwylliannol y Fro.

| | | |
|---|---|---|
| Yn ystod y flwyddyn, **cefnogwyd tua 5,000 o sefydliadau ac unigolion yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau** trwy ddarparu cyngor, gwybodaeth, mentora a chyfarwyddyd sy'n cyfrannu at gymuned wydn a ffyniannus yn y Fro (o'i gymharu ag ychydig dros 1,100 y llynedd). Mae hyn yn unol â Strategaeth Celfyddydau a Diwylliant y Cyngor sydd â'r nod o gynyddu cyfleoedd hygyrch a dinasyddion y Fro yn cymryd rhan yn y celfyddydau. | Rydym yn parhau i **gefnogi projectau celf gyhoeddus** i fywiogi ein mannau dinesig, cyflwyno unigrywiaeth i'n cymunedau a chynyddu hygyrchedd i'r celfyddydau. Cafodd 17 o brojectau ar draws y Fro yn Y Barri, Penarth, Dinas Powys, Y Bont-faen, Y Wig a Sili, eu symud ymlaen yn ystod y flwyddyn trwy gyllid Adran 106 (a'u cefnogi gan wasanaeth Datblygu'r Celfyddydau. | Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw rôl y llyfrgelloedd ym mywydau rhai o'n trigolion, yn arbennig y rheiny sydd yn gaeth i'w cartrefi neu sy'n methu gweld eu teuluoedd a'u ffrindiau yn y cyfnod anodd hwn. Gan fod llyfrgelloedd ar gau yn ystod y pandemig, **cyflwynwyd gwasanaeth 'Clicio a Chasglu' gennym i alluogi preswylwyr i barhau i fenthyca llyfrau, DVDs ac ati**. Gellir gwneud archebion dros y ffôn, neu e-bost a dyrennir slotiau casglu rhwng 10am a 4pm o ddydd Llun i Ddydd Gwener. |

# 5.2. EIN HERIAU

## 5.2.1 AMCAN 5: HERIAU

Y Fro yw'r awdurdod sydd â'r **cyllid isaf fesul disgybl yng Nghymru o hyd.** Er bod y lefel isel o gyllid a dderbynnir yn dangos bod gwerth da am arian yn cael ei gyflawni wrth ddarparu ein gwasanaethau, mae'r angen i barhau i **godi lefelau cyrhaeddiad yn erbyn cefndir o ostyngiad cenedlaethol parhaol mewn cyllid addysg a chynnydd o ran disgyblion sy'n mynychu ysgolion y Fro yn rhoi heriau sylweddol ar gyfer y dyfodol.** Nid yw'r lefelau isel parhaus o gyllid yn gynaliadwy yn y tymor hir a gallent fygwth gwasanaethau wrth fynd ymlaen.

Er bod safonau cyflawniad ar draws y Fro yn ddarlun sy'n gwella ar y cyfan, **mae angen o hyd i sicrhau bod y mewnbwn o Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De mewn ysgolion yn parhau i roi'r effaith a'r gwelliannau gofynnol yn nhermau parhau i godi lefelau cyrhaeddiad ar draws Bro Morgannwg a gwella canlyniadau arolygiadau Estyn.** O dan y fframwaith arolygu newydd, a gyflwynwyd ym mis Medi 2017, dim ond 2 ysgol a gafodd eu barnu'n rhagorol ar gyfer meysydd arolygu safonau a phrofiadau dysgu ac addysgu. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi ac yn parhau i ganolbwyntio ar weithio tuag at system o hunan-welliant.

Yn gyffredinol, mae safonau a gyflawnir gan blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi parhau i wella ac mae deilliannau i blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn cymharu'n dda a chyfartaledd Cymru. Mae perfformiad disgyblion sydd â 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' EAL mewn ysgolion y Fro yn dda ac yn unol â lefel caffael iaith disgyblion, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddo i ennill cyfleusterau yn iaith eu cartref yn y flwyddyn academaidd 2018/19. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'r deilliannau i **blant sy'n derbyn gofal yn cymharu'n dda â chanlyniadau plant eraill ym mhob cyfnod allweddol** ac mae angen gwneud mwy o waith i fynd i'r afael â hyn. Rydym hefyd yn cydnabod bod **angen sicrhau lleihad cyffredinol yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol. Mae gwella cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n talu am brydau ysgol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor** wrth symud ymlaen ac rydym yn rhoi camau pendant ar waith i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'r heriau hyn fod hyd yn oed yn fwy o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19.

Rydym yn gweld galw cynyddol am ddarpariaeth i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) disgwyliadau cynyddol cwsmeriaid sy'n parhau roi pwysau ychwanegol ar adnoddau addysg ganolog ac ar gyllidebau ysgolion unigol. Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn rhoi rhagor o ddyletswyddau ar yr awdurdod lleol sy'n cael effaith ar y timau i gyflawni gwasanaethau yn unol â'r disgwyliadau hyn. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi symud y dyddiad gweithredu ar gyfer y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ôl i fis Medi 2021 er mwyn rhoi mwy o amser i baratoi ar gyfer effaith y Ddeddf. Mae hwn yn faes newid arbennig o gymhleth a bydd angen yr amser ychwanegol a roddir gan yr oedi wrth weithredu'r Ddeddf

aae'r **galw am leoedd arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc yn cynyddu,** ac mae ateb y galw hwn yn hynod heriol. Mae'r angen am leoliadau y tu allan i'r sir (ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion na ellir eu bodloni o fewn y Fro) hefyd yn parhau i roi pwysau ar arbedion cyllideb y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau mae'r gyllideb

hon yn gyfnewidiol a gellir effeithio arni'n sylweddol gan newidiadau i nifer fach o leoliadau disgyblion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried lle bynnag y bod modd, dewisiadau amgen priodol yn y sir i fodloni anghenion addysgu plant tra'n lleihau costau.

Er gwaethaf her a chymorth rheolaidd i ysgolion, **mae presenoldeb disgyblion wedi gostwng ychydig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.** Rydym yn parhau i weithio gydag ysgolion i dargedu a mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus er mwyn gwella presenoldeb.

Gyda Llywodraeth Cymru yn dileu diogelu cyllidebau ysgol, bu angen cynyddol am gymorth i ysgolion i alluogi rheoli eu cyllidebau, gan ganolbwyntio ar ysgolion lle y mae cost chwyddiant a chynnydd demograffig yn uwch na thwf yn y gyllideb. Mae'r duedd bresennol hon yn rhoi **pwysau aruthrol ar wasanaethau addysg canolog ar adeg pan fo angen arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth ac arbedion cyllidebol pellach**.

Pan fydd **Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ddiwedd Ionawr 2020, bydd nifer o heriau cyllid i nifer o fentrau** megis Teuluoedd yn Gyntaf, Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio sydd yn draddodiadol wedi'u hariannu drwy gyllid grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae peidio â gwybod o le y bydd y cyllid yn dod, lefel y cyllid a hyd y cyllid, os bydd unrhyw beth ar gael, yn creu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd yn nhermau cynllunio gwaith yn y dyfodol a fydd o bosibl yn cael effaith ar gynnal y lefelau uchel o berfformiad a gyflawnir hyd yn hyn wrth gyflawni'r mentrau hyn. Mae **angen sicrhau bod strategaethau ymadael priodol ar waith ar gyfer yr holl brosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.**

Er bod ein hysgolion wedi ymateb i'r her COVID-19 trwy fabwysiadu llwybrau dysgu amgen yn gyflym, fel dysgu o bell i sicrhau bod disgyblion yn parhau i gael eu cefnogi i ddysgu, mae'n annhebygol y bydd y rhain yn cymryd lle'r dysgu a gollwyd o'r ysgol ac mae perygl go iawn y bydd hyn o bosibl y cael canlyniadau hirdymor ar gyfer y canrannau yr effeithir arnynt ac yn debygol o **gynyddu anghydraddoldebau addysg ac o bosibl sbarduno ymddieithrio ymhlith plant a phobl ifanc.**

Her allweddol dros y flwyddyn i ddod fydd sicrhau bod i**echyd meddwl a lles plant a phobl ifanc yn parhau i gael eu cefnogi,** yn enwedig yng nghyd-destun y trefniadau presenoldeb ysgol newydd a phwysau parhaus ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd.

Wrth ddarparu ar gyfer y newid o ran strategaeth ar gyfer dysgu cyfunol wrth i ni symud ymlaen, **bydd angen uwchsgilio staff er mwyn datblygu'r sgiliau a'r arbenigedd arbenigol sydd eu hangen i ddatblygu offer a strategaethau o fewn lleoliadau ysgol, yr awdurdod lleol a Chonsortiwm Canolbarth y De.**

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-24 yn gosod rhaglen uchelgeisiol o waith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'n targedu meysydd lle dangosodd ymchwil, gwybodaeth a data y mae'r anfantais fwyaf a lle roedden ni'n credu y gallem gael yr effaith fwyaf. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith. **Bydd angen i ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd, ymateb i'r anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg yn sgil COVID-19, a myfyrio ar sut y gallwn ymateb i faterion sy'n codi o'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys.** Mae hyn yn debygol o fod â goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chymunedau lle mae pobl o dan anfantais i gryfhau ein dealltwriaeth o faterion cyfredol a materion sy'n dod i'r amlwg er mwyn llywio ein penderfyniadau. Daw hyn ar adeg pan fo'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol wrth weithio tuag at adferiad yn dilyn y pandemig COVID-19 diweddar.

## 5.2.2 AMCAN 6: HERIAU

Mae lansio'r **Strategaeth Cymraeg 2050** (gan geisio 1m o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050), a **fframwaith Cynllun Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Llywodraeth Cymru** yn cael effaith sylweddol ar y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a gofynion y Cyngor o fewn ei WESP lleol. Bydd y newidiadau deddfwriaethol sydd ar ddod, a fydd yn dod i rym o 2019, yn cael **goblygiadau ariannol sylweddol ac effaith ar yr holl**

**wasanaethau sy'n bwydo i mewn i'r Cynllun, gan gynnwys darparu cymorth arbenigol neu drosiannol priodol drwy gyfrwng y Gymraeg.**

---

Gwnaed cynnydd da hyd yn hyn wrth gynyddu'r nifer ac ystod y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i oedolion yn y Fro trwy ddysgu cymunedol ac mae'r nifer sy'n manteisio wedi bod yn uchel, ac felly hefyd ein cyfraddau llwyddiant. Fodd bynnag, **mae perygl go iawn na fydd y cyfleoedd hyn yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hir o ystyried cyllid llai parhaus.** Mae hyn yn bygwth rhagolygon llawer o ddinasyddion y Fro yn y dyfodol, y gallai fod angen i lawer ohonynt ailhyfforddi i weithio y tu hwnt i oedran ymddeol yn ogystal â phobl ddi-waith y mae angen cymorth arnynt i hyfforddi ar gyfer rôl newydd. Mae cynyddu cyfleoedd i bobl gyflawni eu potensial llawn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ac rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod pobl sydd am ddefnyddio addysg oedolion fel sbardun i wella eu sgiliau yn parhau i gael mynediad i'r cyfleoedd hynny.

---

Er ein bod, yn gyffredinol, wedi ymateb yn llwyddiannus i'r her COVID19 drwy symud dysgu o ystafelloedd dosbarth i gartrefi ar y raddfa sy'n ofynnol dros gyfnod byr o amser, **mae cynnal a gwella dysgu o bell i bob disgybl dros y flwyddyn i ddod yn cyflwyno heriau dynol a thechnegol enfawr, yn enwedig o ystyried y galwadau llethol ar byrth addysg sy'n bodoli eisoes.**

---

Erys heriau o ran diwallu anghenion ein disgyblion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol wrth i ni symud ymlaen gyda'r trefniadau presenoldeb newydd mewn ysgolion. **Ar hyn o bryd rydym wedi benthyca offer wrth i ysgolion gau, fodd bynnag, bydd hyn yn mynd yn heriol wrth i ni symud tuag at ddysgu cyfunol a bydd angen i'r dyfeisiau hynny hefyd fod yn yr ystafell ddosbarth**. **Rydym hefyd wedi darparu Wi-Fi i rai teuluoedd hyd at fis Awst 2020, fodd bynnag, mae anghenion y disgyblion hyn y tu hwnt i hynny yn peri heriau ariannol a gweithredol**. **Mae problem hefyd gyda'r gadwyn gyflenwi ar gyfer dyfeisiau digidol a'r amser arweiniol (4-6 mis ar hyn o bryd) o ystyried y galw byd-eang.**

## 5.3 ASTUDIAETH ACHOS: CANLYNIAD LLES 3

Cydnabuwyd ers tro y gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael effaith fawr ar ddatblygiad plant a phobl ifanc a chanlyniadau bywyd. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn cydnabod bod atal a lliniaru canlyniadau PPNau yn hanfodol er mwyn gwella lles iechyd trigolion y Fro yn y tymor hir ac adlewyrchir hyn yn ei Gynllun Corfforaethol. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i weithio mewn partneriaeth i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol hynny ar draws y system i atal PPNau a chefnogi pobl a allai ddioddef yn y tymor hir o'u heffaith. Drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid i gynllunio a chysoni arferion, prosesau, gweithdrefnau a pholisïau strategol a gweithredol gan ganolbwyntio ar atal a darparu ymyrraeth amserol drwy ddulliau sy'n seiliedig ar drawma sy'n cynnwys teuluoedd a'u cymunedau i leihau PPNau pellach, gan ddechrau drwy 'roi dechrau da mewn bywyd i bob plentyn'.

Mae sawl agwedd ar y gwaith a wnaed hyd yma i atal a lleihau PPNau yn canolbwyntio ar yr **hirdymor** ac yn cynnwys **cydweithio** gyda llawer o randdeiliaid a gwasanaethau, gan adlewyrchu cymhlethdod a natur drawsbynciol PPNau. Yn ogystal â '**Chodi safonau cyflawniad cyffredinol'** a '**Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth'**, mae mynd i'r afael â'r materion hyn hefyd yn cyfrannu at Amcanion Lles eraill y Cyngor, hynny yw, '**Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol, Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel, Annog a hyrwyddo ffyrdd egnïol ac iach o fyw, Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed ac sy'n hybu byw'n annibynnol, a Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth'.**

Mae'r enghreifftiau a ddisgrifir isod (lleoliad mewn ysgolion) yn dangos sut mae ymagwedd **integredig** a rhagweithiol, a gyflawnir drwy **gydweithio** gyda phartneriaid allweddol (gan gynnwys yr awdurdod lleol ac asiantaethau eraill) gyda **chyfranogiad** llawn gan disgyblion, eu teuluoedd a'u cymunedau, yn cael effaith gadarnhaol mewn **atal** PPNau neu yn achos y rhai sydd eisoes yn eu profi, eu hatal rhag dwysáu gan leihau'r tebygolrwydd o brofiadau andwyol pellach yn ystod plentyndod yn y **tymor hir**.

Mae ysgolion yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â PPNau a meithrin gwydnwch ymhlith pobl ifanc ar gyfer y dyfodol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ysgolion sy'n cefnogi disgyblion â PPNau yn y ffordd orau hefyd yn meithrin gwydnwch a chryfder emosiynol ym mhob un o'u disgyblion; sail dda y gallant symud ymlaen arni i gyflawni eu potensial.

**FFOCWS AR: ANOGAETH YN YSGOL GYNRADD GLADSTONE**

Mae Ysgol Gynradd Gladstone yn ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae 448 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 27% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â chyfartaledd Cymru o 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 21% anghenion dysgu ychwanegol, sy'n hafal i gyfartaledd Cymru.

Mae'r dull gweithredu yn Ysgol Gynradd Gladstone yn seiliedig ar y ddealltwriaeth na fydd plant byth yn cyflawni eu potensial nac yn datblygu cariad at ddysgu oni bai eu bod yn emosiynol iach, yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gwerthoedd yr ysgol yn adlewyrchu pwysigrwydd hyn, ac mae gwasanaethau gwerthoedd yn hyrwyddo'r ddealltwriaeth hon. Mae cwricwlwm sy'n seiliedig ar werthoedd ar waith sy'n rhoi adborth i blant. Mae 'Cyngor Gwerthoedd' yn galluogi plant i gyfrannu at hyn ac mae plant yn ymwneud â monitro'r dysgu. Yn ganolog i waith yr ysgol, nid oes unrhyw blentyn yn cael ei adael heb gymorth i brosesu, siarad am a gwneud synnwyr o ddigwyddiadau bywyd poenus pan fyddant yn dymuno, gyda rhywun wedi'i hyfforddi i ddarparu ymateb empathig ac am gyhyd ag y bo angen.

Mae gan Ysgol Gynradd Gladstone raglen anogaeth 'cofleidiol' ar gyfer pob disgybl, yn enwedig i gefnogi disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ffocws cryf yn yr ysgol ar ddarparu amgylchedd diogel a meithringar lle mae pob disgybl ac aelod o staff yn teimlo'n hapus. O ganlyniad, mae staff yn adnabod eu disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol yn dda iawn ac yn gweithio'n agored, yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol gyda nhw ac mewn ffordd anfeirniadol i gefnogi eu dysgu a'u lles. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant priodol (gan gynnwys hyfforddiant perthynas PACE, WINE, PPNau a Thrawma) ac yn deall y rhwystrau sy'n wynebu disgyblion sydd wedi profi trawma a phrofiadau niweidiol ac yn cydnabod yr heriau y mae angen i'r disgyblion hyn eu goresgyn er mwyn dod yn wydn, yn iach ac yn hapus.

Drwy ddull ysgol gyfan, mae staff ysgol yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol iawn i ddiwallu anghenion disgyblion gan addasu disgwyliadau ac arferion o amgylch plant sy'n agored i niwed i gyfateb i alluoedd datblygiadol y plant hynny a'u profiad o straen a cholled trawmatig. Mae arweinwyr ysgolion yn dadansoddi ystod eang o ddata yn rheolaidd (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol yn ôl y gofyn) i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, yn enwedig o ran eu lles. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau eu bod yn weladwy ac yn hygyrch ar ddechrau'r ysgol. Mae hyn yn caniatáu i rieni ac uwch arweinwyr siarad yn anffurfiol wrth i blant gyrraedd yr ysgol, yn hytrach na gwneud apwyntiad ffurfiol i gyfarfod. Yn aml, mae'r gweithredu prydlon ac amserol hwn yn ddefnyddiol wrth fynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn gyflym, cyn iddynt waethygu.

Datblygwyd amgylchedd yr ysgol i gefnogi ymgysylltu cymdeithasol gan gynnwys mannau awyr agored, mannau grŵp bach, ac amgylcheddau o anogaeth fel clybiau brecwast ac ati. Ystafell ddynodedig o'r enw 'Y Cwtch' yw canolfan yr ysgol ar gyfer darpariaeth anogaeth. Mae'r ysgol yn ei disgrifio fel 'cartref oddi cartref i raddau helaeth' gyda dodrefn meddal, goleuadau ysgafn, gwynt afal sbeislyd, addurniadau a chasgliad o botiau te. Mae staff wedi ceisio creu 'Tŷ Mamgu' i ddisgyblion. Lle diogel. Mae'r ysgol wedi bod yn datblygu'r ystafell hon ers 2012 i gydnabod disgyblion sy'n ei chael hi'n anodd dysgu oherwydd eu lles corfforol neu emosiynol.

Mae gan yr arweinydd anogaeth gymwysterau da ac mae wedi cwblhau hyfforddiant gyda'r Grŵp Rhwydwaith Anogaeth ac mae hefyd yn hyfforddi fel cwnselydd, sy'n dangos ymrwymiad yr ysgol i barhau â'r pwyslais o wrando ar ei disgyblion. Ar hyn o bryd mae 11 o ymarferwyr TIS hyfforddedig, pob un wedi'i hyfforddi i ddarparu ymyrraeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ogystal â staff CCLlE hyfforddedig. Mae rhaglen fonitro

ffurfiol wedi'i sefydlu, ond rhoddir adborth anffurfiol o ddydd i ddydd yn ôl yr angen ac mae'r staff yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Mae hyn yn cyfeirio'n benodol at y ffordd y mae'r staff yn cefnogi lles y plant.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd, eu cymunedau, yr awdurdod lleol ac asiantaethau eraill i sicrhau cymorth 'cofleidiol' i bob disgybl yn ôl y gofyn. Defnyddir Motional i fonitro effaith yr ymyriadau ac i gynllunio strategaethau ac ymyriadau newydd yn ôl yr angen. Mae dull ysgol gyfan o ddefnyddio PACE (chwarae, derbyn, chwilfrydedd ac empathi) ym mhob rhyngweithiad â rhieni gofidus/dan straen, plant a chydweithwyr fel eu bod yn teimlo'n dawel eu meddwl, bod ganddynt rywun i wrando, yn gysylltiedig a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.
Un o gryfderau allweddol dull gweithredu'r ysgol yw bod yr holl staff yn deall yr angen i addasu'r amgylchedd i ddiwallu anghenion plant y funud honno, pan fyddant yn agored i niwed neu'n profi trawma. Gwneir unrhyw beth y gall yr ysgol ei wneud i leihau effaith y trawma gan gynnwys amser mewn canolfannau anogaeth gydag oedolion, amser gyda chi'r ysgol, cymorth 1-1, ymyriadau pwrpasol neu amser gydag oedolyn sydd ar gael ar lefel emosiynol.  Mae'r staff wedi cael eu hyfforddi mewn ffyrdd i osgoi ail-drawmateiddio plant, yn enwedig defnyddio llais, tôn ac iaith y corff.

**Disgrifiad o ddull anogaeth Gladstone**
Mae'r ddarpariaeth anogaeth yn dechrau am 8.45am pan fydd disgyblion 'brecwast' a ddewiswyd yn ofalus yn cyrraedd.  Byddant yn dechrau pob bore gyda gweithgaredd gwahanol wedi'i amserlennu, gan gynnwys lliwio a storïau.  Yna, mae'r disgyblion yn golchi eu dwylo, yn gosod y bwrdd brecwast ac yn paratoi brecwast syml o dost, jam a the neu ddŵr.  Dewisir y disgyblion hyn yn ôl presenoldeb, unrhyw bryderon gan athro neu gais gan rieni am gymorth os yw disgyblion yn amharod i ddod i'r ysgol.

Tra bo'r disgyblion yn bwyta rhwng 9am a 9.30am, mae gan Cwtch system 'galw heibio' lle gall pob disgybl 'alw i mewn am sgwrs'.  Mae hwn yn gyfle i wrando ar ddisgyblion, setlo anghydfod, a chynnig cyfnod tawel a chysur os oes angen, neu i gysylltu â rhieni os oes angen.  Efallai y bydd rhai disgyblion, er enghraifft, yn poeni am aelod sâl o'r teulu, neu efallai fod eraill wedi dadlau gyda ffrind.  Clywir eu llais, neu croesawir eu distawrwydd.  Mae croeso i bob disgybl.

Mae'r Cwtch yn newid yn ystod amser chwarae i fod yn ardal fyfyrio i ddisgyblion sydd wedi brifo plentyn arall y diwrnod cynt neu'r bore hwnnw.  Mae'r ysgol yn gwrthod derbyn unrhyw fath o gam-drin corfforol ac mae'n ofynnol i unrhyw blentyn sy'n brifo person arall yn yr ysgol lenwi ffurflen adferol, sy'n atgoffa disgyblion o'r gwerthoedd sydd ganddynt a pham nad oedd eu gweithredoedd yn ddefnyddiol, yn garedig nac yn gyfeillgar.

Mae'r ysgol yn rhedeg cylchoedd Rhaglen Cymorth i Fyfyrwyr (RhCF) dyddiol.  Mae'r rhain ar gyfer disgyblion a ddewisir gan athrawon, sy'n ystyried eu hamgylchiadau presennol yn ofalus.  Mae cylch RhCF yn rhedeg am 12 wythnos ac mae'n cynnwys cyfres o gylchoedd siarad sy'n cwmpasu pynciau o ddicter i gyd-fynd ag oedolion.  Mae gan ddisgyblion le diogel a chyfrinachol lle gallant fyfyrio ar eu perthnasoedd a'u hymddygiad, eu trafod a'u hadolygu.

Amser cinio, mae dau oedolyn yn bwyta gyda grŵp bach o ddisgyblion agored i niwed a allai ei chael hi'n anodd ymdopi mewn man bwyta mawr.  Mae'r staff yn gosod y bwrdd ac yn bwyta fel y byddai teulu gartref, gan annog moesau bwrdd, moesau bwyta ac awyrgylch bwyta naturiol a hamddenol.

Yn y prynhawniau, daw'r Cwtch yn uned anogaeth ar gyfer disgyblion a ddewisir yn ofalus gan ddefnyddio adnodd ar gyfer asesu datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol plant a phobl ifanc.  Mae gan yr ysgol strwythur cadarn i gynllunio ar gyfer lles emosiynol disgyblion.  Mae hyn yn cynnwys hwyluso teithiau lleol wythnosol, a chyfleoedd i ganu caneuon, coginio, adrodd straeon, paentio, creu a chwarae.

**Yr effaith ar ddarpariaeth a safonau dysgwyr.**
Mae safonau ymddygiad ar draws yr ysgol wedi gwella, gyda'r ysgol yn nodi cynnydd o 4% hyd yma eleni yn nifer y disgyblion sy'n teimlo bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ar draws yr ysgol.  Bu cynnydd o 7% yn

nifer y disgyblion sy'n teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw broblemau bwlio. Dangosodd arolwg diweddaraf Byd Plant yng Nghymru fod 91% o blant yn yr ysgol yn credu bod eu hathrawon yn poeni amdanynt. Yn yr un modd, maent yn teimlo'n hynod ddiogel, ac yn cael cefnogaeth dda gan oedolion. Mae hyn gryn dipyn yn uwch o'i gymharu ag ysgolion eraill yng Nghymru. Mae dadansoddiad arall yn nodi bod yr ysgol yn sylweddol well na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion yn ei hawdurdod lleol. Yn benodol, mae lefelau hunan-barch disgyblion yn uchel iawn ac mae lefelau dicter yn isel iawn. Mae gan bob disgybl gymhelliant uchel ac maent yn ymroi’n dda i wersi.

Mae'r ysgol hefyd yn nodi ei bod wedi gweld gostyngiad o 25% yn nifer y llythyrau a anfonir adref at rieni o ganlyniad i'w strategaeth ymddygiad ysgol gyfan. Mae cyfradd y gwaharddiadau wedi gostwng ac mae nifer y 'streiciau X' am drais corfforol hefyd wedi gostwng.

Enillodd Ysgol Gynradd Gladstone Wobr Ysgol sy’n Deall Trawma yn 2019 gyda'r cryfderau canlynol yn cael eu nodi yn ystod yr asesiad:

*'Mae Gladstone yn ysgol ysbrydoledig lle mae plant yn derbyn gofal ac yn cael eu meithrin gan dîm o oedolion cefnogol sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Mae'n ysgol sy'n galluogi plant i ddatblygu mewn amgylchedd sy'n gyfoethog o ran synhwyrau, ac sydd wedi'i gynllunio'n ofalus i gefnogi lles emosiynol. Mae pob arweinydd ysgol, gan gynnwys llywodraethwyr, yn gwerthfawrogi'n llawn bwysigrwydd cefnogi iechyd meddwl cadarnhaol, a blaenoriaethir hyn bob amser.*

*Mae'r ysgol wedi creu amgylchedd sy'n cefnogi pob plentyn sy’n cynnwys mannau diogel, mannau tawel, gardd goffa yn ogystal ag ardal awyr agored.*

*Siaradodd y plant yn frwdfrydig am yr ysgol ac mae'n amlwg eu bod yn mwynhau bod yn rhan o deulu Gladstone. Mae'r staff hefyd wrth eu bodd yn bod yn rhan o'r tîm hwn ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r ysgol yn haeddu’r Wobr Ysgol sy’n Deall Trawma yn fawr.*'

*Dyma gryfderau allweddol yr ysgol fel y nodwyd yn ystod yr arolygiad:*

- *Mae ethos yr ysgol yn seiliedig ar ofal gwirioneddol am y plant a dealltwriaeth o’r ffaith na all plant ffynnu heb berthnasoedd cynnes a gofalgar. Mae'r cydberthnasau hyn yn amlwg ar bob lefel ac mae pob oedolyn yn gallu siarad yn huawdl am y ffordd y maent yn cyfrannu atynt. Mae hyd yn oed y gofalwr yn gweithio gyda grwpiau o blant ar weithgareddau ymarferol.*
- *Mae sesiynau cwrdd a chyfarch yn digwydd bob dydd. Mae rhieni yn ogystal â phlant yn cael croeso ac yn cael cyfle i rannu sut maen nhw'n teimlo wrth iddyn nhw ddod i'r ysgol.*
- *Mae hyfforddiant staff yn un o gryfderau'r ysgol, ac mae pob oedolyn wedi cael hyfforddiant sylweddol mewn amrywiaeth o foddau i gefnogi plant. Mae ganddynt wybodaeth helaeth am y ffyrdd gorau o ymgysylltu â phlant er mwyn cefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles.*
- *Mae arweinwyr yr ysgol yn cefnogi staff yn effeithiol iawn. Maent yn rhoi adborth ar y pryd ac yn creu amser i holi'r staff yn dilyn materion a digwyddiadau anodd.*
- *Mae ymarferwyr yn modelu arfer gorau bob amser ac maent ar gael i gefnogi staff yn ôl yr angen.*
- *Addaswyd arfer i ddiwallu anghenion y carfannau perthnasol ac i roi'r cyfleoedd i blant barhau i ddysgu drwy weithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae.*
- *Mae argaeledd oedolion sydd ar gael ar lefel emosiynol i blant sy'n dioddef o straen a phryder yn helpu i sicrhau nad yw plant yn aros mewn cyflyrau uwch a'u bod yn cael eu cefnogi'n gyflym.*
- *Mae lles staff yn bwysig, ac mae'r staff yn cael cefnogaeth dda.*
- *Ceir dealltwriaeth sefydledig a weithredir yn llawn o bwysigrwydd cydberthnasau cadarnhaol a'r ffordd y gellir defnyddio PACE i gefnogi plant.*
- *Mae ystod eang ac ansawdd uchel o ymyriadau ar gael i blant.*

Yn adroddiad arolwg diweddaraf yr ysgol (2018), nododd Estyn fod*, 'staff yn y 'Cwtch' yn darparu darpariaeth anogaeth ragorol, sy'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar wella lles disgyblion. Er enghraifft, mae rhaglen gynhwysfawr o gymorth i ddisgyblion yn caniatáu i ddisgyblion sy'n agored iawn i niwed rannu eu pryderon*

*a'u teimladau mewn amgylchedd diogel a chyfforddus iawn. Mae'r ysgol yn asesu cynnydd disgyblion sy'n defnyddio'r 'Cwtch' yn rheolaidd ac mae staff yn parhau i fonitro disgyblion nad oes angen cymorth mor ddwys arnynt mwyach ar ôl dychwelyd i'r dosbarth. Mae'r 'Cwtch' yn effeithiol iawn o ran lleihau achosion o ymddygiad amhriodol neu ymosodol mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac o amgylch yr ysgol.*

*Mae holl staff yr ysgol yn rhannu angerdd yr arweinwyr i gynnal safonau uchel o ran lles disgyblion, yn arbennig. Maent yn darparu digonedd o gyfleoedd i sicrhau cymorth effeithiol i unrhyw ddisgyblion a allai fod yn agored i dangyflawni. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol iawn i gynnig y ddarpariaeth anogaeth 'Cwtch' werthfawr.'*

Mewn perthynas â safonau, mae Estyn yn nodi, *'Ar y cyfan mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac mae ychydig o ddisgyblion mwy galluog yn gwneud cynnydd rhagorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod ddefnyddiol o sgiliau llythrennedd a rhifedd y maent yn eu cymhwyso'n dda mewn gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 uchaf yn ddysgwyr annibynnol a chwilfrydig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, neu'r rhai y mae angen hwb arnynt i'w sgiliau sylfaenol, yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u gallu drwy gymryd rhan mewn ystod eang o raglenni ymyrraeth priodol.'*

## FFOCWS AR: DEULUOEDD A CHYMUNED WRTH GALON BYWYD YR YSGOL - YSGOL GYNRADD TREGATWG

Mae Ysgol Gynradd Tregatwg yn ysgol cyfrwng Saesneg 3-11 a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae 499 o ddisgyblion ar y gofrestr gan gynnwys 88 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Dros y tair blynedd ddiwethaf, y cyfartaledd treigl o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 34%. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18% ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 33% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn hefyd lawer yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 21% ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal o amddifadedd economaidd yn y Barri ac mae ganddi'r gyfradd troseddau ieuenctid uchaf yn y Fro. Yn 2011, pan benododd yr ysgol y pennaeth presennol, sylweddolodd arweinwyr ar yr angen i gryfhau trefniadau'r ysgol ar gyfer ymgysylltu â rhieni a chynnwys y gymuned. Sefydlwyd gweledigaeth a chenhadaeth ysgol newydd a oedd yn cynnwys ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned fel conglfaen. Roedd staff a llywodraethwyr yn cydnabod y rôl bwysig y gallai'r ysgol ei chwarae wrth bontio'r bwlch rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn sicrhau bod disgyblion, teuluoedd a grwpiau cymunedol yn gallu ffynnu. Eu cenhadaeth oedd darparu hafan ddiogel, gyffrous a hapus yng nghanol cymuned Tregatwg. Er mwyn llwyddo gyda'u nod, mae staff wedi datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â pherthnasoedd ac ymyriadau lle nad yw cynnwys teuluoedd a'r gymuned yn rhan annatod o'u gwaith ond yn sbardun allweddol i bopeth a wnânt. Mae staff yn ymfalchïo mewn gwrando er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi i bawb yng nghymuned yr ysgol y cymorth, y parch a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddysgu, tyfu a chyflawni eu potensial. Mae arweinwyr wedi penodi Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd (SYTh) llawn-amser ac wedi sefydlu tîm o staff i'w chefnogi gyda'r gwaith hwn, gan gynnwys aelod o'r uwch dîm arwain. Yn ogystal, mae arweinwyr yn neilltuo amser ac adnoddau i gefnogi a thyfu gwaith teuluol a chymunedol yr ysgol yn barhaus.

**Disgrifiad o ddull Tregatwg**

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion, eu teuluoedd ac aelodau o'r gymuned ehangach yn llwyddiannus mewn sawl ffordd.

*Canolfan gymunedol / Cornel Caradog*

Mae'r ysgol yn ffodus i rannu safle gyda chanolfan gymunedol leol. Sylweddolodd arweinwyr ar botensial yr adnodd ychwanegol hwn. Buont yn gweithio gyda grŵp o rieni i sefydlu 'Cornel Caradog'. Grŵp elusennol yw hwn sy'n gwasanaethu teuluoedd yn yr ysgol ynghyd ag aelodau eraill o gymuned ehangach Tregatwg. Eu nod cychwynnol oedd cael cyllid i ymestyn cyfleusterau'r ganolfan gymunedol fel y gallai'r ysgol ddefnyddio'r ganolfan ar gyfer llawer o weithgareddau ymgysylltu â theuluoedd, gan gynnwys sefydlu caffi cymunedol. Mae'r grŵp yn gyfrifol am redeg y ganolfan o ddydd i ddydd ac yn rheoli archebion ar gyfer grwpiau cymunedol

ehangach sy'n defnyddio'r cyfleuster i ddarparu gweithgareddau cymunedol fel grŵp dawns. Yn ystod y diwrnod ysgol, mae'r ganolfan yn ffocws ar gyfer gweithgareddau cymunedol yr ysgol. Mae staff yn defnyddio'r lle at ystod eang o ddibenion gan gynnwys eu clwb brecwast ar gyfer disgyblion iau, gweithgareddau dysgu fel teulu, sesiynau coffi i rieni a phrosiectau sy’n pontio’r cenedlaethau.

Mae gan yr ysgol ffocws cryf ar leihau effeithiau Profiadau Plentyndod Negyddol (PPNau) drwy weithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd a'r gymuned ehangach i wella lles a chanolbwyntio'n gryf ar faeth. Mae'r ysgol yn rhan o brosiect peilot 'Bwyd fel Tanwydd' lle mae’n ailgylchu cynhyrchion archfarchnad y mae eu ‘dyddiad dod i ben’ wedi pasio yng nghaffi'r ysgol ac yn gwerthu bwyd i deuluoedd mewn marchnad. Mae tîm ymgysylltu â theuluoedd yr ysgol yn arwain project i helpu i werthu'r bwyd yn y caffi a'r siop ar sail 'talu fel y mynnwch' i annog pob rhiant, yn enwedig y rhai ar incwm isel, i gael mynediad. Disgyblion Blwyddyn 6 sy'n rhedeg y caffi, gan ddefnyddio'r cynnyrch a roddwyd i goginio prydau maethlon i rieni ac aelodau eraill o'r gymuned leol. Mae gan rieni le diogel lle maent yn gwybod y gallant gael bwyd a chymorth. Mae disgyblion Blwyddyn 6 hefyd yn gwneud 'bagiau tyfu' y maent yn rhoi ryseitiau a chynhwysion prydau iach ynddynt. Maent yn gwerthu'r bagiau hyn i rieni. Bydd y disgyblion yn defnyddio'r arian y maent yn ei godi i dalu am eu parti 'prom' ar ddiwedd y flwyddyn.

*Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol*

Yn ystod gwyliau'r haf, pan na all yr ysgol gynnig brecwast a chinio am ddim i ddisgyblion, gall teuluoedd yn aml ei chael hi'n anodd fforddio a chael gafael ar fwyd i roi deiet iach i blant. Yn ogystal, gall disgyblion brofi unigedd cymdeithasol a diffyg ysgogiad deallusol, a ddarperir fel arfer gan weithgareddau cyfoethogi'r ysgol neu'r teulu. Gall hyn gyfrannu at fwlch cyrhaeddiad cynyddol ymhlith disgyblion. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r ysgol yn darparu Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (RhCGY) i sicrhau y gall teuluoedd sy'n agored i niwed gael cymorth yn ystod yr egwyl o chwe wythnos. Mae'r ysgol yn defnyddio grant gan Lywodraeth Cymru i dalu'r holl gostau. Mae staff cymorth o'r ysgol yn rhedeg y rhaglen am dair wythnos gyntaf gwyliau'r haf. Mae'r oedolion hyn eisoes yn gweithio yn yr ysgol felly maent yn adnabod y disgyblion a'u hanghenion penodol yn dda. Yn ogystal, mae staff arlwyo lleol yn darparu brecwast a chinio maethlon i bob disgybl sy'n mynychu. Mae'r staff yn trefnu amrywiaeth eang o weithgareddau addysgol a hwyliog ac yn annog disgyblion a'u teuluoedd i fod yn fwy egnïol ac i fwyta'n iach. Defnyddiodd yr ysgol sefydliadau lleol i helpu gyda gweithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau criced lleol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Yn ystod y rhaglen, gwahoddodd yr ysgol rieni i fynychu hefyd. Defnyddiodd yr ysgol y cyfle hwn i roi mynediad iddynt at wasanaethau pwysig fel yr undeb credyd lleol, Teuluoedd yn Gyntaf, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd a Dechrau'n Deg. Yn haf 2019, defnyddiodd 92 o ddisgyblion y rhaglen.

*Teuluoedd ac Ysgolion Gyda'n Gilydd*

Un o fentrau mwyaf llwyddiannus yr ysgol fu’r projectau Teuluoedd ac Ysgolion Gyda'n Gilydd (TYGG). Project Achub y Plant yw hwn, sydd â'r nod o wella dysgu a pherthnasoedd drwy ddod â rhieni, plant, athrawon a'r gymuned ehangach at ei gilydd. Mae'n dod â theuluoedd at ei gilydd mewn ffordd gadarnhaol, gefnogol, anfeirniadol. Creodd arweinwyr dîm TYGG a oedd yn cynnwys staff, rhieni ac aelodau o'r gymuned leol a derbyniodd staff hyfforddiant ar y dull gweithredu. I ddechrau, nododd yr ysgol grŵp o ddisgyblion a theuluoedd agored i niwed i'w targedu. Yna, mae'r teuluoedd hyn yn cymryd rhan mewn rhaglen ar-ôl-ysgol 8 wythnos i adeiladu ar gryfderau eu teuluoedd a'r gymuned. Nod y project yw grymuso rhieni yn hytrach na defnyddio dull rhagnodol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys rhoi amser un-i-un gwerthfawr i rieni gyda phlant unigol, bwyta prydau gyda'i gilydd, trafod materion teuluol, siarad am broblemau ehangach a chymryd rhan mewn gweithgareddau teuluol hwyl. Mae swyddog eglwys leol a Swyddog Cymorth Cymunedol yr ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith hwn. Mae hyn yn helpu i gryfhau'r berthynas ag aelodau allweddol o'r gymuned. Mae'r tîm yn cael gafael ar gyllid i rieni i'w helpu i ddatblygu sgiliau fel gyrru a chwnsela. Mae’r ysgol wedi gweld llawer o lwyddiannau, gan gynnwys perthnasoedd teuluol gwell, mwy o hunan-barch mewn rhieni a disgyblion a rhieni’n dod o hyd i waith.

*Dysgu fel Teulu*

Mae mwyafrif o rieni'r ysgol yn ddi-waith ac yn methu dod o hyd i waith. Gallai fod ganddynt hunan-barch isel ac yn aml nid oes ganddynt yr hyder i gefnogi eu plant eu hunain gyda'u haddysg. Cydnabu'r ysgol y rôl bwysig

y gall ei chwarae wrth ymgysylltu â rhieni, teuluoedd a'r gymuned ehangach i wella eu lles ac i roi cyfleoedd iddynt ddysgu sgiliau newydd. Mae'r staff wedi cynllunio a chwilio am gyrsiau pwrpasol i fodloni anghenion rhieni. Mae'r cyrsiau wedi cynnwys cyrsiau Cymraeg a mathemateg, dysgu cyfrifiadurol, gwnïo, coginio, Cymraeg, hylendid bwyd, cymorth cyntaf a chynllunio ariannol. Mae'r ysgol naill ai'n cynnal hyfforddiant yn y ganolfan gymunedol ar y safle neu'n cyfeirio rhieni at ganolfannau addysgol lleol eraill.

*Yr Ardd*

Er bod yr ysgol ar safle mawr, nid oes yna unrhyw fannau gwyrdd. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, mae arweinwyr wedi sicrhau perchenogaeth o ddarn o dir cyfagos i ddatblygu gardd ysgol ac ystafell ddosbarth awyr agored. Manteision arfaethedig y project hwn oedd nid yn unig darparu mannau gwyrdd i ddisgyblion a'u teuluoedd, ond hefyd i gynnwys aelodau o'r gymuned leol wrth ddatblygu sgiliau garddio ac adeiladu. Gweithiodd yr ysgol gyda grŵp cymunedol lleol, Sefydliad Teulu'r Barri, i ymgysylltu â rhieni a gwirfoddolwyr cymunedol lleol eraill i wireddu'r weledigaeth. Roedd llawer o'r gwirfoddolwyr hyn yn dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma. Darparodd y sefydliad hyfforddiant hefyd i'r gwirfoddolwyr ym maes iechyd a diogelwch a hefyd i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i greu'r gofod a gwneud adnoddau fel meinciau, cysgod awyr agored a phwll dŵr. Trodd y tîm ddarn o dir blêr yn ofod sy'n hyrwyddo lles meddyliol a chorfforol disgyblion, staff a theuluoedd fel ei gilydd. Er mwyn ariannu'r fenter, sicrhaodd yr ysgol gyllid gan y Loteri Genedlaethol a'r busnes lleol Dow Silicones Limited.

**Yr effaith ar ddarpariaeth a safonau dysgwyr**

- Nododd yr ysgol ostyngiad yn nifer y digwyddiadau cartref a gofnodwyd yn ystod gwyliau'r haf yn sgil darparu RhCGY.
- Dywedodd bron pob rhiant a holwyd eu bod wedi ymgysylltu'n well â'r ysgol a gweld effaith ariannol gadarnhaol a oedd yn eu helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gwyliau'r ysgol.
- Mae rhieni a ymgysylltodd â'r rhaglen TYGG wedi gallu cyfathrebu'n fwy effeithiol â'u plant a chyda mwy o hyder.
- Mae dyheadau rhieni a disgyblion wedi gwella.
- Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a rhieni anodd eu cyrraedd wedi gwella.
- Mae perthynas gref ac ymddiriedus wedi datblygu rhwng grwpiau cymunedol, gan gynnwys yr heddlu lleol, a theuluoedd lleol.
- Mae rhieni hirdymor ddi-waith wedi llwyddo i gael gwaith ar ôl ymgysylltu â dysgu fel teulu.
- Mae ymwybyddiaeth a sgiliau rhieni am faterion fel bwyta'n iach a sut i gefnogi eu plant gartref wedi cynyddu.
- Mae lles, hyder a hunan-barch rhieni a ymgysylltodd â dysgu fel teulu wedi gwella.
- Mae balchder a pherchnogaeth gymunedol wedi datblygu yn dilyn creu'r Ardd.
- Mae gwirfoddolwyr o'r gymuned a fu'n gweithio ar yr Ardd wedi datblygu sgiliau allweddol ac wedi gwella eu lles a'u hyder.
- Cafodd cyfranogwyr brofiad gwaith gwerthfawr i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl diweithdra hirdymor.

Yn adroddiad arolwg diweddaraf yr ysgol (2017), nododd Estyn, *'Trwy amgylchedd dysgu a chwricwlwm o ansawdd uchel, mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyffrous sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus ac yn cyfoethogi eu bywydau. Mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn gyson dda. O ganlyniad, mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth symud drwy'r ysgol ac mae lleiafrif yn gwneud cynnydd eithriadol.'*

*'Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar a chynhwysol. Mae'r holl staff a llywodraethwyr wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn datblygu fel unigolion hapus a hyderus ac maent yn deall sut mae eu rôl yn yr ysgol yn cyfrannu at hyn. O ganlyniad, mae gan bron pob disgybl lefelau uchel o hunan-barch ac agweddau cadarnhaol iawn, aeddfed tuag at ddysgu.'*

Mewn perthynas â safonau, mae Estyn yn nodi, '*Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda sgiliau sy'n is na'r rhai a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da o leiaf ac mae lleiafrif yn gwneud cynnydd eithriadol*'.

**Ein statws CMG gyffredinol ar gyfer 'Bro Actif ac Iach' yw MELYN**

## 6.0 DATGANIAD SEFYLLFA

Mae creu 'Bro Actif ac Iach' yn hanfodol i wella iechyd a lles ein dinasyddion ac mae wedi ein helpu i gyfrannu at nod lles 'Cymru Iachach'. Mae ein gweledigaeth ar gyfer 'Bro Actif ac Iach' wedi ein galluogi i sicrhau bod dinasyddion o bob oed yn gallu mabwysiadu ffyrdd actif ac iachach o fyw a'u bod yn gallu cael gofal a chymorth sy'n cyd-fynd â'u hanghenion. Mae'r weledigaeth hon hefyd wedi ein cefnogi i ganolbwyntio ar roi'r 'Dechrau Gorau' mewn bywyd i blant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu cyrraedd eu potensial a galluogi ein dinasyddion hŷn i fyw'n fwy annibynnol.

Gan ystyried y cynnydd eleni o ran cyflawni blwyddyn olaf Cynllun Corfforaethol 2016-20, gallwn ddod i'r casgliad y gwnaed cynnydd cryf wrth drawsnewid Bro Morgannwg yn lle actif ac iach i'n trigolion fyw ynddo. Rydym wedi seilio'r dyfarniad hwn ar ein statws CMG **Melyn** ar gyfer ein perfformiad mewn perthynas â gweithgareddau'r Cynllun Corfforaethol sydd yn yr arfaeth sy'n cyd-fynd â'r canlyniad hwn a'i amcanion cysylltiedig yn ogystal â'n hasesiad o gyflawniadau allweddol eraill. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi cyfle i ni ddathlu ein cyflawniadau, ond i gydnabod hefyd na fu ein cynnydd heb ei heriau. Drwy gydnabod ac ystyried yr heriau hyn, mae'n ein galluogi i weithio tuag at eu goresgyn.

O ran camau gweithredu'r Cynllun Corfforaethol, mae rhan fwyaf, sef 76% (55/72), o weithgareddau'r Cynllun Corfforaethol sy'n cyd-fynd â blwyddyn olaf y Cynllun wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Mewn perthynas â'r amcan: 'Ffyrdd actif ac iach o fyw', cwblhawyd 100% (18) o'r camau gweithredu yn llwyddiannus a chwblhawyd 68.5% (37) o'r camau gweithredu mewn perthynas â'r amcan 'diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol'. Ar draws y Canlyniad, cafodd 17 cam gweithredu statws coch i adlewyrchu llithriant ac roedd hyn yn berthnasol i 24% o'r gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer 2019/20. Mae hyn wedi nodi'r angen i wella opsiynau hunanwasanaeth i gwsmeriaid ymhellach, cryfhau ac estyn gweithio ar y cyd rhwng Cyswllt Un Fro a'r Bwrdd Iechyd, archwilio datblygiad model integredig ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Hirdymor a'r Tîm Aseswyr Nyrsio yn Nhŷ Jenner, a chynnal polisi recriwtio mwy diogel y cyngor. Mae gwaith mewn perthynas â'r meysydd hyn wedi'i gario ymlaen yn y Cynlluniau Gwasanaeth priodol ar gyfer 2020/21.

Ein hawydd i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf i alluogi dinasyddion i fyw bywydau iachach ac actif yw sail ein ffordd o weithio a'r hyn sy'n ei llywio. Drwy gydol 2019/20, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gynyddu cyfraddau cyfranogi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy weithio mewn partneriaeth â 317 o bartneriaid i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol y Fro. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi ein galluogi i ddatblygu 40 o gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol gwahanol, gan roi mwy o gyfle i breswylwyr o bob oed gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a chorfforol ar sawl lefel. O ganlyniad i'r gwaith hwn, bu 222,000 o achosion o gyfranogi mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol mewn cysylltiad uniongyrchol â'r cynllun.

Cydnabyddir yn gyffredinol bod darparu Rhwydweithiau Actif yn rhan bwysig o ymdrechion i annog pobl i fod yn fwy actif. Yn ystod 2019/20, rydym wedi parhau i wella ein rhwydweithiau teithio llesol gyda gwelliannau

i'n beicffyrdd a'n troedffyrdd fel Aberogwr, Fferm Goch, Llan-gan ac Ystradowen, yn ogystal ag ar Hen Ffordd y Porth y tu allan i Ysgol Gynradd Gwenfô. Yn ogystal â hyn, mae cynlluniau trafnidiaeth mawr fel cynllun gwella'r Lôn Pum Milltir a Ffordd Fynediad y Gogledd, a ariennir drwy Lywodraeth Cymru, hefyd wedi ymgorffori gwelliannau Teithio Llesol megis troedffyrdd/beicffyrdd cyfunol.

Drwy gydweithio â mwy na 40 o bartneriaid, rydym wedi darparu dull arloesol a rhaglen chwarae gyffrous ar draws Bro Morgannwg a arweiniodd at dros 1,500 o achosion o gyfranogi mewn gweithgareddau chwarae yn ystod 2019/20. Drwy ariannu amrywiaeth o brojectau chwarae ac offer chwarae, rydym wedi effeithio ar dros 10,000 o blant. Yn ogystal, sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Gofal Plant a Chwarae, i ni benodi Gweithiwr Datblygu Chwarae Cymunedol i ehangu chwarae yn y gymuned ymhellach mewn ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd lle nad oes llawer o gyfleoedd chwarae. Er enghraifft, lluniwyd Rhestr Chwarae i Fynd i gefnogi darpariaeth chwarae yn y gymuned drwy wasanaeth benthyg offer am ddim. Gall grwpiau cymunedol, sefydliadau, ysgolion a phartneriaid fenthyg pecynnau offer gan gynnwys rhai sy'n seiliedig ar themâu megis Y Tylwyth Teg a Ffantasi, y Byd Jwrasig, Adeiladu, Chwarae Synhwyraidd, Adeiladu Cuddfan a Chwarae Dŵr.

Mae rhoi llais a rheolaeth i ddinasyddion dros sut maen nhw'n diffinio eu hanghenion gofal a chymorth yn parhau i fod yn nodwedd allweddol yn ein gwaith o ran diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol. Mae'n ein helpu i rymuso ein dinasyddion i gyflawni eu canlyniadau iechyd a lles eu hunain. Mae arolygon diweddar o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cael gofal a chymorth[1] wedi dangos bod 94% o bobl wedi dweud eu bod yn teimlo eu bod yn ymwneud â'r penderfyniadau a wnaed ynghylch eu hanghenion gofal a chymorth a dywedodd 94% eu bod yn teimlo'n fodlon ar y gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu cael. Yn ogystal â hyn, dywedodd 98% o bobl eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Mae sicrhau bod ein dinasyddion yn gallu cael gwybodaeth, cyngor a chymorth yn effeithiol ac yn amserol yn elfen hanfodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ystod 2019/20, amlygodd ein harolygon defnyddwyr gwasanaeth fod 95% o ymatebwyr wedi dweud eu bod yn cael yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd eu hangen arnynt. Rydym wedi gwella ein gallu i ddarparu ymateb cyflym i bob ymholiad gan y gwasanaeth i oedolion am wybodaeth, cyngor a chymorth drwy sefydlu Swyddogion Lles yng Nghanolfan Gyswllt Cyswllt Un Fro. Yn ogystal, mae penodi dau Swyddog Gweledol Lles wedi ein galluogi i sefydlu swyddogaeth allgymorth i sgrinio atgyfeiriadau'r Gwasanaeth Oedolion, cynnal asesiadau cymesur a chynnal ymweliadau cartref. Drwy fuddsoddi mewn staff arbenigol wrth y 'drws ffrynt' drwy Cyswllt Un Fro, rydym wedi gallu lleihau amseroedd aros i ddefnyddwyr gwasanaethau, gwella prydlondeb asesiadau a galluogi cyfeirio priodol at wasanaethau eraill. Mae hyn wedi bod yn ffordd effeithiol o atal materion rhag gwaethygu a lleihau'r pwysau ar dimau Gwaith Cymdeithasol.

Mae cynnwys dinasyddion wrth gynllunio a datblygu ein gwasanaethau yn parhau i fod yn elfen ganolog o'n gwaith. Yn ystod 2019/20, ymgysylltwyd â gofalwyr i lunio a llywio'r gwaith o greu Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol a datblygu Porth i Ofalwyr. Lansiwyd y Porth Gofalwyr yn ystod mis Mawrth 2020, fel menter ar y cyd rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg i ddarparu gwybodaeth a chymorth i bobl ddi-gyflog. Nod y gwasanaeth yw gwella ansawdd bywyd gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal trwy eu helpu i fyw mor annibynnol â phosibl.

Mae cefnogi ailalluogi pobl yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty yn ganolog i adennill eu hyder a'u gallu i fyw mor annibynnol â phosibl. Drwy ein pecynnau cymorth ailalluogi rydym wedi gweld llwyddiant sylweddol o ran cefnogi ein dinasyddion i fyw'n fwy annibynnol. Rydym wedi cyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar ddarparu pecynnau cymorth y gellir eu lleihau yn amserol er mwyn rhoi mwy o annibyniaeth. Yn ystod 2019/20, cafodd 17.51% o oedolion a gafodd gymorth ailalluogi becyn llai o ofal a chymorth ar ôl dim ond 6 mis. Nid oedd

[1] Cynhaliwyd cyfuniad o arolygon yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2019/20 yn holi defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael gofal a chymorth am eu profiadau.

angen unrhyw becyn gofal a chymorth ar ôl 6 mis ar 81.11% arall o oedolion, a gafodd gymorth ailalluogi yn flaenorol.[2]

Lansiwyd Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru ym mis Tachwedd 2019, dan arweiniad Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro a Chadeirydd y project oedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Mro Morgannwg. I ategu'r gweithdrefnau, mae ap digidol wedi'i ddatblygu ar gyfer ymarferwyr i gefnogi natur ystwyth eu rôl. Dyma'r tro cyntaf i set gyson o weithdrefnau diogelu gael ei mabwysiadu i'w defnyddio ledled Cymru ar gyfer oedolion a phlant sy'n wynebu risg. Mae wedi bod yn gyflawniad rhyfeddol a atgyfnerthwyd gan fabwysiadu dull aml-asiantaeth.

Drwy weithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, rydym wedi gallu cyd-gynhyrchu teithiau sydd wedi'u cynllunio'n glir drwy ofal. Mae wedi eu galluogi i gyflawni nodau eu cynllun gofal, ac mewn rhai achosion i aduno teuluoedd a gadael y system ofal mewn modd cadarnhaol. Rydym wedi llwyddo i ryddhau nifer o orchmynion gofal yn y Llys, lle mae plant wedi gallu dychwelyd at eu rhieni neu fyw gyda'u teulu ehangach lle mae'n briodol gwneud hynny. Er enghraifft yn ystod 2019/20 cefnogwyd 74.73% o'r plant i aros gyda'u teulu ac roedd modd i 5.96% o'r plant a oedd yn derbyn gofal ddychwelyd adref ar ôl cael gofal yn ystod y flwyddyn.[3]

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith bod ein gweithlu, ar y cyfan, yn ymgysylltu'n gadarnhaol â phlant, pobl ifanc a theuluoedd ac mae wedi nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â gwaith partneriaeth a chyd-gynhyrchu gyda theuluoedd unigol. Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru fod y gweithlu'n 'adnabod eu plant yn dda'. Drwy ganolbwyntio ar gyd-gynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd, rydym wedi llwyddo i leihau nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal yn sylweddol. Ar 30 Medi 2019, llwyddon ni i leihau nifer ein Plant sy'n Derbyn Gofal o 14. O ganlyniad, bu Bro Morgannwg yn un o ddim ond saith Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn a leihaodd nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn llwyddiannus, a hwn fu'r ail ostyngiad uchaf yng Nghymru. Drwy ddilyn dull o weithio sy'n seiliedig ar gryfderau, rydym wedi lleihau derbyniadau i ofal yn effeithiol. Yn ystod 2019, bu i ni atal 36 o blant rhag dechrau derbyn gofal drwy ddarparu pecynnau cymorth amgen a gadawodd 10 plentyn ychwanegol y gweithrediadau cyn achos.

Er gwaethaf y cefndir hwn o lwyddiannau, mae nifer o heriau wedi effeithio ar ein cyfraniad at gyflawni'r Canlyniad Lles hwn. O ran yr amcan 'ffyrdd actif ac iach o fyw', yr heriau allweddol fu cynnal a gwella lefelau darpariaeth gwasanaethau wrth reoli disgwyliadau ar adeg pan fo llai o adnoddau. Mae hyn yn parhau i fod yn wir mewn perthynas â datblygu chwarae, datblygu chwaraeon a gwasanaethau hamdden. O ran Amcan 8, 'Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol', bydd y pwysau ariannol sy'n wynebu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod yn sylweddol yn y dyfodol. Mae hyn wedi deillio o'r galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n tarddu o'r newidiadau demograffig a rhagor o unigolion ag anghenion iechyd a gofal cynyddol gymhleth.

Mae'r pandemig COVID-19 diweddar wedi rhoi pwysau aruthrol ar ein gwasanaethau ac wedi amharu'n sylweddol ar y ffordd yr ydym yn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n aml yn hanfodol i'r bobl fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi ymateb i'r her drwy ailflaenoriaethu ac ailbennu ein hadnoddau a'n swyddogaethau er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gyflawni ein swyddogaethau a'n dyletswyddau statudol a lleihau'r effaith ar ddarparu gwasanaethau. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir o ran darparu gofal a chymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed, lle bu'n rhaid i ni wneud penderfyniadau heriol ac addasiadau cyflym i'n ffordd o weithio, yn enwedig yng nghyd-destun cartrefi gofal, gofal cartref pendant ac asesiadau ac ymweliadau gwaith cymdeithasol statudol wrth sicrhau bod diogelu yn cael y flaenoriaeth bennaf. Er enghraifft, rydym wedi gweithio'n agos gyda phob cartref gofal preswyl i sicrhau cyflenwi digon o Gyfarpar Diogelu Personol ac yn brydlon a chynnig profion blaenoriaethol. Yn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, rydym wedi datblygu Cynllun Rheoli Risg Teulu COVID-19 i'n helpu i benderfynu sut rydym yn cefnogi

[2] Dylid nodi y gallai'r ffigurau hyn newid oherwydd prosesau glanhau a dilysu data.
[3] Dylid nodi y gallai'r ffigurau hyn newid oherwydd prosesau glanhau data a dilysu.

teuluoedd yn ddiogel ar hyn o bryd ac rydym wedi croesawu amrywiaeth o lwyfannau rhithwir i ddarparu ymyriadau'n greadigol. Mae COVID-19 yn her sylweddol, sy'n debygol o roi straen enfawr ar sut rydym yn darparu gwasanaethau am fisoedd lawer, ond rydym yn hyderus ein bod yn sefydliad cadarn sydd wedi rhoi mecanweithiau cadarn ac adnoddau priodol ar waith i reoli ein hymateb yn effeithiol ar yr adeg anodd iawn hon ac y byddwn yn defnyddio'r profiad i'n helpu i ddysgu sut y gallwn wneud pethau'n wahanol.

Drwy roi dinasyddion wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau, rydym wedi gallu arloesi a datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar eu galluogi i fyw'n hirach, yn hapusach ac yn iachach. Nid ar ein pennau ein hunain yr ydym wedi cyflawni hyn ond trwy gydweithio'n effeithiol â'n partneriaid i gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol.

Wrth symud ymlaen i flwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol newydd (2020-2025), rydym yn ymrwymo i barhau â'n hagenda flaengar ar gyfer sicrhau canlyniadau iechyd a lles gwell i'n dinasyddion, ond byddwn yn gwneud hyn wrth adfer wedi pandemig COVID-19 ar yr un pryd. Wrth i ni symud o ymateb i adfer, mae'r ansicrwydd yn cynnig cyfleoedd i ni gymryd amser i ailfeddwl, arloesi a thrawsnewid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau fel eu bod yn 'addas ar gyfer y dyfodol'.

## 6.1 YR HYN RYDYM WEDI EI GYFLAWNI

### 6.1.1 AMCAN 7: LLWYDDIANNAU

**Mae cynyddu cyfraddau cyfranogi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn parhau i fod yn ffocws allweddol.** Cymerodd 222,000 o bobl ran mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni ein Cynllun Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol. Drwy gyllid Cist Gymunedol Chwaraeon Cymru, **cafodd 55 o sefydliadau gyfanswm o fwy na £70,000 o arian cyllid sydd wedi arwain at 1,710 o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol o'r newydd.**

**Rydym wedi defnyddio cyfraniadau Adran 106 yn effeithiol i wella a datblygu ein seilwaith ymhellach i annog cerdded a beicio.** Mae gwelliannau i'r llwybrau cerdded wedi'u gwneud yn Aberogwr, Fferm Goch, Llangan ac Ystradowen, yn ogystal ag ar Old Port Road y tu allan i Ysgol Gynradd Gwenfô. Yn ogystal â hyn, mae cynlluniau trafnidiaeth mawr fel cynllun gwella'r Lôn Pum Milltir a Ffordd Fynediad y Gogledd, a ariennir drwy Lywodraeth Cymru, hefyd wedi ymgorffori gwelliannau Teithio Llesol megis troedffyrdd/beicffyrdd cyfunol. Yn ystod 2019/20, **llwyddom i sicrhau £100K o gyllid teithio llesol craidd gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi yn y gwaith o wella llwybrau teithio llesol presennol.**

Llwyddom i sicrhau **Cyllid Gan Lywodraeth Cymru i benodi Gweithiwr Datblygu Chwarae i wella ein darpariaeth chwarae ar draws Bro Morgannwg. Yn ystod 2019/20 parhawyd i gyflwyno rhaglen chwarae gynhwysfawr ar draws y Fro** a oedd yn cynnwys amrywiaeth o gynlluniau chwarae, prynu offer ac adnoddau chwarae, darparu hyfforddiant, a chynnal clybiau gwaith cartref ac ar ôl ysgol. Cymerodd **dros 1,549** o blant a phobl ifanc ran mewn gweithgareddau chwarae yn ystod y flwyddyn a mynychodd dros 4,200 o deuluoedd 10 diwrnod o hwyl i'r teulu.

Rydym wedi dechrau **gwaith rhagarweiniol i ailgomisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ar draws rhanbarth Caerdydd a'r Fro** gyda'r nod o ddatblygu model mwy integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn ystod 2019/20, **cynhaliwyd asesiad o Anghenion Camddefnyddio Sylweddau i ganfod barn ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.** Cynhaliwyd cyfres o weithdai hefyd yn ystod haf 2019 a gyfunodd farn staff rheng flaen a defnyddwyr gwasanaeth i lywio cynllun y model newydd.

**Mae Cynllun Hyfforddwyr y Dyfodol, Rhaglen Treftadaeth y Gemau Olympaidd, wedi cefnogi 14 person 16-24 oed â diddordeb mewn hyfforddi chwaraeon i dderbyn cyfanswm o dros 400 awr o hyfforddiant** gan eu galluogi i gymryd y camau cyntaf i ddod yn hyfforddwyr y dyfodol. Mae hyfforddwyr chwaraeon newydd a phresennol eisoes

Mae gan y Fro lefelau cyfranogi uchel o hyd mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon. **Yn ystod 2019/20, bu 768,201 o ymweliadau â chanolfannau hamdden yr awdurdod lleol cyn y cyfnod cloi.** Rydym hefyd wedi parhau i ganolbwyntio ar wella cyflwr cyffredinol ac ansawdd y cyfleusterau yn ein Canolfannau Hamdden. Yn

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn parhau i hyrwyddo **Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ymhlith rhieni/gofalwyr a darparwyr gofal plant. Yn ystod 2019/20, cyflwynodd mwy na 1,000 o rieni cymwys gais i elwa o'r cyllun a chofrestrodd 186 o**

Mae pob ysgol gynradd a'r rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd ym Mro Morgannwg yn defnyddio'r gwasanaeth arlwyo mewnol i gynnig dewisiadau bwyd iach bob dydd. **Mae pob ysgol gynradd yn cydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru)ac mae pob ysgol**

wedi cael effaith ar eu cymunedau lleol drwy gyflwyno **395 o sesiynau o chwaraeon diogel, cynhwysol a diddorol sydd wedi effeithio ar 7,860 o achosion o gyfranogi**.

ystod 2019/20 **cwblhawyd gwaith adnewyddu cyfleusterau ystafell newid yng Nghanolfan Hamdden y Barri a Phenarth** ac yn ystod y trydydd chwarter lansiwyd ein Strategaeth Hamdden newydd hefyd sy'n amlinellu ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.

**ddarparwyr i gynnig 30 awr o ofal plant am ddim gan Lywodraeth Cymru.**

**uwchradd yn cydymffurfio â'r safonau bwyd.**

**Mae 135 o hyfforddwyr ac 88 o wirfoddolwyr wedi cefnogi'r gwaith o gyflwyno mwy na 28,000 o gyfleoedd chwaraeon cyfranogol cynhwysol neu benodol i bobl anabl ym Mro Morgannwg. Mae 17 o Glybiau Chwaraeon wedi ennill achrediad Insport** sy'n amlygu eu hymrwymiad i gynnig cyfleoedd chwaraeon cynhwysol a Chlwb Gymnasteg YMCA y Barri yw'r Clwb Chwaraeon cyntaf ym Mro Morgannwg i gael statws Aur Insport.





**Rydym wedi buddsoddi i'r eithaf i wella mannau awyr agored ym Mro Morgannwg** drwy arian mannau agored cyhoeddus A106 ac arian celfyddydau cyhoeddus. Agorwyd Parc Sgefrio Penarth ym mis Tachwedd 2019 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus helaeth. Gwnaed gwelliannau sylweddol hefyd mewn perthynas â man chwarae o'r radd flaenaf gwerth £75K a ddatblygwyd yn Colwinston (ger y Bont-faen), a defnyddiwyd £115k i drawsnewid ardal chwarae Murch yn Ninas Powys. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar fuddsoddiad gwerth £90K yn ardal chwarae 'The Grange' yng Ngwenfô ac mae Ardaloedd Gemau Aml-Ddefnydd newydd ar y gweill yn Llandochau a'r Wig. Roedd pob project yn cynnwys mewnbwn gan gymunedau lleol i lywio'r dyluniad.



**Darparodd Rhaglen Dechrau'n Deg wasanaeth ar gyfer 1,176 o blant a'u teuluoedd o chwech o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn y Barri.** Yn ystod 2019/20, mynychodd 289 o blant 2-3 oed 33,341 o sesiynau gofal plant o safon mewn 7 lleoliad gwahanol (sy'n cynnwys dau leoliad cyfrwng Cymraeg) gyda 13 o warchodwyr plant. O'r plant sy'n gymwys i gael gofal plant, manteisiodd 87% ar eu cynnig gofal plant.

**Mae 10 o Barciau'r Fro wedi cadw eu Statws Baner Werdd, sy'n gwneud y Fro yn un o'r ardaloedd sy'n perfformio orau yng Nghymru (ar y cyd â Chaerdydd).**Mae'r Wobr yn cydnabod ac yn gwobrwyo parciau a mannau gwyrdd a reolir yn dda ac yn gosod safon feincnod ar gyfer mannau awyr agored ledled y DU a ledled y byd.

## 6.1.2 AMCAN 8: LLWYDDIANNAU



**Sefydlwyd Swyddogion Llest (Swyddogion Allanol Uwch) yn llawn o fewn y C1V (Canolfan Gyswllt) ar gyfer prosesau Gwasanaethau Oedolion** i ddarparu ymateb cyson a chyflym i holl gysylltiadau'r gwasanaethau oedolion ac mae dau Swyddog Ymweld Lles wedi'u recriwtio i ymgymryd â swyddogaeth allgymorth.



Rydym wedi cydweithio â Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i ddatblygu **Gwasanaeth Brysbennu Meddygon Teulu** ar gyfer trigolion Bro Morgannwg. Bydd Canolfan Gyswllt y Cyngor yn darparu'r llwyfan technegol ar gyfer y Gwasanaeth Brysbennu Meddygon Teulu newydd a fydd yn hyrwyddo Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC). Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gyda meddygfeydd peilot a chyda'r bwriad y bydd pob meddygfa yn defnyddio'r model hwn erbyn 2021.

**Cafodd y Strategaeth Comisiynu ar y Cyd i Oedolion ag Anabledd Dysgu ei lansio'n ffurfiol yn 2019/20.** Drwy gydweithio â'n partneriaid allweddol, mae'r strategaeth hon yn creu



weledigaeth gyffredin ar gyfer anableddau dysgu dros y 5 mlynedd nesaf.

Er enghraifft yn ystod 2019/20 **cefnogwyd 74.73% o'r plant i aros gyda'u teulu ac roedd modd i 5.96% o'r plant a oedd yn derbyn gofal**



**ddychwelyd adref**[4] ar ôl cael gofal yn ystod y flwyddyn.

[4] Dylid nodi y gallai'r ffigurau hyn newid oherwydd prosesau glanhau a dilysu data.

Mae cynnal sefydlogrwydd lleoliadau'n parhau i fod yn agwedd ganolog ar ein gwaith



o gefnogi anghenion a lles plant mewn gofal. Yn 2019/20, **aeth llai o blant (6.36%) i dri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn o gymharu â 7.77% yn y flwyddyn flaenorol (2018/19).**[5]

Mae gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal yn



parhau i fod yn flaenoriaeth barhaus. Yn 2019/20 , **roedd yn hysbys bod 52.17% o'r bobl a adawodd ofal yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal.**

Rydym wedi gweithio gyda'r YMCA i ehangu cylch gwaith y Project Gofalwyr Ifanc gan **dreialu project 'Amser i Mi' ar** gyfer **Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc** i ategu Clwb Ieuenctid presennol Gofalwyr Ifanc y Fro gan YMCA. Mae'r project Amser i Mi yn cynnig cymorth a



gweithgareddau seibiant i oedolion ifanc 18-25 oed ledled Caerdydd a Bro Morgannwg sydd â chyfrifoldebau gofalu.



Rydym wedi **lleihau yn sylweddol** nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal. Ar 30 Medi 2019, llwyddon ni i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal o 14. O ganlyniad, roedd Bro Morgannwg yn un o ddim ond saith Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn a leihaodd nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn llwyddiannus, a hwn oedd yr **ail ostyngiad mwyaf yng Nghymru.**



**Yn ystod naw mis cyntaf 2019/20, cafodd 40 o bobl hŷn gymorth i adael yr ysbyty drwy'r Tîm Atebion Rhyddhau. O ganlyniad,** arbedwyd 191 o ddiwrnodau gwely drwy ymyriadau Atebion Rhyddhau gan arwain at arbed £51,570 i'r gwasanaeth Iechyd.



**Rydym wedi parhau i wella projectau sy'n pontio'r cenedlaethau** drwy weithio gyda Buds a Blooms, sefydliad buddiannau cymunedol dielw i gynnal sesiynau gyda phlant cyn-ysgol a phreswylwyr gofal mewn dau gartref gofal lleol.



**Mae ein Gwasanaeth** Rheoleiddio a Rennir **yn parhau i ganolbwyntio ar amddiffyn plant rhag sylweddau a chynhyrchion niweidiol a phobl hŷn ac agored i niwed rhag unigolion a masnachwyr diegwyddor.** Derbyniwyd ac ymdriniwyd â 497 o achosion, ymholiadau ac atgyfeiriadau gan Dîm Diogelu'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir a arweiniodd at 5 erlyniad llwyddiannus. Mae 83 o ddioddefwyr troseddau a throseddau ar garreg drws wedi cael cefnogaeth. Roedd hyn yn cynnwys 240 o ymweliadau â defnyddwyr.

**Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i**



**ddatblygu Contract Cartrefi Gofal ar y Cyd** i bawb Comisiynwyd leoliadau preswyl a nyrsio gennym ar gyfer pobl hŷn. Bydd y contract newydd yn gwella'r cydweithio rhwng darparwyr a chomisiynwyr i weithio tuag at ddiwallu anghenion gofal a chymorth defnyddwyr gwasanaeth y mae arnynt angen gofal nyrsio/preswyl.



**Lansiwyd** <u>Gweithdrefnau Diogelu</u> **newydd Cymru ym mis Tachwedd 2019, dan arweiniad Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro, a Chadeirydd y project oedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg. I ategu'r gweithdrefnau, mae app** digidol wedi'i ddatblygu ar gyfer ymarferwyr i gefnogi natur ystwyth eu rôl.

Rydym wedi parhau i gryfhau ymhellach ein rôl Diogelu Corfforaethol a'r egwyddor 'dyletswydd i adrodd'. Yn ystod 2019/20, cwblhaodd 88% o



weithwyr newydd eu e-fodiwl diogelu gorfodol. Mae sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Recriwtio Diogelach yn parhau i fod yn flaenoriaeth.



**Enillodd y Grŵp Cymorth Sgiliau Bywyd (a hwyluswyd gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig) wobr** yng Ngwobrau Diogelu Rhanbarthol 2019 am ***"Ymrwymiad Eithriadol i Ddiogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed".*** Yn ogystal â rhoi cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer datblygu a gwella sgiliau bywyd, mae'r cylch yn galluogi cyfoedion i gymdeithasu a fyddai fel arall mewn perygl o gael ei hallgáu'n gymdeithasol.



**Buom yn cydweithio â phartneriaid allweddol ar draws y rhanbarth i ddatblygu Strategaeth Camfanteisio Rhanbarthol.** Cwblhawyd y strategaeth yn derfynol yn 2019/20 ac mae'n ymgorffori pob agwedd ar gamfanteisio, gan ein galluogi i ddefnyddio dull mwy cyson a chydlynol o fynd i'r afael â chamfanteisio ar raddfa ranbarthol.

[5] Dylid nodi y gallai'r ffigurau hyn newid oherwydd prosesau glanhau a dilysu data.

**Mae pecynnau cymorth ailalluogi wedi galluogi ein dinasyddion i fyw'n fwy annibynnol**.



Yn ystod 2019/20, cafodd 17.51% o oedolion a gafodd gymorth ailalluogi becyn llai o ofal a chymorth ar ôl 6 mis yn unig. Nid oedd angen unrhyw becyn gofal a chymorth ar ôl 6 mis ar 81.11% arall o oedolion, a gafodd gymorth ailalluogi yn flaenorol.

**Mae Tŷ Dewi Sant a Southway wedi cael eu trawsnewid yn sylweddol gyda buddsoddiad o £430K mewn gwaith**



**adnewyddu i wneud y lleoliadau hyn yn amgylcheddau sy'n deall demensia i breswylwyr.** Cydweithiodd y Cyngor yn agos â Chymdeithas Astudiaethau Demensia Prifysgol Caerwrangon er mwyn nodi a gwneud yr addasiadau priodol sy'n deall demensia yn y cartrefi gofal preswyl. Wrth wraidd y cynllun arloesol hwn roedd mewnbwn a chyfranogiad ei staff a'i breswylwyr.



Lansiwyd Porth Gofalwyr ym mis Mawrth 2020, fel menter ar y cyd rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg i ddarparu gwybodaeth a chymorth i bobl ddi-gyflog. Nod y gwasanaeth yw gwella ansawdd bywyd gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal trwy eu helpu i fyw mor annibynnol â phosibl.

Mae Gwasanaeth



Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (VVC) wedi llunio trefniant cytundebol gydag Adopting Together (trefniant cydweithio rhwng Asiantaeth Fabwysiadu Dewi Sant, Barnardo's ac Adoption UK) i ddarparu lleoliadau mabwysiadu ar gyfer plant anodd eu lleoli. Mae hyn wedi gwella opsiynau lleoli'n effeithiol wrth ddarparu cymorth therapiwtig i blant a theuluoedd. Darperir cymorth ychwanegol i fabwysiadwyr drwy'r 'cynllun cyfaill'.

## 6.2.1 AMCAN 7: HERIAU

Mae **cynnal a gwella lefelau cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol pan fo adnoddau'n lleihau** yn parhau i fod yn her. Yn ystod 2019/20 bu gostyngiad mewn cyllidebau oherwydd gostyngiad yn yr arian cyllid gan Chwaraeon Cymru. Mae hyn wedi arwain at angen i ganolbwyntio ymhellach ar feysydd blaenoriaeth, gyda gwaith wedi'i dargedu'n well. Mae Chwaraeon Cymru wedi nodi grwpiau targed i ganolbwyntio arnynt sy'n cynnwys menywod, pobl anabl a phobl ddifreintiedig. Mae'r projectau a ddatblygwyd wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad ymhlith y grwpiau hyn. Fodd bynnag, o ganlyniad i hyn, bu llai o ffocws ar ddarpariaeth gyffredinol sydd wedi effeithio'n arbennig ar ddarpariaeth gweithgareddau ar ôl ysgol. Mae pandemig COVID-19 wedi bod yn gyfnod arbennig o heriol gyda phob rhaglen gyflawni uniongyrchol yn peidio â chlybiau/canolfannau hamdden ar draws y sir yn cau. Arweiniodd hyn at yr angen i ailystyried sut rydym yn darparu ein gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn, gan ganolbwyntio'n fwy ar hyrwyddo gweithgareddau teuluol a defnyddio llwyfannau ar-lein i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn. Am gryn amser i ddod, bydd ein ffordd o ddarparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn wahanol iawn. Mae'r tîm yn gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i gynllunio at y dyfodol, gan gynnwys sut y gall preswylwyr ddychwelyd i wneud gweithgareddau'n ddiogel. Bydd angen canolbwyntio ar ysgogi pobl o'r newydd i gymryd rhan a sicrhau bod diogelwch yn ganolog i'r meddylfryd hwn fel bod gan breswylwyr hyder i ddychwelyd i weithgareddau. Bydd ffocws ar gynorthwyo clybiau a sefydliadau cymunedol i ailagor ac ailadeiladu. Bydd technoleg yn chwarae rhan bwysig yn hyn, gyda chynlluniau ar waith i ddatblygu rhaglenni addysg hyfforddwyr/gwirfoddolwyr ar-lein a datblygu rhaglenni hyfforddi ar-lein nes ei bod yn ddiogel darparu sesiynau wyneb yn wyneb. Bydd ffocws hefyd ar sut rydym yn dwyn ynghyd pob agwedd ar hamdden a gweithgarwch corfforol o dan ymbarél Strategaeth Hamdden a fydd yn cael ei defnyddio fel cyfrwng i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a'n hadnoddau i gynyddu gweithgarwch corfforol a chyfraddau cyfranogi ledled y Fro.

**Gallu parhau i gyflwyno rhaglen chwarae gynhwysfawr ledled Bro Morgannwg yng nghyd-destun gostyngiad yn y galw cynyddol a phwysau ar ein hadnoddau.** Mae'r cylch blynyddol o sicrhau cyllid allanol i ddarparu chwarae yn y Fro yn ei gwneud yn anodd cynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol. Rhagwelir y bydd darparu rhaglen chwarae uchelgeisiol a chynhwysfawr sy'n unol â gofynion deddfwriaeth newydd yn parhau i fod yn her gyda'r pwysau parhaus ar gyllidebau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd newydd o ymgysylltu â grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol a gweithio gyda nhw i ddatblygu a darparu cyfleoedd chwarae mwy cynaliadwy yn y dyfodol. Mae heriau hefyd o ran sut gellir targedu grwpiau 'anodd eu cyrraedd' yn effeithiol i ymgysylltu â gwasanaeth fel y rhaglen chwarae a gwasanaethau cymorth y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

**Mae COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar sut y gall ein dinasyddion gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'u mwynhau.** Mae cau'r Canolfannau Hamdden a chyfleusterau eraill wedi golygu na all ein trigolion fynd i'n canolfannau ac ymgymryd â'u gweithgarwch corfforol arferol sydd i lawer wedi golygu newid i fathau amgen o ymarfer yn yr awyr agored. Fodd bynnag, i'r rhai sydd ag afiechyd cronig a/neu sy'n gwella o salwch/anaf, mae gohirio'r rhaglen atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff o ganlyniad i'r cyfyngiadau cloi wedi cael effaith andwyol, gyda'r rhan fwyaf o'r cleientiaid dros 50 oed, yn agored i niwed ac yn dioddef o gyflwr iechyd sylfaenol. Er mwyn annog ein cleientiaid i barhau i ymgymryd â rhyw fath o weithgarwch corfforol a chefnogi rhywfaint o gyswllt cymdeithasol (gan fod llawer yn byw ar eu pennau eu hunain), mae'r Tîm Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff wedi datblygu rhaglen ar-lein er mwyn gallu darparu 11 sesiwn yr wythnos drwy Facebook. Er bod yr adborth a'r cyfranogiad sy'n gysylltiedig â'r ffordd hon o weithio wedi bod yn gadarnhaol iawn, rydym yn cydnabod nad yw'n disodli'r ffordd y byddem fel arfer yn rhyngweithio ac yn darparu rhaglen o weithgarwch corfforol wedi'i theilwra i'n cleientiaid i gefnogi eu hiechyd a'u lles. Wrth i fesurau cloi gael eu lleddfu'n raddol, yr her i'r Tîm Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff fydd sut rydym yn **ailymgysylltu'n effeithiol â'n 400+ o g**leientiaid atgyfeirio i wneud ymarfer corff i roi hyder iddynt a gwneud iddynt deimlo'n ddiogel i ddychwelyd i weithgarwch unwaith y bydd ein canolfannau'n ailagor eto.

---

Er gwaethaf gweithio'n effeithiol gyda'n partneriaid i gyflawni **Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau**, bu'n rhaid i Fwrdd Cynllunio Ardal y Fro wynebu dwy her allweddol mewn perthynas ag amseroedd aros helaeth i gael triniaeth camddefnyddio sylweddau yn ogystal â gostyngiad yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n cwblhau triniaeth. Ar y pryd, roedd yr amseroedd aros hirach ar gyfer triniaeth yn cydberthyn â swyddi gwag hanfodol (yn gysylltiedig â'r gwasanaeth a gomisiynwyd). Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn adolygu proses gynllunio'r gweithlu gan ganolbwyntio'n benodol ar ragweld tueddiadau'r gweithlu a llif defnyddwyr gwasanaeth er mwyn gallu rhoi cyfleoedd gwell i fanteisio ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau mewn modd amserol.

## 6.2.2 AMCAN 8: HERIAU

Mae'r galw am **wasanaethau ar gyfer oedolion bregus yn debygol o gynyddu 31% yn ystod y 10 mlynedd nesaf.** Felly, yr her wrth symud ymlaen fydd sut rydym yn cydweithio â'n partneriaid iechyd i addasu ein modelau llwybrau gofal oedolion fel y gallant ateb y galw cynyddol am wasanaethau wrth osgoi derbyniadau i'r ysbyty a galluogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol â phosibl.

---

**Bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y galw am ein gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol. Felly, bydd cynnal a gwella lefelau gwasanaethau a'u perfformiad wrth reoli'r galw am ein gwasanaethau ar adeg pan nad oes digon o adnoddau yn dod yn fwyfwy heriol**. Mae hyn yn berthnasol yng nghyd-destun y galw cynyddol am wasanaethau sy'n cael ei brofi'n gyffredinol (ac yn enwedig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae newidiadau demograffig yn cael effaith sylweddol ar ein gallu i ateb y galw cynyddol am ein gwasanaethau. Mae niferoedd cynyddol o blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ac oedolion y mae ganddynt anghenion mwy cymhleth. Yn debyg i'r sefyllfa ledled Cymru, mae niferoedd cynyddol o Blant sy'n Derbyn Gofal ym Mro Morgannwg ac mae anghenion y plant hynny'n aml yn gymhleth. Pan aseswyd bod angen rhoi plentyn mewn gofal, y Cyngor sy'n gyfrifol am roi'r plentyn hwnnw mewn lleoliad sy'n briodol i'w anghenion. Mae hyn yn heriol yn yr amgylchedd presennol lle mae'r galw am leoliadau yn fwy na'r nifer sydd ar gael, ac mae lleoliadau yn y sector annibynnol yn ddrud. Mae'r Cyngor bob amser yn ceisio lleoli plant o fewn eu teuluoedd eu hunain lle bynnag y bo modd ac adlewyrchir hyn yn ein nifer cynyddol o drefniadau gyda pherthnasau. Mae'r trefniadau hyn yn destun asesiad fel yn achos gofalwyr maeth a chymorth ariannol. Yn yr un modd, mae poblogaeth sy'n heneiddio ym Mro Morgannwg lle mae 20.9% ar hyn o bryd dros 65 oed a 2.5% dros 85 oed. Rhagwelir y bydd nifer y bobl sydd dros 65 oed yn cynyddu 15% a nifer y rhan dros 85 oed yn cynyddu dros 40% yn y 10 mlynedd nesaf. O ganlyniad i'n dinasyddion yn byw'n hirach, bydd nifer cynyddol yn parhau gydag anghenion mwy cymhleth a fydd, yn eu tro, yn rhoi mwy o bwysau ar ein cyllidebau a'n gallu i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth.

---

Bydd **rheoli disgwyliadau cwsmeriaid o ran cael mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar adeg pan fo mwy o alw am ein gwasanaethau** yn parhau i fod yn her barhaus wrth i ni weithio drwy argyfwng COVID-19. Bu cryn dipyn o fuddsoddiad eisoes a phwyslais ar symlrwydd a dewis sut mae ein dinasyddion yn defnyddio ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Un Pwynt Mynediad o fewn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid (Cyswllt Un Fro). Er bod gennym wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ychwanegol drwy dreialu'r Gwasanaeth Brysbennu Meddygon Teulu a sefydlu Swyddogion Lles, mae COVID-19 wedi oedi ein cynnydd o ran ymgorffori ac integreiddio ein prosesau gyda'n partneriaid iechyd. Bydd y dull mwy integredig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gryfhau'r brand 'Materion Lles' a rennir fel bod ein dinasyddion yn gwybod ac yn cydnabod mai dyma'r pwnt cyswllt cyntaf ar gyfer wybodaeth, cyngor a chymorth.

---

Bydd ein **gallu i ateb y galw cynyddol o du plant a theuluoedd y mae arnynt** angen gwasanaethau cymorth yn parhau i fod yn her barhaus. O ganlyniad i COVID-19, rydym yn rhagweld y bydd mwy o angen am gymorth argyfwng i deuluoedd. Rydym wedi parhau i fuddsoddi ein hadnoddau i gynyddu ein modd wrth y 'drws ffrynt' i wella prydlondeb asesiadau o angen a risg a galluogi cyfeirio'n briodol at wasanaethau eraill. Mae hyn wedi bod yn ffordd effeithiol o atal materion rhag gwaethygu drwy geisio cefnogi teuluoedd ar yr haen isaf.

---

Yn sgil yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae mwy o bwyslais ar ddatblygu a gweithredu trefniadau i'n galluogi i ymgymryd â chomisiynu rhanbarthol. Er gwaethaf ein dull blaengar o weithio gyda phartneriaid, **mae cydweithredu mewn perthynas â datblygu modelau amgen o ddarparu gwasanaethau yn debygol o barhau i fod yn her barhaus, yn enwedig yng ngoleuni COVID-19 wrth i sefydliadau partner geisio sefydlu eu strategaethau adfer wedi'r pandemig.** Yn gysylltiedig â hyn mae anwadalrwydd ffrydiau arian grant, sy'n effeithio ar ein gallu i ddatblygu, comisiynu a chynnal gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n gwella ein capasiti wrth barhau i fodloni ein gofynion statudol i ddarparu gwasanaethau craidd. Mae heriau hefyd yn gysylltiedig â sefydlu dulliau symlach o ddatblygu/comisiynu gwasanaethau ataliol sy'n fwy cydlynol ar draws ffiniau sefydliadol yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

---

**Bydd mynd i'r afael â breuder gwasanaethau i'w gwneud yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ni feithrin mwy o wydnwch a chapasiti mewn timau**. Mae'r mater hwn yn arbennig o berthnasol mewn perthynas ag Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy a swyddi eraill 'anodd recriwtio iddynt'.

---

Mae diffyg **capasiti a gwydnwch mewn marchnadoedd lleol i fodloni gofynion gofal cartref**. Mae monitro ansawdd ein darparwyr gwasanaethau a gomisiynir yn allanol yn fwyfwy heriol oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau i ymgymryd â'r gwaith hwn, sy'n cael ei ddwysáu ymhellach gan anwadalrwydd marchnadoedd allanol. O ganlyniad i COVID-19, mae'r ansefydlogrwydd hwn yn debygol o gael ei waethygu gan unrhyw ddirywiad yn yr economi gan roi mwy o bwysau ar hyfywedd y farchnad gofal cartref.

---

**Mae cydymffurfio â gofynion Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn parhau i roi pwysau sylweddol ar y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran llwyth gwaith/capasiti swyddogion a chyllidebau.** Mae hyn wedi parhau i fod yn her barhaus yn ystod COVID-19. Yn wahanol i feysydd eraill yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'n fwy tebygol y byddwn yn methu â'n cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi parhau i fod yn bryder yn ystod y pandemig gan fod angen ailflaenoriaethu adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol a'u hailgyfeirio at y rheng flaen i ddelio â materion sy'n ymwneud â COVID. Wrth i ni symud o ymateb i adfer, rydym yn gobeithio y bydd y mesurau lliniaru ychwanegol yr ydym wedi'u rhoi ar waith ar ffurf adnodd cyfreithiol ychwanegol yn rhoi modd ychwanegol i ni brosesu ceisiadau a chytuno ar Amddifadedd rhag Rhyddid drwy'r Llysoedd mewn modd amserol. Bydd datblygiadau deddfwriaethol ychwanegol mewn perthynas â Deddf (Diwygio) Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (LiPS) cysylltiedig rhoi mwy o wydnwch i ni o amgylch y mater hwn dros amser. Rhagwelir y bydd y cynllun LiPS yn helpu i fynd i'r afael â'r problemau adnoddau/staffio unwaith y daw'r ddeddfwriaeth hon i rym. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn cyd-fynd â gofynion presennol y Gwasanaeth Diogelu Plant o 2020 gyda'r bwriad o'i gweithredu'n llawn erbyn 2021. Wrth baratoi at y newidiadau deddfwriaethol hyn, ein

her fydd sicrhau ein bod yn addasu ein ffyrdd o weithio i sicrhau y gallwn gydymffurfio â'r gofynion newydd hyn ar adeg pan rydym yn rhoi ein cynlluniau adfer ar waith wedi'r pandemig.

Rydym wedi parhau i gryfhau ein cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu ar draws y Cyngor drwy sicrhau bod 'Dyletswydd i Adrodd' yn gyfrifoldeb ar bawb a bu codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bolisi ac arferion diogelu yn ganolog i'r gwaith hwn. Fodd bynnag, mae COVID wedi rhoi ein hadnoddau o dan lawer iawn o straen sydd, ynghyd â'r galw cynyddol am ein gwasanaethau, yn debygol o effeithio ar ein **gallu i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn parhau'n gadarn, yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd a'u cymhwyso'n gyson**.

**Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion** ar leihau hyd cyfnodau aros yn yr ysbyty drwy ein gwasanaeth rhyddhau integredig. Er ein bod wedi parhau i roi pwyslais sylweddol ar wella'r ffordd rydym yn integreiddio rhyddhau o'r ysbyty, mae ein perfformiad yn y maes hwn yn parhau i fod yn heriol. Yn ystod 2019/20 cyfradd yr Oedi wrth Drosglwyddo oedd 4.79 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn erbyn targed o 3.5. Yn y gorffennol, bu oedi yn y system yn gysylltiedig â broceriaeth ac argaeledd asiantaethau gofal cartref i ymgymryd â'r pecynnau sydd wedi parhau i fod yn broblem, ond teimlir y bydd pandemig COVID-19 yn dwysáu'r heriau hyn ac yn effeithio ar ein gallu i ryddhau pobl yn ôl adref gyda'r lefelau gofal a chymorth asesedig.

Bydd darparu rhaglen arolygu wedi'i thargedu fel rhan o'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir o ystyried y gostyngiad yn yr adnoddau yn parhau i fod yn heriol, yn enwedig yn dilyn yr argyfwng COVID-19 pan oedd angen ailgyfeirio adnoddau mewn nifer o ffyrdd, ond yn enwedig gyda'n gwaith partneriaeth ar Tracio, Olrhain a Diogelu ynghyd â'r angen i weinyddu'r gofynion cau busnes ac ymbellhau cymdeithasol yn y safleoedd hynny a arhosodd ar agor.  O ganlyniad, bydd hyn yn golygu y bydd arnom **angen darparu mwy o'n gwasanaethau gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i reoli a blaenoriaethu gofynion yn well** ar gyfer ein gwasanaethau.

Er ein bod wedi ymateb yn gadarnhaol i heriau **COVID-19**, rydym yn cydnabod y bydd **effaith sylweddol ar y galw am ein gwasanaethau** nawr ac yn y dyfodol. O ganlyniad i'r pandemig, rydym yn rhagweld y bydd mwy o anghydraddoldebau iechyd ac economaidd a bydd mwy o angen am gymorth mewn argyfwng i deuluoedd, mwy o alw am Wasanaethau Iechyd Meddwl yn ogystal â mwy o alw am ofal a chymorth i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Rhagwelir y bydd effaith COVID-19 yn cael ei theimlo'n anghymesur gan y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas am beth amser. Drwy ystyried y ffactorau hyn a'r galw cynyddol am ein gwasanaethau, gallwn roi cynlluniau adfer effeithiol ar waith a all addasu yn ôl anghenion newidiol ein dinasyddion.

# 7. ASTUDIAETH ACHOS

## FFOCWS AR: WASANAETHAU OEDOLION

Drwy **Integreiddio** rhai o'n swyddogaethau Gwasanaeth Oedolion gyda Chanolfan Gyswllt y Cyngor (Cyswllt Un Fro), rydym wedi gallu gwella mynediad i gyngor, gwybodaeth a chymorth i oedolion mewn angen gofal neu amddiffyniad.  Mae'r ymdrech **gydweithredol** hon wedi ein galluogi i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'n dinasyddion ac wedi **cynnwys** ein partneriaid wrth roi cyfle i'n dinasyddion fanteisio ar wybodaeth, cyngor a chymorth mewn ffyrdd sydd bwysicaf ganddynt. Caiff y model hwn ei lywio gan effeithiolrwydd tîm amlddisgyblaeth sy'n gallu sgrinio galwadau'n effeithiol i nodi anghenion gofal a chymorth unigolyn a, lle y bo'n briodol, gellir cyfeirio dinasyddion yn rhagweithiol at sefydliadau'r trydydd sector yn y gymuned. Drwy fuddsoddi adnoddau wrth y drws ffrynt, rydym wedi gwella ein gallu i ymateb yn gyflym i ymholiadau am wasanaethau oedolion a hefyd wedi gallu **atal** problemau rhag gwaethygu yn y **tymor hwy** sydd, yn ei dro wedi helpu i leihau'r pwysau ar ein timau Gwaith Cymdeithasol. Dangosir enghraifft ymarferol o'r gwaith hwn isod.

**Achos Margaret**

- Roedd ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn Cyswllt Un Fro mewn cysylltiad â menyw 91 oed o'r enw Margaret sy'n byw ar ei phen ei hun[6]. Roedd hi yn ei chael hi'n fwyfwy anodd byw'n annibynnol oherwydd cyflyrau cronig amrywiol gan gynnwys problemau'r galon ac osteoporosis. Mae mewn poen cyson ac yn y gorffennol mae wedi torri asgwrn sawl tro a arweiniodd at fynd i'r ysbyty. Mae wedi cael ei derbyn i'r ysbyty o'r blaen fel mater o argyfwng gyda'i chi'n cael ei adael gartref heb oruchwyliaeth. Drwy gyswllt, mynegodd Margaret ddiddordeb mewn gwasanaeth cyfeillio.
- Gyda chymorth ein gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, gwnaed atgyfeiriad at *Dinas Powys Voluntary Concern* (DPVC).
- Yn fuan, cysylltodd Cydlynydd Gwasanaeth Cyfeillio DPVC â Warden llety gwarchod Margaret gan nodi gwirfoddolwr i ymweld â Margaret unwaith yr wythnos.

**Pa wahaniaeth wnaeth hyn?**

- Mae Margaret a'i chyfaill yn mynd i gaffis a pharciau lleol gyda'i gilydd yn rheolaidd ac mae'r gwirfoddolwr yn mynd â chi Margaret allan am dro ac yn gofalu amdano pan fydd hi yn yr ysbyty. Yn ogystal â'i sesiynau wythnosol, mae Margaret hefyd wedi adrodd bod ei chyfaill yn mynd draw yn rheolaidd ar ddiwrnodau eraill i wirio ei bod yn iawn.
- O ganlyniad i'r cymorth hwn, mae Margaret bellach yn gallu parhau i fyw'n annibynnol yn ei chartref ei hun fel y dymuna. Mae'n gallu mynd allan o'r tŷ ac ymweld â lleoedd y mae'n eu mwynhau gyda chwmni da ei gwirfoddolwr.
- Trwy gefnogaeth ei chyfaill, mae iechyd a lles Margaret wedi gwella'n sylweddol ac mae hi'n teimlo'n ddiogel a bod ganddi bwrpas a rhywbeth i edrych ymlaen ato.
- Mae Margaret bellach yn teimlo ei bod yn cael ei cefnogi'n dda ac mae wedi dweud bod y gwasanaeth cyfeillio wedi rhoi tawelwch meddwl mawr iddi.

[6] At ddibenion yr astudiaeth achos hon, mae enw'r defnyddiwr gwasanaeth wedi'i newid i ddiogelu preifatrwydd ac osgoi datgelu pwy yw'r person.

VALE OF GLAMORGAN COUNCIL
AMBITIOUS OPEN
TOGETHER PROUD

# CYNGOR BRO MORGANNWG

## Iechyd Corfforaethol (Cynllunio Integredig)

ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL
(EBRILL 2019 - MAWRTH 2020)

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

## Statws CMG cyffredinol 'Iechyd Corfforaethol' yw GWYRDD

## 7.0 DATGANIAD SEFYLLFA

Ynghylch Iechyd Corfforaethol rydym yn parhau i berfformio'n dda yng nghyd-destun cefnogi gwasanaethau'r Cyngor i weithredu blaenoriaethau corfforaethol a chyflawni ein Hamcanion Lles. Mae ein dull cynllunio integredig, drwy'r Bwrdd Cipolwg, yn galluogi penderfyniadau a chynllunio corfforaethol cadarn sy'n ategu gwaith y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a'r Cyngor.  Rydym yn ymdrechu i sicrhau canlyniadau go iawn i ddinasyddion Bro Morgannwg sy'n parhau i ddangos y gwerth gorau am arian mewn hinsawdd ariannol gynyddol anodd a chynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau.

Ym mlwyddyn olaf Cynllun Corfforaethol 2016-2020, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ein camau cynllunio integredig sydd wedi cyfrannu at statws Gwyrdd cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn.  Ar gyfer cyfnod 2019/20, mae 95.7% o'r gweithgareddau arfaethedig sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau Iechyd Corfforaethol wedi'u cyflawni.  Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu cam nesaf yr ymdrech i ail-lunio projectau er mwyn cyflawni'r arbedion gofynnol, bwrw agweddau ar strategaeth Ddigidol y Cyngor yn eu blaen i sicrhau bod anghenion dinasyddion y Fro yn cael eu bodloni tra bo'r gwasanaethau a ddarperir mor effeithlon â phosibl, a sicrhau bod gan y Cyngor y gweithlu a'r sgiliau iawn ar gyfer y dyfodol.   Mae gwaith yn ymwneud â'r meysydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaethau hirdymor i'r Cyngor a bydd yn allweddol i'n galluogi i wella o'r pandemig COVID-19 yn ddiweddar.

Mae'n bwysig nodi bod ein hadolygiad blynyddol o gynnydd ar gyfer cyfnod 2019/20 wedi'i ysgrifennu yn ystod cyfnod heriol a digyffelyb sydd wedi gofyn i'r Cyngor ymateb i bandemig byd-eang (COVID-19).   Rydym wedi asesu cynnydd ein gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer y cyfnod ac wedi defnyddio data perfformiad lleol lle mae wedi bod ar gael.  Fodd bynnag, nid yw agweddau penodol ar berfformiad, yn bennaf data meincnodi a gwybodaeth dangosyddion perfformiad genedlaethol diwedd y flwyddyn wedi bod ar gael i'n galluogi i gymharu ein perfformiad gan fod ein rhwymedigaethau ystadegol statudol gan Lywodraeth Cymru a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Cymru wedi'u hatal am gyfnod amhenodol.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i gryfhau ein dull o ymdrin â chynllunio integredig gan gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a rhoddwyd llawer o bwyslais ar ymgorffori Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy'r Ddeddf ymhellach a'r bum ffordd gysylltiedig o weithio (hirdymor, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol) yn y ffordd rydym yn meddwl, yn cynllunio ac yn gweithio fel sefydliad. Rydym wedi dwyn ynghyd ein trefniadau cynllunio busnes corfforaethol o dan y Bwrdd Cipolwg sy'n ystyried rheoli asedau, risg, perfformiad, cynllunio ariannol a llawer o faterion corfforaethol eraill mewn ffordd integredig, ac mae hyn yn helpu i ymgorffori ein dull gweithredu ymhellach yn niwylliant y sefydliad a gweithredu fel catalyddion ar gyfer newid – gan weithio tuag at gymunedau cryf gyda dyfodol disglair.   Mae ymrwymiad clir gan uwch reolwyr yn parhau i gael ei arddangos a'i atgyfnerthu drwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau sy'n canolbwyntio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gydol y flwyddyn, gyda'r nod o ymgysylltu â staff ar bob lefel i ymgorffori'r ffordd integredig hon o weithio drwy'r Cyngor cyfan.   Mae ein huwch reolwyr yn

parhau i gymryd rhan mewn sesiynau 'cerdded drwodd' i helpu i ddeall pa newidiadau sydd eu hangen i wella gwasanaethau ac mae hyn hefyd yn llywio mentrau ymgysylltu â staff corfforaethol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod ein gweithlu, ein heddluoedd a'n harferion yn gweithio mewn cytgord i ymgorffori'r Ddeddf yn llawn.

Gellir gweld enghraifft o'n dull integredig wrth ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020-2025 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ymgysylltu â'n partneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, trigolion a chymunedau yn y Fro wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol – yn benodol i nodi ffyrdd o wella lles economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ein dinasyddion dros y tymor canolig i'r hirdymor. Yn rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi cydweithio â, a chynnwys, grŵp amrywiol o bobl sy'n cynrychioli lles cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol er mwyn cryfhau ein dealltwriaeth o faterion a chyfleoedd lleol ymhellach ac i ddarparu her i helpu i ddatblygu ac egluro ein Hamcanion Lles. Wedi'i lywio gan ein cyfrifoldebau allweddol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r adnoddau sydd ar gael, mae ein Cynllun Corfforaethol newydd yn nodi pa gamau y bydd y Cyngor yn eu rhoi ar waith dros y tymor canolig i wella lles ein dinasyddion. Mae'r amcanion newydd hyn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, gan alinio ag amcanion lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn rhoi fframwaith ar gyfer gwella lles yn y Fro dros y pum mlynedd nesaf.

Ochr yn ochr â datblygu ein Cynllun Corfforaethol, rydym hefyd wedi adolygu agweddau ar gynllunio corfforaethol drwy'r Bwrdd Cipolwg er mwyn gwella ein dull o weithredu ymhellach i'n galluogi i gyflawni ein Hamcanion Lles a gwneud y cyfraniad mwyaf y gallwn at y saith nod lles cenedlaethol. Er enghraifft, mae fframwaith perfformiad newydd wedi'i ddatblygu a'i alinio â'n Cynllun Corfforaethol i'n galluogi i olrhain ein cynnydd ar amcanion lles a dangos sut y bydd y camau rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith yn cyfrannu at gyflawni amcanion lles lluosog. Yn yr un modd, rydym wedi adolygu ein risgiau corfforaethol yng ngoleuni'r nodau lles a'r bum ffordd o weithio i nodi camau lliniaru priodol i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n dda. Defnyddiwyd dull tebyg hefyd i ddatblygu ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2020-2023 ac adolygu ein trefniadau caffael corfforaethol a rheoli asedau. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r cynnydd rydym wedi'i wneud fel sefydliad o ran mabwysiadu dull llawer mwy integredig o gynllunio a chydweithio i ddarparu ein gwasanaethau a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol a'r nodau cenedlaethol hefyd. Mae hyn yn unol â chyfarwyddyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae ein siwrnai i ddod yn sefydliad mwy effeithlon a mentrus yn canolbwyntio ar raglen o newid sefydliadol a diwylliannol. Nod y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yw gwneud y defnydd gorau o adnoddau o fewn y Cyngor a chryfhau ein trosoledd, ein dylanwad a'n partneriaethau ledled y sir a'r rhanbarth, ac yn genedlaethol. Hyd yn hyn, rydym wedi ymateb i'r heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol ac wedi gallu cydbwyso'r gyllideb bob blwyddyn, diogelu gwasanaethau rheng flaen gwerthfawr ac osgoi diswyddiadau gorfodol graddfa fawr. Mae cyfanswm o tua £59 miliwn o arbedion effeithlonrwydd wedi'i gyflawni yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Cyflawnwyd hyn drwy gydweithio i ysgogi twf economaidd, rheoli'r galw am wasanaethau'n greadigol, cynyddu incwm masnachu a masnachol, cynyddu'r dreth gyngor o eiddo newydd ac ystod sylweddol o arbedion effeithlonrwydd sefydliadol. Bydd yr ymdrechion hyn yn parhau ac yn manteisio ar gyfleoedd trawsnewidiol a ddaeth i fod wrth hymateb i'r pandemig coronafeirws, ac adfer ohono.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar edrych yn ofalus ar yr hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydym yn ei wneud yn rhan o'n ymdrech barhaus i fod yn fwy effeithlon, gan gynnal ystod eang o weithgareddau i gefnogi gwasanaethau i gyflawni amcanion lles ein Cynllun Corfforaethol, tra'n cynnal lefel uchel o wasanaethau o ddydd i ddydd. Cyflwynwyd Gwasanaeth Maethu therapiwtig gennym mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr, gan adeiladu ar brosiect gan y Cyngor a dreialwyd yn flaenorol. Mewn partneriaeth, rydym yn gweithredu dull fesul cam o gydleoli gwasanaethau pobl hŷn mewn un lleoliad. Mae 8 clwb bowlio wedi'u trosglwyddo i'r gymuned gan roi mwy o reolaeth i'r clybiau dros y ffordd y cânt eu rhedeg a sicrhau arbedion sylweddol i'r Cyngor ar adeg o bwysau ariannol sylweddol. Yn rhan o ffrwd waith y Fro Ddigidol, rydym wedi hyrwyddo diwylliant "llai o bapur" drwy fentrau fel y strategaeth argraffu, e-dalu, e-recriwtio ymhlith eraill, gan arwain at ostyngiad

sylweddol mewn costau storio dogfennau, costau postio, a chostau recriwtio a hysbysebu. Mae cyflwyno Microsoft 365 wedi parhau i sicrhau bod meddalwedd mwy cydweithredol ar gael i staff i gynyddu cynhyrchiant a disodli systemau etifeddol. Mae'r Big Fresh, gwasanaethau arlwyo masnachol y Cyngor a lansiwyd yn gynnar yn 2020, yn dechrau tyfu ei sylfaen cwsmeriaid ac mae'n bwriadu ehangu ei gynnig i gynnwys cyfleusterau cynadledda a digwyddiadau yn eu lleoliad newydd. Er na wnaethom gyflawni'r holl arbedion oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen Ail-lunio, sef £3.020 miliwn yn 2019/20, yn llawn, roedd y cynnydd cyffredinol yn gadarnhaol gyda 79% o'r arbedion wedi eu gwneud. Mae ein perfformiad yn adlewyrchu natur gymhleth ail-lunio projectau gan y gall amrywiaeth o faterion a risgiau effeithio ar gyflawniadau, ac o ganlyniad gall cyflawniad gymryd mwy o amser.

Bydd cyni yn parhau, wedi'i waethygu gan effaith y pandemig byd-eang diweddar (COVID-19) ac ansicrwydd ynghylch Prydain yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. O ganlyniad, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn caffael yn gynaliadwy erbyn hyn. Rydym yn gwneud mwy o ddefnydd o fanylebau safonol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau priodol, gan ddefnyddio partneriaeth a chydweithredu fel ffordd o sicrhau arbedion maint a sicrhau cynaliadwyedd rhai o'n gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau arbedion o £1m yn ystod 2019/20. Yn ogystal, rydym hefyd wedi adolygu ein trefniadau caffael ac rydym yn pwysleisio dull mwy cyfannol wedi'i ategu gan weithdrefnau a phrosesau gwell sy'n adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae caffael hefyd yn cyfrannu at ein hymdrechion i liniaru effeithiau negyddol y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cyfeiriadau at leihau'r defnydd o blastig untro er enghraifft. Mae caffael yn un o’r agweddau cynllunio corfforaethol allweddol sy’n cael eu hystyried gan ein Bwrdd Cipolwg, ac mae hyn yn sicrhau ein bod yn defnyddio dull integredig o gynllunio i gyflawni ein Hamcanion Lles a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i'r saith nod lles cenedlaethol. Er ei bod yn gynnar yn y broses, bydd ein dull gweithredu yn helpu i sicrhau ein bod yn caffael mewn ffyrdd fydd yn cefnogi lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bro Morgannwg a'n trigolion ar gyfer y tymor hir.

Mae TGCh yn parhau i chwarae rhan ganolog yn ein galluogi i weithredu ein Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau uchelgeisiol, gan ein helpu i ddefnyddio technoleg ddigidol i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd drawsnewidiol tra'n parhau i wneud arbedion ariannol i'r Cyngor, cynyddu mynediad i'n gwasanaethau a darparu gwell profiad i gwsmeriaid. Rydym wedi cyflwyno technoleg ddigidol newydd i roi ffyrdd mwy effeithlon o weithio ac adeiladu eu sgiliau i staff sy'n ein galluogi i ddarparu gwasanaethau modern hyblyg sy'n canolbwyntio mwy ar anghenion dinasyddion y Fro. Drwy fabwysiadu cyfleoedd dysgu digidol hyblyg a chyfuno gwasanaethau allweddol gyda'n partneriaid yn ddigidol, rydym wedi gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy’n dod o dechnoleg ddigidol. Rydym am ddarparu mwy o wasanaethau ar-lein i'w gwneud yn gyflymach ac yn haws i'n holl ddinasyddion roi gwybod am broblemau a gofyn am wasanaethau a phrynu ac mae hyn yn parhau i fod yn ganolbwynt i Strategaeth Ddigidol y Cyngor 2017-2022. Mae'r dull hwn hefyd yn cyfrannu at wella profiad cwsmeriaid, morâl staff a darparu gwasanaethau ac mae wedi cynyddu gwydnwch o fewn y timau.

Dangosodd y pandemig COVID-19 diweddar mor bwysig yw cynnal seilwaith TGCh da a gwneud yn fawr o dechnolegau digidol. Gyda’r cyfnod cloi a mesurau ymbellhau cymdeithasol ar waith yn genedlaethol, ehangodd y Cyngor ei seilwaith TGCh, a’i ehangu, yn gyflym i alluogi staff i weithio o bell, sicrhau parhad gwasanaethau a chysylltu â phobl ar-lein lle'r oedd yn briodol gwneud hynny. Mae angen cynnal a gwella'r datblygiadau hyn ymhellach ar ôl y pandemig, i gryfhau a sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau allweddol ymhellach. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn â chyfleoedd i wella cynhwysiant.

Er ein bod yn un o'r Cynghorau a ariennir isaf yng Nghymru, rydym yn parhau i ddangos gwerth da am arian drwy weithio'n gost-effeithiol tra'n darparu gwasanaethau y mae preswylwyr yn nodi eu bod yn fodlon â nhw hefyd. Gosodwyd cyllideb ddarbodus gennym ar gyfer 2019/20 o dan amodau ariannu allanol anodd, sydd wedi ceisio cyfyngu ar yr effaith ar wasanaethau rheng flaen tra'n darparu buddsoddiad pwysig mewn meysydd allweddol i fwrw ymlaen â’n blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn parhau'n sylweddol ac mae'n dod yn fwyfwy heriol cyflawni cyllideb gytbwys o ystyried yr angen i barhau i wneud arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cyllidebol ar adeg pan fo'r galw am wasanaethau ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor yn cynyddu. Bydd ein sefyllfa ariannol yn dod yn fwy heriol eto

o ystyried effeithiau'r pandemig COVID-19 diweddar sy'n dod i'r amlwg. Fel pob awdurdod lleol ar hyd a lled y wlad, mae'r Fro wedi bod ar flaen y gad yn yr ymateb i'r pandemig coronafeirws sydd wedi rhoi pwysau aruthrol ar ei gyllid. Fu cefnogi cymunedau a chadw gwasanaethau hanfodol ar waith erioed yn fwy pwysig ond mae hyn wedi arwain at gynnydd uchel yn y galw a gwariant angenrheidiol nas rhagwelwyd i'r Cyngor. Ar yr un pryd, fodd bynnag, rydym yn wynebu gostyngiadau sylweddol ac uniongyrchol mewn incwm sy'n debygol o effeithio ar ein gallu i fodloni cyllideb gytûn 2020/21. Croesawyd y pecynnau cymorth ariannol brys a ddarparwyd gan San Steffan a Llywodraeth Cymru i helpu awdurdodau lleol i ymateb. Fodd bynnag, mae'r cymorth hwn yn debygol o fod ar gael yn y tymor byr yn unig, gan waethygu sefyllfa ariannol sydd eisoes yn heriol ac effeithio ar wydnwch ariannol y Cyngor. Felly, fel pob awdurdod lleol arall, bydd angen inni ailbrisio ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig yng ngoleuni'r pandemig. Bydd hyn yn arbennig o hanfodol os bydd yr economi leol yn mynd i ddirwasgiad. Nid yw'n hawdd lleihau gwariant yn ôl i'r lefelau oedd ar waith cyn yr argyfwng ac nid yw ffrydiau incwm yn dychwelyd yn gyflym. Bydd effeithiau argyfwng COVID-19 yn para'n hir a byddant yn bellgyrhaeddol, gan effeithio ar fwy nag un flwyddyn ariannol.

Rydym yn gyfrifol am ystod eang o asedau ffisegol ac eiddo ledled Bro Morgannwg ac rydym am wneud y defnydd gorau ohonynt er budd ein dinasyddion. Mae ein Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn sbardun allweddol i sicrhau ein bod yn gweithredu dull cynaliadwy o reoli ein hasedau i gefnogi'r gwaith o wireddu Canlyniadau Lles ein Cynllun Corfforaethol, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol heriol hon. Cyflawnir llawer o'r gwaith yn gofalu am ein hasedau a'u gwella drwy ein Rhaglen Gyfalaf, sy'n cynnwys projectau adfywio cymunedol, rhaglen fuddsoddi ysgolion, rhaglen gwella tai, rhaglen gwella priffyrdd a phrosiectau sy'n buddsoddi yn seilwaith Bro Morgannwg e.e. Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Y Fargen Ddinesig). Yn ystod y flwyddyn, gwariodd y Cyngor £53.1 miliwn o'i gyllideb gyfalaf o £70.3m (76%) ac rydym yn adolygu projectau cyfalaf yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n brydlon ac o fewn cyllidebau a'u bod o fudd i ddinasyddion y Fro. Er gwaethaf cyllidebau is, mae'r buddsoddiad cyffredinol ym Mro Morgannwg drwy'r rhaglen gyfalaf yn parhau i gynyddu ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu gwariant i £113.875 miliwn yn 2020/21. Yn unol â'n Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol, rydym yn parhau i fuddsoddi a defnyddio ein hasedau eiddo yn greadigol, gan weithio mewn partneriaeth i gyflawni hyn lle bo'n bosibl (e.e. drwy Ystadau Cymru a Bwrdd Asedau Caerdydd a'r Fro). Drwy'r dull hwn, rydym yn ceisio creu twf economaidd, sicrhau gwasanaethau mwy integredig, hybu cynaliadwyedd cymdeithasol ac amgylcheddol, lleihau costau rhedeg ystadau, sicrhau gwerth am arian a chynhyrchu incwm, tra'n cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau cenedlaethol.

Yn 2019, datganodd y Cyngor argyfwng hinsawdd ac ers hynny mae wedi parhau i leihau'n gyson yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â darparu ei wasanaethau gyda'r nod o sicrhau allyriadau di-garbon net cyn dyddiad targed Llywodraeth Cymru, sef 2030. Drwy fentrau fel Re:fit Cymru, ynni adnewyddadwy fel paneli solar, project Space, prynu cerbydau fflyd ecogyfeillgar fel cerbydau hybrid a bio-danwydd a throsi lampau stryd i lusernau LED, rydym wedi sicrhau gostyngiad o 21.3% mewn allyriadau carbon yn erbyn targed o 20%. Arbedwyd tua £50k yn ystod y flwyddyn mewn costau ynni drwy leihau costau goleuadau stryd yn ogystal â buddsoddiad cyfalaf mewn offer mwy effeithlon a thrwy ddefnyddio cynllun Salix Llywodraeth Cymru. Ers 2016, mae ein defnydd trydan wedi gostwng o 19 miliwn kWh y flwyddyn i 15.5 miliwn kWh, gostyngiad o 18.4%. Yn ogystal, o ran nwy a thrydan, mae ein hallyriadau carbon wedi gostwng o 12,158 Tunnell i 7,161 Tunnell, gostyngiad o 41.1%. Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth fel y gwelir yng Nghynllun Rheoli Carbon y Cyngor 2018-2021 sydd wedi gosod targed heriol ar gyfer gostyngiad pellach o 12% mewn allyriadau CO2 dros gyfnod y cynllun. Yn ystod y flwyddyn, ymunodd y Cyngor â'i bartneriaid sector cyhoeddus yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ymrwymo at Siarter Teithio Llesol i staff. Drwy 14 o gamau gweithredu uchelgeisiol, mae'r siarter yn hyrwyddo cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a defnydd cerbydau allyriadau isel iawn ymhlith tua 15,000 o weithwyr. Caiff hyn effaith gadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd a bydd manteision iechyd hefyd yn dod ohono.

Fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020, roedd Cyngor Bro Morgannwg yn cyflogi 4,763 o bobl yn uniongyrchol (5064 yn 2018/19). Rydym yn dal yn ymrwymedig at fuddsoddi yn iechyd, lles a datblygiad ein cydweithwyr, a thros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi buddsoddi mewn nifer o fentrau. Er enghraifft, drwy gydol y flwyddyn,

gwnaed gwaith sylweddol ar newid diwylliant, gan gynnwys mwy o ymgysylltu â staff, gwelliannau i gyfathrebu a rhannu mwy o weithgareddau arwain. Mae lles meddyliol staff yn cael ei hyrwyddo'n rheolaidd gan uwch reolwyr ac ar hyn o bryd, mae 35 o Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl wedi eu hyfforddi yn y Cyngor. Drwy gyfrwng amrywiaeth o ddigwyddiadau a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn rydym wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, cyfeirio cydweithwyr at wasanaethau perthnasol ac annog pobl i fanteisio ar gynlluniau lles corfforaethol. Bydd y mecanweithiau cymorth hyn yn dod yn bwysicach nag erioed wrth i gydweithwyr addasu i ffyrdd newydd o weithio, e.e. gweithio o bell, a delio gyda phryder a straen yn sgil y pandemig coronafeirws. Mae'r newidiadau cadarnhaol a wnaed i wella lles staff yn cael eu cydnabod yn eang gan gydweithwyr ac adlewyrchir hyn yng nghanfyddiadau diweddaraf yr arolwg gweithwyr, a roddodd sgôr o 71% ar gyfer ymgysylltu a staff. Mae hyn yn galonogol pan gaiff ei feincnodi yn erbyn sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus fel y Gwasanaeth Sifil a Llywodraeth Cymru y nododd y ddau sgorau ymgysylltu o 62% am y cyfnod. Mae hyn yn galonogol o ystyried maint y newid yn y Cyngor yn ystod y flwyddyn a'r ymateb parhaus i ofynion cyllidebol a'r galw am wasanaethau. Yn ystod y flwyddyn, lansion ni hefyd ddull newydd o ymgysylltu, mewn ymateb i'r arolwg. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu Fforwm Ymgysylltu ac Arloesi Corfforaethol a Grwpiau Ymgysylltu ac Arloesi dan arweiniad y gwahanol wasanaethau, gyda hyrwyddwyr lleol penodol yn datblygu gweithgarwch ymgysylltu lleol. Ar hyn o bryd mae'r grwpiau hyn yn gweithio ar fersiwn nesaf Siarter Staff y Cyngor ac yn cyfrannu at ddatblygu'r Strategaethau Adnoddau Dynol, Lles a Denu Talent.

Gwnaethom dreialu Pecyn Cymorth Cynllunio Olyniaeth yn llwyddiannus mewn chwe maes gwasanaeth sydd wedi adrodd yn gyson am anawsterau wrth recriwtio a chadw staff. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r peilot yn llywio dull corfforaethol sydd â'r nod o feithrin gwydnwch gwasanaethau a sgiliau allweddol ar gyfer y dyfodol. Mae prentisiaethau yn rhan o'n dull cyffredinol o recriwtio a chadw gweithlu medrus ac amrywiol ar gyfer y dyfodol. Rhoddodd ein Fframwaith Prentisiaethau gyfle i 26 o bobl ifanc gan gynnwys graddedigion, gydag 8 o'r 26 prentis newydd gafodd eu recriwtio yn ystod y flwyddyn yn mynd yn eu blaen i sicrhau swyddi yn y Cyngor. Fe wnaethom ailfywiogi ein rhwydwaith LHDTC+ gan godi ei broffil ymhellach gyda chydweithwyr ymhob rhan o'r Cyngor. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i Stonewall o'n cynnydd o ran gwneud ein gweithle yn gynhwysol ar gyfer ein holl staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws wedi gwella ein safle ymhellach, gan godi i 196 o 215 y llynedd, a'n gosod yn hanner uchaf y tabl perfformiad o'i feincnodi yn erbyn 502 o sefydliadau yn y DU. Mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig at leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ei weithlu, sydd bellach yn 4.57% o'i gymharu ag 8.88% yn 2016.

Er gwaethaf ein dull rhagweithiol, mae absenoldeb staff yn parhau i fod yn her. Cododd nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd i salwch bob blwyddyn fesul pob swydd gyfwerth ag amser llawn i 10.15 o 9.12 yn 2018/19. Priodolir y cynnydd mewn absenoldeb yn bennaf at achosion hirdymor o salwch. Rydym wedi parhau i ddarparu cynlluniau lles fel brechiadau ffliw am ddim, ffeiriau iechyd, archwiliadau iechyd am ddim, gwasanaeth cwnsela am ddim (Rhaglen Cymorth i Weithwyr sy'n gweithredu 24/7 ), dulliau asesu risg o reoli straen a hyfforddiant i reolwyr a'r staff i gyd. Mae'r cynlluniau hyn eu rhoi ar waith mewn ymateb i faterion y tynnwyd sylw atynt gan staff, yn enwedig mewn perthynas â straen a phryder. Gan gadw lles cyflogeion mewn cof, rydym wrthi'n ymgysylltu â chydweithwyr drwy'r Cyngor cyfan ynghylch datblygu nifer o strategaethau allweddol gan gynnwys Strategaeth Adnoddau Dynol, Strategaeth Lles a Strategaeth Ddenu. Bydd hyn yn helpu i greu'r amodau diwylliannol cywir ac yn meithrin gwydnwch yn ein gweithwyr er mwyn sicrhau eu bod mewn gwell sefyllfa i addasu at yr heriau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus. At y dyfodol, un maes heriol allweddol i ganolbwyntio arno fydd cadw'r un lefel o ymgysylltu â'n gweithwyr a'n hundebau llafur er mwyn parhau â'r momentwm cadarnhaol rydym wedi'i gyflawni hyd yma wrth i agenda drawsnewid y Cyngor barhau i ymateb i heriau allanol sylweddol parhaus, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19 diweddar a Phrydain yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Rydym yn gwerthfawrogi barn ein trigolion am y ffordd rydym yn llunio ein gwasanaethau ac yn gwario'r arian sydd gennym, a chynhelir ein harolwg cyllideb blynyddol ochr yn ochr â rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr sy'n helpu i ffocysu ar flaenoriaethau a sicrhau gwariant ar y meysydd sydd bwysicaf i ddinasyddion y Fro, ac sy'n sicrhau'r effaith fwyaf cadarnhaol ar eu lles. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnwys trigolion a chymunedau wrth lunio ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a chyhoeddwyd ein Cynllun Corfforaethol newydd 2020-2015

ym mis Chwefror 2020. Rydym yn gweithio'n galed i fod yn fwy agored a chynhwysol yn ein dulliau ymgysylltu ac mae gennym ystod eang o ddulliau a phrosesau ymgysylltu hygyrch ar waith i sicrhau bod ein penderfyniadau a'n blaenoriaethau strategol a rheoli yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau amrywiol; fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod hwn yn parhau i fod yn faes i'w wella. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi gwella ein canolfan gyfathrebu ymhellach ac wedi hyrwyddo'r Cyngor yn rhagweithiol drwy amrywiaeth eang o gyfryngau. Yn ogystal, rydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r cyfleoedd sydd ar gael i breswylwyr fynegi eu barn ar unrhyw agwedd ar fusnes y Cyngor gan gynnwys blaenoriaethau'r gyllideb ac ail-lunio gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ymgysylltu â chymunedau i'w helpu i gymryd rhan mewn ystod ehangach o brosesau cynllunio strategol, er mwyn cyflawni'r gwelliannau y cytunwyd arnynt ar gyfer ein cymunedau, ein busnesau a'r economi. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os ydym am fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau i'n galluogi i bontio'n llwyddiannus o'n hymateb i'r pandemig coronafeirws i adferiad.

Gan edrych ymlaen at 2020/21 a'r tu hwnt i hynny, mae'r heriau ariannol ac economaidd sy'n wynebu'r Cyngor yn parhau, sef cyllid y sector cyhoeddus yn dal i leihau ar yr un pryd ag y mae newidiadau demograffig yn cynyddu'r galw am wasanaethau craidd cynghorau. Ochr yn ochr â phwysau allweddol ar gwasanaethau, bydd gan ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE) a phandemig byd-eang COVID-19 ddiwedd Mawrth 2020 oblygiadau sylweddol gan greu cyfnod ansicr o'n blaen. Yr hyn sy'n amlwg yw y bydd graddfa ac ehangder effeithiau COVID-19, ar y Cyngor a phob agwedd ar fywyd ein cymunedau, yn ogystal â'r heriau oedd yn bodoli cyn COVID-19, yn golygu y bydd ymdrechion i adfer ar ôl yr argyfwng yn unigryw o heriol. Mewn ymateb, mae'r Cyngor yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'i ymateb i'r argyfwng i lywio ei strategaeth adfer mewn nifer o ffyrdd; yn gyntaf, o ran parodrwydd am bandemig a rheoli argyfyngau ac yn ail, o ran cynnwys rhanddeiliaid allweddol a'n cymunedau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i brif ffrydio'r arfer da a fabwysiadwyd yn ystod yr argyfwng. Gyda'n gilydd byddwn yn trawsnewid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu i sicrhau cymunedau cynaliadwy gyda dyfodol disglair ym Mro Morgannwg.

# 3.1 YR HYN RYDYM WEDI EI GYFLAWNI: IECHYD CORFFORAETHOL

## 7.1.1 POBL



Lansiwyd dull newydd o ymgysylltu yn sgil holiadur Cyflogeion 2018. Mae hyn yn cynnwys **Fforwm Ymgysylltu ac Arloesi Corfforaethol**, Grwpiau Ymgysylltu ac Arloesi lleol ym mhob gwasanaeth, **gyda Hyrwyddwyr lleol wedi eu nodi** yn cefnogi gweithgarwch ymgysylltu lleol.

Drwy ein **Fframwaith Prentisiaethau,** rydym yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc. **Recriwtiwyd 17 o bobl eraill ar ein llwybrau ieuenctid** gan wneud cyfanswm o **26** mewn cyflogaeth weithredol gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu ag 20 yn y flwyddyn flaenorol. **Cwblhaodd 8 prentis gymwysterau yn ystod flwyddyn** a **sicrhaodd 5 arall gyfleoedd cyflogaeth gan y Cyngor**. Gwnaethom hefyd gychwyn project recriwtio ehangach sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth ieuenctid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Stonewall
HYRWYDDWR AMRYWIAETH
DIVERSITY CHAMPION
CYMRU

Gwnaed cynnydd da o ran creu **gweithle cynhwysol ar gyfer yr holl staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws**. Yn ystod 2019/20, mae ein safle yn rhif **196** (o 215 yn 2018/19) **yn ein rhoi yn hanner uchaf y** tabl perfformiad pan gaiff ei feincnodi yn erbyn dros 502 o sefydliadau yn y DU.



Mae **Offeryn Dysgu a Datblygu iDev** y Cyngor, sydd wedi'i integreiddio �'r cynllun gwerthuso staff (#Amdanafi), yn galluogi cyflogeion i nodi anghenion dysgu a bylchau sgiliau, wedi ei alinio � fframweithiau Cymwyseddau newydd y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd llwybr ymsefydlu ar-lein ar gyfer pobl sy'n dechrau gweithio i'r Cyngor, gan roi cyfrif iDev iddynt nhw sy'n rhoi mynediad iddyn nhw at lwybr cyn cychwyn gwaith i gyflwyno'r cyngor. Ar ôl dechrau, bydd unigolion yn symud i lwybr cynefino, yn cyflwyno eu dysgu gorfodol ac unrhyw wybodaeth allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohoni yn ystod wythnosau cyntaf eu cyflogaeth.

Drwy fanteisio i'r eithaf ar ein cyfleoedd, **llwyddwyd i sicrhau cyrsiau wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer 11 aelod o staff** ystod y flwyddyn, **gan arbed tua £8000 i'r Cyngor.**

Gwnaethom dreialu **Pecyn Cymorth Cynllunio Olyniaeth** yn llwyddiannus mewn chwe gwasanaeth sydd wedi adrodd yn gyson am anawsterau wrth recriwtio a chadw staff. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r peilot yn llywio dull corfforaethol sydd â'r nod o feithrin gwydnwch gwasanaethau a sgiliau allweddol ar gyfer y dyfodol.

Cwblhaodd **91%** o gyflogeion y Cyngor arfarniad staff yn ystod 2019/20.




Cyflwynwyd **siarter teithio llesol staff** i annog arferion teithio llesol ymhlith ein staff a lleihau ein hôl troed carbon drwy wneud llai o deithiau mewn car i'r gwaith ac oddi yno.

Yn unol â'n hymrwymiad i **hyrwyddo lles meddyliol da staff** cefnogodd ein **35 o Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl** gydweithwyr ledled y Cyngor drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth, cyfeirio at wasanaethau ac annog pobl i fanteisio ar gynlluniau lles corfforaethol.

## 7.1.2 Y CWSMER



Cafodd **78%** o'r ymholiadau i Cyswllt Un Fro **eu datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf.** Mae hyn yn cyfateb â 104,593 allan o 134,243 o ymholiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, yn debyg i berfformiad y llynedd.

Gwnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys preswylwyr, partneriaid a chydweithwyr yn y cyngor wrth ddatblygu **Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020-2025** a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020.






Roedd **87%** o'n cwsmeriaid yn fodlon gyda'r **gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor**. Mae hyn yn gadarnhaol o'i weld yng nghyd-destun y lleihad sylweddol mewn cyllid a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor.



Rydym yn parhau i ddysgu o'n gweithdrefnau cwyno a chanmoliaeth er mwyn gwella ein gwasanaethau'n gyffredinol. Cafodd **93.5%** o gwynion corfforaethol eu **datrys yng Ngham 1** o'i gymharu â 93% y llynedd, gan gynnal ein perfformiad cadarnhaol.

Roedd dros **98%** o breswylwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon â **Bro Morgannwg fel lle i fyw** yn debyg i lefelau boddhad blynyddoedd blaenorol.

Llwyddwyd i lansio **Porth Cwsmeriaid i'n tenantiaid** yn llwyddiannus ac rydym yn ystyried ymestyn yr ystod o wasanaethau sydd ar gael drwy'r porth.

Yn ystod 2019/20, dywedodd y rhan fwyaf o drigolion y Fro eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel **gartref (98%), yn cerdded yn eu hardal leol (96%)** ac **yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus (97%).** Roedd y perfformiad hwn yn debyg i ganlyniadau blaenorol yr arolwg yn 2016/17. Roedd diogelwch wrth gerdded yn yr ardal wedi codi o 94%.

Roedd **84%** o breswylwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon â **chyfathrebu cyffredinol** gan y Cyngor yn ystod 2018/19. Mae'r perfformiad hwn yn adlewyrchu ein dull rhagweithiol o sicrhau bod preswylwyr yn cael gwybod am y Cyngor ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Roedd ein **sgôr ymgysylltu â chyflogeion** yn **71%** yn 2018/19. Mae'r sgôr cadarnhaol hwn yn adlewyrchu'r gwaith sylweddol a wnaed i ymgysylltu â staff i gyflawni ein hymrwymiadau siarter staff gan gynnwys llunio blaenoriaethau'r Cyngor.

Rydym yn gwerthfawrogi barn ein trigolion ynglŷn â'r ffordd rydym yn llunio ein gwasanaethau ac yn gwario'r arian sydd gennym. Ymgynghorwyd ar lefelau'r Dreth Gyngor am y flwyddyn a sut y dylid gwario'r gyllideb. Llywiodd hyn **lein cyllideb a chadarnhaodd o'r newydd fod blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn yn parhau'n berthnasol.**

Yn yr arolwg staff diweddaraf (2018/19), adroddodd **74%** o'r staff eu bod yn falch o weithio i'r Cyngor; byddai **70%** yn argymell y cyngor fel lle da i weithio; roedd **70%** yn fodlon iawn â'r Cyngor fel lle i weithio; ac roedd 69% yn dweud nad oedden nhw'n chwilio'n weithredol am swydd arall gyda sefydliad arall.




## 7.1.3 ARIANNOL

Ar ddiwedd 2019/20, cyflwynodd y Cyngor adroddiad dros dro yn nodi **sefyllfa o adennill costau mewn perthynas â'i gyllideb refeniw**, ar ôl **trosglwyddo £2.555 miliwn i gronfeydd wrth gefn**, yn amodol ar archwiliad o'r cyfrifon yn 2020. Gwarion ni **£223.543 miliwn ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus** yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Gyda phoblogaeth o 132,165, mae hyn yn cyfateb i **£1,691 y pen** (£1699 yn 2018/19). Yn unol â'n blaenoriaethau, roedd Dysgu a Sgiliau a Gofal Cymdeithasol yn cyfrif am **78.1%** o wariant y Cyngor a gyllidebwyd yn 2019/20, gan gyflawni ein blaenoriaethau allweddol fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol (75.4% yn 2017/18).

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud y gorau o'n potensial **cynhyrchu incwm** drwy amrywiol gyfleoedd gan gynnwys nawdd a hysbysebu, drwy asedau'r Cyngor, o weithgareddau gwastraff masnachol/ailgylchu, polisi codi tâl am wybodaeth a thrwy weithgarwch masnach. Yn ystod 2019/20, cynhyrchwyd **£92k** o incwm ychwanegol drwy amrywiol weithgareddau.

Er gwaethaf y lefel bresennol o bwysau o ran costau, **mae gan y Fro y 6ed** (allan o 22) **treth gyngor Band D isaf yng Nghymru** yn 3.8% yn is na chyfartaledd Cymru.

Mae ein cyllideb net ar gyfer cyfnod 2019/20, sef £226.098 miliwn, yn cynnwys **Cyfraniadau o 49% gan Lywodraeth Cymru** ar ffurf grant cynnal refeniw (RSG), **32% o gyfraniadau'r dreth gyngor** gan ddinasyddion, a **chyfran o 19% o'r Gronfa Ardrethi Annomestig Cenedlaethol** (NNDR). Dyrannwyd y rhain i gyflawni ein blaenoriaethau Lles ar gyfer Bro Morgannwg (gan gynnwys ein dyletswyddau statudol) fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2016-20.

Mae **ein Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau** yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol o ran rheoli rhaglenni, cyfathrebu ac ymgysylltu a datblygu sefydliadol i gyd yn cael statws gwyrdd ar ddiwedd y flwyddyn i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma. Yn ogystal **gwnaethom fwrw 79% o'n targed o £3.02 miliwn ar gyfer ail-lunio gwasanaethau, hynny yw, £2.383 ar gyfer cyfnod 2019/20** sy'n gadarnhaol o ystyried

Mae gan y Cyngor hanes o sicrhau bod cyfanswm yr arian sy'n cael ei wario o fewn y gyllideb neu'n is na'r gyllideb ac mae hyn wedi ein galluogi i ddefnyddio hyblygrwydd balansau i helpu i gael codiadau isel yn y Dreth Gyngor o'i gymharu â gweddill Cymru (4.9%) yn 2019/20. Yn ein Hadroddiad

Roedd **92%** o **gontractau'r cyngor** a roddwyd ar waith yn ystod y flwyddyn drwy fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol o'i gymharu â 90% y llynedd. Drwy ffurfio partneriaethau a gwneud mwy o ddefnydd o fanylebau safonol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau priodol, rydym yn sicrhau arbedion maint ac yn sicrhau cynaliadwyedd rhai o'n gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod 2019/20, gwariodd y Cyngor **£53.1 miliwn ar seilwaith cyfalaf ar hyd a lled y Fro**. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau i'n hysgolion, gosod arwynebau newydd ar ffyrdd, a datblygu projectau newydd fel cynllun y Lôn Pum Milltir. Bydd gwella ein seilwaith lleol yn cyfrannu at dwf

mor gymhleth y mae rhai gwasanaethau.

Gwella Blynyddol diwethaf, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r casgliad fod **gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac effeithiol**. Gellir gweld manylion llawn am ein cyllideb yn [Natganiad Cyfrifon llawn y Cyngor ar gyfer 2019/20.]()

economaidd a Bro fwy llewyrchus.

# 7.1.4 ASEDAU

Rydym wedi **cwblhau astudiaethau defnyddio desgiau mewn 2 o'n prif adeiladau swyddfa**. Defnyddir y data i lywio ein strategaeth rheoli asedau yn y dyfodol a dylai arwain at arbedion effeithlonrwydd pellach yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Yn unol â mabwysiadu dull mwy masnachol o reoli asedau, mae **tîm adolygu asedau** wedi'i sefydlu i ystyried ein hasedau eiddo fesul ardal. Yn ystod 2019/20, ystyriodd y grŵp asedau o fewn ward **Saint-y-brid** a threfi **Llanilltud Fawr a'r Bont-faen** gyda chyfleoedd posibl wedi'u nodi. Fe **gwblhaon ni'r gwaith o waredu'r hen Sied Nwyddau yng Nglannau Dŵr y Barri** a **hen adeilad y Ganolfan Ieuenctid yn Llanilltud Fawr** ac rydym hefyd perchenogi tir yn rhan o raglen **datblygu tai cyngor newydd** yn unol â'n Strategaeth.

Fel cyngor sy'n amgylcheddol gyfrifol, rydym wedi parhau i weithredu **ystod o fesurau effeithlonrwydd ynni yn yr ystad** a byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion ar raglen ddatgarboneiddio a fydd yn helpu i wneud ein hasedau adeiladu yn fwy effeithlon o ran ynni ac yn sicrhau arbedion cost yn ogystal ag amgylchedd gwell. Mae'r projectau datgarboneiddio a gyflwynwyd yn 2019/20 wedi cyflawni **arbedion blynyddol o £36K**.

Drwy **Fwrdd Asedau Caerdydd a'r Fro** rydym yn cydweithio â Chyngor Caerdydd, Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Llywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio ar **fentrau gydag asedau'r sector cyhoeddus**. Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp newydd i Reoli Asedau Caerdydd a'r Fro, sy'n cael ei redeg gan y Fro ac sy'n cael ei fynychu gan bob partner sector cyhoeddus allweddol sy'n berchen ar eiddo. Bydd hyn yn helpu i wneud y defnydd gorau posibl o'n hasedau eiddo ac yn sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y tymor hir, tra'n cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau lles cenedlaethol

Rydym yn lleihau ein hallbynnau carbon a'n costau ynni drwy drosi goleuadau stryd mewn ardaloedd preswyl a phrif ffyrdd i LED drwy brosiect a ariennir gan SALIX. Hyd yn hyn mae 68% (**10,752 o lusernau**) wedi'u trosi a rhagwelir y bydd hyn yn lleihau allyriadau CO2 y Cyngor gan ryw **493 tunell** y flwyddyn. Yn 2019/20, sicrhawyd dros £100k o arbedion drwy gostau ynni is.

**Mae 8 clwb bowls wedi'u trosglwyddo i'r gymuned** gan roi mwy o reolaeth i'r clybiau dros y ffordd y maen nhw'n cael eu rhedeg. Mae hyn wedi sicrhau arbedion sylweddol i'r Cyngor ar adeg o bwysau ariannol sylweddol. Cafodd y clybiau gymorth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i baratoi at y newid ac maen nhw wedi derbyn indemniad pum mlynedd, yn eu diogelu rhag costau gwaith mawr dros y cyfnod hwnnw tra bo arian y clwb yn cronni.

**Enillwyd statws Baner Werdd gan 10 o'n parciau** i gydnabod y mannau gwyrdd o ansawdd sydd ar gael i breswylwyr eu mwynhau drwy gydol y flwyddyn. Derbyniodd 13 safle wobrau cymunedol hefyd. Fe wnaethom yn fawr hefyd **o arian A106 drwy ddatblygu ac uwchraddio 7 man awyr agored** yn Nhwyn Yr Odyn, Tregolwyn, Cogan, Dinas Powys, Gwenfô, Llandochau, a Phenarth. Mae gwelliannau hefyd yn mynd rhagddynt ar 4 arall yn y Barri, y Wig a Dinas Powys.

**Mae gwaith bron wedi dod i ben hefyd ar broject gwerth £3.5 miliwn yn yr hen Brecon Court. Yn rhan o raglen uchelgeisiol i gynyddu tai cymdeithasol,** bydd 28 o gartrefi 'gofal parod' sydd â thechnoleg gynorthwyol yn galluogi pobl ag anghenion isel i gymedrol i fyw'n fwy annibynnol. Mae'r datblygiad hefyd wedi cael ei gydnabod gan y Cynllun Adeiladwyr Ystyriol am safonau rhagorol yn ystod y gwaith adeiladu. Mae **500 arall o unedau tai cymdeithasol fforddiadwy** wedi'u cynllunio ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Cydweithiwyd â Llywodraeth Cymru, y sector preifat a Chymdeithas Tai Newydd i gyflwyno bywyd newydd i'r **Sied Nwyddau,** ased hanesyddol lleol pwysig, i **greu swyddi, cartrefi a chyfleusterau hamdden y mae mawr eu hangen er budd y gymuned ehangach**. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio a'i adeiladu gyda'r gymuned mewn golwg ac mae'n cynnig marchnad ffermwyr barhaol, sgrin sinema, campfa awyr agored, theatr/clwb comedi ac ati.

Mae'r Cyngor wedi **buddsoddi tua £2.5 miliwn** i wneud gwaith o dan ei **gynllun 3 blynedd i osod wyneb newydd ar briffyrdd** bob blwyddyn dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf sy'n fwy na'r £2.1m sydd ei angen i gadw cyflwr y priffyrdd yn cyson ddiogel. Cafodd **74 heol** ar rwydwaith priffyrdd lleol y Fro welliannau i'w harwyneb naill ai drwy dderbyn arwyneb hollol newydd neu drwy waith ataliol fel rhoi miscroasffalt arnynt i wella safon a chyflwr cyffredinol y rhwydwaith priffyrdd lleol ledled y Fro.

Rydym yn parhau i gyflawni **lefelau boddhad uchel gan ymwelwyr â'n Parciau Gwledig â 100% yn dweud bod eu hymweliad naill ai'n "dda" neu'n "dda iawn".**Mae'r perfformiad hwn yn welliant pellach ar y llynedd (99.6%). Mae boddhad ymwelwyr ynghyd â'r gwobrau a gyflwynwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus yn dangos cydnabyddiaeth o'n safonau uchel ym parciau, ardaloedd gwyrdd a mannau agored niferus y Sir.

Yn unol â'n hymrwymiad at drafnidiaeth gynaliadwy, yn ystod 2019/20 defnyddiwyd cyfraniadau datblygwyr i wneud **gwelliannau i'n hasedau priffyrdd** gan gynnwys; **safle bws a lloches newydd yn Ystradowen** a **nifer o welliannau i droedffyrdd; cynllun gwella troedffyrdd yn Fferm Goch**; **gwelliannau i gerddwyr ar Old Port Road**; gwelliannau i **droedffyrdd drwy Aberogwr gyfan**; **gwelliannau diogelwch ar y ffyrdd yn Saint-y-brid** a gwelliannau wrth **gyffordd cylchfan Windsor Road/Plassey Street ar gyfer cerddwyr a beicwyr**.

## 7.1.5 Y FRO DDIGIDOL

Yn ystod y flwyddyn roedd dros **99%** o **20 prif system TGCh** y Cyngor ar gael yn ystod oriau busnes craidd, gan gyfrannu at fwy o fynediad at wasanaethau, gwell blaenoriaethu a dibynadwyedd ar gyfer staff a chwsmeriaid.





Dywedodd **100%** o'r cyfranogwyr a fynychodd sesiynau galw heibio digidol eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio dyfeisiau ddigidol.



Cyflwynwyd a gwellwyd **technoleg ddigidol i wella gweithio digidol ledled y Cyngor** gan gynnwys e-recriwtio, e-slipiau cyflog, Office 365, adnoddau i-Dev, system storio hybrid sy'n barod ar gyfer y cwmwl ac a fydd yn lleihau costau ac yn cyfrannu at fwy o symudedd o ran staff a chyfleoedd i gydweithwyr a phartneriaid ddatblygu eu sgiliau a chydweithio'n fwy rhydd yn y dyfodol.



Mae **68%** o breswylwyr yn defnyddio gwefan y Cyngor ac yn ymgymryd â thrafodion arni, cynnydd o 40% ers yr arolwg blaenorol. Mae gwella ymarferoldeb a hyrwyddo trafodion ar ein gwefan yn y pen draw **yn gwella mynediad at wasanaethau yn ddigidol** a bydd yn cyfrannu at arbedion effeithlonrwydd drwy ymdrin â llai o alwadau.



**Mae Cyswllt y Fro yn parhau i fod yn ffynhonnell boblogaidd o wybodaeth am wasanaethau'r cyngor** gyda thanysgrifwyr unigol i fwletinau e-bost yn cynyddu o 53,345 i 62,723 yn ystod y flwyddyn, **cynnydd o 17.5%.**

Cynyddodd tanysgrifiadau i fwletinau pwnc unigol i 167,909, neu **2.7 tanysgrifiad fesul tanysgrifiwr unigol.**

Yn ystod y cyfnod mae'r Cyngor wedi arwain ar **lwyfan cwmwl digidol Cysylltu Cymru**. Mae'r llwyfan, a lansiwyd ym mis Ionawr 2020, yn darparu mynediad hyblyg at ganolfannau cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd a thechnolegau digidol drwy fframwaith caffael sydd ar gael i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn defnyddio'r llwyfan i weithredu technoleg 'gwesgwrsio' i wella profiad cwsmeriaid ymhellach wrth gael mynediad at ein gwasanaethau ar-lein. Mae'r llwyfan hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng cynghorau sy'n rhannu'r llwyfan i wella effeithlonrwydd gweithredol a gwydnwch gwasanaethau.

Rydym yn parhau i gynyddu cyfleoedd ledled y Fro ar gyfer cynhwysiant digidol drwy fentrau amrywiol. Gosodwyd ystafelloedd cyfrifiaduron ym mhob un o gynlluniau tai gwarchod y cyngor a darparwyd 360 o sesiynau hyfforddi cynhwysiant digidol i breswylwyr hŷn yn y tai gwarchod. Darparwyd hefyd **270** o sesiynau hyfforddi cynhwysiant digidol yn Hyb Aberaeron i drigolion y Fro. Llwyddodd **434** o oedolion i gwblhau cyrsiau sgiliau digidol achrededig yn ystod y flwyddyn (Agored Cymru). Gwnaeth **136** arall o dysgwyr hefyd lwyddo i basio arholiadau **Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd** gyda **chyfradd pasio o 95% ar gyfartaledd.**
Mae grŵp 'Rhoi'r Fro Ar-lein' yn parhau i roi hyfforddiant digidol ledled Bro Morgannwg mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol ac mewn tai cymorth.



Gwnaed cynnydd da wrth **integreiddio** gwaith y **Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd ymhellach**, gan sicrhau felly bod cwsmeriaid yn cael gwasanaeth ar y pwynt cyswllt cyntaf a'u cyfeirio'n effeithiol lle y bo'n briodol. Mae'r dull hwn hefyd yn adlewyrchu polisi'r Cyngor o ymyrryd ac atal yn gynnar mewn perthynas â gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd.

## 7.1.6 CYDWEITHIO

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag ystod o sefydliadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion cymhleth sy'n wynebu ein dinasyddion a'n cymunedau. Mae'r rhain yn ein galluogi ni i weithredu mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, gan arwain at wasanaethau gwell ar gyfer ein dinasyddion ac arbedion ariannol. Mae hyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n nodi cydweithio fel un o'r ffyrdd allweddol o gefnogi datblygu cynaliadwy a chyflawni dyletswydd y Cyngor o dan y Ddeddf. Wedi'u hamlygu isod y mae rhai o'n prif gyflawniadau drwy gydweithio. Gallwch ddysgu am brojectau strategol eraill y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt trwy edrych ar Compendiwm Cydweithio Strategol.

---

Ers ei sefydlu yn 2012 bu gwelliant da a chyson bob blwyddyn o ran canlyniadau dysgwyr ar bob lefel ac ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth CCD. **Consortiwm Canolbarth y De** yw'r rhanbarth sy'n perfformio orau yng Nghymru o hyd. Bu cynnydd sylweddol o ran gwella canlyniadau ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed, culhau'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion, a lefelau cyflawniad ar bob safon. Mae cynnydd o ran safonau blwyddyn academaidd 2018/19 yn parhau i fod yn gadarnhaol gyda'r **mwyafrif yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.**


---

Mae gwaith y **Grŵp Tai Strategol** wedi cyfrannu at gynyddu'r cyflenwad, ystod a dewis o dai sydd ar gael i deuluoedd yn y Fro. Yn ystod y flwyddyn, daeth**111** o eiddo preifat y nodwyd nhw fel rhai gwag i gael eu defnyddio eto a darparwyd **306** o unedau tai fforddiadwy. Mae hyn yn cynrychioli 35% o'r holl dai y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt, sy'n rhagori ar darged y CDLl, sef 30%. Sicrhawyd £444,097 pellach gan y Cyngor ar ffurf cyfraniadau tai fforddiadwy a gaiff ei ddefnyddio i gefnogi Rhaglen Adeiladu Tai'r Cyngor i gynyddu'r lefel, ystod a'r dewis o dai fforddiadwy sydd ar gael i deuluoedd yn y Fro.

---

Yn unol â blaenoriaethau ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019/20, mae gwaith wedi bwrw yn ei flaen ar nifer o ffrydiau gwaith yn rhan o **Fargen Dinas gwerth £1.3bn Prifddinas-ranbarth Caerdydd (P-RC)**, i sicrhau sylfeini hanfodol o ran sail dystiolaeth gredadwy; datblygu cynllun twf dan arweiniad y diwydiant; sefydlu fframwaith buddsoddi a symbylu adnoddau, asedau a phartneriaid lleol a byd-eang er mwyn creu'r amodau angenrheidiol i gyflawni'n llwyddiannus ac yn gynaliadwy. Ymhlith y prif lwyddiannau mae: **lansio Cynllun Twf Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol wedi ei arwain gan fusnesau; datblygu Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd; bwrw ymlaen â gwaith ar y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol** (e.e. Cynllun Graddedigion gyda 50 o leoliadau wedi'u gwneud hyd yma) a'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol (project metro); **cyfrannu at Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru** ac yn fwy diweddar, **ymuno â Global Welsh i hyrwyddo'r rhanbarth ar lefel fyd-eang i sbarduno tyfu economaidd**. Un ffocws allweddol yma fydd cefnogi entrepreneuriaid a Busnesau Bach a Chanolig P-RC i adeiladu busnesau llwyddiannus a all wynebu'r dyfodol yn hyderus.

---



Mae **Partneriaeth Strategol Trais yn y Cartref** yn bartneriaeth amlasiantaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu ymateb strategol cadarn i atal a mynd i'r afael â thrais domestig ym Mro Morgannwg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gwasanaeth Cydlynu Asesu ac Atgyfeirio Cam-drin Domestig wedi derbyn a phrosesu **1776 o atgyfeiriadau HDC**. Gwnaeth y gwasanaeth **2986 o atgyfeiriadau** i'r dioddefwr dderbyn y gwasanaeth iawn ar yr adeg iawn, **gan gyfrannu beri i ddioddefwyr deimlo'n fwy diogel a sicrhau canlyniadau gwell i ddioddefwyr a'u teuluoedd.** Cafodd **418** o achosion eu cyfeirio at y Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) ar gyfer dioddefwyr risg uchel yn ystod yr un cyfnod. Roedd yr achosion hyn yn ymwneud â **794 o blant**, a dim ond 4% ohonynt oedd ar agor i'r gwasanaethau plant. Mae hyn yn golygu y byddai 96% o blant wedi heb unrhyw gymorth statudol arall cyn MARAC. Er mwyn cefnogi dioddefwyr i aros yn eu cartref eu hunain, **cafodd mesurau diogelwch cartref eu gosod yng nghartrefi 82 o ddioddefwyr er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel.** O'r 76% o ddioddefwyr y cafodd mesurau diogelwch pellach eu gosod yn eu heiddo, **roedd 90% yn teimlo'n fwy diogel, 68% yn teimlo bod hyn yn eu hatal rhag gorfod mynd i loches ac roedd 94% yn hapus gyda'r gwasanaeth.**

Drwy'r flwyddyn mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno hyfforddiant yn llwyddiannus i helpu gweithwyr proffesiynol i nodi ac ymateb yn well i gam-drin domestig er mwyn helpu i greu **system fwy cydgysylltiedig ymhlith partneriaid lluosog**. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi llwyddo i wella'r holl waith cofnodi a monitro data sydd wedi arwain at rannu gwybodaeth mwy ac yn well gyda phartneriaid lle mae cam-drin domestig yn un broblem ochr yn ochr ag anghenion eraill. Mae hyn wedi arwain at **weithio mewn partneriaeth mwy cydlynol i wella canlyniadau i ddioddefwyr a'u teuluoedd.**

Fel rhan o'r gwaith i integreiddio gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd **datblygiad canolfan gyswllt i gwsmeriaid Cyswllt Un Fro i weithredu fel Hyb Ymwneud â Chwsmeriaid / Cyfathrebiadau'r GIG** yn symleiddio mynediad at wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn gwella datrysiadau cyswllt cyntaf a phrofiad cyffredinol y cwsmer. Yn ogystal, bydd costau gweithredol yn cael eu lleihau drwy rannu technoleg ac adnoddau staff i ddarparu gwasanaethau. Bydd y gwaith hwn hefyd yn meithrin y gallu i ymgymryd â mwy o wasanaethau ac yn annog cydweithio integredig agosach fyth rhwng y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r **Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol** yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol sydd ynghlwm wrth y Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed o Syria. Wedi'i ariannu gan y Llywodraeth Ganolog, mae'r Grŵp yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod adnoddau ar waith e.e. darpariaeth llety, integreiddio gwasanaethau cymorth, iechyd ac addysg i gefnogi ailsefydlu ffoaduriaid o Syria ym Mro Morgannwg a Chaerdydd. Hyd yn hyn m**ae 14 o deuluoedd wedi cael cymorth i ymgartrefu mewn cymunedau ym Mro Morgannwg.**

Mae gwaith y **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** wedi galluogi'r Cyngor i barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau allweddol sy'n cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed i gynnal eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartref eu hunain am fwy o amser, un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor. Mae eu gwaith yn cael ei lywio Gynllun Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth sy'n ymateb ar y cyd i Asesiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg. Drwy fentrau ar y cyd fel y Project Pwynt Mynediad Sengl drwy Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid y Fro, y project Ymyriadau Ataliol, project Rhyddhau Datrysiadau Llety, project Rhyddhau Integredig, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, y Project Rhyddhau i Asesu, timau cymunedol integredig yn seiliedig ar leoedd, a gwasanaeth brysbennu meddygon teulu, mae amrywiaeth o wasanaethau ataliol a gwell yn cael eu darparu mewn partneriaeth ledled Caerdydd a'r Fro sy'n effeithio'n gadarnhaol ar les trigolion y Fro.

Prif nod **Ystadau Cymru** yw creu twf economaidd, sicrhau gwasanaethau mwy integredig, hybu cynaliadwyedd cymdeithasol ac amgylcheddol, lleihau costau rhedeg ystadau, sicrhau gwerth am arian a chynhyrchu incwm, tra'n cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau cenedlaethol. Mae'r grŵp asedau cenedlaethol yn goruchwylio gwaith is-grŵp rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i sicrhau bod amrywiaeth o brojectau allweddol o dan Raglen Cydweithredu Asedau Cymru (Cam 2) yn cael eu cyflawni. Hyd yma, mae meysydd ffocws allweddol wedi ymwneud â **datblygu dealltwriaeth ranbarthol fanwl o'r sylfaen asedau cyhoeddus drwy ymarferion mapio asedau, ystyried y potensial ar gyfer cyfleoedd i gydweithio ar draws y portffolios a datblygu projectau braenaru.**

Yn unol â'r ymdrech i weithio tuag at strategaeth wastraff gyffredinol y Llywodraeth 'tuag at ddyfodol diwastraff', mae Project Gwyrdd, partneriaeth ranbarthol sy'n darparu Cyfleuster Trin Gwastraff Gweddilliol sy'n gwasanaethu partneriaeth o 5 awdurdod lleol wedi ein galluogi i leihau'n faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn sylweddol. **Ailgylchwyd dros 70% o'n gwastraff** y llynedd a chyfrannodd mwy


na **16,200 tunnell** o'n gwastraff gweddilliol at **gynhyrchu pŵer ar gyfer dros 64,000 o gartrefi**. Yn ogystal â'r llwyddiant o ran adfer o wastraff, **mae llai na 0.75% o'n gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi** o elfennau nad ydynt yn rhai y gellir eu llosgi, a rhywfaint o'r lludw o drin y gwastraff.

## 7.2 EIN HERIAU

### 7.2.1 POBL

Er gwaethaf ein hagwedd ragweithiol at wella iechyd a lles cyflogeion, collwyd 10.51 diwrnod fesul pob swydd gyfwerth ag amser llawn oherwydd absenoldeb salwch yn ystod 2019/20 o'i gymharu â 9.12 diwrnod yn 2018/19. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 37,330 o ddyddiau wedi eu colli oherwydd salwch yn ystod 2019/20 (33,707 yn 2018/19).

Mae presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym yn parhau i fonitro cynnydd yn ofalus i helpu i wella perfformiad yn gorfforaethol. Adroddodd arolwg diweddaraf CIPD ar reoli absenoldeb, "Iechyd a Lles yn y Gwaith" Ebrill 2020, mai nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd yn y sector cyhoeddus yw 8 diwrnod salwch fesul gweithiwr llawn amser. Er bod y data ar y cyfan yn dangos darlun sy'n gwella ymhob sector, mae lefelau absenoldeb yn parhau i fod yn sylweddol uwch yn y sector cyhoeddus, yn ogystal ag mewn sefydliadau mwy o blith pob sector. Mae'r graff isod yn dangos data absenoldeb salwch y Cyngor ar lefel Cyfarwyddiaethau ar ddiwedd y flwyddyn dros y 3 blynedd diwethaf:




Bu cynnydd mewn lefelau absenoldeb ymhob Cyfarwyddiaeth gorfforaethol o'i chymharu â'r perfformiad yn yr un cyfnod yn 2018/2019. Priodolir y rhan fwyaf o absenoldeb i salwch hirdymor (7.31 diwrnod fesul CALl gan gynnwys ysgolion a 9.19 diwrnod heb gynnwys ysgolion. Mewn cymhariaeth, collwyd 6.11 a 7.45 diwrnod fesul CALl yn y drefn honno oherwydd absenoldeb salwch hirdymor yn ystod 2018/19. Yn ystod 2019/20, cafodd 69% o'r holl absenoldeb ei gategoreiddio fel absenoldeb hirdymor (dros 4 wythnos o hyd) o gymharu â 67% yn y flwyddyn flaenorol.

Mewn ymateb, mae gwasanaethau'n parhau i fod yn rhagweithiol o ran gweithredu mesurau cadarnhaol fel dulliau asesu risg, darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth straen i staff, cyfeirio at y rhaglen Cymorth i Weithwyr, cyfeirio achosion straen yn awtomatig at Iechyd Galwedigaethol ac annog staff i ymgymryd â sgriniau iechyd am ddim i helpu i wella eu hiechyd a'u lles yn y gwaith. Yn gyffredinol, mae nifer y gweithwyr sy'n manteisio ar y mentrau hyn yn parhau i fod yn gadarnhaol ac mae mwy yn cael ei wneud i hyrwyddo'r mentrau hyn ledled y Cyngor. Mae presenoldeb yn parhau i gael ei fonitro'n rhagweithiol yn unol â threfniadau corfforaethol gydag achosion blaenoriaeth yn cael eu hadolygu'n fisol er mwyn sicrhau bod perfformiad yn cael ei roi yn ôl ar y trywydd iawn. Mewn Cyfarwyddiaethau lle mae lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn faes sy'n peri pryder, mae cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r sefyllfa drwy gamau gweithredu penodol/wedi'u teilwra.
am ddim i helpu i wella eu hiechyd a'u lles yn y gwaith. Yn gyffredinol, mae nifer y gweithwyr sy'n manteisio ar y mentrau hyn yn parhau i fod yn gadarnhaol ac mae mwy yn cael ei wneud i hyrwyddo'r mentrau hyn ledled y Cyngor. Mae presenoldeb yn parhau i gael ei fonitro'n rhagweithiol yn unol â threfniadau corfforaethol gydag achosion blaenoriaeth yn cael eu hadolygu'n fisol er mwyn sicrhau bod perfformiad yn cael ei roi yn ôl ar y trywydd iawn. Mewn Cyfarwyddiaethau lle mae lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn faes sy'n peri pryder, mae cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r sefyllfa drwy gamau gweithredu penodol/wedi'u teilwra.

Mae'r data ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 yn dangos **ychydig o gynnydd mewn trosiant** (o 9.27% i 10.01%), o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd cyfanswm nifer y rhai a oedd yn gadael yr holl wasanaethau o 472 i 492. Mae trosiant corfforaethol wedi cynyddu o 10.74% i 11.65%, a throsiant mewn Ysgolion wedi cynyddu o 7.98% i 8.58%.

At ei gilydd, mae **trosiant gwirfoddol** (lle mae cyflogeion wedi dewis gadael cyflogaeth y Cyngor) **wedi cynyddu** o 7.86% i 8.39% yn ystod y cyfnod. Mae trosiant corfforaethol gwirfoddol wedi cynyddu o 8.81% i 9.6%, a throsiant gwirfoddol mewn Ysgolion wedi cynyddu ychydig o 7.02% i 7.32%. Mae trosiant gwirfoddol yn cyfrif am 80% o'r holl ymadawyr yn 2019/20, sy'n ostyngiad o'i gymharu ag 85% y flwyddyn gynt. Y Gwasanaeth Rheoli a Diogelu Adnoddau sydd â'r ganran uchaf o bobl yn gadael y Cyngor, 16.24% (32), ac yna'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, 14.93% (33). Yn gyffredinol, mae lefelau trosiant gwirfoddol wedi cynyddu ym mhob Cyfarwyddiaeth. Yn unol â'r flwyddyn flaenorol, y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â'r ganran uchaf o gyflogeion sydd wedi dewis gadael y Cyngor, sef 12.30% i fyny o 11.89%, y llynedd.)

Mae'r gyfradd drosiant gyffredinol o 10.1% a'r gyfradd trosiant gwirfoddol o 8.39% ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg yn 2019/20 yn cymharu'n ffafriol â chyfradd drosiant gyffredinol o 15.7% a chyfradd trosiant gwirfoddol o 12.9% yn sefydliadau'r sector cyhoeddus. Er bod y perfformiad hwn yn gadarnhaol, mae rhai o wasanaethau'r Cyngor yn dal i adrodd bod **anawsterau wrth recriwtio a chadw staff** mewn meysydd allweddol. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyllid, TGCh, Gwasanaethau Tai ac Adeiladu, Adfywio a Chynllunio, Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. Mewn ymateb i'r heriau hyn, cyflwynwyd amrywiaeth o fentrau cynllunio olyniaeth gan y gwasanaethau perthnasol mewn partneriaeth ag Adnoddau Dynol er mwyn cynyddu gwydnwch gwasanaethau yn y tymor byr i ganolig tra'n gweithio hefyd tuag at ddiogelu sgiliau ein gweithlu i'r dyfodol. Ymgymerwyd â'r rhain ochr yn ochr ag ail-lunio ac ailstrwythuro gwasanaethau yn unol ag agenda newid y Cyngor. Mae'r mentrau hyn hefyd yn cael eu cefnogi gan waith a wneir drwy'r cynllun gwerthuso staff (#Amdanafi), iDev, y fframweithiau cymhwysedd gweithwyr a rheoli, y cynllun cynllunio olyniaeth corfforaethol sy'n prysur esblygu a'r peilot rheoli talent, ynghyd â'r Caffi Dysgu.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi golygu y bu cynnydd sydyn mewn gweithio o bell a allai sicrhau arbedion cost i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r newid cyflym hwn yn golygu y bydd angen ystyried lliniaru **effeithiau'r cynnydd mewn gweithio o bell ar staff y cyngor a lles preswylwyr**, yn enwedig cydbwysedd o ran cydbwysedd bywyd a gwaith.

Ein gweithlu yw ein hased pennaf, i ddechrau yr her fwyaf fu canolbwyntio ar sut y gallwn gadw ein gweithwyr rheng flaen allweddol yn ddiogel tra'n parhau i weithredu ein gwasanaethau hanfodol. Wrth i ni symud o argyfwng tuag at adferiad ac wrth i fwy o'n gweithrediadau ddechrau ailgychwyn, yr her fydd penderfynu sut y gallwn **rheoli'r broses o ddychwelyd staff nad ydyn nhw'n gallu ymgymryd â'u dyletswyddau gartref i'r gweithle yn ddiogel.** Rydym yn rhagweld y bydd llawer o staff yn parhau i weithio o gartref am sawl mis, ond rydym hefyd yn cydnabod bod y profiad wedi bod yn heriol i rai aelodau staff gan eu bod wedi gorfod cydbwyso gofynion gwaith ag addysgu gartref a/neu gyfrifoldebau gofalu eraill. Wrth symud yn ein blaen bydd angen i ni ystyried yr **effaith gymdeithasol mae'r argyfwng hwn wedi'i chael ar ein staff a sut y gallwn barhau i wirio a chysylltu â'n gweithlu, tra'n cefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles**.

## 7.2.2 Y CWSMER

Fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill yn y DU, mae'r Fro yn wynebu **adnoddau cyfyngedig a galw cynyddol am y rhan fwyaf o'i gwasanaethau** a bydd angen iddi ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf effeithlon o weithio tra'n cydymffurfio â gofynion statudol a disgwyliadau cynyddol ei dinasyddion a'i chymunedau. Mewn ymateb i'r heriau hyn, rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid, ein trigolion a'n cymunedau i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r heriau hyn heb beryglu ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn neu a gomisiynwn.

Bydd y pandemig diweddar yn profi sut yr ydym yn gweithredu ein gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol, felly mae'r sefyllfa unigryw hon yn rhoi cyfle inni edrych tuag at ffyrdd newydd o weithio a darparu'r gwasanaethau

sydd bwysicaf i'n dinasyddion. Yr her wrth symud ymlaen yw sut rydym yn **cynnwys ein gweithlu a'n dinasyddion ac ymgysylltu â nhw** wrth lunio'r newidiadau hyn i drawsnewid ein gwasanaethau, fel y byddant yn gynaliadwy yn y dyfodol. Bydd swm y gwaith newid sydd angen ei wneud dim ond yn bosibl gyda help a chymorth ein gweithlu, y dinasyddion a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

---

Mae **ymgysylltu â dinasyddion** yn ymddangos fel un o werthoedd craidd y Cyngor o fewn ei Gynllun Corfforaethol ac rydym yn rhagweithiol wrth annog trigolion a chwsmeriaid i rannu eu barn a'u profiadau o'n gwasanaethau oherwydd ei fod yn hyrwyddo ymgysylltiad, yn rhoi syniad i ni o ran sut rydym yn perfformio o'u safbwynt nhw ac yn gwella ein dull o ddatblygu gwasanaethau yn y Cyngor. Er bod ein Harolwg Barn y Cyhoedd (a gynhelir bob dwy flynedd) diweddaraf yn 2018/19 ac adborth mwy diweddar gan gwsmeriaid drwy ein canolfan cyswllt cwsmeriaid (2019/2020) yn dangos bod trigolion yn fodlon ar y cyfan ar wasanaethau'r Cyngor yn gyffredinol, erys meysydd o anfodlonrwydd y mae angen mynd i'r afael â hwy. Defnyddiwyd canfyddiadau arolygon adborth cwsmeriaid a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn ar draws ein gwasanaethau i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau ar gyfer 2020/21 gyda hyn mewn golwg. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau wedi'u cynllunio i wella cyflwr ffyrdd, palmentydd, diogelwch ar y ffyrdd a pharcio yng nghanol trefi. Yn ogystal, rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth dinasyddion o sefyllfa cyllideb y Cyngor drwy amrywiaeth eang o gyfryngau fel eu bod yn fwy gwybodus am y lefelau sylweddol o arbedion y mae angen i'r Cyngor eu gwneud dros y blynyddoedd nesaf.

---

Oherwydd gofynion deddfwriaethol rhai gwasanaethau mae gennym ddwy weithdrefn ar wahân ar gyfer ymdrin â chwynion yn dibynnu ar a ydynt yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a gofal cymdeithasol i oedolion a'r holl wasanaethau eraill (corfforaethol). Mae gan y gweithdrefnau i gyd ymrwymiad i ganolbwyntio ar yr unigolyn, i fod yn deg ac yn glir, gyda chanlyniadau amserol. Mae gan bob gweithdrefn ei nodweddion a'i safonau ymateb ei hun ac mae'r holl weithdrefnau'n dod dan ymbarél Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn creu pwynt cyfeirio terfynol cyson os bydd person yn parhau'n anhapus ar ôl cwblhau'r broses gwyno.

Er bod cynnydd da yn cael ei wneud yn gorfforaethol gyda'r ffordd rydym yn **rheoli, monitro a dysgu o gwynion,** mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau ein bod yn bodloni ein hamserlenni targed wrth ymdrin â chwynion. Yn 2019/20, ymdriniwyd â 67.6% (380) o'r holl gwynion (dan y weithdrefn gorfforaethol) o fewn amserlenni targed o'i gymharu â 58.3% (238) yn y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, mae angen i ni fynd i'r afael â materion yn gynharach i'w hatal rhag mynd ymlaen i ail gam y broses. Yn ystod y flwyddyn, ymdriniwyd â 6.6% (37) o'r holl gwynion yng ngham 2 y broses gorfforaethol o'i gymharu â 7.1% (29) yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r system dangosfwrdd cwynion sy'n defnyddio Oracle yn galluogi monitro data cwynion corfforaethol o fis i fis gan roi gwybodaeth amser real am sut mae pob gwasanaeth yn rheoli cwynion ar draws y Cyngor ac yn ymateb iddynt. Mae'r monitro hwn yn rhoi cyfle i ni ddeall a oes bwlch rhwng disgwyliadau trigolyn a safon ei wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, er mwyn i'r broses hon weithio'n effeithiol, wrth symud ymlaen, mae angen i wasanaethau ddiweddaru'r dangosfwrdd yn brydlon gan sicrhau bod data cywir yn llywio dysgu.

O ran y gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn, yn gorfforaethol rydym wedi nodi'r angen i ganolbwyntio ar nifer o feysydd sydd, o ran y tair prif flaenoriaeth, yn cynnwys: yr angen i ganolbwyntio ar hyfforddi a datblygu staff a sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o safonau gwasanaeth; adolygu a diwygio'r wybodaeth a'r cyfathrebu a rown i'n cwsmeriaid; a sicrhau bod pob cwyn yn cael ei chofnodi'n gywir ar Oracle er mwyn hwyluso dysgu o gwynion.

Yn ystod 2019/20, codwyd 72 o faterion yn ymwneud â'r **Gwasanaethau Cymdeithasol** gan ddefnyddwyr gwasanaeth a/neu eu gofalwyr/teulu a ddilynwyd gan ymweliad. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y Swyddog Cwynion yn gallu lleddfu pryderon unigolion a'u cyfeirio at wasanaethau eraill lle oedd yn briodol. O ganlyniad i'r ymdrechion rhagweithiol hyn, mae llai o faterion yn troi'n ymholiadau ac yn gwynion. O'r materion a nodwyd yn ystod yr ymweliadau hyn daeth 58 yn ymholiadau a oedd angen ymateb mwy ffurfiol ac aeth 12 ymlaen i fod yn gwynion. O'r 58 o ymholiadau hyn, roedd 22 yn ymwneud â'r Gwasanaethau Oedolion, roedd 30 yn

ymwneud â’r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ac roedd 4 yn ymwneud â’r Is-adran Rheoli Adnoddau a Diogelu.

Hyd at 31 Mawrth 2020, derbyniwyd 56 o gwynion, sy'n is na'r flwyddyn flaenorol lle cafwyd 63 o gwynion. O’r 56 o gwynion hyn, roedd 14 yn ymwneud â’r Gwasanaethau Oedolion, roedd 34 yn ymwneud â’r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ac roedd 4 yn ymwneud â’r Is-adran Rheoli Adnoddau a Diogelu. Yn ystod y cyfnod hwn, cyfeiriwyd 4 cwyn yn ymwneud â'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc at yr Ombwdsmon i ymchwilio iddynt.

Yn ystod y flwyddyn, datryswyd 43% o gwynion y gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr amserlenni dynodedig. Mae cwynion y gwasanaethau cymdeithasol yn dod yn fwyfwy cymhleth ac mae hyn wedi effeithio ar amseroldeb ein hymateb, yn enwedig lle mae angen cyngor cyfreithiol. Er bod ychydig llai na hanner y cwynion wedi'u datrys o fewn amserlenni dynodedig, dylid nodi bod yr achwynwyr, ym mhob achos, wedi cael gwybod am y rheswm dros ymestyn yr amserlenni ac wedi cytuno ar y cyd i estyniad. Er nad yw hyn yn cael ei ystyried yn rhan o'r canllawiau statudol. Rydym yn monitro ein cwynion yn gadarn, ac yn wythnosol mae'r Swyddog Cwynion yn dosbarthu adroddiad i bob Uwch Reolwr i dynnu sylw at unrhyw gwynion posibl y mae angen eu dilyn. Mae hwn wedi bod yn arf uwchgyfeirio effeithiol i atgoffa rheolwyr o bwysigrwydd ymateb i gwynion o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd y rhan fwyaf (11) o’r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2019/20 yn ymwneud ag aelod o staff ac roedd yr ail rif uchaf (9) naill ai am fod yr achwynydd yn anhapus â'r gofal yr oedd wedi'i dderbyn neu ansawdd/lefel y gwasanaeth a oedd ar gael. Roedd y meysydd cwyno eraill yn ymwneud â naill ai taliadau am wasanaethau, cyfathrebu neu bethau eraill.

---

Bydd y pandemig COVID-19 diweddar yn cael effaith ddofn ar y galw am ein gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol. **Bydd cynnal a gwella lefelau gwasanaethau a’u perfformiad tra'n rheoli'r galw am wasanaethau ar adeg pan nad oes digon o adnoddau yn dod yn fwyfwy heriol**. O ganlyniad i'r pandemig rydym yn rhagweld y bydd **mwy o anghydraddoldebau iechyd ac economaidd a mwy o angen am gymorth argyfwng i deuluoedd, mwy o alw am Wasanaethau Iechyd Meddwl yn ogystal â galw cynyddol am ofal a chymorth i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.** Rhagwelwn y bydd effaith COVID-19 yn cael ei theimlo'n anghymesur gan y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

## 7.2.3 ARIANNOL

Mae mesurau cyni parhaus y llywodraeth ganolog wedi creu cyfnod o straen ariannol digynsail yn y sector cyhoeddus. Dros y deng mlynedd diwethaf mae Cyngor Bro Morgannwg wedi bod yn gwneud arbedion sylweddol ar draws y sefydliad, tua £59m. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn rhagamcanu y bydd angen arbed £11 miliwn rhwng 2022/23 a 2022/23. Fodd bynnag, mae'n dod yn fwyfwy heriol pennu cyllideb gytbwys a chynaliadwy o ystyried yr angen i barhau i wneud arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cyllidebol ar adeg pan fo'r **galw am wasanaethau ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor yn cynyddu.** Drwy ei raglen drawsnewid, mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol o ran ymateb i'r heriau sydd

o'i flaen gan ganolbwyntio'n benodol ar wariant cynaliadwy mewn gwasanaethau, cynnal lefel briodol a chynaliadwy o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a manteisio i'r eithaf ar ein hasedau.

Bydd ein sefyllfa ariannol yn dod yn fwy heriol eto o ystyried effeithiau'r pandemig COVID-19 diweddar sy'n dod i'r amlwg. Fel pob awdurdod lleol ar hyd a lled y wlad, mae'r Fro wedi bod ar flaen y gad yn yr ymateb i bandemig y coronafeirws sydd wedi rhoi pwysau aruthrol ar ei gyllid. Fu cefnogi cymunedau a chadw gwasanaethau hanfodol ar waith erioed yn fwy pwysig ond mae hyn wedi arwain at gynnydd uchel yn y galw a gwariant angenrheidiol nas rhagwelwyd i'r Cyngor. Ar yr un pryd, fodd bynnag, rydym yn wynebu gostyngiadau sylweddol ac uniongyrchol mewn incwm sy'n debygol o effeithio ar ein gallu i fodloni cyllideb gytûn 2020/21. Mae'r pecynnau cymorth ariannol brys a roddwyd gan San Steffan a Llywodraeth Cymru i helpu awdurdodau lleol i ymateb wedi'u croesawu. Fodd bynnag, mae'r cymorth hwn yn debygol o fod ar gael am amser byr yn unig, gan gyfrannu o bosibl at **gynnydd sylweddol yn y diffyg ariannol ac effeithio ar wydnwch ariannol y Cyngor.**

---

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor nid yn unig yn seiliedig ar dybiaethau ar gyflwr yr economïau cenedlaethol a lleol dros y tair blynedd nesaf ond mae hefyd yn fynegiant ariannol o bolisïau'r cyngor, wedi'i lywio gan flaenoriaethau lleol. Felly, fel pob Cyngor arall bydd **angen i ni ailwerthuso ein CATC yng ngoleuni'r pandemig.** Bydd hyn yn arbennig o hanfodol os bydd yr economi leol yn mynd i ddirwasgiad. Nid yw'n hawdd lleihau gwariant yn ôl i'r lefelau oedd ar waith cyn yr argyfwng ac nid yw ffrydiau incwm yn dychwelyd yn gyflym. Bydd argyfwng COVID-19 yn para'n hir ac yn bellgyrhaeddol, gan effeithio ar fwy nag un flwyddyn ariannol.

---

Yn rhan o Gynigion y Gyllideb Refeniw Terfynol ar gyfer 2019/20, gosodwyd targed arbedion effeithlonrwydd o £247k ar gyfer y Cyngor, sy'n sylweddol is na'r targedau a osodwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gosodwyd y targed hwn i gydnabod ei bod wedi dod yn fwyfwy anodd i wasanaethau gyflawni arbedion pellach heb leihau'r gwasanaethau a ddarperir ar ôl arbed £59m yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae cynnydd ar **gyflawni ein harbedion ar gyfer 2019/20** wedi cael ei fonitro a'i adrodd i Bwyllgorau perthnasol a'r Cabinet yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae (100%) o'r targed effeithlonrwydd gofynnol wedi'i fwrw.

Ar draws Cyfarwyddiaethau gwasanaeth: cyflawnodd y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau 100% o'i tharged arbedion o £162mil; llwyddodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i arbed £505mil yn erbyn targed o £545mil (93%) o arbedion; mae'r Gyfarwyddiaeth Tai a'r Amgylchedd wedi arbed £560mil (49%) o'r targed arbedion gofynnol o 1.140 miliwn, tangyflawniad o £446mil ac mae gwaith ar y gweill i nodi cynlluniau i gau'r bwlch hwn. Mae Cyfarwyddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr ac Adnoddau wedi arbed £904mil (98%) yn erbyn ei darged arbedion o £921mil ac mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo yn y Gwasanaethau Corfforaethol i nodi arbedion ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg yn ystod 2019/20.

---

Mae pwysau cost sylweddol o hyd ar draws llawer o wasanaethau'r Cyngor, y mae llawer ohonynt yn parhau o flynyddoedd blaenorol, er enghraifft: **cyllidebau lleoliadau Gofal Cymunedol a Phlant o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, y gyllideb hynod gyfnewidiol ar gyfer lleoli disgyblion a'r gyllideb incwm adennill is o fewn Dysgu a Sgiliau.** Yn y meysydd hyn gall nifer fach o gwsmeriaid newydd gael effaith ddramatig ar alldro'r gyllideb, gan effeithio ar yr arbedion a gyflawnir a chyllideb gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gwasanaethau hyn yn parhau i ymdrechu i reoli'r galw cynyddol a'r cynnydd yn nifer y cwsmeriaid, ond mae'r rhain yn dod yn fwyfwy anodd eu gwneud.

Mae'r **pwysau ariannol sydd ar y Cyngor yn debygol o barhau, wedi'u gwaethygu gan y pandemig diweddar** ac, er y byddwn yn parhau i geisio diogelu gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymuned, mae'n fwyfwy anodd lleddfu effaith toriadau i wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar draws gwasanaethau'r Cyngor a chymorth i'r rhai mewn angen drwy ein gwaith wedi'i dargedu. Mae'r rhain yn parhau'n flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor o ran gwireddu ei weledigaeth o gymunedau cryf sydd â dyfodol disglair.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid a'n cymunedau i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r heriau ariannol hyn yn y dyfodol tra'n lliniaru effaith toriadau ar drigolion a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae gallu'r Cyngor i gyflawni ei **Raglen Ail-lunio Gwasanaethau** yn parhau'n her barhaus o ystyried y cyfnod parhaus o lymder a'r galw cynyddol am wasanaethau ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor. Yn ystod 2019/20, trwy ail-lunio projectau mae £2.383 miliwn (79%) yn erbyn targed y flwyddyn o £3.020m wedi'i arbed. Rhoddwyd statws perfformiad coch i'r perfformiad hwn, sy'n dangos canlyniad sy'n is na'r rhagolwg o 100% ar gyfer y flwyddyn. Mae'r perfformiad hwn yn adlewyrchu natur gymhleth ail-lunio projectau ac mae'n bosibl bod amrywiaeth o faterion a risgiau yn effeithio ar y broses o'u cyflawni.

Mae effaith ddigynsail pandemig COVID-19 diweddar ar ddiwedd mis Mawrth 2020, yn cyflwyno **cyfle i'r Cyngor adolygu'n sylfaenol y ffordd y mae'n gweithredu a sicrhau synergedd rhwng ei strategaeth adfer a'r gwaith o drawsnewid y sefydliad yn y tymor hwy**. Bydd hyn yn sicrhau bod y camau a gymerir yn gyson ac wedi'u hintegreiddio yn unol â gweledigaeth y Cyngor o Gymunedau Cryf â Dyfodol Disglair.

Mae **ailbroffilio arian Ewropeaidd a Grantiau** ar gyfer nifer o fentrau'r Cyngor yn parhau i gyflwyno heriau sy'n sylweddol ar gyfer y dyfodol. Mae peidio â gwybod lefel yr arian a hefyd natur tymor byr yr arian presennol yn parhau i greu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd o ran cynllunio gwaith yn y dyfodol a allai yn ei dro effeithio ar gynnal y lefelau uchel o berfformiad a gyflawnwyd hyd yma o ran cyflawni llawer o'r mentrau hyn. Gall rhai o'r ffrydiau ariannu cenedlaethol hyn gael effaith andwyol ar ein gallu i fuddsoddi yn y Fro dros y flwyddyn i ddod.

Mae'r materion hyn yn debygol o gael eu gwaethygu gan effaith pandemig COVID-19, a ddigwyddodd ar adeg dyngedfennol yn y trafodaethau ar y fargen fasnach rhwng y DU ac Ewrop. Gan mai penderfyniad cyfredol y Llywodraeth yw peidio ag estyn y trafodaethau, mae'n debygol y bydd y DU yn gadael heb fargen fasnach. Mae yna **risg, wrth i'n sylw a'n hadnoddau gael eu defnyddio ar gyfer mynd i'r afael ar unwaith â'r blaenoriaethau sy'n deillio o COVID-19, na fydd modd i ni baratoi nac addasu i newidiadau polisi a deddfwriaethol sydd ar ddod o ganlyniad i Brexit.**

Mae gwaith mewn perthynas â gwneud y gorau o gyfleoedd i **gynhyrchu incwm** a **masnacheiddio** yn mynd rhagddo yn rhan o elfen ffrwd waith gorfforaethol y project dan y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Mae cryn dipyn o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r maes hwn sy'n gymharol newydd i'r Cyngor. Mae amrywiaeth o faterion yn cael eu datblygu megis nawdd ar gyfer digwyddiadau, hysbysebu, polisi codi tâl am wybodaeth, a gwneud y defnydd gorau posibl o asedau'r Cyngor. Ochr yn ochr â'r rhain, rydym hefyd yn edrych ar gyfleoedd i werthu gwasanaethau ychwanegol a fydd yn gwella profiadau defnyddwyr y tu hwnt i'r gwasanaethau sylfaenol rydym yn eu cynnig ac wrth wneud hynny greu enillion ariannol sy'n cefnogi cynaliadwyedd ein gwasanaethau cyhoeddus lleol gwerthfawr. Fodd bynnag, mae angen defnyddio dull mesuredig a chytbwys o gynhyrchu incwm ychwanegol tra'n diogelu ein gwasanaethau cyhoeddus lleol a sicrhau y gall pobl barhau i ddefnyddio gwasanaethau mewn ffordd sy'n deg i bawb. Yn ystod y flwyddyn cynhyrchwyd **£92 mil** o incwm ychwanegol drwy amrywiol weithgareddau, ond nid oedd y perfformiad hwn yn bwrw ein targed incwm ychwanegol o £220 mil ar gyfer 2019/20.

Mae pwysigrwydd **caffael** effeithiol erioed wedi bod yn fwy perthnasol o ystyried cyllidebau sy'n lleihau, ac mae hyn yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor wrth symud ymlaen. Yn ogystal, mae gennym ddyletswydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella lles ein dinasyddion drwy ein prosesau caffael. Rydym yn gwneud mwy o ddefnydd o fanylebau safonol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau priodol, gan ddefnyddio partneriaeth a chydweithredu fel ffordd o sicrhau arbedion maint a sicrhau cynaliadwyedd rhai o'n gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddefnyddio'r fframweithiau sydd ar gael i ni drwy fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen meithrin gallu ymhellach ar draws y Cyngor a chyda'n partneriaid i sicrhau dull mwy strategol a masnachol o reoli contractau a chyflenwyr yn effeithiol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu incwm ychwanegol a'r arbedion posibl a allai ddod yn sgil y rhain. Rydym yn ymgorffori dull cyson o ymdrin â phob penderfyniad caffael - drwy gymhwyso'r 5 ffordd o weithio ar

ddechrau'r broses ac ystyried sut y bydd ein gweithgareddau caffael yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddangos tystiolaeth well o sut mae ein gweithgareddau caffael yn ein helpu i gyflawni amcanion lles ein Cynllun Corfforaethol a chyfrannu at y nodau cenedlaethol.

## 7.2.4 ASEDAU

Bydd y costau ariannol posibl sy’n gysylltiedig â **mynd i’r afael ag unrhyw faterion o anghydffurfio mewn perthynas ag asedau adeiladau’r Cyngor yn her, o ystyried cyllidebau sy’n lleihau.** Ystyrir hyn yn rhan o’r broses gosod y gyllideb ar gyfer 2020/21.

---

Mae **angen cyflymu ein camau gweithredu ar yr agenda datgarboneiddio, gan helpu i fwrw targed Cymru o sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030**. Ar 31 Gorffennaf 2019 datganodd y Cyngor argyfwng hinsawdd. Ar hyn o bryd, mae Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor ar gyfer 2018/19 i 2020/21 yn canolbwyntio ar leihau ein hôl troed carbon a sicrhau arbedion drwy gynlluniau fel Re:fit, lleihau galw a gosod ynni adnewyddadwy; uwchraddio goleuadau stryd a chefnffyrdd ymhellach a chynnal a chadw ein systemau gwresogi a thrydanol. Mae angen gwneud mwy o waith i **ehangu ein ffocws i feysydd eraill fel defnydd tir, caffael a thrafnidiaeth**.

## 7.2.5 Y FRO DDIGIDOL

Mae **Strategaeth Ddigidol** y Cyngor yn nodi sut y bydd technoleg yn cefnogi ac yn galluogi'r Cyngor i dyfu a datblygu yn y blynyddoedd i ddod. Her allweddol yn y maes hwn yw cyflymdra datblygiadau technoleg newydd sy'n tynnu sylw at yr angen i roi sylw cyson i'r defnydd busnes o dechnoleg ar draws y Cyngor er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein cyfleoedd i wella effeithlonrwydd a hygyrchedd gwasanaethau i ddinasyddion y Fro. Mae technoleg newydd yn newid anghenion y gweithlu ac yn cyflwyno heriau o ran y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi a defnyddio'r dechnoleg i'r eithaf. Mae'r angen i ddatblygu achosion busnes ariannol cadarn yn her y bydd y Cyngor yn parhau i weithio i ymateb iddi. Bydd ein pwyslais parhaus ar ddull 'un cyngor' drwy'r Strategaeth Ddigidol yn canolbwyntio ar greu profiad didrafferth i ddinasyddion y Fro wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor, datblygu ffyrdd mwy effeithlon o weithio a cheisio lleihau costau yn gyffredinol. Bydd defnyddio mecanweithiau ymgysylltu, megis y sesiynau datblygu rheolwyr, ein fframweithiau cymhwysedd craidd i reolwyr a gweithwyr a'n cynllun arfarnu a datblygu staff, yn allweddol i sicrhau bod gan y sefydliad y sgiliau sydd eu hangen i wneud y defnydd gorau o dechnoleg.

Yn ystod y flwyddyn cafodd tua **£43,000** ei arbed gyda gwaith ar y gweill ar nifer o brojectau yn canolbwyntio ar systemau cwsmeriaid a gweithwyr ac yn gwella swyddogaethau gwefannau ymhellach i annog cwsmeriaid i newid i sianeli digidol gwasanaethau e.e. recriwtio digidol, adrodd am salwch, post hybrid, integreiddio e-ffurflenni i luogi ceisiadau am wasanaethau cwsmeriaid digidol a chyflwyno Office 365. Fodd bynnag, roedd y swm hwn yn llai na’n targed arbedion o £87,000 ar gyfer 2019/20.

---

Mae rhan allweddol o ymateb y Cyngor i'r pandemig COVID-19 diweddar wedi cynnwys newid sylweddol tuag at **fwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol i atal yr haint rhag lledaenu**. Fodd bynnag, gallai hyn waethygu'r rhaniad digidol presennol. O bosibl, bydd hyn yn **rhoi rhai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed nad ydynt efallai'n gallu cael gafael ar wasanaethau ar-lein dan anfantais.** Yn y tymor hwy, mae hyn yn debygol o gyflymu'r duedd ddigido yn barhaol, felly efallai y bydd angen cymorth ychwanegol wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r rhaniad digidol cynyddol. O ystyried y defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol, mae angen hefyd sicrhau gwydnwch ein seilwaith digidol a'n sianelau gwybodaeth i'r cyhoedd.

## 7.2.6 CYDWEITHIO

Bydd cynigion Llywodraeth Cymru sy’n dod i’r amlwg mewn perthynas â **Diwygio Llywodraeth Leol** yn parhau’n faes gweithgarwch allweddol, gan gael effaith ar wasanaethau'r Cyngor yn benodol wrth nodi a

chyflawni gweithgarwch cydweithio a fydd o fudd i'r Cyngor yn yr hirdymor. O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol o adnoddau cyfyngedig, galwadau sy'n cynyddu ar wasanaethau a disgwyliadau cymunedol cymhleth, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu cydweithrediadau a phartneriaethau strategol newydd fel ymateb allweddol i'r heriau hyn.

Er gwaethaf ein dull blaengar o weithio gyda phartneriaid, mae cydweithredu mewn perthynas â **datblygu modelau amgen o ddarparu gwasanaethau ar draws ystod o wasanaethau'r Cyngor yn lleol ac yn rhanbarthol** yn parhau'n her barhaus mewn hinsawdd o adnoddau sy'n lleihau. Yn gysylltiedig â hyn mae anwadalrwydd ffrydiau arian grant Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar ein gallu i ddatblygu, comisiynu a chynnal gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n gwella ein capasiti tra'n parhau i fodloni ein gofynion statudol i ddarparu gwasanaethau craidd. Mae heriau hefyd yn gysylltiedig â datblygu dulliau symlach o gomisiynu gwasanaethau ataliol sy'n fwy cydgysylltiedig ar draws ffiniau sefydliadol yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae ein gallu i gydweithio (gyda phartneriaid allweddol eraill), i ddatblygu a chytuno ar ddulliau o **drefnu craffu ar y cyd** ar gyfer niferoedd cynyddol o drefniadau cydweithredu newydd yn parhau'n her o ystyried y gofynion adnoddau sydd eu hangen i gynnal y rhain. Mae'r Fargen Ddinesig yn enghraifft o gydweithio diweddar lle mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn i sefydlu dulliau craffu ar y cyd.

Mae angen mynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â **Chydweithfa Fabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd.** Mae nifer gynyddol o atgyfeiriadau plant i'w mabwysiadu a'r niferoedd sy'n aros am leoliad ac am wasanaethau cymorth mabwysiadu yn effeithio ar lwyth gwaith a pherfformiad mewn meysydd eraill megis recriwtio ac asesu darpar fabwysiadwyr yn amserol. Mae hyn, ynghyd â'r gostyngiad mewn ymholiadau gan ddarpar fabwysiadwyr, yn effeithio ar ein gallu i recriwtio. Felly, mae recriwtio mabwysiadwyr yn parhau'n flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2019/20. Mae bodloni'r galw ar draws ystod swyddogaethau'r VVC hefyd yn parhau'n her barhaus. Bydd canfyddiadau ac argymhellion o adolygiad o'r gwasanaeth yn ein helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn wrth symud ymlaen.

## 7.3 COFRESTR O RISGIAU CORFFORAETHOL: DATGANIAD CRYNHOI SEFYLLFA DDIWEDD Y FLWYDDYN: 2019/2020

**Trosolwg:**
Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 15 o risgiau corfforaethol ar y Gofrestr a oedd yn cynnwys CR15 a ychwanegwyd yn ddiweddar: Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Statws Risg:**
Sgoriodd 5 risg yn rhai canolig/uchel, sgoriodd 9 risg yn rhai canolig a sgoriodd 1 risg yn un ganolig/isel. Mae'r risg Anghenion Dysgu Ychwanegol a ychwanegwyd yn ddiweddar wedi arwain at statws risg canolig/uchel (9) ar y Gofrestr. Mae'r statws risg hwn wedi'i lywio'n bennaf gan ffactorau allweddol, sy'n ymwneud â'r twf

demograffig yn y galw a chymhlethdod anghenion plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, sydd yn ei dro yn effeithio ar ein gallu a'n hyfywedd ariannol i fodloni'r anghenion cynyddol hyn. Mae'r heriau hyn wedi'u dwysáu ymhellach gan effaith y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau newydd sy'n deillio o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru).

**Trywydd:**
Mae'r rhan fwyaf o'r risgiau ar y Gofrestr wedi aros yn sefydlog ac eithrio Diogelwch Gwybodaeth, sydd wedi cynyddu o safle canolig (6) ar y Gofrestr i statws canolig/uchel (9). Mae'r bygythiad o seiber-ymosodiadau a'u heffaith bosibl wedi cynyddu'n sylweddol dros y 12-18 mis diwethaf ac er bod gan y Cyngor reolaethau ar waith i fynd i'r afael â bygythiadau seiber, mae angen i'r rhain barhau i fod yn berthnasol i fygythiadau allanol sy'n newid. O ganlyniad, mae angen adolygu ein rheolaethau yng ngoleuni hyn. Yn ogystal, wrth gyflwyno 365 mae gennym bellach nifer o feysydd bygythiad y mae angen mynd i'r afael â hwy gan fod y manteision hefyd yn dod â risgiau llywodraethu a pheryglon ychwanegol o'r rhyngrwyd. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad pellach mewn systemau Diogelu Bygythiadau Uwch i gryfhau ein rheolaethau cyfredol. Er enghraifft, rydym yn gweld cynnydd mawr mewn ymdrechion i dorri i mewn i gyfrifon '365 defnyddwyr y Fro' o bob rhan o'r byd ac ymdrechion soffistigedig, wedi'u targedu i dwyllo defnyddwyr i agor atodiadau heintiedig mewn e-byst neu dudalennau gwe sy'n cynnwys meddalwedd wystlo neu feddalwedd faleisus arall. O ganlyniad, mae'r risg weddilliol wedi newid dros dro o risg ganolig i risg ganolig/uchel.

**Trywydd a Ragwelir:**
Ar ddiwedd y flwyddyn, nid yw'r trywydd a ragwelir ar gyfer risgiau ar y Gofrestr wedi newid yn fawr, ac eithrio risgiau cynaliadwyedd amgylcheddol a diwygio lles y rhagwelir y byddant yn gwaethygu dros amser. Rhagwelir y bydd y risg cynaliadwyedd amgylcheddol yn cynyddu mewn ymateb i'r pryderon cynyddol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd i adlewyrchu penderfyniad y Cyngor i ddatgan argyfwng yn yr hinsawdd. Rhagwelir hefyd y bydd y risg diwygio lles yn cynyddu dros amser o ganlyniad i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag effaith ariannol a chymdeithasol y newidiadau. Rhagwelir y bydd y risg Diogelwch Gwybodaeth dros y 6 mis nesaf yn lleihau wrth i ni geisio cryfhau ein rheolaethau ac atgyfnerthu polisi gyda staff wedi'u hategu gan reolaethau technegol pellach ac nid polisi papur yn unig.

**Meysydd risgiau sy'n dod i'r amlwg:**

**COVID-19 (Y Coronafeirws)**
Ddiwedd mis Mawrth 2020, daeth yn amlwg yn gyflym fod pandemig COVID-19 yn prysur ddod yn argyfwng iechyd y cyhoedd byd-eang sylweddol. Mae'r cyfyngiadau a osodwyd o ganlyniad i'r argyfwng wedi amharu ar bron bob agwedd ar ein bywydau bob dydd ar raddfa nad yw erioed wedi'i gweld o'r blaen. Mae maint COVID-19 a'i effaith ar yr economi, iechyd, gofal cymdeithasol, diogelwch cymunedol, y celfyddydau, diwylliant, chwaraeon ac addysg wedi dod yn faes sy'n peri pryder yn gyflym. Mae angen gwerthuso a diffinio'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID sy'n berthnasol i'r Cyngor, sy'n ystyried agweddau uniongyrchol a thymor canolig i dymor hwy ar y risg. Mae natur drawsbynciol COVID fel risg yn debygol o effeithio ar yr holl risgiau corfforaethol sydd yn y Gofrestr. Felly, bydd angen adolygu'r holl risgiau a geir yn y Gofrestr yn y cyd-destun hwn i adlewyrchu'r effaith bosibl y gallai COVID-19 ei chael ar sut rydym yn ailddiffinio ac yn disgrifio'r risgiau hynny a hefyd unrhyw effaith bosibl y gallai'r pandemig ei chael ar eu statws risg cyffredinol ar y Gofrestr Risg.
**Brexit**
Mae Brexit yn parhau'n faes risg sy'n dod i'r amlwg ar y Gorwel. Dechreuodd pandemig y Coronafeirws ar adeg pan oedd y DU yn dal i drafod gyda'r Undeb Ewropeaidd gytundeb masnach Brexit posibl. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am estyniad ar gyfer y trafodaethau masnach gydag Ewrop sydd i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020. Mae ansicrwydd a goblygiadau Brexit yn parhau i beri pryder, yn enwedig yng ngoleuni COVID-19. Wrth i'n sylw a'n hadnoddau gael eu defnyddio ar gyfer mynd i'r afael ar unwaith â'r blaenoriaethau sy'n deillio o COVID-19, mae siawns y gallai hyn effeithio ar ein gallu i baratoi ac addasu i newidiadau polisi a deddfwriaethol sydd ar ddod o ganlyniad i Brexit. O ystyried anwadalrwydd y sefyllfa, mae gan COVID-19 y potensial i waethygu ymhellach y risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit.

O ystyried yr agweddau risg sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i COVID-19 ac agosrwydd dyddiad dod i ben y trafodaethau masnach ym mis Rhagfyr, rhagwelir y bydd Brexit yn parhau i gynnal ei safle canolig/uchel ar y Gofrestr, gan adlewyrchu'r pwyntiau pwysau hyn. Wrth symud ymlaen, bydd angen adolygu ein camau lliniaru sy'n gysylltiedig â Brexit ochr yn ochr ag effaith y pandemig a'n hadferiad ohono.

**Newid Deddfwriaethol a Diwygio Llywodraeth Leol**
Mae'r tirlun deddfwriaethol a pholisi mewn perthynas â'r risg hon yn symud yn raddol. O ganlyniad i'r pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi atal gwaith craffu Cam 2 ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (y Bil). Rhagwelir y bydd y gwaith craffu ar y Bil yn ailddechrau ym mis Hydref 2020. Mae dau ddewis yn cael eu hystyried, 1 - cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd ar gyfer Ebrill 2021 neu 2 - oedi'r broses o'i rhoi ar waith hyd at fis Ebrill 2021. Mae CLlLC wedi argymell dewis 2.

Pan fydd craffu ar y Bil yn ailddechrau, a'n bod yn deall yn well yr amserlenni ar gyfer gweithredu, mae'n debygol y gwelwn fwy o risgiau sy'n gysylltiedig â'r Bil. Yn y cyfamser, bydd angen i'r Cyngor gynnal briff gwylio ar y maes hwn sy'n datblygu a sicrhau bod y Cyngor yn olrhain penderfyniadau wrth iddo fynd drwy ei gamau craffu terfynol. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn baratoi'n effeithiol ar gyfer ei weithredu ac ymateb fel sy’n briodol i unrhyw ddatblygiadau newydd.

## 7.4 YR HYN A DDYWEDODD EIN HARCHWILWYR AMDANOM

Yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae angen i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio adroddiad blynyddol ar gynghorau Cymru a chyrff cyhoeddus eraill gyda'r teitl, yr 'Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB)', sy'n crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod 2019-2020. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd canfyddiadau allweddol yr holl waith archwilio a wnaed yn y Cyngor yn ystod 2019-20 gan gynnwys canfyddiadau cyrff arolygu a rheoleiddio eraill fel Estyn (arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer ysgolion yng Nghymru) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).

Eleni, cyhoeddir Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor yn hwyrach nag arfer, yn hydref 2020. Mae'r dull hwn yn gyson â'r hyblygrwydd a gynigir drwy drefniadau llywodraethu brys gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Mae hyn wedi galluogi i derfynau amser statudol gael eu llacio mewn rhai meysydd er mwyn gallu dargyfeirio adnoddau gwasanaeth cyhoeddus sydd dan bwysau difrifol i feysydd blaenoriaeth ar adeg argyfwng cenedlaethol.

Er nad yw ein rheoleiddwyr wedi cyflawni’r holl waith archwilio ar y safle, rydym wedi parhau i weithio o bell gyda'n cydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru i gwblhau nifer o ddarnau o waith o raglen waith archwilio 2019/20 y Cyngor. Yn ogystal, mae gwaith wedi parhau i ail-lunio neu ohirio gwaith archwilio a gynlluniwyd yn flaenorol ar gyfer 2020/21 wrth i flaenoriaethau newydd ddod i'r amlwg oherwydd effaith pandemig y coronafeirws. Yn ystod y cyfnod hwn, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi canolbwyntio ar gefnogi cyrff cyhoeddus i wella eu hymatebion sy'n datblygu i COVID-19 drwy gasglu arferion newydd ac arferion eraill wrth iddynt ddod i'r amlwg, gan eu dadansoddi'n gyflym i dynnu sylw at bwyntiau dysgu perthnasol a rhannu'r mewnwelediad dilynol yn gyflym gyda chydweithwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i wneud cynnydd ar y Cynigion Gwella presennol a nodwyd mewn adroddiadau blynyddoedd blaenorol. Mae traciwr Cipolwg y Cyngor yn ymgorffori ein holl gynigion rheoleiddio ar gyfer gwella yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd gan y Cyngor a monitrir hyn bob mis gan Fwrdd Cipolwg a bob hanner blwyddyn gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet.

### 7.4.1 TRACIWR CIPOLWG

Caiff cynnydd o ran ein meysydd gwella ei fonitro trwy’r Bwrdd Cipolwg bob mis a’i adrodd i’r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae Traciwr Gweithrediadau Bwrdd Cipolwg y Cyngor yn ymgorffori ein holl gynigion rheoleiddio ar gyfer gwella yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd gan y Cyngor. Adroddir ar gynnydd yn

erbyn ein cynigion rheoleiddio i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet. Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd cadarnhaol yn ystod y flwyddyn wrth ymateb i'n meysydd gwella gyda 5 o'r 35 o gamau gweithredu ar y traciwr wedi'u cwblhau ym mis Mawrth 2020. Mae 24 o gamau gweithredu ar y traciwr yn ymwneud â chynigion rheoleiddio lleol y cwblhawyd un ohonynt ac mae gwaith ar y trywydd iawn i gwblhau 23 ohonynt.

Mae 11 cam gweithredu arall yn ymwneud â chynigion rheoleiddio cenedlaethol ar gyfer gwella a nodwyd gan ein rheoleiddwyr ac mewn perthynas â'r rhain, mae 4 wedi'u cwblhau (gweler isod). Gellir gweld cynnydd yn erbyn ein traciwr Cipolwg (cynigion rheoleiddio) ym mis Mawrth 2020 yn valeofgamorgan.gov.uk.

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| **Cynigion Rheoleiddio Cenedlaethol** | | | |
| NR14 | Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru | **A1** Er mwyn gwella'r ymwneud â rhanddeiliaid a pherchnogaeth o benderfyniadau, rydym yn argymell bod Awdurdodau Cynllunio Lleol( ACLlau) yn:<br>• profi arferion ymgysylltu a chynnwys cyfredol ac ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas at y diben.<br>• defnyddio 'Cynlluniau Lleoedd' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau cynllunio a phrosesau gwneud penderfyniadau.<br>• gwella tryloywder ac atebolrwydd drwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar adegau priodol, gan gylchdroi cyfarfodydd i'w cynnal mewn meysydd sy'n destun datblygiad arfaethedig, cyfarfodydd gwe-ddarlledu a rhoi cyfleoedd i randdeiliaid siarad yng nghyfarfodydd pwyllgorau. | Mae'r ACLl wedi bod yn gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned (CTCh) i ddatblygu Siarter ddiwygiedig i wella ymgysylltiad. Mae arolwg POSW blynyddol yn gwahodd adborth gan gynrychiolwyr CTCh. Bydd arferion ymgysylltu a chynnwys wrth baratoi CDLl yn cael eu hailystyried yn yr Adolygiad o'r Cynllun. Mae'r Cygnor yn bwriadu cynnal gweithdy hyfforddi i CTCh ar Gynlluniau Lleoedd. Bydd y Cyngor yn ystyried mabwysiadu unrhyw Gynlluniau Lleoedd sy'n cyd-fynd â'r CDLl a'r canllawiau perthnasol fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Ni fyddai'n briodol cynnal cyfarfodydd mewn lleoliadau amgen bob tro gan y byddai hyn yn rhwystro gallu'r Cyngor i we-ddarlledu cyfarfodydd a gallai arwain at broblemau'n ymwneud â gallu'r cyhoedd i wylio a bod yn bresennol. Mae'r Cyngor eisoes yn cynnal cyfarfodydd am 4pm, sy'n cael ei ystyried yn amser priodol, yn gwe-ddarlledu cyfarfodydd ac yn caniatáu siarad cyhoeddus. |
| NR15 | Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru | **A2** Mae awdurdodau cynllunio lleol wedi bod yn destun gostyngiadau ariannol sylweddol ac yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Er mwyn gwella gwydnwch, rydym yn argymell y dylai awdurdodau cynllunio lleol:<br>• adolygu eu cyfundrefnau ffioedd rheoli adeiladu er mwyn sicrhau bod lefelau a bennir yn adlewyrchu'n well gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn a gwneud y gwasanaeth yn un sy'n ariannu ei hun. | Mae ffioedd Rheoli Adeiladu'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn ariannu ei hun gymaint â phosibl ac mae hyn wedi digwydd ers blynyddoedd lawer. Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio'n rhanbarthol i wella capasiti / gwydnwch e.e. mae Gwasanaeth Mwynau De Cymru (Sir Gaerfyrddin), Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG) yn cydweithio ar brojectau allweddol, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer Model Hyfywedd de Cymru a rennir, rhannu'r broses o gaffael cronfa ddata CDLlau, |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| | | • gwella capasiti drwy weithio'n rhanbarthol i integreiddio gwasanaethau i fynd i'r afael â bylchau arbenigedd, datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd a datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol yn rhanbarthol ac mewn partneriaeth ag awdurdodau cynllunio lleol eraill. | Cynllun Datblygu Strategol (CDLl) ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. |
| NR16 | Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru | **A4** bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio drwy:<br>• adolygu eu cynllun dirprwyo er mwyn sicrhau bod pwyllgorau cynllunio yn canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod.<br>• diwygio templedi adrodd i sicrhau eu bod yn glir ac yn ddiamwys i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a lleihau lefel argymhellion swyddogion sy'n cael eu dileu.<br>• gorfodi safonau ymddygiad yr awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyfarfodydd. | Mae cynllun dirprwyo'r Cyngor eisoes yn golygu bod dros 90% o geisiadau'n cael eu penderfynu dan bwerau dirprwyedig ac mae agendâu'r Pwyllgorau yn canolbwyntio ar geisiadau mawr allweddol neu gynlluniau dadleuol lleol a elwir i mewn gan yr Aelodau. Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor gyfradd isel o ddileu argymhellion swyddogion i bwyllgorau cynllunio (0-5%) ac mae adroddiadau wedi'u strwythuro ac yn cael eu cyflwyno'n glir yng nghyfarfodydd Pwyllgorau. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn sicrhau bod y cod ymddygiad yn cael ei ddilyn a'i fod yn cael ei gefnogi gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, y Gwasanaethau Democrataidd a’r Prif Swyddogion Cynllunio. |
| NR17 | Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru | **A5** Mae'r adroddiad yn nodi rôl ganolog cynllunio er mwyn cyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn argymell bod yr awdurdodau cynllunio lleol yn:<br>• gosod gweledigaeth uchelgeisiol glir sy'n dangos sut mae cynllunio'n cyfrannu at y gwaith o wella lles.<br>• rhoi hyfforddiant a chymorth lles rheolaidd a phriodol i aelodau'r pwyllgorau cynllunio er mwyn eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau ehangach.<br>• gosod mesurau priodol ar gyfer derbyn y system gynllunio ac effaith eu penderfyniadau cynllunio ar les.<br>• cyhoeddi'r mesurau perfformiad hyn yn flynyddol i farnu effaith awdurdodau cynllunio ar les. | Nodir gweledigaeth yr ACLl yn y CDLl ac mae'n dangos sut mae'n cyfrannu at y gwaith o wella lles. Mae swyddogion yn dilyn hyfforddiant rheolaidd gan bwyllgorau cynllunio ac yn bwriadu dilyn hyfforddiant lles pellach yn 2020-21. Mae gan y Cyngor ddangosyddion perfformiad clir a nodir yn y Cynllun Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio a Chynllun y Tîm Rheoli Datblygu. Mae'r ACLl yn cyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol o ran perfformiad Rheoli Datblygu a’i Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLl, bob mis Hydref yn dangos ei berfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â lles. |
| **Cynigion Rheoleiddio Lleol** | | | |
| LR3 | Adolygiad Safon | **P2** Dylai'r Cyngor weithio gyda thenantiaid i adolygu ei ddull o | Cynhaliwyd Arolwg Cyflwr Tai Cymru ar draws pob deiliadaeth ym mhob |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| | Ansawdd Tai Cymru gan gynnwys tenantiaid tai'r Cyngor | gynorthwyo pobl sy'n cael problemau gyda chyddwysiad a lleithder. | awdurdod lleol ac roedd yn cynnwys arolygiadau unigol o safleoedd gan syrfëwr cymwysedig. O fewn y Fro, ni nodwyd bod unrhyw eiddo sy'n profi lleithder sy'n niweidiol i iechyd nad yw'n cefnogi canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, ymchwilir i bob adroddiad o leithder a chymerir camau adferol priodol. |
| LR20 | Adolygiad dilynol o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant | **P1** Cryfhau'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn y ffyrdd canlynol:<br>• Egluro rolau a chyfrifoldebau diogelu'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Hamdden a'r Hyrwyddwr Rheoli Aelod;<br>• Nodi rôl craffu yn nhrefniadau diogelu'r Cyngor;<br>• Darparu gwybodaeth am bynciau sydd â goblygiadau diogelu megis caethwasiaeth fodern, masnachu pobl, camfanteisio'n rhywiol ar blant, gwrthderfysgaeth a'r risg o radicaleiddio, Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a hunan-niwedio. | Caiff penodiadau allweddol o fewn Arweinyddiaeth Gorfforaethol eu dosbarthu i staff a'u cysylltu â'u cyfrifoldebau diogelu o fewn eu rôl a chaiff gwedudalen y Grŵp Diogelu Corfforaethol ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd. Mae rolau diogelu Corfforaethol a Chyfarwyddiaethol yn cael eu hysbysu a'u deall trwy daenu gwybodaeth i bob cyflogai a gwirfoddolwr a chânt eu diweddaru yn ôl y gofyn. Hefyd, mae gwedudalennau SCH yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae gwybodaeth am rolau arwain a diogelu corfforaethol yn cael ei rhannu ar yr Hyb Diogelu o fewn StaffNet ac yn y Cylchlythyr Diogelu Chwemisol. Mae'r Hyb Diogelu yn cynnwys aelodaeth o'r Grŵp Diogelu Corfforaethol a meysydd eu cyfrifoldeb. Mae adroddiad cabinet chwemisol am weithgarwch y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn cyfeirio at aelodaeth/newidiadau i aelodaeth y Grŵp Diogelu Corfforaethol. Y Cabinet/Aelod Arweiniol sy'n cymryd cyfrifoldeb am sicrhau craffu a sicrwydd ynghylch Trefniadau Diogelu Corfforaethol ac mae'r Polisi Grŵp Diogelu Corfforaethol yn adlewyrchu rôl craffu wrth graffu ar ddiogelu. Hysbysu staff o bynciau allweddol trwy gylchlythyr; hyfforddiant; wythnos ddiogelu genedlaethol. |
| LR21 | Adolygiad dilynol o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant | **P2** Dylai'r Cyngor gryfhau ei ddarpariaethau cytundebol yn ymwneud â gofynion hyfforddiant diogelu trydydd partïon i gynnwys:<br>• nodi bod hyfforddiant diogelu yn orfodol lle bo hynny'n berthnasol; a<br>• diwygio ei brif ffurflen wirio ymgeiswyr asiantaeth fel nad yw'n | Mae'r strategaeth hyfforddiant diogelu yn cael ei chyfleu a'i thaenu'n gorfforaethol ac i wirfoddolwyr a chontractwyr, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ofynnol ac amlder hyfforddiant diogelu. Caiff cydymffurfiaeth ei dadansoddi a'i hadrodd bob chwe mis ac yn flynyddol |

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| | | nodi bod hyfforddiant diogelu ond yn orfodol i Weithwyr Nos Gofal Cymdeithasol yn unig. | i'r cabinet a'r pwyllgorau craffu. Hefyd mae eitem agenda sefydlog i'w hystyried yn y Grŵp Diogelu Corfforaethol. |
| LR22 | Adolygiad dilynol o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant | **P3** Dylai'r Cyngor wella ei ddull o gynnal hyfforddiant diogelu yn y ffyrdd canlynol:<br>• Cymryd camau i gyflymu'r broses o gwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015:<br>• Egluro pryd mae angen gloywi hyfforddiant diogelu gorfodol;<br>• Cyflymu'r gyfradd gydymffurfio â chwblhau ei hyfforddiant diogelu gorfodol;<br>• Ystyried ffyrdd y gallai ehangu ei gynnig hyfforddiant diogelu, er enghraifft i yrwyr tacsis ac i'r rhai sy'n gweithio yn economi'r nos. | Mae'r rhaglen hyfforddi wedi'i hadolygu ac mae cydymffurfiaeth yn ôl disgwyliadau wedi'i monitro. O ganlyniad, gwnaed newidiadau i'r rhaglen i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant sy'n briodol i'w rolau. Adolygwyd cydymffurfiaeth pob Cyfarwyddiaeth o ran cwblhau'r e-fodiwl Diogelu. Mae'r e-fodiwl Diogelu ar gyfer y broses gyflwyno i gyflogeion newydd ar waith, yn ogystal â'r elfen loywi ar gyfer staff presennol. Mae trefniadau ar waith ar gyfer y rhai na allant gael mynediad i'r e-fodiwl gyda nifer o ddulliau dysgu i ymgysylltu â'r garfan hon o gyflogeion. Adroddwyd am gydymffurfiaeth â cham 1 hyfforddiant VAWDASV i'r CSH ac mae cam dau yn parhau. Mae matrics hyfforddiant yn ystyried newidiadau sefydliadol deddfwriaethol sy'n llywio'r rhaglen hyfforddi orfodol gorfforaethol. Ehangu'r hyfforddiant diogelu a gynigir trwy gefnogi hyfforddiant diogelu lefel 1 i'r rhai sy'n ceisio trwyddedau. |
| LR23 | Adolygiad dilynol o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant | P4 - Dylai'r Cyngor ystyried cyflwyno mesurau perfformiad ychwanegol (er enghraifft, ynghylch cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu) i wella'r adroddiad diogelu blynyddol a chynorthwyo gyda thryloywder. | Datblygwyd cyfres o ddata sy'n cael ei hadolygu trwy y Grŵp Diogelu Corfforaethol a swyddogion arweiniol y gyfarwyddiaeth â chyfrifoldeb ganddynt dros gyflwyno'r data hwn. Caiff data ei ddadansoddi a'i adrodd bob chwarter ac yn flynyddol ac mae'n llywio'r broses o hysbysu diweddariadau aelodau i'r pwyllgorau craffu a'r cabinet. |
| LR24 | Adolygiad dilynol o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant | P5 - Dylai'r Cyngor ddatblygu system ganolog ar gyfer cofnodi a monitro gwybodaeth am wirfoddolwyr, gan gynnwys unrhyw gofnodion hyfforddi a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gwirfoddolwyr. | Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo gyda'r data yn llywio monitro cydymffurfiaeth ac yn cael ei adlewyrchu wrth adrodd. |

## 7.4.2 BARN Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL AR Y CYNGOR: LLYWODRAETHU, RHEOLI RISG A RHEOLAETH FEWNOL

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol gyhoeddi Adroddiad Blynyddol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r adroddiadyn:

- Cynnwys barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor;
- Cyflwyno crynodeb o'r gwaith archwilio a wnaed;
- Tynnu sylw at unrhyw broblemau a allai effeithio ar lefel y sicrwydd a roddir;
- Rhoi crynodeb o berfformiad y gwasanaeth;
- Sylwi ar gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 62 o adolygiadau gyda barn archwilio a gwnaed 228 o argymhellion canolig ac uchel. O'r adolygiadau hyn, rhoddwyd barn archwilio o sicrwydd sylweddol i 14% (9), sicrwydd rhesymol i 65% (40) a sicrwydd cyfyngedig i 21% (13). Mae'r gwaith o weithredu'r holl argymhellion archwilio yn cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau gofynnol yn cael eu gwneud.

O'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 ac o ystyried ffynonellau sicrwydd eraill, barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer 2019-20 yw **sicrwydd rhesymol**. Ni nodwyd unrhyw broblemau rheoli trawsgysylltiol sylweddol a fyddai'n effeithio ar amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor ac mae'r gwendidau a nodwyd yn benodol i wasanaethau.

Ychydig o effaith a gafodd yr achosion o COVID-19 ar y gwaith o gyflawni'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2019/20 gan fod profion perthnasol ymhobman, heblaw am 4 adolygiad, wedi'u cwblhau cyn i'r cyfnod cloi ddod i rym gan alluogi adroddiadau terfynol i gael eu cyhoeddi. O'r 4, roedd un adolygiad wedi'i ddechrau a'i gario ymlaen i 2020/21 ac ystyrir cynnwys y tri arall yng nghynllun 2020/21. Gwellodd perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r flwyddyn flaenorol o'i gymharu'n genedlaethol (Meincnodi Grŵp Prif Archwilwyr Cymru) â 94% o'r archwiliadau wedi'u cynllunio a gwblhawyd o'i gymharu ag 85% ledled Cymru.

Wrth gyflwyno'r farn archwilio flynyddol hon, dylid nodi na all sicrwydd byth fod yn absoliwt. Y mwyaf y gall archwilio mewnol ei roi yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr mewn prosesau rheoli risg, llywodraethu a rheoli yn seiliedig ar y materion a ddaeth i'n sylw yn ystod gwaith archwilio mewnol ym mlwyddyn ariannol 2019/20 ac nad ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod eu hangen.

Derbyniodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol asesiad allanol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn 2017 a disgwylir un arall yn 2022. Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio a fyddai'n effeithio ar gwmpas na gweithrediad cyffredinol gweithgarwch Archwilio Mewnol a nododd yr asesiad nad oedd unrhyw wyriadau sylweddol o'r Safonau. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi digwydd o ran yr arferion gwaith ers sefydlu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ym mis Ebrill 2019. O ganlyniad, mae'r Gwasanaeth
yn parhau i gydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2019/20.

## 7.4.3. **ADOLYGIAD 2020 COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Ym mis Mai 2020 cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi yn ystod ei phedair blynedd yn ei swydd ac mae'r adroddiad yn asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Ddeddf ac mae'n nodi amrywiaeth o gyngor ac argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus.

Nodir nifer o feysydd o gynnydd cadarnhaol ar draws cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus ynghylch arloesi, integreiddio a chydweithredu er bod yr angen i gymhwyso'r Ddeddf o ran beth a sut rydym yn gwneud pethau yn cael ei bwysleisio. Mae hyn yn rhywbeth y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arno wrth iddo adolygu'r argymhellion a sut y maent yn berthnasol i'n gwaith.

Yn yr adroddiad, tynnir sylw at waith Bro Morgannwg, sy'n cynnwys cynnal gweithgareddau dinasyddiaeth ddiwylliannol nad ydynt mewn ystafell ddosbarth gan ddefnyddio adnoddau'r oriel a llyfrgelloedd i ymgyfarwyddo teuluoedd sy'n ffoaduriaid o Syria â'u cartref newydd a rhaglen o godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth a masnachu mewn pobl. Mae'r Comisiynydd hefyd yn cydnabod bod gwaith yn cael ei wneud ar ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol gyda phwyslais arbennig ar blant a phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig a datblygu cyfleoedd drwy chwaraeon, diwylliant a'r amgylchedd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer fawr o argymhellion sy'n ymwneud â chynnydd cyffredinol yng Nghymru, pob un o'r nodau lles a meysydd ffocws y Comisiynydd sef tai, cynllunio, trafnidiaeth, Profiadau Plentyndod Niweidiol, sgiliau, ffyrdd gwell o gadw pobl yn iach a datgarboneiddio.

Mae Cynllun Corfforaethol 2020-25 yn cynnwys amrywiaeth o ymrwymiadau yn unol â meysydd blaenoriaeth y Comisiynydd a hefyd yn manylu ar sut rydym yn cyfrannu at y nodau. Yn ogystal, mae dull Cipolwg y Cyngor yn adlewyrchu'r angen i edrych ar y meysydd newid corfforaethol (h.y. cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, risg, perfformiad, caffael ac asedau) mewn ffordd integredig.

Yr argymhellion yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ynghyd ag adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol - 'Felly, beth sy'n wahanol?' Bydd canfyddiadau Prif Archwiliadau Datblygu Cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd hefyd ym mis Mai 2020 yn helpu i lywio gwaith ar draws pob rhan o'r Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan gynnwys gwaith ar adfer a newid yn yr hinsawdd. Caiff yr argymhellion eu hystyried gan y Bwrdd Cipolwg hefyd a byddant yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r Cynlluniau Gwasanaeth.